



Law Commission
Reforming the law
Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru Papur Ymgynghori





**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Comisiwn y Gyfraith

Papur Ymgynghori 255

Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru Papur Ymgynghori

9 Mehefin 2020



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad yma'n drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 (oni bai lle nodwyd i'r gwrthwyneb). I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle bo deunydd sydd dan hawlfraint trydydd parti wedi ei ddynodi, fe fydd angen cael caniatad y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.lawcom.gov.uk/project/rheoleiddio-diogelwch-tomenni-glo-ing-nghymru/>

COMISIWN Y GYFRAITH - EIN HYMGYNGHORIAD

Comisiwn y Gyfraith: Cafodd Comisiwn y Gyfraith ei sefydlu dan adran 1 Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 gyda'r bwriad o hybu diwygio'r gyfraith. Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green (y Cadeirydd), yr Athro Sarah Green, yr Athro Nicholas Hopkins, yr Athro Penney Lewis a Nicholas Paines CF ydy Comisiynwyr y Gyfraith. Phillip Golding yw'r Prif Weithredwr.

Testun yr ymgynghoriad hwn: Mae'r papur ymgynghori yma yn gwerthuso'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â diogelwch tomennydd glo yng Nghymru ac yn ystyried opsiynau ar gyfer deddfwriaeth newydd i sicrhau system reoleiddio gadarn, integredig ac ystyriol o'r dyfodol sy'n mabwysiadu dull unffurf ar gyfer arolygiad, cynhaliaeth a chadw cofnodion trwy gydol cylch bywyd pob tomen glo o greu i adawiad i waith adfer.

Mae'n gwneud nifer o gynigion dros dro ac yn gofyn a ydy ymgynghoreion yn cytuno. Mae hefyd yn ceisio barn am gwestiynau mwy agored.

Cwmpas daearyddol: Mae'r ymgynghoriad yma'n gymwys i gyfraith Cymru a Lloegr.

Hyd yr ymgynghoriad: Byddwn yn croesawu ymatebion rhwng 9 Mehefin 2021 a 10 Medi 2021.

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad trwy cyflwyno ffurflen ar-lein, sydd ar gael yn: <https://www.lawcom.gov.uk/project/rheoleiddio-diogelwch-tomenni-glo-ing-nghymru/>. Lle bo'n bosib gwneud hynny, mi fyddwn yn ddiolchgar pe byddech yn defnyddio'r ffurflen yma.

Fel arall, gellir gyrru unrhyw sylwadau:

Trwy e-bost at CoalTips@lawcommission.gov.uk

NEU

Trwy'r post at The Regulating Coal Tip Safety in Wales Team, Law Commission, 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Os ydych am yrru eich sylwadau trwy'r post, carem pe byddech yn gallu eu gyrru, os yn bosib, ar e-bost hefyd.

Argaeledd y deunydd: Mae'r Papur Ymgynghori hwn ar gael ar ein gwefan yn <https://www.lawcom.gov.uk/tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru/>

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i ddarparu ein cyhoeddiadau mewn ffurf hygyrch. Fe fydd fersiwn hawdd ei ddeall ar gael ar ein gwefan yn fuan. Os yr ydych am gael y papur hwn mewn fformat arall, e-bostiwch CoalTips@lawcommission.gov.uk neu galwch 020 3334 0200 os gwelwch yn dda.

Wedi'r ymgynghoriad: Fe fyddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a fydd yn ei dro yn llywio ein barn wrth greu cynigion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ffurf adroddiad.

Egwyddorion Ymgynghori: Mae Comisiwn y Gyfraith yn dilyn yr Egwyddorion Ymgynghori a amlinellir yn y ddogfen a grëwyd gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n gosod canllawiau ar y math a'r arddull o ymgynghoriadau, hyd, amseru, hygyrchedd a thryloywder. Mae'r Egwyddorion ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Gwybodaeth a roddir i Gomisiwn y Gyfraith: Ein bwriad ydy sicrhau bod ein modd o wneud penderfyniadau yn glir, gan egluro sut y daethom i gasgliad penodol. Efallai y byddwn yn cyhoeddi neu'n datgelu'r wybodaeth y byddwch yn rhoi i Gomisiwn y Gyfraith mewn ymateb i bapurau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, efallai y byddwn am gyhoeddi detholiad o'ch ymateb yn un o gyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith, neu efallai byddwn am gyhoeddi'r ymateb ei hun. Gallwn hefyd rannu eich ymateb gyda'r Llywodraeth. Yn ogystal â hynny, efallai bydd dyletswydd arnom i ddatgelu gwybodaeth, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fe fyddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol.

Rydym o'r farn bod ymatebion i ymgynghoriad yn fwyaf effeithlon pan ydyn ni'n gallu adrodd pwy a gyflwynodd ymateb, a beth oedd eu barn. Os ydych chi'n ystyried ei bod yn angenrheidiol cadw'r holl, neu gyfran o'r wybodaeth yr ydych am ei ddarparu yn gyfrinachol, cysylltwch â ni i fynegi hynny cyn gyrru'r ymateb os gwelwch yn dda. Gofynnwn ichi gadw'r wybodaeth gyfrinachol i'r isafswm, ei nodi yn glir, ac egluro pam yr ydych am i ni ei gadw'n gyfrinachol. Ni allwn warantu bod modd cadw'r cyfrinachedd hwn ym mhob achos, a ni fydd ymwadiad awtomatig a grëir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar Gomisiwn y Gyfraith.

Fel arall, efallai y byddwch yn dymuno i ni gadw eich ymateb yn ddienw. Golyga hyn y byddwn yn gallu cyfeirio at eich ymateb a chynnwys eich ymateb, heb ddatgelu mai gennych chi ddaeth yr ymateb. Efallai byddwch yn dymuno gwneud hyn pe byddai'ch ymateb yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi neu'ch teulu, neu os ydych yn poeni am bobl eraill yn dod i wybod am y wybodaeth y darparwyd gennych.

Rydym yn rhestru'r sawl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad yn ein hadroddiad. Os ydych am gyflwyno ymateb cyfrinachol, ni fydd eich enw'n ymateb ar y rhestr. Os ydy'ch ymateb yn ddienw, ni fydd eich enw yn ymddangos ar y rhestr ychwaith, heblaw os rhoddwch ganiatâd i ni wneud hynny.

Am wybodaeth bellach am sut rydym yn ymdrin â data, dilynwch y ddolen i'n gwefan - <https://www.lawcom.gov.uk/ymdrin-a-data-personol/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys yr Hysbysiad Breifatrwydd hwn, cysylltwch â ni trwy e-bostio enquiries@lawcommission.gov.uk

Cynnwys

	Tudalen
GEIRFA	1
PENNOD 1: CYFLWYNIAD	6
Hanes cryno cloddio am lo yng Nghymru	8
Y prosiect hwn	11
Y camau nesaf	12
Trosolwg o'r papur ymgynghori yma	13
Asesiad o'r effaith	14
Cydnabyddiaethau	15
Tîm prosiect	15
PENNOD 2: PERYGLON TOMENNYDD GLO	16
Ansefydlogrwydd	16
Hanes llithriadau tomennydd glo yn Ne Cymru	16
Beth sy'n achosi ansefydlogrwydd tomennydd	22
Mathau o fethiannau	25
Llifogydd	28
Llygredd	29
Ymlosgiad digymell	34
Adfer ac adennill tomennydd	39
PENNOD 3: MAPIO TOMENNYDD GLO CYMRU: STATWS GWEITHGAREDD, PERCHNOGAETH A CHATEGORïAU RISG	42
Glofeydd gweithredol	42
Glofeydd gweithredol yng Nghymru	43
Glofeydd anweithredol	45
Perchnogaeth ar domennydd glo anweithredol	45
Mwyngloddio cynnar	45

Newidiadau i berchnogaeth glofeydd a thomennydd o ganlyniad i genedlaetholi a phreifateiddio'r diwydiant glo	45
Tomennydd sy'n eiddo i'r Awdurdod Glo	48
Perchnogaeth awdurdodau lleol a'r Rhaglen Adfer Tir	48
Tomennydd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru	50
Perchnogaeth anhysbys neu ddarniog	51
Tomennydd ar dir comin neu dir â hawliau mynediad agored	51
Gwasgariad tomennydd glo mewn awdurdodau lleol a chategorïau risg: ffigyrau dros dro	52
Problemau rheoleiddio gyda glofeydd sydd wedi cau yn ddiweddar	55
Darpariaeth ariannol annigonol	55
Cwmnïau coeg	56
PENNOD 4: TRYCHINEB ABERFAN A DEDDF MWYNGLODDIAU A CHWARELI (TOMENNYDD) 1969	58
Trychineb Aberfan a Thribiwnlys y Drychineb	58
Dadleuon Seneddol a arweiniodd at Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd)	60
Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd)	65
Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1971	65
Cyfundrefn Rhan 2 ar gyfer tomennydd anweithredol	67
Y gyfundrefn bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol	73
Rheoliadau Mwyngloddiau 2014	74
Rheoliadau Chwareli	76
PENNOD 5: CYFREITHIAU ERAILL SYDD YN BERTHNASOL I DDIOGELWCH TOMENNYDD	78
Cyfarwydddebau'r UE	78
Cyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio	78
Y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff	81
Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	82
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol	82
Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009	85
Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd	85
Deddfwriaeth y DU sydd yn berthnasol i ddiogelwch tomennydd glo	85
Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990	85
Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004	89
Deddfwriaeth Gymreig sydd yn berthnasol i ddiogelwch tomennydd glo	90
Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	90
Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016	91
Egwyddorion a chyfrifoldebau amgylcheddol ar ôl gadael yr UE	93
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru	95
Bil yr Amgylchedd 2019-2021	97
Goblygiadau i ddiwygio cyfraith diogelwch tomennydd glo	97

Datganoli	97
Goblygiadau datganoli i ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo	98
PENNOD 6: ATEBOLRWYDD SIFIL A THROSEDDOL AM BERYGLON TOMENNYDD GLO YN Y GYFRAITH GYFFREDIN	99
Atebolrwydd sifil cyfraith gyffredin	100
Y rheol yn <i>Rylands v Fletcher</i>	100
Defnydd afresymol o dir mewn niwsans preifat	102
Atebolrwydd sifil statudol	104
Atebolrwydd troseddol cyfraith gyffredin	105
PENNOD 7: PROBLEMAU GYDA'R DEDDF 1969	106
Problemau	106
Colli sgiliau a phrofiad arbenigol	106
Adnoddau awdurdodau lleol	106
Gweithdrefnau trwsogl	107
Diffyg pŵer i fynnu neu gyflawni gwaith cynnal a chadw	109
Problemau gyda thirfeddianwyr	110
Ymyriadau anawdurdodedig	111
Gwrthdaro cyfundrefnau	111
Dad-ddosbarthu tomennydd	113
Effaith cofrestr tomennydd	114
Datrysiadau	114
Corff goruchwyllo	114
Dulliau rhanbarthol	116
Archwilio	116
Cynnal a chadw	117
Gwaharddiadau ar dirfeddianwyr rhag addasu tomennydd glo	117
Panel o beirianwyr	117
Perchnogaeth	117
Defnydd arall o'r tir	117
Safbwynt hirdymor	118
Gwrthdaro cyfundrefnau	118
PENNOD 8: Y GWAITH CYCHWYNNOL A GOMISIYNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU	120
Y gwaith diogelwch cychwynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru	120
Casglu data	120
Archwiliadau ar droed	122
Safoni mapio	122
Dull interim o drefnu data tomennydd	123
Safbwyntiau'r Awdurdod Glo ar reoli tomennydd	124
Archwiliadau	125
Opsiyau cynnal a chadw ac adfer	125

Cynllun rheoli tomennydd	126
Safbwyntiau ar reoli tomennydd yn y tymor hirach	127
Gwaith yn y tymor hirach	128
Y camau nesaf	128
PENNOD 9: MODELAU RHEOLEIDDIO ERAILL	130
Cyffredinol	130
Deddf Cronfeydd Dŵr 1975	131
Manylion y fframwaith rheoleiddio	132
Cymariaethau rhwng cronfeydd dŵr a thomennydd glo	137
Arfarniad o'r gyfundrefn cronfeydd dŵr	138
Rheoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014	141
Rheoliadau Mwyngloddiau 2014	141
Rheoliadau Chwareli 1999	142
Arfarnu	142
Cymhariaeth rhwng y Ddeddf Cronfeydd Dŵr a Rheoliadau Chwareli 1999/Rheoliadau Mwyngloddiau 2014	143
Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	145
Dynodi nodweddion	146
Cynlluniau cynnal a chadw a rheoli	147
Pwerau i gynnal systemau draenio presennol	148
Y gyfundrefn Tir Halogedig o dan Ran 2A Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990	150
Rhywogaethau Anfroddol	150
Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016	154
Rheoli gollyngiadau dŵr o fwyngloddiau	154
Deddf Ymsuddiant Glofaol 1991	155
Rheolau statudol mewn awdurdodaethau eraill	155
PENNOD 10: CYNIGION DROS DRO AR GYFER CYFUNDREFN DIOGELWCH TOMENNYDD GLO NEWYDD	159
Egwyddorion Cyffredinol	159
Tomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol	160
Elfennau fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomennydd anweithredol	160
Diffiniad o domen a thomen anweithredol	160
Diffinio perchennog tomen	162
Un corff goruchwyllo ar gyfer tomennydd anweithredol	163
Cofrestr tomennydd	165
Archwiliad cychwynnol	168
Cynlluniau rheoli tomennydd	169
Dosbarthu tomennydd a dynodi tomennydd risg uwch	170
Cyfrifoldeb am domennydd dynodedig	173

Cyfrifoldeb am domennydd risg is	175
Pwerau gorfodi	180
Diagram i gynrychioli elfennau o'n fframwaith rheoleiddio arfaethedig	186
Panel o beirianwyr	187
Gwrthdaro rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a diogelwch tomennydd	187
Pŵer cyfarwyddo?	188
Pŵer ehangach mewn achosion brys o dan Reoliadau Caniatáu	
Amgylcheddol	188
Dull mwy cydweithredol	189
Seilwaith wrth gefn	189
Mwy o ddewis o opsiynau gwaredu ar gyfer gwastraff tomennydd glo sydd wedi'i ddadleoli?	189
Prosiectau Adfer	190
PENNOD 11: CWESTIYNAU YMGYNGHORIAD	193
ATODIAD 1: CYDNABYDDIAETHAU	204
ATODIAD 2: FFOTOGRAFFAU I DDANGOS GWAITH ADFER	209
Y domen genedlaethol	209
Proffil 'berm and batter'	209
Draeniau	211
Rhwyll sy'n gorchuddio darn o graig rydd ar y domen, ochr yn ochr â ffos ddraenio.	213
Offer monitro	213
Tylorstown cyn ac ar ôl y llithriad ym mis Chwefror 2020	214
Tomen 'Old Smokey' yn Tylorstown	218

Geirfa

Adfer: Adfer yw'r broses o wneud defnydd buddiol penodol o dir segur sydd wedi ei ysbeilio neu ei halogi.

Awdurdod Glo: Mae'r Awdurdod Glo yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n un o adrannau Llywodraeth y DU. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Diwydiant Glo 1994 ac mae'n rheoli effeithiau glofeydd y gorffennol, yn cynnwys difrod ymsuddiant a llygredd dŵr mwyngloddiau.

Blaen: Y pwynt ble mae llethr (neu goleddf) y domen yn cyfarfod â lefel y tir gwreiddiol.

Bond adfer: Bond a ddarperir gan gwmni mwyngloddio cyn dechrau ar y gwaith cloddio at ddiben adfer ar ôl i'r gwaith cloddio ddod i ben.

Caergawell: Cawell weiren a lenwir â cherrig a ddefnyddir at ddibenion peiriannu ac adeiladu.

Ceuffordd: Llwybr llorweddol sydd yn arwain at fwynglawdd.

Cloddfa ddrifft: Cloddfa danddaearol y mae ei mynediad uwch ben lefel y dŵr ac fel arfer ar lethr bryn, wedi ei thyllu'n llorweddol i'r wythïen.

Corfforaeth Glo Prydain: Olynydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol, a sefydlwyd gan y Ddeddf Diwydiant Glo 1987, a elwir yn gyffredin yn Glo Prydain. Fe'i olynwyd gan yr Awdurdod Glo.

Craith: Rhan o domen sydd wedi ei ddiosg o lystyfiant a phridd yn dilyn llithriad.

Cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr: Yng Nghymru, mae cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr yn gronfa ddŵr sydd yn dal neu sydd â'r potensial i ddal 10 000 metr ciwbig o ddŵr uwch ben lefel y tir.

Cryfder croesrym: Gwrthiant y deunydd i lithriad neu fethiant.

Cwyp ceudod: Cwyp gwagleoedd tanddaearol lleol o ganlyniad i ddigwyddiadau megis methiannau mewn pibellau, cwlferi wedi dymchwel neu ymlosgiad tanddaearol. Fel arfer ni effeithir ar sefydlogrwydd cyffredinol tomennydd, ac eithrio yn achos argloddiau lagŵn, ond gall cwyp sydyn achosi perygl i fywyd os bydd unrhyw un ar yr wyneb.

Cynnal a chadw: Mae cynnal a chadw tomennydd yn rheolaidd yn cynnwys clirio, ail-dorri a gwella ffosydd a chwlferi draenio, a gwirio a chlirio sgriniau a ddyluniwyd i ddal detritws ar ôl glaw trwm.

Cytundeb adran 106: Cytundeb a lunnir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn darparu ar gyfer ôl-ofal am fwynglawdd ar ôl iddi gau. Gall y cytundeb gynnwys materion megis gwaith adfer, costau cytunedig a darpariaeth i'r gweithredwr dalu i gronfa adfer a ddelir gan yr awdurdod cynllunio mewn ysgrow yn ystod oes y mwynglawdd.

Derbynyddion: Nodwedd y gallai llithriad tomen lo effeithio arni (megis tŷ, ysgol neu ffordd).

Glofa: Pwll glo a'r adeiladau a'r offer sydd yn gysylltiedig ag ef.

Gorlwyth: Deunydd sydd yn bennaf yn cynnwys creigiau a phridd a waredir er mwyn cael mynediad i wythïen lo neu waddod o ddeunydd arall er mwyn ei baratoi ar gyfer mwyngloddio.

Gwastraff Glo: Y deunydd diangen a gynhyrchir ar ôl i lo gwerthadwy gael ei wahanu oddi wrth y deunydd a echdynnir o bwl glo mewn proses o olchi a pharatoi. Siâl yw'r deunydd yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys deunydd arall a deflir. Gelwir y gwastraff yn sbwriel yn y diwydiant mwyngloddio ehangach, ac yn 'rwbel' yn amlach na pheidio yn y diwydiant glo.

Lagŵn sorod: Lagŵn ble rhoddir sorod ynddo.

LIDAR: *Light Detection and Ranging*. Dull o fodelu wyneb y ddaear yn gywir drwy ddefnyddio golau laser. Mae'n cynhyrchu delweddau 3D o'r gwrthrych targed. Cyfeirir ato weithiau fel sganiwr laser gweithredol.

Llithriad cylchdro: Math o slip lle mae symudiad yn digwydd ar ffurf ewn llithriad cylchdro bydd y symudiad yn digwydd fel cylchdro o gwmpas echel sydd yn gyffredinol y tu allan i'r llethr ei hun.

Llithriad deublanar: Mae llithriadau deublanar yn golygu "shearing along two planes of differing orientation, with the formation of an upper active wedge of material and a lower passive wedge. The upper wedge displaces the lower wedge and shearing occurs at the tip foundation. Such failures are common in tips where the foundation material is soft and weak."

Llithriad gweddillion: Math o dirlithriad sydd yn golygu bod gweddillion pridd a chreigiau rhydd a chymharol sych yn llithro i lawr yn gyflym ac yn rholio ymlaen.

Llithriad llif: Llithriad sydd yn digwydd mewn tomen lo pan fo'r màs o bridd yn cael ei droi i gyflwr hylifedig o ganlyniad i aflonyddu ar ôl dirlenwi. Gall aflonyddu ddigwydd o ganlyniad i fethiant cylchdro, ymsuddiant mwyngloddio neu ddirgryniad daeargrynfeydd, saethu neu beirianwaith trwm. Bydd strwythur y pridd yn dymchwel, ond bydd gludedd y dŵr yn atal gronynnau y deunydd gwastraff rhag cael eu pacio'n dynnach, a bydd hylifiant yn digwydd fydd yn caniatáu i'r gwastraff lifo i lawr y llethr fel slyri. Fel arfer bydd llithriad llif yn digwydd mewn tomennydd gwastraff sydd wedi dirlenwi neu heb gywasgu'n dda, sydd yn cynnwys tywod neu ddeunydd maint silt, a maent yn fath

cyffredin o fethiant mewn deunyddiau lagŵn ar ôl torri arglawdd lagŵn. Mae llithriad llif yn digwydd yn gyflym a gall y deunydd deithio am bellter sylweddol.

Llithriad wyneb: Yn achos lithriadau wyneb, Math o lithriad lle mae'r methiant yn gyfochrog â wyneb blaen y domen. Mae llithriadau o'r fath yn tueddu i ddigwydd mewn deunydd sych a gronnynog sydd heb gydlynw, sydd wedi ei dipio ar neu yn uwch na'r ongl orffwys, a gall ddigwydd wrth i'r haen ar yr wyneb sychu ac y collir cydlynad dros dro.

Methiant echwythiad: Mae methiant echwythiad yn fethiant o ganlyniad i echwythiad o ddŵr tir.

Methiant peipio: Mae methiant peipio yn fethiant lleol a achosir gan erydiad mewnol yn y domen wrth i ronynnau o bridd gael eu golchi allan gan lif dŵr. Gall cwmp o ganlyniad i beipio achosi mathau eraill o fethiannau.

Mwyngloddio ar yr wyneb: Gweler **mw yngloddio brig**.

Mwyngloddio brig: Techneg o fwyngloddio sydd yn golygu cymryd mwynau, yn arbennig glo, o wyneb y tir yn hytrach nag o lwybrau a dyllir oddi tano.

Pwll arafu: Pwll sydd yn gweithredu fel trap silt sydd yn caniatáu i unrhyw waddod yn y dŵr wyneb setlo (proses a elwir yn arafu). Mae'n rhaid i'r gwaddod a gronnir gael ei waredu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y pwll yn parhau i fod yn effeithiol.

Pwysedd mandyllau: Pwysedd mandyllau yw pwysedd y dŵr tir a ddelir yn y domen lo yn y bylchau rhwng gronnynnau.

Pyrit: Sylffad haearn (yn benodol, deusylffad haearn (II)), a elwir hefyd yn aur ffyliaid.

Rhediad mwd: Mae rhediad mwd yn fethiant lleol a achosir gan lif cyflym o bridd dyfrllyd sydd ag ansawdd mwd. Mae hynny yn cael ei achosi yn dilyn glaw trwm gan lifoedd neu ollyngiadau o ddŵr sydd yn erydu gyliau yn y llethrau ac sydd yn ffurfio rhediadau mwd ar waelod y domen.

Rhediad sorod: Rhediad o sorod o wyneb y domen.

Rwbel: Gweler **gwastraff glo**.

Senedd: Y corff a etholwyd yn ddemocrataidd sy'n llunio deddfwriaethau ar gyfer Cymru (o fewn meysydd pwnc penodol). Mae'n cael ei adnabod fel Senedd Cymru a'r Welsh Parliament. Yn y papur ymgynghori hwn rydym yn cyfeirio ato yn ôl ei enw Cymraeg, Senedd.

Setliad: Strwythur yn symud tuag i lawr oherwydd bod y tir oddi tano yn ymsuddo.

Sgrin siaffrwd: Sgrin/grid a ddyluniwyd i ddal detritws ar ôl glaw trwm.

Sgwrfa: Sianel a ffurfir pan fo dŵr yn llifo dros wyneb ac yn gwaredu pridd, tir a ffurfiwyd (o ddeunydd tomen) neu greigiau.

Slyri: Cymysgedd o solidau sydd yn ddwysach na dŵr a ddelir mewn hylif.

Sorod: Cymysgedd o fân ronynnau o ddeunyddiau a dŵr a adawir ar ôl y broses o olchi glo.

System ardraws dŵr: Rhwydwaith o ffosydd draenio llorweddol i sianel ganolog.

Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo: Fe'i ffurfiwyd gan Lywodraeth Cymru yn syth ar ôl llithriad Tylorstown ar 16 Chwefror 2020 er mwyn darparu rhaglen frys o waith er mwyn sicrhau bod tomennydd glo ledled Cymru yn cael eu rheoli'n ddiogel ac effeithiol. Mae'r Tasglu yn cael ei arwain gan yr Adran dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, sy'n un o adrannau Llywodraeth Cymru. Partneriaid y Tasglu sydd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Glo, ei gorff noddi, Yr Adran Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a'r Swyddfa Gymreig. Mae'r grŵp technegol sydd yn gweithio gyda'r Tasglu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol.

Tasglu: Gweler **Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo**.

Tîm ymateb i domennydd: Tîm yr Awdurdod Glo sydd yn cynnal adolygiadau brys o'r holl domennydd glo yng Nghymru mewn gwaith a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru. fel rhan o waith y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo.

Tomen anweithredol: Tomen na ollyngir arni mwyach, ac nad yw'n gysylltiedig â phwll glo gweithredol. Mewn geiriau eraill, mae hon yn domen nad yw'n weithredol na chaeedig o dan Ddeddf 1969.

Tomen gaeedig: O dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, nid yw tomen gaeedig yn un sydd ar eiddo yr ystyrir sydd yn rhan o fwynglawdd neu chwarel, ac nid yw'r mwynglawdd neu'r chwarel y mae'n gysylltiedig â nhw yn segur ac mae'r tir ble lleolir y domen yn parhau i gael ei feddiannu yn gyfan gwbl gan berchennog y mwynglawdd neu'r chwarel honno.

Tomen segur: O dan Reoliadau Mwyngloddiau 2014, mae tomen segur yn gysylltiedig â mwynglawdd segur. Daw'n domen segur o'r dyddiad rhoi hysbysiad i gau'r mwynglawdd, ac ar ôl hynny bydd Rheoliadau 2014 yn peidio â bod yn berthnasol. Gweler hefyd **Tomen Anweithredol**.

Tomen weithredol: O dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 mae tomen weithredol yn gysylltiedig â mwynglawdd neu chwarel weithredol. Gweler hefyd **Tomen gaeedig**.

Tomen: Pentwr o gwastraff cronedig wedi'i tynnu yn ystod mwyngloddio. Mewn achos tomen lo, mae hwn yn deunydd diangen a gynhyrchir ar ôl i lo gwerthadwy gael ei wahanu oddi wrth y deunydd a echdynnir o bwl glo.

Unioni: Y broses ar gyfer lleihau risgiau iechyd a diogelwch ac amgylcheddol i lefel dderbyniol. Nod unioni tomen glo yw sicrhau diogelwch tomennydd glo. Mae unioni yn gam a gymerir i ddadwneud neu i atal difrod i'r amgylchedd.

Ymchwydd: Math o symudiad mewn tomen pan fo deunydd tomen yn llithro/yn ansefydlogi ac yn ymchwyddo.

Ysgafell: Rhwystr wedi'i beiriannu sydd yn cynnwys silff lorweddol sydd wedi ei hadeiladu ar lethr tomen neu wal lethrog pwll glo neu chwarel agored er mwyn gwella sefydlogrwydd.

Pennod 1: Cyflwyniad

- 1.1 Yn gynnar ym mis Chwefror 2020, am yr eildro mewn ychydig dros wythnos, dechreuodd dibwysiant atmosfferig ffurfio uwch ben yr Unol Daleithiau.¹ Ar ôl achosi storm eira yng nghanol gorllewin UDA ac eira trwm yn New England, symudodd y seiclon i Ogledd Môr Iwerydd. Ar 11 Chwefror rhoddodd y Swyddfa Dywydd yr enw Dennis i'r storm oedd yn agosáu. Erbyn penwythnos 15-16 Chwefror, croesodd y storm Fôr Iwerydd gan achosi gwyntoedd mawr a glaw trwm mewn llawer o rannau o'r Deyrnas Unedig, yn arbennig Cymru a rhannau o orllewin Lloegr. Ar 16 Chwefror cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd tywydd coch, sydd yn dynodi perygl i fywyd, ar gyfer De Cymru;² cyhoeddwyd rhybuddion oren ar gyfer llawer o weddill Cymru yn ogystal â rhannau o Loegr a'r Alban. Bu farw o leiaf pump o bobl yn y DU o ganlyniad i'r storm, a dau ohonynt yn Ne Cymru.³
- 1.2 Cofnodwyd y gwyntoedd cryfaf (91mya) oedd yn gysylltiedig â'r storm yn Aberdaron yng Ngogledd Orllewin Cymru ar ddydd Sadwrn 15 Hydref. Disgynnodd rhwng 100 a 150mm (tua pedair i chwe modfedd) o law ar rannau o Fannau Brycheiniog a chymoedd De Cymru.⁴ Cofnododd Cyfoeth Naturiol Cymru yr hyn oedd yn cyfateb i werth hanner mis o law mewn 12 awr - 87mm o law - a'r hyn sy'n cyfateb i 85% o law mis cyfan mewn 72 awr - 170mm o law - yn eu safle yng Nghronfa Ddŵr Crai ym Mhowys.⁵
- 1.3 Ar ddydd Sul 16 Chwefror achosodd y glaw lithriad rwbel o domen lo anweithredol ar lethrau cwm Rhondda fach gyferbyn â phentref Tylorstown yn Rhondda Cynon Taf.⁶ Amcangyfrifwyd bod y lithriad wedi cynnwys 60,000 tonnall o rwbel, ac fe flociodd yr

¹ Roedd Storm Dennis, a ddeilliodd o'r dibwysiant, wedi cael ei rhagflaenu gan Storm Ciara, a achosodd law trwm a gwyntoedd cryfion ar Ynysoedd Prydain ar 9 Chwefror 2020. Gweler y Swyddfa Dywydd, "Storm Ciara", <https://www.metoffice.gov.uk/weather/warnings-and-advice/uk-storm-centre/storm-ciara> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

² Gweler y Swyddfa Dywydd, "Storm Dennis triggers red rain warning" (2020), <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/press-office/news/weather-and-climate/2020/storm-dennis-triggers-red-rain-warning> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

³ Gweler y Swyddfa Dywydd, "Storm Dennis", <https://www.metoffice.gov.uk/weather/warnings-and-advice/uk-storm-centre/storm-dennis> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021) a https://en.wikipedia.org/wiki/Storm_Dennis (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

⁴ M Kendon, "Storm Dennis" (2020) *Met Office National Climate Information Centre*, https://www.metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/weather/learn-about/uk-past-events/interesting/2020/2020_03_storm_dennis.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

⁵ *Cyfoeth Naturiol Cymru, Llifogydd 2020 yng Nghymru*: Crynodeb Data Digwyddiad Llifogydd (2020), <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692376/february-2020-floods-in-wales-flood-event-data-summary-high-resolution-eng.pdf?mode=pad&rnd=132477535790000000> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

⁶ Pendyrys oedd enw gwreiddiol yr ardal, a gafodd yr enw Saesneg gan Alfred Tylor a brynodd hawliau mwynau Fferm Pendyrys yn 1872: gweler "Tylorstown" (2018) *Rhondda Cynon Taf Libraries Heritage Trail*, <http://webapps.rctcbc.gov.uk/heritagetrail/english/rhondda/tylorstown.html>. Ffotograffau yn y testun wedi ei hailgynhyrchu o "Further information about the Tylorstown landslide" (18 February 2020) *American Geophysical Union Blogosphere* <https://blogs.agu.org/landslideblog/2020/02/18/tylorstown-landslide-2/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 30 Mawrth 2021) Fel a gafodd ei roi ar Twitter gan NPAS South West Region. Mae lluniau ychwanegol o Tylorstown a dwy domen gyfagos yn atodiad 2.

afon, torrodd garthffos, claddodd gyflenwad dŵr strategol o dan nifer o fetrau o weddillion a gorchuddiodd lwybr troed a llwybr seiclo. Yn ffodus, oherwydd bod y domen ar ochr arall yr afon, ni anafwyd unrhyw un. Cost y gwaith uniongyrchol o gael gwared â'r deunydd o'r afon oedd £2.5 miliwn. Amcangyfrifir bod y gost o ddelio'n barhaol â'r deunydd a adawyd gan y llithriad yn rhwng £10 a £12 miliwn.⁷



- 1.4 Llithriad Tylorstown - a ddilynwyd yn Rhagfyr 2020 gan lithriad arall yn Wattstown, ychydig filltiroedd i lawr cwm Rhondda fach - a arweiniodd yn anuniongyrchol at ymgymryd â'r prosiect presennol.⁸
- 1.5 Yn syth ar ôl y llithriad comisiynodd y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru raglen frys o waith er mwyn sicrhau bod tomennydd glo ledled Cymru yn cael eu rheoli'n ddiogel ac effeithiol. Cynhaliodd Gweinidogion Cymru gyfres o gyfarfodydd a arweiniodd at greu Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo, dan arweiniad Adran Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r rhaglen. Partneriaid eraill y Tasglu yw'r Awdurdod Glo, ei gorff noddi, Adran Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU, a'r Swyddfa Gymreig. Mae'r grŵp technegol sydd yn gweithio gyda'r Tasglu yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol.
- 1.6 Nododd Weinidogion Cymru nifer o amcanion strategol cychwynnol. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - (1) sefydlu cofrestr ganolog o safleoedd tomennydd glo gyda chategorïau risg dealladwy a chyson, eglurder o ran cyfrifoldebau, yn ogystal â safonau gofynnol ar gyfer camau monitro a rheoli a throsolwg a'r broses o'u gorfodi;
 - (2) datblygu cronfa dystiolaeth gadarn gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch tomennydd yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael;

⁷ Gwybodaeth gan Lori Frater, Yr Adran dros Faterion Gwledig, Llywodraeth Cymru, a gweler Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf, *Tylorstown landslip – remediation process*, <https://www.rctcbc.gov.uk/EN/GetInvolved/TylorstownLandslip/Tylorstownlandslip%E2%80%93remediationprocess.aspx> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

⁸ Cafodd Wattstown ei enw gan berchennog y pwll glo, Edmund Hannay Watts. Digwyddodd y llithriad ar 18 Rhagfyr 2020: gweler Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf, *Wattstown tip landslip update – December 23 (2020)*, <https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Newsroom/PressReleases/2020/December/WattstownTipLandslipupdate%E2%80%93December23.aspx> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

- (3) sicrhau bod y fframwaith polisi a deddfwriaeth yn addas i'r diben ac wedi ei ddiogelu i'r dyfodol;
 - (4) gwella hyder y cyhoedd mewn perthynas â rheoli tomennydd glo.
- 1.7 Fel rhan o'r gwaith yma, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Awdurdod Glo, fel corff oedd yn gallu cynnig cyngor technegol, adnoddau a phrofiad gweithredol, i gynnal adolygiad ar unwaith o'r holl domennydd glo yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.
- 1.8 Gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 i gynnal adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ac i ddarparu argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith;⁹ dechreuwyd ar y prosiect ar 2 Tachwedd 2020.
- 1.9 Mae'r Tasglu yn parhau i ddatblygu polisïau yn gyfochrog â gwaith Comisiwn y Gyfraith, gyda mewnbwn o ar draws Lywodraeth Cymru.

HANES CRYNO CLODDIO AM LO YNG NGHYMRU

- 1.10 Dechreuwyd cloddio am lo yng Nghymru yn yr Oes Efydd, a chynyddodd y gweithgaredd ar ôl i'r Rhufeiniaid goncro Prydain. Dechreuwyd cloddio am lo ar raddfa fwy yn y canol oesoedd, drwy dyllu siafftiau a cheuffyrdd bychan. Yn ystod blyneddau cynnar y chwyldro diwydiannol yn y ddeunawfed ganrif, defnyddiwyd glo i fwyndoddi mwyn metel ar gyfer cynhyrchu plwm, copr a haearn. Rhwng 1850 a 1920 bu twf dramatig yn y diwydiant mwynloddio a chynnydd mewn mecanieiddio.¹⁰
- 1.11 Hefyd, newidiodd lleoliad y mwynloddiau yn ystod y cyfnod yma. Roedd mwynloddiau yn y ddeunawfed ganrif wedi eu lleoli mewn ardaloedd ble gellid canfod y glo yn agosach i'r wyneb, oherwydd nad oedd y dechnoleg yn caniatáu gyrru siafftau dwfn. Oherwydd hynny roedd swm y deunydd a echdynnwyd o'r pyllau glo yn gymharol fychan. Newidiodd hynny ar ôl y 1840au, pan dyllwyd siafftiau dyfnach i Faes Glo De Cymru er mwyn echdynnu glo stêm, math o lo oedd yn addas gyfer rheilffyrdd a llongau stêm. Roedd hynny yn ategu twf ffrwydrol diwydiant, allforion bydeang ac ymestyniad yr Ymerodraeth Brydeinig. Gyda'r addewid o ffyniant denwyd pobl, a chwyddodd poblogaeth y cymoedd glofaol. Poblogaeth Cwm Rhondda yn 1831 oedd 1631. Erbyn 1921 roedd hynny wedi tyfu i 163,000.¹¹
- 1.12 Ond daeth mwynloddio â thrychinebau yn ogystal â chyfoeth. Erbyn 1870 roedd dros 1,000 o fywydau yn cael eu colli mewn damweiniau mwynloddio bob blwyddyn.¹²

⁹ Yn unol â Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, s 3(1)(ea).

¹⁰ Cyfarfod gyda'r Dr Ben Curtis, Cymrawd Ymchwil Ôl-ddoethuriaeth mewn Llafur a Hanes Cymdeithasol, Prifysgol Wolverhampton. I gael gwybodaeth am wreiddiau cynnar mwynloddio glo yng Nghymru, gweler "The origins of coal mining in Wales" (15 August 2008) *BBC Wales History* https://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/society/industry_coal01.shtml (cyrchwyd ddiwethaf ar 12 Mai 2021).

¹¹ T Mansel Hodges, "The Peopling of the Hinterland and Port of Cardiff 1801 – 1914" in W E Minchington (ed), *Industrial South Wales, 1750-1914: Essays in Welsh Economic History* (1969).

¹² Senedd y DU, *Coal Mines*: <https://www.parliament.uk/about/living-heritage/transformingsociety/livinglearning/19thcentury/overview/coalmines/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

Rhwng 1885 a 1945, roedd mwyngloddio'n gyfrifol am 25% o'r holl farwolaethau cysylltiedig â galwedigaeth ym Mhrydain, a maes glo De Cymru oedd y peryclaf i weithio ynddo.¹³ Er enghraifft, collodd y Lofa Genedlaethol, yn yr ardal a ddaeth i gael galw'n Wattstown, 39 o ddynion a bechgyn mewn trychineb yn 1885, a 119 o ddynion a bechgyn mewn ail drychineb yn 1905;¹⁴ yn 1913 lladdwyd 439 o lowyr yn nhrychineb glofa Senghennydd, yn cynnwys wyth o fechgyn 14 oed, gan achosi i ddau gant o fenywod fod yn weddw. Hyd yn oed yn ystod blynyddoedd heb drychinebau, roedd marwolaethau ac anafiadau yn gyffredin. Er enghraifft, yn 1937, blwyddyn heb drychinebau mawr, lladdwyd 175 o ddynion a bechgyn ac anafwyd 15,947 yn Ne Cymru yn unig.¹⁵ Roedd y rhai a oroesai eu cyfnod yn y mwyngloddiau yn dioddef â chlefydau anadlol yn aml, osteoarthritis yn y pengliniau, nam ar y clyw a achoswyd gan swm a chyflwr y bysedd gwyn.¹⁶

- 1.13 Roedd mwyngloddio glo diwydiannol yn creu, ac yn gadael ar ei ôl, berygl i gymunedau mwyngloddio ar ffurf tomennydd glo. Mae'r rain yn cynnwys y deunydd cronedig sydd ar ôl ar ôl gwahanu glo gwerthadwy oddi wrth y deunydd diangen a echdynnwyd ar yr un pryd.¹⁷ Am resymau daearyddol maent yn broblem benodol yng nghymoedd De Cymru. Wrth i faint a dyfnder y mwyngloddio gynyddu, ffurfiwyd y tomennydd gan dyfu i fyny'r cymoedd, tra bod y tyllu at ddibenion echdynnu glo yn ansefydlogi'r tir oddi tanynt.¹⁸ Roedd y cyfuniad yma o ffactorau yn achosi llithriadau cynyddol reolaidd, a dechreuodd y tomennydd glo eu hunain lithro. Dysgodd y byd am eu pŵer i achosi trychineb yn 1966 yn Aberfan, pan arweiniodd llithriad tomen lo at farwolaeth 144 o bobl, a 116 ohonynt yn blant. Mae trychineb Aberfan a chanlyniadau hynny, ar ffurf deddfwriaeth yn 1969, yn cael ei ystyried ym mhennod 4. Cyfeiriwyd eisoes at y llithriadau mwy diweddar yn Tylorstown a Wattstown yn y bennod hon.
- 1.14 Roedd cenedlaetholi'r diwydiant glo yn y 1940au yn golygu y trosglwyddwyd y diwydiant glo i berchnogaeth a rheolaeth gyhoeddus ac arweiniodd hynny at greu'r Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB), y gorfforaeth statudol a grëwyd i redeg y diwydiant a

¹³ B Curtis, "The South Wales Miner's Federation and the perception and representation of risk and danger in the coal industry, 1898-1947" (2014) *Morgannwg*, <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4582420/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

¹⁴ Gweler <http://webapps.rctcbc.gov.uk/heritagetrail/english/rhondda/wattstown.html> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

¹⁵ B Curtis, "The South Wales Miner's Federation and the perception and representation of risk and danger in the coal industry, 1898-1947" (2014) *Morgannwg*, <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4582420/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

¹⁶ Neil Stockdale, "Coal Past: the human and environmental cost" (2009) *Environmental Law and Management* 125. Dechreuodd ymdrechion deddfwriaethol i wneud mwyngloddiau yn fwy diogel i'r rhai oedd yn gweithio ynddynt gyda Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1842. Roedd hynny yn dilyn adroddiad gan Gomisiwn Brenhinol ar gyflogi merched a phlant mewn mwyngloddiau a achosodd "widespread dismay at the depths of human degradation that were revealed." Roedd yn beth cyffredin cyflogi plant, yn fechgyn a genethod, wyth oed ac iau. Roedd y Ddeddf yn gwahardd unrhyw waith tanddaearol i ferched genethod a bechgyn dan ddeg oed. Dilynodd cyfres o Ddeddfau yn ystod y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd y amcanu at wneud y diwydiant yn fwy diogel.

¹⁷ JR Leeming, Prif Arolygydd Mwyngloddiau EM, "The Aberfan Disaster and its Legacy", papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Coffa Hanner Canrif ers Trychineb Aberfan yng Nghaerdydd ar 21 Hydref 2016.

¹⁸ A Taboga, "The development of integrated high-resolution geophysical, photogrammetric and GPS surveying applied to landslides in the South Wales Coalfield" (2011) *Prifysgol Caerdydd*, <https://orca.cf.ac.uk/54058/1/U585580.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

genedlaetholwyd. Digwyddodd y broses mewn dau gam. Ar 1 Gorffennaf 1942, drwy adran 3 Deddf Glo 1928, trosglwyddwyd perchnogaeth gyflawn o'r holl lo a glofeydd y DU i'r Comisiwn Glo. Yn dilyn hynny, sefydlwyd yr NCB drwy adran 1 Deddf Cenedlaetholi'r Diwydiant Glo 1946. Trosglwyddwyd perchnogaeth lwyr ar lo a glofeydd o'r Comisiwn Glo i'r NCB.¹⁹ Yn unol ag adran 1(1) y Ddeddf ysgwyddodd NCB y dyletswyddau am:

- (1) working and getting the coal in Great Britain, to the exclusion (save as in this Act provided) of any other person;
- (2) securing the efficient development of the coalmining industry; and
- (3) making supplies of coal available, of such qualities and sizes, in such quantities and at such prices, as may seem to them best calculated to further the public interest in all respects, including the avoidance of any undue or unreasonable preference or advantage.²⁰

1.15 Yn y 1960au bu dirywiad mawr mewn mwyngloddio glo yn y DU wrth i'r glo a gynhyrchwyd fod yn anghystadleuol ar y farchnad fyd-eang, ac wrth i'r galw symud i ffynonellau ynni newydd megis nwy, olew a phŵer niwclear. Roedd y cyfnod o gau'r pyllau glo a ddilynodd hynny yn ddadleuol ac fe'i hystyriwyd fel mater i ymgynghori arno rhwng yr NCB ac undeb y glowyr. Yn ystod dyddiau cynnar cenedlaetholi, deliwyd â chau pyllau glo o dan strwythurau ymgynghori lleol, ond yn 1949 derbyniodd yr NCB hawl yr undeb i fynd ag apêl i lefel genedlaethol. Yn 1967 cytunwyd ar weithdrefn newydd ar gyfer cau pyllau glo; disodlwyd hynny yn 1972 gan gytundeb arall rhwng yr NCB ac undeb y glowyr, ac yn unol â hynny byddai cyfarfod adolygu yn cael ei gynnal yn chwarterol y mhob ardal er mwyn nodi pyllau glo oedd â phroblemau penodol gyda'r amcan o drafod ffyrdd adeiladol o'u datrys. Pan gaewyd pwll glo, roedd y broses gyfan, o'r cyfarfod adolygu ardal i'r dyddiad cau, fel arfer yn cymryd tua pum mis a hanner.²¹

1.16 Er hynny, o blith y bron i fil o byllau glo a drosglwyddwyd i'r NCB pan y'u cenedlaetholwyd,²² caewyd 767 ohonynt rhwng 1947 a 1983. Crebachodd y cynhyrchiant o gyfnod brig o 211 miliwn o dunelli yn dilyn y rhyfel yn 1957 i 105 miliwn tunnell yn 1983.²³ Ym mis Hydref 1992 cyhoeddodd y Bwrdd Glo²⁴ y byddai yn cau 31 o'r 50 mwyngloddiau dwfn oedd ar ôl, er i'r cau gael ei oedi mewn rhai achosion o

¹⁹ Deddf Cenedlaetholi'r Diwydiant Glo 1946, s 5 a sch 1.

²⁰ *R v. British Coal Corporation ex p Vardy* [1993] ICR 720 [1993] IRLR 104.

²¹ Cymerwyd o'r farn mewn *R v. British Coal Corporation, ex p Vardy* [1993] ICR 720 [1993] IRLR 104.

²² Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, *Adroddiad arfarniad gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ("DECC") mewn perthynas â chofnodion yr hen Fwrdd Glo ("NCB") (Corfforaeth Glo Prydain yn ddiweddarach ("BCC")) – a corfforaeth statudol a grëwyd yn 1947 ac a diddymwyd yn 2004* (2014) <https://www.nationalarchives.gov.uk/documents/information-management/british-coal-corporation-appraisal-report.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

²³ William Ashworth gyda Mark Pegg, *The History of the British Coal Industry, Vol. 5: 1946–1982, The Nationalized Industry* (1986) pp 672–5.

²⁴ Ailenwyd y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn Gorfforaeth Glo Prydain, a elwid yn gyffredin yn Glo Prydain, yn 1987.

ganlyniad i adolygiad barnwrol.²⁵ Erbyn i'r diwydiant gael ei breifateiddio yn 1994, roedd cynhyrchiant wedi gostwng i lai na 21 miliwn tunnell, ac roedd nifer y glofeydd dwfn wedi gostwng i 16.²⁶

- 1.17 Darparodd Deddf Diwydiant Glo 1994 ar gyfer ailstrwythuro'r diwydiant glo. Preifateiddiwyd asedau economaidd Glo Prydain, ac eithrio glo heb ei weithio. Trosglwyddwyd swyddogaethau gweinyddol Glo Prydain i'r Awdurdod Glo, a'r Awdurdod hwnnw sydd yn dal yn eu cyflawni. Mae'r swyddogaethau hynny yn cynnwys rheoleiddio gweithredwyr mwyngloddiau glo trwyddedig, rheoli a lliniaru effeithiau mwyngloddio glo yn y gorffennol, yn cynnwys difrod ymsuddiant, a dal pob atebolrwydd sydd ar ôl na ellir eu gwerthu na'u rhoi. Yr Awdurdod Glo sydd yn berchen ar y rhan fwyaf o'r glo sydd heb ei weithio yn y DU ac ychydig o dir gweddilliol. Mae'n gweithredu fel corff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.²⁷
- 1.18 Erbyn heddiw, mae yna bum glofa yng Nghymru; ac mae tair ohonynt yn cynhyrchu glo ar hyn o bryd.²⁸ Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y gellir mwyngloddio glo at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni yn unig, megis hidlo dŵr, a chynhyrchu sment a dur.²⁹

Y PROSIECT HWN

- 1.19 Y cylch gorchwyl ar gyfer prosiect Comisiwn y Gyfraith y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru yw:

Adolygu'r gyfraith sydd yn rheoli tomennydd glo yng Nghymru ac ystyried opsiynau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol modern, yn unol â deddfwriaeth bresennol Cymru, yn cynnwys Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), ar gyfer rheoleiddio eu diogelwch.

²⁵ Gweler *R v British Coal Corporation, ex p Vardy* [1993] ICR 720 [1993] IRLR 104.

²⁶ Uchod. Hefyd gweler T Macalister et al, "The demise of UK deep coal mining: decades of decline" (2015) *Guardian*, <https://www.theguardian.com/business/ng-interactive/2015/dec/18/the-demise-of-uk-deep-coal-mining-decades-of-decline> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

²⁷ Gweler "About us", *Coal Authority*, <https://www.gov.uk/government/organisations/the-coal-authority/about>. Hefyd darparwyd gwybodaeth i Gomisiwn y Gyfraith gan yr Awdurdod Glo mewn cyfarfodydd cyn ymgynghori.

²⁸ Gweler paragraff 3.9 isod am ragor o wybodaeth.

²⁹ Gweler Argraffiad 10 Polisi Cynllunio Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi canllawiau polisi cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio. Darparwyd y wybodaeth gan Jennifer Pride a Richard Griffiths, yr Is-adran Ynni, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru. Nid yw'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Lloegr) yn cynnwys unrhyw amodau cyfatebol, ar yr amod bod y cynnig "yn dderbyniol yn amgylcheddol": gweler y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, *National Planning Policy Framework* (2019) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/81997/NP-PF/cefand.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 4 Mawrth 2021). I gael rhagor o drafodaeth am y ffrwydron gweithredol, gweler pennod 3 isod.

Argymhell system glir, safonedig a ddiogelwyd i'r dyfodol ar gyfer adnabod, cofnodi, archwilio a chynnal tomennydd glo drwy gydol eu hoes, gan nodi set o ddyletswyddau trosfwaol a mabwysiadu dull unffurf o asesu risg.

1.20 Cytunwyd yn benodol y byddai'r prosiect yn:

- (1) Ystyried perchnogaeth a rheolaeth bresennol ar domennydd glo yng Nghymru, gan ddefnyddio gwaith y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo fel bo'r angen;
- (2) Gwerthuso deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo, o safbwynt iechyd a diogelwch pobl ac effaith ar yr amgylchedd, nodi bylchau, anghysonderau a dulliau anffuddiol neu nad ydynt bellach yn gyfredol;
- (3) Nodi opsiynau ar gyfer modelau rheoleiddio gwahanol i'w mabwysiadu yng Nghymru;
- (4) Nodi'r nodweddion sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod unrhyw system a gynigir yn gallu darparu gorfodaeth effeithiol, ac yn benodol, ymateb cyflym a chydlynol pan fo angen gwneud gwaith brys;
- (5) Ystyried sut mae gwledydd eraill yn y DU, a gwledydd eraill â hanes sylweddol o fwyngloddio glo, yn arbennig yn yr UE, yn ymdrin â diogelwch tomennydd glo, pan fo'r rhain yn darparu cymhariaeth ddefnyddiol, ac i'r graddau y mae gwybodaeth o'r fath ar gael; ac
- (6) Ystyried effaith cyfraith yr UE ac effaith gadael yr UE ar y fframwaith rheoleiddiol presennol.

1.21 Cydnabuwyd bod y prosiect yn cael ei gynnal yng nghyd-destun blaenoriaethu mynd i'r afael â diogelwch tomennydd glo; mae Llywodraeth Cymru a'r Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo yn ymgymryd â gwaith unioni a gwaith brys arall er mwyn lliniaru'r risg uniongyrchol a achosir gan domennydd glo yng Nghymru. Cytunwyd y byddai'r prosiect yn ategu'r ymateb hwnnw drwy gynnig sail ddeddfwriaethol glir ac egwyddorol ar gyfer delio â'r risg honno yn yr hirdymor. Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw o fewn amserlen hwylus, cyfyngwyd ei gwmpas yn bendant mewn tair ffordd bwysig:

- (1) Byddai'r prosiect yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth systematig, hirdymor er mwyn taclo'r risg diogelwch a achosir gan domennydd glo; mae camau unioni brys neu flaenoriaethol yn fater i'r Llywodraeth a'r Tasglu.
- (2) Byddai'r prosiect yn canolbwyntio ar y gyfraith sydd yn rheoli tomennydd glo yn unig.
- (3) Ni fyddai'r prosiect yn adolygu ystyriaethau ehangach cysylltiedig â chyfraith amgylcheddol ac eithrio pan fo hynny yn uniongyrchol berthnasol i reoleiddio'r risg diogelwch a achosir gan domennydd glo.

Y CAMAU NESAF

1.22 Cytunwyd y byddai'r prosiect yn mabwysiadu amserlen o 13 i 15 mis. Yn syth ar ôl cyhoeddi'r papur ymgynghori hwn, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal am dri mis. Byddwn yn llunio adroddiad terfynol gan gynnig argymhellion ar gyfer deddfwriaeth newydd erbyn dechrau 2022.

TROSOLWG O'R PAPUR YMGYNGHORI YMA

- 1.23 Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys, ym **mhennod 2**, cofnod o'r llithriadau tomennydd glo sydd wedi digwydd yng Nghymru ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae'n rhoi amlinelliad o'r prif beryglon y mae tomennydd yn eu hachosi i fywydau ac iechyd pobl ac i'r amgylchedd. Mae dealltwriaeth o'r peryglon yma yn hanfodol er mwyn dylunio cyfundrefn reoleiddio effeithiol mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo.
- 1.24 Mae **pennod 3** yn edrych ar bwy sydd yn berchen ar domennydd glo yng Nghymru, a sut y datblygodd y patrwm yma o berchnogaeth. Mae'n ystyried i ba raddau y mae tomennydd yn anweithredol ac yn mapio eu gwasgariad ledled yr awdurdodau lleol a chategorïau risg.
- 1.25 Ar ôl nodi'r cefndir hwnnw, mae'r papur yn bwrw ymlaen yn y tair pennod nesaf i edrych ar y gyfraith sydd yn berthnasol i ddiogelwch tomennydd glo. Mae **pennod 4** yn rhoi cofnod byr o drychineb Aberfan a chanlyniadau hynny, yn cynnwys dylanwad canfyddiadau'r ymchwiliad i'r drychineb ar fframio Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 ("Deddf 1969"). Mae'r dadleuon yn y Senedd a arweiniodd at y Ddeddf yn cael eu harchwilio er mwyn bwrw goleuni ar y bwriadau a'r tybiaethau oedd yn sail i'r ddeddfwriaeth. Yna mae'r bennod yn edrych yn fanwl ar y fframwaith rheoleiddio a grëwyd gan y Ddeddf, mewn perthynas â thomennydd cysylltiedig â glofeydd gweithredol a thomennydd anweithredol.
- 1.26 Mae **pennod 5** yn adolygu deddfwriaethau eraill sydd yn berthnasol i ddiogelwch tomennydd glo, yn cynnwys cyfraith yr UE a gadwyd a Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990 sydd wedi siapia'r system trwydded amgylcheddol, yn ogystal â deddfwriaeth amgylcheddol arall, yn cynnwys yr egwyddorion troswaol a nodwyd yn neddfwriaeth Cymru er mwyn arwain y broses llunio polisi. Mae'r bennod hefyd yn edrych ar ddeddfwriaeth amgylcheddol gaiff ei hystyried yn San Steffan a Chaerdydd o ganlyniad i adael yr UE; a chymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Mae **pennod 6** yn ystyried diogelwch tomennydd glo o safbwynt atebolrwydd cyfraith gwlad a sifil posibl tirfeddianwyr mewn cyfraith breifat mewn perthynas â pheryglon sydd yn deillio o domennydd glo ar eu heiddo.
- 1.27 Mae adran nesaf y papur yn edrych ar broblemau gyda'r strwythur rheoleiddio presennol a ffyrdd y gellid ei wella. Ym **mhennod 7** rydym yn adrodd ar y safbwyntiau a fynegwyd i ni mewn cyfres o gyfarfodydd cyn ymgynghori gydag awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau o dan Ddeddf 1969 a rhanddeiliaid amgylcheddol eraill. Maent yn bwrw goleuni ar y bylchau a'r cyfyngiadau yn Neddf 1969. I grynhoi, dyma yw'r rhain yn ein barn ni:
- (2) nid yw'r Ddeddf yn creu unrhyw ddyletswydd i sicrhau diogelwch tomennydd glo;
 - (3) nid yw'n creu unrhyw bŵer i ymyrryd oni bai fod pryder bod tomen yn ansefydlog ar hyn o bryd;
 - (4) o ganlyniad nid yw'n darparu pŵer i ymyrryd er mwyn cyflawni'r math o waith cynnal a chadw a fyddai'n atal tomen rhag mynd yn ansefydlog;

- (5) nid yw'n darparu pwerau mewn perthynas â pheryglon heblaw am ansefydlogrwydd;
 - (6) mae'r pwerau y mae'n eu creu yn dameidiog ar draws awdurdodau lleol, gan arwain at safonau diogelwch anghyson a dosbarthiadau risg.
- 1.28 Ym **mhennod 8** rydym yn edrych ar y gwaith a wnaethpwyd gan dîm ymateb i domennnydd yr Awdurdod Glo ar gais Llywodraeth Cymru ers llithriad Tylorstown. Mae hefyd yn cyfeirio at farn yr Awdurdod Glo mewn perthynas â rheoli **tomennnydd**, fel rhanddeiliad sydd â phrofiad o reoli ei domenni ei hun, ac mae'n ystyried i ba raddau y gallai elfennau o'r ymateb cychwynnol fod yn rhan o'r ateb i'r problemau gyda'r drefn reoleiddio bresennol yr ydym wedi'i nodi.
- 1.29 Ym **mhennod 9** rydym yn edrych ar ymagweddau deddfwriaethol rheoleiddio peryglon amgylcheddol eraill fel modelau amgen posibl. Rydym yn ystyried pryd y gallai elfennau o'r modelau eraill yma fod o gymorth i fynd i'r afael â'r problemau gyda Deddf 1969, ond hefyd pan fo nodweddion perygl penodol efallai yn anfuddiol o ran ffurfio cyfatebiaeth â thomennnydd anweithredol.
- 1.30 Mae **pennod 10** yn dod â'r gwahanol safbwyntiau yr ydym wedi eu hystyried yn y penodau blaenorol at ei gilydd a'r safbwyntiau dros dro rydym wedi'u ffurfio ynghylch bylchau a chyfyngiadau'r fframwaith rheoleiddio presennol. Mae'n cyflwyno opsiynau ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer hen domenni glo. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion dros dro ynghylch y nodweddion y dylid eu cynnwys mewn cyfundrefn newydd a meysydd i'w trafod lle nad ydym wedi gallu llunio cynnig dros dro. Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar elfennau posibl y fframwaith yma mewn cyfres o gwestiynau ymgynghori.
- 1.31 Ein barn dros dro yw na ddylem argymhell unrhyw addasiad i'r gyfundrefn sydd yn rheoli'r ychydig o domennnydd sydd ar ôl yng Nghymru sydd yn gysylltiedig â glofeydd gweithredol; mae safbwyntiau rhanddeiliaid a'n hadolygiad ni o'r gyfraith yn y maes yma yn dangos, er bod problemau yn codi mewn perthynas â gweithredu'r camau rheoli yn ymarferol, bod y gyfundrefn bresennol yn gynhwysfawr ac nad oes angen ei hadolygu. Rydym yn rhagweld, wrth i'r glofeydd hynny beidio bod yn weithredol ac na fydd deddfwriaeth sydd yn rheoli tomennnydd gweithredol yn gymwys iddynt, y byddent yn dod yn rhan o'n cyfundrefn arfaethedig.
- 1.32 Mae yna eirfa o dermau technegol ar ddechrau'r papur yma. Mae atodiad 2 yn cynnwys rhai lluniau sy'n dangos problemau tomennnydd glo ac adferiadau.

ASESIAD O'R EFFAITH

- 1.33 Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynhyrchu asesiadau o effaith mewn perthynas â'i gynigion diwygio. Ynghyd â'r papur ymgynghori hwn rydym yn cyhoeddi asesiad cychwynnol o effaith yr opsiynau ar gyfer diwygio yr ydym wedi eu cyflwyno. Mae hynny yn seiliedig ar yr arwyddion cynnar a roddwyd i ni gan rhanddeiliaid ynghylch ble gellid creu effeithlonrwydd drwy ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â diogelwch tomennnydd glo. Hefyd, mae'r asesiad o effaith drafft yn amcangyfrif effaith gost bosibl yr opsiynau yma. Rydym yn gwahodd ymgynghoreion i roi sylwadau, a phan fo'n bosibl i gyfrannu at gronfa dystiolaeth yr asesiad yma. Ar ôl i'r ymgynghori ddod i ben ac

wrth i ni lunio ein hargymhellion ar gyfer diwygio, rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi asesiad terfynol o'r effaith economaidd ynghyd â'n hadroddiad.

CYDNABYDDIAETHAU

- 1.34 Rydym yn diolch i bawb sydd wedi ein cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r papur ymgynghori hwn. Rydym yn ddiolchgar am y gwaith, yr amser a'r ystyriaeth ofalus maent wedi ei gyfrannu'n hael er mwyn helpu i siapio ein dealltwriaeth o'r gyfraith yn y maes hwn a realiti y gwaith sydd angen ei wneud yn ymarferol er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo. Rydym wedi atodi rhestr o'r bobl a'r sefydliadau sydd wedi cyfarfod â ni neu sydd wedi ein helpu yn ystod cam cyn ymgynghori y prosiect mewn atodiad 1 ar ddiwedd y papur.

TÎM PROSIECT

- 1.35 Mae'r aelodau canlynol o'r tîm Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith yng Nghymru wedi cyfrannu at y papur hwn: Henni Ouahes (rheolwr tîm), Lisa Smith (cyfreithwraig y tîm) a Poppy Jones (cynorthwydd ymchwil).

Pennod 2: Peryglon Tomennydd Glo

- 2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r prif beryglon mae tomennydd glo yn eu hachosi i fywydau pobl ac iechyd yr amgylchedd: ansefydlogrwydd tomennydd glo, llifogydd a achosir gan domennydd glo, llygredd sydd yn deillio o domennydd glo, ac ymlosgiad digymell mewn tomennydd. Bydd dealltwriaeth o'r peryglon yma yn hysbysu'r broses o arenwi cyfundrefn reoleiddio effeithiol mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo.
- 2.2 Mae lleiafrif bychan o'r 2,000 neu ragor o domennydd glo yng Nghymru wedi cael eu categorioedd fel rhai sydd o bosibl yn achosi perygl i fywyd neu eiddo.³⁰ Ond mae gan hyd yn oed grynodiadau o wastraff a gladdwyd o dan lystyfiant,³¹ sydd yn ymddangos yn ddiniwed, y potensial i achosi niwed. Amlygwyd i ni mai llithriadau gwastraff yw'r risg mwyaf,³² ond mae angen ystyried a ddylai'r ymateb deddfwriaethol fynd i'r afael â'r holl brif beryglon, a sut. Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â phob un yn eu tro.

ANSEFYDLOGRHYDD

Hanes llithriadau tomennydd glo yn Ne Cymru

- 2.3 Mae daearyddiaeth De Cymru yn golygu bod yr ardal yn arbennig o agored i dirlithriadau o ganlyniad i law trwm a serthrwydd llethrau'r cymoedd. Mae'r ddaearyddiaeth hefyd wedi golygu bod y tomennydd gwastraff wedi cael eu lleoli ar lethrau serth uwch ben ardaloedd o weithgaredd pobl, oherwydd bod llawr y cymoedd yn gyffredinol yn cynnwys afonydd, aneddiadau, ffyrdd a rheilffyrdd, yn ogystal â phen y pyllau glo eu hunain. Roedd mwyngloddio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif wedi adfywio nifer o dirlithriadau segur.³³
- 2.4 Mae mwyngloddio yn achosi ymsuddiant o ganlyniad i'r gwagleoedd a adawir wrth dyllu gwythiennau glo; ac mae tipio gwastraff yn cynyddu'r straen ar y tir oddi tano. Fel hyn gall tomennydd gwastraff gyfrannu at lithriad yn y tir o danynt, yn ogystal â'r gwastraff ei hun. Mewn papur a gyhoeddwyd yn 1990, amlygodd Siddle a Bentley y gellir priodoli'r rhan fwyaf o lithriadau ym maes glo De Cymru i "the deleterious effects of human interference at old landslide sites". Mae technegau modelu wedi dangos y gall y straen a achosir gan fwyngloddio ysgogi symudiad.³⁴
- 2.5 Ar wahân i'r llithriadau a achosir gan weithgareddau mwyngloddio, gall y tomennydd glo eu hunain lithro o ganlyniad i law trwm, draenio gwael ac ymsuddiant o dan y domen lo. Ymchwiliodd Siddle, Wright a Hutchinson i lithriadau tomennydd glo yn Ne

³⁰ Mae'r ffigyrau dros dro a grynhowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi categorioedd 294 o domennydd fel rhai Categori C a D. Gweler pennod 8.

³¹ Mae rhai o'r ffotograffau yn atodiad 2 yn dangos hyn.

³² Yr Awdurdod Glo.

³³ SP Bentley and HJ Siddle, "The evolution of landslide research in the South Wales Coalfield" (1990) 101 *Proceedings of the Geologists' Association* 47, <https://vdocuments.site/the-evolution-of-landslide-research-in-the-south-wales-coalfield.html> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

³⁴ Uchod.

Cymru, a chanfod y bu dau ddeg tri o fethiannau sylweddol mewn tomennydd glo rhwng 1898 a 1967.³⁵ Dim ond methiannau cyflym a gynhwysyd yn eu hymchwil. Daethant i'r casgliad:

Cafodd mwyngloddio Maes Glo De Cymru, yn arbennig o chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, ei ategu gan achosion niferus o ansefydlogrwydd mewn tomennydd gwastraff a deunydd eu sylfeini. Digwyddodd methiannau disymwth, oedd yn ddigon cyflym i lethu eiddo a gwasanaethau, ac mewn rhai achosion, i fygwth bywydau, ar o leiaf dau ddeg tri o achosion, a darperir manylion am hynny. Credir bod y rhain yn cynnwys un deg chwech o lithriadau llif, pum llithriad gweddillion a dau fethiant a achoswyd gan echwythiad o ddŵr tir.³⁶ Mewn pum safle roedd llif gweddillion yn fecanwaith methiant eilaidd. Mae lleoliadau'r methiannau hyn wedi eu clystyru'n bennaf yn yr ardaloedd hynny yn y maes glo sydd â thirwedd uchaf a ble ceir glaw trwm, er bod amodau dŵr glaw blaenorol cysylltiedig â'r methiannau yn amrywiol. Dangosir bod y rhan fwyaf yn gysylltiedig â chyfnodau tipio gweithredol, ond credir bod un llithriad llif wedi digwydd mewn tomen bedair blynedd ar ôl rhoi'r gorau i'w defnyddio, a methiant o ganlyniad i echwythiant mewn tomen oedd yn bymtheg oed.³⁷

2.6 Rhestrir y dau ddeg tri o lithriadau tomennydd glo isod:³⁸

³⁵ HJ Siddle, MD Wright and JN Hutchison, "Rapid failures of colliery spoil heaps in the south Wales coalfield" (1996) 29 *Quarterly Journal of Engineering Geology* 103 <https://www.semanticscholar.org/paper/Rapid-failures-of-colliery-spoil-heaps-in-the-South-Siddle-Wright/ca3203afce60e8e14fab97df980b54aa7cf0f39f/figure/10> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

³⁶ Trafodir mathau o lithriadau tomennydd glo ym mharagraffau 2.23 i 2.30 isod.

³⁷ HJ Siddle, MD Wright and JN Hutchison, "Rapid failures of colliery spoil heaps in the south Wales coalfield" (1996) 29 *Quarterly Journal of Engineering Geology* 103, <https://www.semanticscholar.org/paper/Rapid-failures-of-colliery-spoil-heaps-in-the-South-Siddle-Wright/ca3203afce60e8e14fab97df980b54aa7cf0f39f/figure/10> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

³⁸ Tabl wedi ei fabwysiadu gyda chaniatâd gan HJ Siddle, MD Wright and JN Hutchison, "Rapid failures of colliery spoil heaps in the south Wales coalfield" (1996) 29 *Quarterly Journal of Engineering Geology* 103 <https://www.semanticscholar.org/paper/Rapid-failures-of-colliery-spoil-heaps-in-the-South-Siddle-Wright/ca3203afce60e8e14fab97df980b54aa7cf0f39f/figure/10> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

Date	Site	Code†	Grid Ref	Valley	Principal reference
1898	National	NA	ST 023940	Rhondda Fach	Anon 1898
1909	Pentre	PE	SS 974960	Rhondda Fawr	Knox 1927; Halcrow 1979a, 1987
1910	Craig-y-Duffryn	CD	SO 036002	Cynon	Anderson & Trigg 1976; Halcrow 1981
1911	Maerdy	MA	SS 970991	Rhondda Fach	Knox 1927; Halcrow 1973a
1925	Cefn Glas	CG	ST 073973	Cynon	National Coal Board 1970a
1926	Bedwellty	BE	SO 155057	Sirhowy	Knox 1927; National Coal Board, 1969
1928	Fforchaman	FF	ST 005987	Cynon	Halcrow 1968a, 1973b
1928	Rhondda Main	RM	SS 939885	Ogmore	Halcrow 1971
1931	Abergorchi	AB	SS 963985	Rhondda Fawr	Anon 1931a
1935	Fforchaman	FF	ST 005987	Cynon	Halcrow 1968a, 1973b
1939	Cilfynydd	CF	ST 089936	Taff	Brynmor-Davies 1940; Bishop <i>et al.</i> 1969; Halcrow 1972, 1973c, 1992
1943	Glenrhondda	GL	SS 918983	Rhondda Fawr	Halcrow 1968b, 1974
1944	Aberfan	AF	SO 063008	Taff	Anon 1968; Bishop <i>et al.</i> 1969
?1947–1960	Nantewlaeth	NL	SS 863981	Afan	Halcrow 1979b; National Coal Board 1975
1960	Parc	PA	SS 939956	Rhondda Fawr	Halcrow 1968c 1969
1960	Fernhill	FH	SN 926011	Rhondda Fawr	National Coal Board 1968b
1963	Aberfan	AF	SO 065007	Taff	Anon 1968; Bishop <i>et al.</i> 1969
1963	Mynydd Corrwg Fechan	MC	SN 883003	Corrwg Fechan	Halcrow 1979c; National Coal Board 1967
1964	Mynydd Corrwg Fechan	MC	SN 883003	Corrwg Fechan	Halcrow 1979c
1965	Mynydd Corrwg Fechan	MC	SN 883003	Corrwg Fechan	Halcrow 1979c
1965	Parc	PA	SS 937956	Rhondda Fawr	Halcrow 1968c, 1969
1966	Aberfan	AF	SO 065007	Taff	Bishop <i>et al.</i> 1969; Halcrow 1975
1967	Mynydd Corrwg Fechan	MC	SN 883003	Corrwg Fechan	Halcrow 1979c

†Code refers to sites shown in Fig. 1.

2.7 Roedd y llithriadau tomennydd glo a astudiwyd yn cynnwys:

- (1) Llithriad tomen lo Genedlaethol yn Wattstown yn 1898, a ddinistriodd wal gynnal, chwe thŷ a da byw;³⁹
- (2) Llithriad tomen lo Pentre yn 1909 a ddinistriodd bump o dai ac a laddodd un plentyn;⁴⁰
- (3) Llithriad tomen lo Craig-y-Dyffryn yn 1910 a gaeodd gamlas a rheilffordd;⁴¹
- (4) Llithriad tomen lo Bedwellte a gyrhaeddodd ysgol yn 1926;
- (5) Prif lithrfa lo'r Rhondda a lithrodd dros arglawdd wal gerrig, dinistrio polion telegraff a dinistrio hanner can llath o reilffordd yn 1928.⁴²

³⁹ "Landslip at Wattstown", *Pontypridd Chronicle*, 4 November 1898, <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3813686/3813694> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁴⁰ Cyfeirir at hynny hefyd yn "The Pentre Landslide", *Evening Express and Evening Mail*, 8 Chwefror 1909, <https://newspapers.library.wales/view/4200159/4200161/38> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021), "The Rhondda Landslide", *The Weekly Mail*, 13 Chwefror 1909, <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3379382/3379389/166/landslide> (cyrchwyd ddiwethaf ar 30 Mawrth 2021), [http://www.womenandwar.wales/browse.php?order=&page=28_\(gweler Annie Mary Slade\)](http://www.womenandwar.wales/browse.php?order=&page=28_(gweler%20Annie%20Mary%20Slade)) (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021) a M Johnes, "The Aberfan disaster is just one facet of the Welsh coal tragedy" *The Conversation*, <https://theconversation.com/the-aberfan-disaster-is-just-one-facet-of-the-welsh-coal-tragedy-66880> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁴¹ "Aberdare Landslide", *Cardiff Times and South Wales Weekly News*, 24 December 1910, <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3416346/3416354/154/landslide> (cyrchwyd ddiwethaf ar 30 Mawrth 2021).

⁴² D Price, *Coal Cultures: Picturing Mining Landscapes and Communities* (2020).

- (6) Llithriad tomen lo Abergorchi yn 1931 a deithiodd 610 metr ac i mewn i iard lofa, gan lenwi'r boeler a gadael nemor a phrin ddigon o stêm i ddychwelyd y 700 o lowyr a oedd o dan y ddaear ar yr adeg i'r wyneb.⁴³
 - (7) Llithriad tomen lo Fforchaman a ddinistriodd ffordd a dargyfeirio afon yn 1935.⁴⁴
 - (8) Llithriad tomen lo Cilfynydd a dorrodd linell bŵer, a gaeodd briffordd, a lenwodd gamlas, a gaeodd afon, a orchuddiodd reilffordd ac a aeth i'r gwaith carthffosiaeth yn 1939;⁴⁵
 - (9) Llithriad tomen lo Mynydd Corrwg Fechan a gaeodd afon yn 1963; a
 - (10) Thrychineb Aberfan yn 1966 a laddodd 144 o bobl, yn cynnwys 116 o blant.⁴⁶
- 2.8 Bu methiannau tomennydd glo eraill na chyfeirir atynt yn y papur. Dinistriodd llithriad arall ym Mhentre res o fythynnod a llawr sgelfrio.⁴⁷ Daeth amrywiol bartïon ag achosion yn erbyn y cwmni pwll glo oedd wedi bod yn tipio gwastraff ar lethr y bryn ble digwyddodd y llithriad.⁴⁸ Darganfuwyd yr achoswyd y llithriad gan dipio esgeulus y cwmni, yn benodol oherwydd nad oedd wedi creu system ddraenio ar gyfer y tomennydd. Roedd y cwmni hefyd yn atebol o dan y rheol yn *Rylands v Fletcher*.⁴⁹
- 2.9 Yn y ddadl yn y Senedd ar ôl trychineb Aberfan yn 1966, cyfeiriodd David Gibson-Watt, yr AS dros Henffordd, at:
- llithriadau tomennydd ar Fynydd Merthyr, y gallai'r rhai oedd yn gyfrifol fod wedi eu gweld i gyd. Yn 1944 dilynwyd llithriad cylchdro ar domen 4 gan lithriad llif; rhwng 1947 a 1951 bu llif cylchdro ar Domen Rhif 5; yn 1963 bu llithriad cylchdro ar Domen Rhif 7 ac yna llithriad llif. Rhwng 1964 a Hydref 1966 bu mwy o symudiadau llithro ar

⁴³ D Giles and J Griffiths, *Geological Hazards in the UK: Their Occurrence, Monitoring and Mitigation* (2020) t 106.

⁴⁴ British Paramount News, *South Wales: Landslide close to village in Cwmamman 1935* (1935) <https://www.britishpathe.com/video/MLVAOD94HSEANTGMFN747ABHEPTC-SOUTH-WALES-LANDSLIDE-CLOSE-TO-VILLAGE-IN-CWMAMMAN/query/Landslide> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

⁴⁵ SP Bentley, MCR Davies, M Gallup, "The Cilfynydd flow slide of December 1939" (1998) 3 *Quarterly Journal of Engineering Geology and Hydrogeology* 273 ar gael yn <https://pubs.geoscienceworld.org/qjegh/article-abstract/31/4/273/336424/The-Cilfynydd-flow-slide-of-December-1939?redirectedFrom=fulltext> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁴⁶ Ystyrir y trychineb yn fwy manwl ym mharagraffau 4.3 i 4.11 isod.

⁴⁷ SP Bentley and HJ Siddle, "The evolution of landslide research in the South Wales Coalfield" (1990) 101 *Proceedings of the Geologists' Association* 47 <https://vdocuments.site/the-evolution-of-landslide-research-in-the-south-wales-coalfield.html> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁴⁸ *A-G and others v Cory Bros & Co Ltd* [1921] 1 AC 521, [1921] 1 WLUK 139. I weld achos arall gweler *Kennard v Cory Bros & Co Limited* [1922] 1 Ch 265 [1992] 3 WLUK 142.

⁴⁹ (1868) LR 3 HL 330 [1868] 7 WLUK 83. Trafodir atebolrwydd sifil am ddigwyddiadau cysylltiedig â thomennydd glo ym mhennod 6.

Domen Rhif 7. Hefyd digwyddodd llithriadau tomennydd eraill yn Nhymawr a Chilfynydd, o'r cymoedd cyfagos.⁵⁰

Roedd y llithriad yn Nhymawr y cyfeiriwyd ato yn ganlyniad i fethiant lagŵn sorod ar droed y domen.⁵¹

2.10 Yn dilyn llithriad tomen lo Cilfynydd yn 1939, cynhyrchwyd memorandwm gan Powell Duffryn gyda rhagwaharddiadau er mwyn atal llithriadau mewn tomennydd glo.⁵² Mae'r rhain fel a ganlyn.

- (1) Dylid cyfyngu ar uchder tomen er mwyn osgoi gorlwytho'r tir sydd yn ei chynnal.
- (2) Pan allai llithriad achosi difrod i eiddo, ni ddylid gosod tomen dros 20 troedfedd o uchder ar lethr bryn oni bai bod y tir yn ro cywasgedig neu o ansawdd gwell na hynny.
- (3) Dylai'r domen gynyddol gael ei halinio ar hyd wyneb llethr fel y gellir casglu dŵr gaiff ei ddraenio oddi ar y tir uwchben, os bydd angen, gan system o ddraeniau a dorri i'r tir, ac a arweinir heibio y domen ac yn glir o'r domen. Ar hyd ymyl gynyddol y domen, ni ddylid ffurfio baeau na chilfachau ble gall dŵr gronni.
- (4) Ar ochr oleddf y domen, dylid torri draeniau dwfn (ddim llai na 18 modfedd) sydd yn arwain i lawr y llethr er mwyn atal dŵr rhag cronni ac er mwyn cadw'r tir yn sych.
- (5) Ni ddylai tomennydd fyth gael eu hymestyn dros ffynhonnau dŵr, boed y rhai hynny yn rhai parhaol neu ysbeidiol, nac ar dir rhy gorsiog a dyfrlawn.

2.11 Ni chafodd y ddogfen hon ei rhannu erioed, ac ni fabwysiadwyd yr arferion a awgrymwyd. Ond, yn dilyn llithriad Tymawr yn 1965, darganfu Prif Beiriannydd adrannol y Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB) ddogfen 1939 ac fe'i mabwysiadodd, gan ychwanegu ei argymhellion ei hun mewn perthynas â sborion (yn yr ystyr na ddylid eu tipio ac y dylid yn hytrach eu cadw mewn caeadleoedd). Rhannwyd y memorandwm yma gyda'r Prif Beirianwyr Ardal, gydag awgrym y dylent archwilio eu tomennydd. Yn arwyddocaol, ni chyrrhaeddodd y memorandwm yma y Rheolwr Ardal oedd yn gyfrifol

⁵⁰ *Hansard* (HC) 26 August 1967, vol 751, col 1920. <https://hansard.parliament.uk/Commons/1967-08-26/debates/caedc787-ddd3-4685-bf76-64170b319d12/AberfanDisaster> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁵¹ Mae sorod yn gymysgedd o fân ronynnau o ddeunyddiau a dŵr. Gweler Adroddiad y Tribiwnlys a benodwyd ar gyfer ymchwilio i Drychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966, <http://www.mineaccidents.com.au/uploads/aberfan-report-original.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

⁵² Adroddiad y Tribiwnlys a benodwyd ar gyfer ymchwilio i Drychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966, ar gael yn: <http://www.mineaccidents.com.au/uploads/aberfan-report-original.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021). Ffurfiwyd Powell Duffryn Associated Collieries Ltd yn 1935 er mwyn caffael eiddo Powell Duffryn Steam Coal Co Ltd a Welsh Associated Collieries Ltd: gweler <https://archiveshub.jisc.ac.uk/search/archives/54813a01-3233-3693-845e-cd184826a322> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

am Lofa Cwm Merthyr oedd yn tipio uwchben Aberfan, na phencadlys NCB yn Llundain.⁵³

- 2.12 Rhwng 1969 a 1989 ni chofnodwyd unrhyw “gwympiadau tir” y gellid eu priodoli i gwypm tomen wastraff, ond roedd “digwyddiadau peryglus” yn parhau. Adroddwyd am ddeuddeg o ddigwyddiadau o’r fath ar domennydd NCB i’r Arolygiaeth Mwyngloddiau yn 1970, a thri yn 1971.⁵⁴ Yn 1973 tarodd llithriad tomen lo res o dai yng Nghwm Aman. Ni allai’r trigolion ddychwelyd yn ddiogel, a maes o law bu’n rhaid dymchwel y tai.⁵⁵ Bu cyfanswm o 74 o ddigwyddiadau peryglus ledled y DU oedd yn ymwneud â thomennydd gwastraff rhwng 1969 a 1989, ac un o bob tri yn achosi difrod i eiddo, ond ni adroddwyd am golli bywydau.⁵⁶
- 2.13 Digwyddodd llithriad tomen lo yn 1981 yng nglofa Abernant.⁵⁷ Yn 2011 llithrodd tomen lo a adferwyd i fuarth a dosbarthiadau ysgol yn Nhredeggar. Yn ffodus digwyddodd hynny y tu allan i oriau ysgol, ac ni anafwyd neb.⁵⁸
- 2.14 Mae cynnydd mewn glaw wedi effeithio’n sylweddol ar domennydd glo.⁵⁹ Mae hen systemau draenio, sydd yn aml mewn cyflwr gwael, yn annigonol ar gyfer delio â swm y dŵr sydd yn disgyn arnynt.⁶⁰ Yn ystod Storm Callum yn 2018, cwmpodd canol tomen lo yng Nglofa Tŵr yng Nghwm Cynon, dim ond 600 metr i ffwrdd o dai.⁶¹ Canfu’r cyngor mai ‘sgwriad’ oedd y cwypm ac nad oedd yn llithriad.⁶² Dywedwyd bod

⁵³ Adroddiad y Tribiwnlys a benodwyd ar gyfer ymchwilio i Drychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966, ar gael yn: <http://www.mineaccidents.com.au/uploads/aberfan-report-original.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

⁵⁴ G McKechnie Thompson and S Rodin, “Colliery Spoil Tips – After Aberfan: Discussion” (1973) *Institution of Civil Engineers*, ar gael yn: <https://www.icevirtuallibrary.com/doi/pdf/10.1680/iicep.1973.4702> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁵⁵ N Bevan, “The entire Valleys street demolished to prevent another Aberfan” (2020) *Wales Online*, <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/entire-valleys-street-demolished-prevent-17534531> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁵⁶ British Geological Survey and Environment Agency, *The nature of waste associated with closed mines in England and Wales* (2014) <http://nora.nerc.ac.uk/id/eprint/10083/1/OR10014.pdf>, citing DETR 1999, “Stability in surface mineral workings and tips, Department of the Environment Transport and the Regions, Mineral Planning Guidance 5” (London: DETR) (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁵⁷ MD Wright, “The distribution and engineering significance of superficial deposits in the Upper Clydach Valley, South Wales” (1983) 16 *Quarterly Journal of Engineering Geology and Hydrogeology* 319. <https://qjegg.lyellcollection.org/content/16/4/319> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁵⁸ T Kelsey and T Heath, “Mine memorial saves school in slurry landslide” (2011) *The Independent* <https://www.independent.co.uk/news/uk/mine-memorial-saves-school-in-slurry-landslide-1561121.html> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁵⁹ Gweler hefyd baragraffau 2.18 i 2.19 isod.

⁶⁰ Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf, *Strategic Flood Assessment, section 5* <https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControl/LocalDevelopmentPlans/LDPEvidenceBaseLibraryandAnnualMonitoringRe/RelateddocumentsEvidenceBase/EB59b.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

⁶¹ T Deacon, “Storm Callum coal tip ‘collapse’ raises fear over safety at Tower Colliery site” (2018) *Wales Online*, <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/storm-callum-coal-tip-collapse-15297720> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2021).

⁶² Uchod.

y glaw trwm wedi bod yn drech na chapasiti'r mesurau rheoli dŵr wyneb, a chyfrannodd y dŵr ffo at orlifo priffordd. Roedd Glofa Tŵr wedi cau yn 2008, ac adferwyd y domen yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn 2017.

- 2.15 Ym mis Chwefror 2020, yn ystod Storm Dennis, digwyddodd nifer o lithriadau tomennydd glo. Digwyddodd yr un gwaethaf yn Tylorstown, pan lithrodd tua 60,000 tonnall o wastraff i lawr ochr y mynydd i mewn i afon.⁶³ Yn ffodus, ni laddwyd neb. Digwyddodd llithriadau eraill ar yr un pryd yng Nghwm Clydach, ar y rheilffordd i Aberdâr, Wattstown a Phontygwaith. Ym mis Rhagfyr 2020, digwyddodd llithriad yn Wattstown pan gwympodd 2000 tonnall o ddeunydd.⁶⁴

Beth sy'n achosi ansefydlogrwydd tomennydd

- 2.16 Mae tomen lo yn debygol o lithro neu fethu os bydd y grymoedd aflonyddu (grymoedd sydd yn ysgogi llithro) yn fwy na'r grymoedd ymwrthedd (grymoedd sydd yn atal llithro).⁶⁵ Enghraifft o rym aflonyddu yw pwysedd dŵr yn y domen.⁶⁶ Mae ffactor diogelwch tomen yn hafal i gymhareb grymoedd ymwrthedd a grymoedd aflonyddu: po uchaf yw'r ffactor, y mwyaf diogel yw'r domen. Os yw'r ffactor yn is na un, mae'r grymoedd aflonyddu yn gryfach na'r grymoedd ymwrthedd. Mae Richards et al wedi nodi awgrymiadau ar gyfer isafswm ffactorau diogelwch yn seiliedig ar ddyluniad y domen a'r effaith bosibl o ganlyniad i fethiant y domen. Ffactor pwysig ar gyfer penderfynu isafswm ffactor diogelwch yw cryfder croesrym (neu ymwrthedd i lithro) y domen lo.⁶⁷
- 2.17 Mae dŵr yn ffactor risg arbennig o bwysig. Mae gan ddŵr y potensial i effeithio ar sefydlogrwydd tomen mewn nifer o ffyrdd:⁶⁸
- Drwy leihau cryfder y deunydd yn y domen neu'r deunydd y codwyd y domen arno;
 - Drwy gynyddu pwysau deunydd y domen, a darparu mwy o rymoedd aflonyddu oherwydd hynny;
 - Drwy gynhyrchu pwysedd dŵr yn y domen, a lleihau cryfder croesrym deunydd y domen oherwydd hynny;
 - Drwy gynhyrchu pwysedd diferion sydd yn arwain at beipio (erydiad mewnol).
- 2.18 Felly mae glaw yn un o achosion sylweddol llithriadau tomennydd glo. Mae nifer o lithriadau tomennydd glo, megis yng Nghilfynydd yn 1939, wedi digwydd ar yr un pryd

⁶³ Gweler paragraff 1.3 uchod.

⁶⁴ Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf, *Wattstown tip landslide update – December 23 (2020)*, <https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Newsroom/PressReleases/2020/December/WattstownTipLandslipupdate%E2%80%93December23.aspx> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

⁶⁵ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 188.

⁶⁶ Uchod.

⁶⁷ Uchod.

⁶⁸ Uchod.

â glaw trwm.⁶⁹ Gyda newid yn yr hinsawdd, mae swm y glaw sydd yn cwmpo ar feysydd glo de Cymru wedi cynyddu 13% ers y 1960au, a hefyd mae hynny wedi symud tuag at fisoedd y gaeaf, sydd yn golygu nad yw glaw yn cael ei gwasgaru gymaint drwy gydol y flwyddyn.⁷⁰ Y rhagamcanion presennol yw y bydd y cynnydd hwnnw yn parhau.⁷¹

- 2.19 Yn fyd-eang, mae *Adroddiad Arbennig ar Gynhesu Byd-eang o 1.5C* Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd 2018 yn cyfeirio at dystiolaeth helaeth bod cynhesu byd eang eisoes wedi arwain at gynnydd mewn amllder, dwyster a/neu swm glaw trwm mewn rhanbarthau sydd yn cynnwys gogledd Ewrop, ac y bydd yn arwain at fwy o gynnydd o'r fath.⁷² Mae'r ffigwr isod yn dangos newidiadau mewn glaw yn ystod y gaeaf yn y DU ers 1975, yn ogystal â rhagfynegiadau ar gyfer y cynnydd mewn glaw yn ystod y gaeaf hyd at 2100.⁷³


⁶⁹ SP Bentley, MCR Davies, M Gallup, "The Cilfynydd flow slide of December 1939" (1998) 3 *Quarterly Journal of Engineering Geology and Hydrogeology* 273, <https://pubs.geoscienceworld.org/qjegh/article-abstract/31/4/273/336424/The-Cilfynydd-flow-slide-of-December-1939?redirectedFrom=fulltext> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁷⁰ Forest Research, *Recorded Changes in the Climate of Wales*, <https://www.forestresearch.gov.uk/research/climate-change/adaptation/adapting-forests-and-woodlands-in-wales-to-a-future-climate/recorded-changes-in-the-climate-of-wales/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021). I weld rhagamcanion o gynnydd i'r dyfodol yng Nghymru, gweler Committee on Climate Change, *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report: Summary for Wales* (2017), <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/UK-CCRA-2017-Wales-National-Summary.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁷¹ Committee on Climate Change, *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report: Summary for Wales* (2017), <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/UK-CCRA-2017-Wales-National-Summary.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁷² Intergovernmental Panel on Climate Change, *Special Report on Global Warming of 1.5 C* (2018), <https://www.ipcc.ch/sr15/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁷³ UKCP18, *National Climate Projections* (2018), <https://www.metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/research/ukcp/ukcp18-overview-slidepack-march21.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 22 Mawrth 2021). Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar Lwybr Crynodiadau Cynrychioliadol 8.5 sydd yn modelu ar gyfer newid yn y cydbwysedd ymbelydrol o 8.5 watt am bob metr sgwâr erbyn 2100.



2.20 Bydd unrhyw beth sydd yn cynyddu grymoedd aflonyddu tomen yn ei gwneud yn llai sefydlog. Mae Richards et al yn crynhoi achosion eraill ansefydlogrwydd tomennydd fel hyn:

- (1) Llwyth ychwanegol ar frig ymyl llethr;
- (2) Llethr yn mynd yn fwy serth o ganlyniad i dyllu, erydiad neu ymsuddiant mwyngloddio;
- (3) Gwaredu cynhaliaeth ar waelod y llethr o ganlyniad i dyllu neu erydiad dŵr;
- (4) Aflonyddu ar sylfeini'r domen;
- (5) Erydiad mewnol yn y domen;
- (6) Ymlosgiad pentwr pridd (gall hynny achosi i wagleoedd ffurfio allai arwain at gwmp lleol).

2.21 Roedd yr arbenigwyr y siaradwyd â nhw wrth baratoi'r papur ymgynghori yma yn cytuno bod bron yr holl lithriadau tomennydd wedi cael eu hachosi naill ai gan ddiffyg yn eu hadeiladwaith wreiddiol neu broblemau draenio. Nid oes gan rai tomennydd hŷn systemau draenio ffurfiol. Yn syml fe'u codwyd drwy dipio deunydd ar dir agored, oedd yn aml ar lethr.⁷⁴ Hefyd, mae tomennydd mwy modern, neu domennydd hŷn sydd wedi cael eu hail-broffilio, yn strwythurau wedi'u peiriannu sydd ag oes dyluniad.⁷⁵ Nid oeddent wedi cael eu peiriannu i wrthsefyll y cynnydd diweddar mewn glaw. Effaith cynnydd mewn glaw yw lleihau oes eu dyluniad.⁷⁶

2.22 Mae effaith draenio annigonol ar ansefydlogrwydd tomennydd yn cael ei waethygu gan erydiad. Gall torri coed sydd wedi tyfu ar domennydd glo effeithio ar eu

⁷⁴ Cyfarfod gyda Paul Maliphant, aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomennydd Glo, a Tim Marples, Yr Awdurdod Glo.

⁷⁵ Oes dyluniad strwythur yw'r cyfnod o amser mae ei dylunwyr yn disgwyl iddo weithio o fewn paramedrau penodol.

⁷⁶ Cyfarfod â Tim Marples, Yr Awdurdod Glo.

sefydlogrwydd. Mae tannau gwyllt sydd yn lladd y llystyfiant yn creu effaith hefyd. Roedd yna dannau gwyllt yn Nhylorstown a Wattstown yn ystod y blynyddoedd cyn i lithriadau tomennydd 2020 ddigwydd.⁷⁷

Mathau o fethiannau

- 2.23 Mae llithriadau tomennydd glo yn fathau unigryw o dirlithriadau. Maent yn cynnwys gwastraff glo, sydd yn wahanol i greigiau naturiol a phridd.⁷⁸ Maent hefyd yn wahanol oherwydd y posibilrwydd o ymlosgiad digymell (a gall rhai llithriadau tomennydd glo gynnwys gwastraff poeth neu wastraff sydd yn llosgi).⁷⁹ Mae'r hyn sydd yn achosi llithriadau tomennydd glo yn aml yn wahanol i'r hyn sydd yn achosi tirlithriadau. Ond gall yr achosion rhyngweithio. Mae rhai tomennydd glo wedi cael eu codi ar gyrion tirlithriadau daearegol hanesyddol. Un enghraifft yw tair tomen lo ac un domen chwarel sydd wedi eu tipio ychydig o dan dirlithriad daearegol.⁸⁰ Lithrodd y tirlithriad daearegol ym mis Ionawr 2021 ar y domen chwarel. Gall y rhyngweithio rhwng tirlithriadau a llithriadau tomennydd glo fod yn gymhleth iawn.
- 2.24 Mae yna fathau gwahanol o fethiant tomen. Gall y rhain fod yn lithriadau cylchdro, llithriadau wyneb, llithriadau deuplanar, llithriadau llif, methiant peipio, cwmp ceudod, rhediadau mwd neu setliad ac ymchwydd.⁸¹ O blith y rhain, llithriadau cylchdro a llithriadau llif yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o ran risg i fywydau ac eiddo.⁸²
- 2.25 Mewn llithriad cylchdro bydd y symudiad yn digwydd fel cylchdro o gwmpas echel sydd yn gyffredinol y tu allan i'r llethr ei hun.⁸³ Mae cryfder y grymoedd y gall llithriad cylchdro ei roi ar y tir tanategol yn cael ei ddangos gan effeithiau llithriad cylchdro a ddigwyddodd mewn tomen yn Nglofa Hatfield, De Swydd Efrog yn Chwefror 2013. Bu i bwysedd y llithriad ddadleoli rhes o goed oedd yn tyfu a chodi'r pridd o dan reilffordd gyfagos tua 5m.⁸⁴

⁷⁷ Craig Hope, Tân ac Achub De Cymru.

⁷⁸ Cyfarfod gyda'r Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter.

⁷⁹ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 216. Trafodir ymlosgiad digymell ym mharagraffau 2.50 i 2.68 isod.

⁸⁰ Ym Mhentre; cyfarfod â Lori Frater, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru.

⁸¹ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 191.

⁸² Cyfarfod â Tim Marples, Yr Awdurdod Glo.

⁸³ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993), p 216.

⁸⁴ Lluniau wedi eu hatgynhyrchu gyda chaniatâd yr Awdurdod Glo.



2.26

Gall llithriadau cylchdro arwain at lithriadau llif. Fel arfer llithriadau llif yw'r math mwyaf difrifol o lithriadau, oherwydd gall y deunydd deithio pellteroedd mawr. Maent yn digwydd pan fo pwysedd mandyllau y tu mewn i'r domen yn cynyddu gymaint fel bod y gronynnau yn dod yn annibynnol ac mae'r deunydd yn ymddwyn fel slyri yn hytrach na solid. Mae Aberfan a Tylorstown yn enghreifftiau o lithriadau llif:

Mae llithriadau llif yn digwydd pan fo'r mas o bridd yn cael ei droi i gyflwr hylifedig o ganlyniad i aflonyddu ar ôl dirlenwi. Gall aflonyddu ddigwydd o ganlyniad i fethiant cylchdro, ymsuddiant mwyngloddio neu ddirgryniad o ddaeargrynfeydd, saethu neu beiriannau trwm. Bydd strwythur y pridd yn dymchwel, ond bydd gludedd y dŵr yn atal gronynnau y deunydd gwastraff rhag cael eu pacio'n dynnach, a bydd hylifiant yn digwydd fydd yn caniatáu i'r gwastraff lifo i lawr y llethr fel slyri. Fel arfer bydd llithriad llif yn digwydd mewn tomennydd gwastraff sydd wedi dirlenwi neu heb gywasgu'n dda, sydd yn cynnwys tywod neu ddeunydd maint silt, a maent yn fath cyffredin o fethiant mewn deunyddiau lagŵn ar ôl torri arglawdd lagŵn. Mae llithriad llif yn digwydd yn gyflym a gall y deunydd deithio am bellter sylweddol.⁸⁵

2.27 Er mai'r rhain yw'r mathau pwysicaf o lithriadau at ddibenion y papur ymgynghori yma, mae'n ddefnyddiol deall mathau eraill o fethiannau tomennydd. Mae'r rhain wedi eu hesbonio isod.

(1) Yn achos lithriadau wyneb, mae'r methiant yn gyfochrog â wyneb blaen y:

Mae llithriadau o'r fath yn tueddu i ddigwydd mewn deunydd sych a gronynnog sydd heb gydlynw, sydd wedi ei dipio ar neu yn uwch na'r ongl

⁸⁵ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 192.

orffwys, a gall ddigwydd wrth i'r haen ar yr wyneb sychu ac y collir cydlyniad dros dro.⁸⁶

- (2) Mae slipiau deublanar yn golygu "shearing along two planes of differing orientation, with the formation of an upper active wedge of material and a lower passive wedge. The upper wedge displaces the lower wedge and shearing occurs at the tip foundation. Such failures are common in tips where the foundation material is soft and weak."⁸⁷
- (3) Mae methiant peipio yn fethiant lleol a achosir gan erydiad mewnol yn y domen wrth i ronynnau o bridd gael eu golchi allan gan lif dŵr, gan adael gwagle tiwbaidd. Gall cwmp o ganlyniad i beipio achosi mathau eraill o fethiannau.⁸⁸
- (4) Cwmp gwagleoedd tanddaearol lleol o ganlyniad i ddigwyddiadau megis methiannau mewn pibellau, cwlferi wedi dymchwel neu ymlosgiad tanddaearol. Fel arfer ni effeithir ar sefydlogrwydd cyffredinol tomennydd, ac eithrio yn achos argloddiau lagŵn, ond gall cwmp sydyn achosi perygl i fywyd os bydd unrhyw un ar yr wyneb.⁸⁹
- (5) Mae rhediad mwd yn fethiant lleol a achosir gan lif cyflym o bridd dyfrllyd sydd ag ansawdd mwd. Mae hynny yn cael ei achosi yn dilyn glaw trwm gan lifoedd neu ollyngiadau o ddŵr sydd yn creu gyliau yn y llethrau ac sydd yn ffurfio rhediadau mwd ar waelod y domen.⁹⁰

2.28 Gall setliad ac ymchwydd ddigwydd i wahanol raddau mewn gwahanol rannau o'r domen, a hynny ar brydiau yn arwain at wahanol symudiad.⁹¹ Bydd setliad yn digwydd o ganlyniad i lwytho. Gall cwmp setliad ddigwydd ar brydiau o ganlyniad i ostyngiad yng nghryfder deunydd ar ôl dirlenwi.

2.29 Gall ymchwydd ddigwydd am amryw resymau, megis:

- (1) methiant cylchdro;
- (2) methiant croesrym mewn deunydd gwan yn sylfaen y domen;
- (3) pwysedd diferion am i fyny;
- (4) ar ôl cael gwared â gorlwytho e.e. Pan fo tomen yn cael ei gwaredu;
- (5) newidiadau cemegol yn neunyddiau'r domen;

⁸⁶ Uchod, t 191.

⁸⁷ Uchod, t 192.

⁸⁸ Uchod.

⁸⁹ Uchod t 193.

⁹⁰ Uchod.

⁹¹ Setliad yw'r symudiad tuag i lawr o strwythur oherwydd ymsuddiant y tir oddi tano. Mae ymchwydd yn fath o symudiad ar domen sy'n digwydd pan fo deunydd y domen yn dod y ansefydlog ac yn chwyddo.

(6) gweithgaredd rhew;

(7) ail-hydradu clai wedi sychu e.e. Ar ôl torri coed.”⁹²

- 2.30 Mae Richards et al yn awgrymu bod tipiau presennol a ffurfiwyd yn wreiddiol drwy dipio dros wyneb uchel, ond sy'n sefyll ar lethrau llai na tua 20°, yn debygol o fod yn ansefydlog ar ryw adeg yn y gorffennol, ac efallai eu bod yn dal yn ansefydlog.”⁹³ Felly mae'r llethrau serth sydd yn nodweddu topograffi yr ardal yn effeithio ar sefydlogrwydd tomennydd De Cymru.

LLIFOGYDD

- 2.31 Gall tomennydd hefyd achosi neu gyfrannu at lifogydd. Mae mecanweithiau'r broses honno yn cynnwys y ffordd maent yn newid y tirlun, y diffyg llystyfiant arnynt (ac felly llai o allu i ddal dŵr), effaith draenio tomennydd ar gyrsiau dŵr a (phan fo dŵr ffo yn cynnwys gronynnau solid) siltio afonydd sydd yn achosi gorlifdiroedd.⁹⁴
- 2.32 Mae TEXMIN⁹⁵ yn brosiect ymchwil a ariennir gan yr UE sydd yn cynnwys naw sefydliad o chwe gwlad Ewropeaidd (yn cynnwys Ysgol Mwyngloddiau Camborne (CSM) Prifysgol Exeter) sydd yn astudio effaith newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithriadol ar ardaloedd o Ewrop yr effeithir arnynt gan weithgaredd mwyngloddio. Mae hynny yn cynnwys defnyddio rhagamcanion hinsawdd a modelu er mwyn adnabod a mesur effeithiau o ganlyniad i gynnydd mewn glaw, tymheredd a newid sydyn mewn pwysedd atmosfferig. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar faterion megis dŵr mwyngloddiau, allyriadau nwy a sefydlogrwydd strwythurol.
- 2.33 Mae elfen o'r prosiect yma yn cynnwys astudio effaith cynnydd mewn glaw ar domennydd glo yn y DU. Mae hynny yn cynnwys edrych ar gyfansoddiad daearyddol y domen a dŵr ffo (allai fod yn gysylltiedig â sefydlogrwydd), yn ogystal ag effeithiau cysylltiedig â lifogydd.⁹⁶
- 2.34 Yn ystod y degawdau cyn y drychineb tomen lo, roedd yna lifogydd rheolaidd yn Aberfan oedd yn achosi risg i drigolion. Rhwng 1952 a 1965 cafwyd un ar ddeg o ddigwyddiadau lifogydd difrifol. Roedd dŵr y lifogydd yn fudr, a gadawodd waddod seimllyd du. Cwynodd y trigolion yn rheolaidd, gan briodoli'r lifogydd i broblem ddraenio yn y tomennydd. Oherwydd y lifogydd, roedd raid i'r plant gerdded i'r ysgol dros y tomennydd, oedd yn eithriadol o beryglus oherwydd y rhaffyrdd a'r tram cludiant. Er gwaethaf blynyddoedd lawer o gwyno gan drigolion, dim ond ar ôl y

⁹² Uchod, t 194.

⁹³ Uchod, t 188.

⁹⁴ Cyfarfod gyda'r Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter, a gweler <https://www.netregs.org.uk/environmental-topics/water/more-ways-to-prevent-water-pollution/managing-silt-and-sediment-in-discharges-from-quarries-or-mines/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

⁹⁵ Mae "TEXMIN" yn dod o "The impact of EXtreme Weather events on MINing operations": gweler <https://gig.eu/en/international-projects/texmin> (cyrchwyd diwethaf 17 Mai 2021)

⁹⁶ Cyfarfod gyda'r Athro Patrick Foster a'r Athro John Coggan, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter. I gael mwy o wybodaeth am brosiect TEXMIN, gweler <https://www.gig.eu/en/international-projects/texmin> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

drychineb yr unionwyd y broblem llifogydd, pan adeiladodd NCB gwlfer er mwyn dargyfeirio'r dŵr oedd yn llifo oddi ar y tomennydd i Afon Taf.⁹⁷

- 2.35 Yn ddiweddarach, pan dynnwyd y tomennydd i lawr oddi ar y mynydd uwch ben Aberfan, symudwyd deunydd y tomennydd i Gae Grove ger y Pentref. Cafodd yr ardal, oedd ar lannau Afon Taf, ei llenwi a'i chodi rhwng deg a deuddeg troedfedd mewn uchder.⁹⁸ Roedd hynny yn ei dro yn achosi llifogydd difrifol i dai gerllaw, y bu'n rhaid eu gadael yn 1979 - a rhai trigolion yn cael eu hachub gan gychod a dingis - ac eto yn 1998. Yn ddiweddarach cyflwynodd y trigolion hawliad o niwsans yn erbyn yr Awdurdod Glo,⁹⁹ gan ddadlau mai codi'r tir oedd wedi achosi'r llifogydd. Cytunodd yr Awdurdod Glo a Chyngor Merthyr bod y llifogydd wedi cael ei achosi gan y broses o godi a llenwi'r tir, ond ni chanfuwyd eu bod yn atebol oherwydd canfuwyd nad oedd hynny yn ganlyniad rhagweladwy i godi a llenwi. Hefyd, petai hynny wedi bod yn rhagweladwy, eglurodd Laws LJ y byddai rheol 'gelyn cyffredin' wedi bod yn gymwys, ac na fyddai'r Awdurdod Glo yn atebol beth bynnag.¹⁰⁰
- 2.36 Mae digwyddiadau llifogydd yn digwydd yn rheolaidd yn Ne Cymru ac mae nodweddion mwyngloddio tanddaearol yn cyfrannu at hynny hefyd, er enghraifft yn achos y cwmp diweddar y siafft mwynglawdd yn Sgiwen.¹⁰¹

LLYGREDD

- 2.37 Mae CL:AIRE¹⁰² yn egluro bod nifer o'r dyfroedd o'r ansawdd gwaethaf yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hachosi gan domennydd gwastraff:

Yn ddiweddar casglodd Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'i ymarferiad Pennu Nodweddion Basnau Afonydd, bod tua 1,800 km o gyrslau dŵr Cymru a Lloegr yn wynebu "risg" o ganlyniad i lygredd cysylltiedig â mwyngloddio. Mae nifer o'r dyfroedd o'r ansawdd gwaethaf yn deillio o ddraenio tomennydd gwastraff, ble mae prosesau ocsideiddio a diddymiad mwynau sylffid, sef achos llygredd cysylltiedig â mwyngloddio, yn benodol o rymus.¹⁰³

⁹⁷ Adroddiad y Tribiwnlys a benodwyd ar gyfer ymchwilio i Drychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966, ar gael yn: <http://www.mineaccidents.com.au/uploads/aberfan-report-original.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 2 Mawrth 2021).

⁹⁸ *Arscott and Ors v Coal Authority and Anr* [2004] EWCA Civ 892, [2005] Env LR 6, para 17.

⁹⁹ *Arscott and Ors v Coal Authority and Anr* [2004] EWCA Civ 892, [2005] Env LR 6.

¹⁰⁰ *Arscott and Ors v Coal Authority and Anr* [2004] EWCA Civ 892, [2005] Env LR 6, paragraffau 53 and 62. Gweler hefyd paragraffau 6.13 i 6.15 isod.

¹⁰¹ L Clements, "Mine shaft 'blow out' likely flooded Skewen village- Coal Authority" (2021) *Wales Online*, <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/mine-shaft-blow-out-likely-19682313> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁰² Mae CL:AIRE (Contaminated Land: Applications in Real Environments) yn sefydliaid dielw annibynnol sydd yn amcanu at ysgogi adfywio tir halogedig yn y DU drwy godi ymwybyddiaeth o dechnolegau adfer cynaliadwy.

¹⁰³ A P Jarvis and P L Younger, "CL:AIRE Technology project demonstration report: TDP13: Passive treatment of severely contaminated colliery spoil leachate using a permeable reactive barrier" (2006) *CL:AIRE*

- 2.38 Y llygryddion mwyaf cyffredin a ryddheir gan domennydd glo yw asidedd, haearn, manganês, alwminiwm a sylffad.¹⁰⁴ Oherwydd bod tomennydd glo yn strwythurau hirdymor, mae hynny yn fath parhaus o lygredd. Gall draeniau o domennydd fod yn llygredig am ganrifoedd.¹⁰⁵ Hefyd:

Bydd yr halogiadau metel sydd yn gysylltiedig â llygredd dŵr mwyngloddio yn aros yn yr amgylchedd os na fyddant yn cael eu gwaredu, a hyd yn oed yn y dyfroedd mwyngloddio hynny sydd â'r crynodiadau metel uchaf un, ni phrofwyd bod adfer ac ailddefnyddio wedi bod yn economaidd ddichonadwy hyd yma.¹⁰⁶

- 2.39 Mae Richard et al yn rhestru gronynnau mwynau crog, halwynedd ac asidedd fel y mathau mwyaf arwyddocaol o lygredd dŵr sydd yn gysylltiedig â mwyngloddio glo.¹⁰⁷ Mae gronynnau mwynau crog yn bresennol mewn dŵr wyneb ffo o wastraff pyllau glo,¹⁰⁸ a gall gyfrannu at halwyno afonydd, at droi afonydd dwfn yn forfeydd heli, cau tagellau pysgod, dinistrio silfeydd pysgod a chynefinoedd infertebratau, ac effeithio ar dwf planhigion dyfrol ac achosi llifogydd lleol.¹⁰⁹

- 2.40 Mae'r dŵr ffo yma, a elwir yn ddraenio mwynglawdd asid, yn deillio'n bennaf o bresenoldeb pyrit (sylffid haearn) mewn gwastraff, er y gall metelau eraill, megis alwminiwm, manganês ac arsenig fod yn bresennol hefyd.¹¹⁰ Mae ocsideiddio pyrit yn digwydd pan ddaw pyrit i gysylltiad ag ocsigen a dŵr (mae bacteria yn cyfrannu at y broses).¹¹¹ Mae hynny yn creu gwaddod o ocsid fferrig, sydd yn gorchuddio gwely cyrsiau dŵr, gan olygu nad ydynt yn addas fel cynefinoedd ar gyfer organebau dyfnforol.¹¹² Hyn sydd yn achosi dŵr oren mewn cyrsiau dŵr yr effeithiwyd arnynt. Hefyd, gallai crynodiadau uchel o fetelau eraill, alwminiwm yn benodol, fod yn wenwynig i fywyd dyfrol, yn enwedig pysgod.¹¹³ O ganlyniad i hynny, nid oes pysgod ac weithiau nid oes unrhyw fywyd dyfrol mewn cyrsiau dŵr yr effeithiwyd arnynt gan ddraeniad asid.¹¹⁴ Mae'r draeniad asid hefyd yn gyrydol ac yn diraddio pridd.¹¹⁵ Gall ail-dyfu planhigion ar y domen, ynghyd â dargyfeirio dŵr wyneb leihau cynhyrchiant

¹⁰⁴ Uchod.

¹⁰⁵ Uchod.

¹⁰⁶ Uchod.

¹⁰⁷ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 369.

¹⁰⁸ Uchod.

¹⁰⁹ 4R Group, *Mine Spoil: Lasting impacts of mining operations on the environment* (2018), <https://www.4r-group.co.uk/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

¹¹⁰ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 370.

¹¹¹ Cyfarfod gyda'r Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter.

¹¹² I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 370.

¹¹³ Uchod.

¹¹⁴ Uchod.

¹¹⁵ Cyfarfod gyda'r Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter.

asid tua 50%.¹¹⁶ Mae hynny yn atal ocsideiddio pyrit drwy ynysu'r gwastraff rhag ocsigen.¹¹⁷

- 2.41 Mae newid hinsawdd yn gwaethygu'r llygredd yma. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi amlygu hynny ac wedi egluro sut mae hynny yn newid natur y llygredd:

Mae ein hinsawdd yn newid, ac mae'n ymddangos y bydd hynny yn parhau. Mae rhagfynegiadau Newid Hinsawdd y DU (UKCP18) y disgwylir hafau sychach a phoethach, gaeafau gwlypach a mwynach, lefelau'r môr yn codi a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae ffynonellau metelau gwasgaredig yn dod yn fwy sylweddol ar ôl glaw trwm ac yn ystod llifodd uchel mewn afonydd oherwydd bod mwy o erydiad gwastraff mwyngloddiau yn digwydd, ac mae trylifiad glaw drwy'r gwastraff yma yn symud deunyddiau. Ffynonellau gwasgaredig sydd yn cyfrannu fwyaf at y deunyddiau a ganfyddir mewn afonydd yn ystod llifoedd uwch. Disgwylir i newid hinsawdd achosi i'r ffynonellau gwasgaredig yma fod yn achosi llygredd hyd yn oed mwy sylweddol. Mae llif afonydd is, fel y rhai a gafwyd yn ystod haf poeth 2018, yn golygu bod gollyngiadau dŵr mwyngloddiau (sydd yn tueddu i lifo drwy gydol y flwyddyn) yn gyfran uwch o'r llif sylfaenol, felly mae difrifoldeb y llygredd yn cynyddu oherwydd bod yna lai o wanediad gan ddŵr glanach.¹¹⁸

- 2.42 Er enghraifft, y gollyngiad dŵr pwll glo o "chwythfylchau" Holme Valley yn Swydd Efrog ar ôl glaw trwm bob cwpl o flynyddoedd, sydd yn cynyddu hyd y staen oren yn y dŵr dros dro o 5km i 60km,¹¹⁹ fel y dangosir hynny isod.



¹¹⁶ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 390.

¹¹⁷ Uchod, t 387.

¹¹⁸ Asiantaeth yr Amgylchedd, *2021 River Basin Management Plan: Mine Waters Challenge* (2019), https://consult.environment-agency.gov.uk/environment-and-business/challenges-and-choices/user_uploads/pollution-from-abandoned-mines-challenge-rbmp-2021-1.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹¹⁹ Uchod.

2.43 Hefyd gallai cynhesu byd eang gynyddu difrifoldeb draenio mwyngloddiau asid oherwydd bod adweithiau cemegol yn tueddu i ddigwydd yn llawer cyflymach ar dymheredd uwch. O ganlyniad, bydd mwy o asid yn cael ei gynhyrchu.¹²⁰

2.44 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn egluro, bod rhai o'r safleoedd hŷn, er eu bod yn achosi effeithiau llygru, yn cael statws gwarchodedig:

Mae mwyngloddiau segur a thomennydd gwastraff yn creu buddion i gymdeithas. Mae cannoedd wedi eu gwarchod oherwydd eu gwerth treftadaeth fel Henebion Cofrestredig, ac mae UNESCO yn cydnabod rhannau o dirlun mwyngloddio Cernyw a Gorllewin Dyfnaint fel safle Treftadaeth y Byd. Mae'r crynodiadau metel uchel a adawir mewn rhai tomennydd gwastraff mwyngloddio a gwaddodion afonydd islaw mwyngloddiau segur wedi annog fflora metaloffit neilltuol, ac mae nifer ohonynt yn cael eu gwarchod fel 'Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)', ac maent yn cynrychioli rhan bwysig o fioamrywiaeth Prydain.¹²¹

2.45 Enghraifft o SSSI ar gyfer fflora metaloffit yw safle gwastraff mwynglawdd yn Nenthead yn Cumbria. Mae'r safle yma yn achosi llygredd, a'r afon Nent gerllaw yw un o afonydd mwyaf llygredig Lloegr.¹²²

2.46 Mae llygredd o byllau glo segur a mwyngloddiau eraill yn cyfrannu at saith y cant o fethiannau cyrff dŵr yn y DU sydd wedi derbyn statws da.¹²³ Enghraifft o hyn yw pwll glo Kellingley yng Ngogledd Swydd Efrog. Caeodd glofa Kellingley ym mis Rhagfyr 2015. Achosodd y domen lo sydd yn gysylltiedig â hi llygredd difrifol mewn lagŵn cyfagos. Roedd tipio wedi parhau am gyfnod hir ar ôl i'r lofa gau yn ffurfiol. Cododd Nigel Adams MP y mater hwn yn Nhŷ'r Cyffredin:

Erbyn hyn mae'r ganolfan ddeifio gyfagos oedd ag enw da yn rhyngwladol, sef y Blue Lagoon, yn llyn du drewllyd o ganlyniad i ddŵr ffo o domen lo UK Coal. Nid yw cynllun y cytunwyd arno rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd ac UK Coal wedi cyflawni dim. Mae draen blaen y domen yn dal yn anghyflawn, ac mae nifer o'r rhannau sydd wedi eu cwblhau yn llawn silt neu mae'r leinin wedi ei ddifrodi ac yn aneffeithiol oherwydd hynny. Mae perchennog safle Blue Lagoon, Martin Ainsworth, yn dioddef straen difrifol ac yn cael trafferthion o ran rhedeg ei fusnes. Ar ôl gorffen tipio bydd y cynnwys mwynaid yn parhau i ollwng o'r domen am nifer o flynyddoedd. Rwyf yn annog y gweinidog i sicrhau bod UK Coal a Harworth Estates yn ystyried eu

¹²⁰ Yr Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter.

¹²¹ Asiantaeth yr Amgylchedd, *2021 River Basin Management Plan: Mine Waters Challenge* (2019), https://consult.environment-agency.gov.uk/environment-and-business/challenges-and-choices/user_uploads/pollution-from-abandoned-mines-challenge-rbmp-2021-1.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹²² Uchod.

¹²³ Environment Agency, *Inventory of closed mining waste facilities* (2014) p 2, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/288582/LI_T_6797_7d390c.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021). Gweler hefyd Environment Agency, "Abandoned mines and the water environment" (2008), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/291482/LI_T_8879_df7d5c.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

cyfrifoldebau amgylcheddol o ddifri ac yn sicrhau bod gwaith adfer yn cael ei gwblhau'n llawn.¹²⁴

- 2.47 Mae gwastraff mwynloddio wedi cael ei dipio yn y môr hefyd ac ar draethau yn y DU, ac mae hynny wedi achosi llygredd difrifol.¹²⁵ Gall dŵr ffo o domennydd glo hefyd lygru afonydd am nifer o flynyddoedd, gan achosi dŵr oren asidig mewn nentydd a chynyddu canran y metelau trwm mewn cyrff dŵr. Maent hefyd yn cyfrannu at halwyno afonydd, at droi afonydd dwfn yn forfeydd heli, cau tagellau pysgod, dinistrio silfeydd pysgod a chynefinoedd infertebratau, ac effeithio ar dwf planhigion dyfrol ac achosi llifogydd lleol.¹²⁶
- 2.48 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Glo yn trin nifer o ddyfroedd mwynloddiau o fwyngloddiau segur.¹²⁷ Mae hynny fel arfer yn golygu defnyddio lagwnau setliad a gwelyau brwyn i dynnu haearn o'r dŵr. Mae cynllun Taf Merthyr, y'i darlunnir isod, yn un o gynlluniau mwyaf yr Awdurdod Glo. Roedd y safle yn trydydd ar restr blaenoriaethol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer safleoedd oedd angen gwaith trin. Yn 1998 fe'i disgrifiwyd fel "largely unvegetated – mainly large, abandoned terraces of bare ground enclosing the old mine workings and associated colliery spoil" ac mae wedi llygru pedwar cilomedr o afon. Erbyn hyn mae'r safle yn cynnal mosäig o gynefinoedd ac mae niferoedd yr adar wedi codi. Mae'r afon nawr yn llifo'n glir ac yn cynnal pysgod megis y brithyll brown; ac mae yna dystiolaeth o bresenoldeb dyfrgwn.¹²⁸



¹²⁴ *Hansard* (HC), 9 December 2015, vol 603, col 1115, <https://hansard.parliament.uk/Commons/2015-12-09/debates/15120955000002/KellingleyColliery?highlight=kellingley%20coal%20tip#contribution-15120955000786> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹²⁵ *Hansard* (HC), 30 January 1974, vol 349, col 365, <https://hansard.parliament.uk/Lords/1974-01-30/debates/a09ff511-ce4e-4040-8f5c-c1a693630133/CoalWasteTippingOnDurhamForeshore?highlight=coal%20tip%20sea#contribution-9abd503b-e30e-4229-b2ad-0eb9df66608> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹²⁶ 4R Group, "Mine Spoil: Lasting impacts of mining operations on the environment" (2018), <https://www.4r-group.co.uk/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021).

¹²⁷ Coal Authority, *Case Study: Taff Merthyr mine water treatment scheme* (2019) <https://www.gov.uk/government/case-studies/taff-merthyr-mine-water-treatment-scheme> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹²⁸ Uchod.

- 2.49 Mae tomennydd glo yn effeithio ar fwy na chysiau dŵr yn unig. Gall llwch o domennydd glo fod yn niweidiol i iechyd pobl hefyd, er enghraifft os yw'n cynnwys silica, a gall effeithio ar ansawdd pridd amgylchynol. Efallai bod yna elfennau gwenwynig yn gymysg â'r llwch.¹²⁹

YMLOSGIAD DIGYMELL

- 2.50 Gall tomennydd glo ymlosgi yn ddigymell ac aros ynghyn am flynyddoedd. Gall y tannau yma ddigwydd mewn tomennydd sydd wedi bod yn segur am ddegawdau. Gwyddir bod llwch glo yn niweidiol i iechyd; mae'r mygdarth o orsafoedd pŵer glo yn gysylltiedig ag asthma, canser, anhwylderau ar y galon a'r ysgyfaint, problemau niwrolegol, glaw asid, cynhesu byd eang ac effeithiau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd difrifol eraill.¹³⁰ Canfu astudiaeth o America bod tomennydd glo sydd yn llosgi yn allyrru sylffid hydrogen a bod sylffid ei hun yn ffurfio ar wyneb y domen sydd yn llosgi.¹³¹ Hefyd, mae sampl o wyneb tomennydd wedi canfod sylffwr deuocsid, carbon monocsid ac amonia. Hefyd, canfuwyd bod yr allyriadau yn amharu ar welededd, a bod hynny yn debygol o fod wedi effeithio ar iechyd cymunedau lleol.
- 2.51 Cyfeiriodd Richards et al at garbon monocsid, carbon deuocsid, sylffwr deuocsid a hydrogen sylffid fel nwyon a gynhyrchir gan domennydd glo sydd yn llosgi. Disgrifiwyd y nwyon yma fel rhai peryglus i iechyd a'u bod yn gallu teithio pellteroedd sylweddol gan fynd i mewn a chronni mewn adeiladau gerllaw gan roi preswylwyr neu ddefnyddwyr yr adeilad mewn perygl.¹³² Mae'r nwyon yn beryglus iawn, a gall cyswllt cynyddol â nhw achosi cur pen, annifyrrwch yn y trwyn a'r gwddf, llewyg a hyd yn oed marwolaeth.¹³³
- 2.52 Gall ymlosgiad hefyd achosi ymsuddiant ac mae ceudodau cudd yn cael eu ffurfio a gallai'r rhain wedyn ddymchwel yn sydyn.¹³⁴ Am y rheswm yma mae Richards et al yn awgrymu bod personél sy'n gweithio ar droed ar domen sy'n llosgi yn cael harneisiau a llinellau bywyd. Ond, nid yw ymlosgiad yn gwneud i domen fod yn ansefydlog bob amser, oherwydd gall ymasiad deunyddiau yn y domen gynyddu cryfder y deunydd.¹³⁵
- 2.53 Mae adeiladwaith a chyfansoddiad tomen yn effeithio ar debygolrwydd ymlosgiad. Mae tomennydd hŷn sydd wedi cael eu ffurfio gan dipio rhydd dros ymyl y domen yn arbennig o agored i ymlosgiad oherwydd bod y dull yma yn creu bylchau yn y domen

¹²⁹ Cyfarfod gyda'r Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter.

¹³⁰ Union of Concerned Scientists, *Coal and Air Pollution* (2008) (wedi'i ddiweddarau yn 2017), <https://www.ucsusa.org/resources/coal-and-air-pollution> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹³¹ V H Sussman and J J Mulhern, "Air Pollution from Coal Refuse Disposal Areas" (1964) *Journal of the Air Pollution Control Association* 279, <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/00022470.1964.10468282> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹³² I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 220.

¹³³ Uchod t 221.

¹³⁴ Uchod, t 220.

¹³⁵ Uchod, t 221.

sydd yn cynyddu argaeledd ocsigen.¹³⁶ Nid yw tomennydd haenau tenau yn debygol o ymlosgi.¹³⁷

2.54 Mae Richards et al yn rhestru'r ffactorau sydd yn cyfrannu at debygolrwydd ymlosgiad:

- (1) cyfansoddiad y gwastraff;
- (2) sut mae'r gwastraff wedi ei raddio;
- (3) cywasgiad y gwastraff;
- (4) y dull o ffurfio'r domen wastraff;
- (5) maint y domen wastraff;
- (6) a oes gan y domen wastraff wynebau serth sydd yn agored i'r gwynt;
- (7) a yw'r domen wastraff wedi cael ei chapio â deunydd dwys nad yw'n llosgadwy.¹³⁸

2.55 Mae presenoldeb pyrit yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymlosgi, ac mae glo o radd is yn fwy agored i hunan-gynhesu. Yn y gorffennol, mae hynny wedi achosi i bobl greu nad yw anthrasit, y glo o'r radd flaenaf, yn gallu ymlosgi'n ddigymell. Ond mae tystiolaeth gan Adran Iechyd Pennsylvania¹³⁹ ac o domen lo oedd yn cynnwys caran uchel o anthrasit yn Abertawe oedd ar dân am dair blynedd¹⁴⁰ wedi dangos nad yw hynny yn wir. Mae canran uchel o leithder yn y domen hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymlosgiad.¹⁴¹ Gall tomennydd gael eu tanio hefyd gan goelcerthi, ceblau trydan tanddaearol neu dannau gwair.¹⁴²

2.56 Er mwyn asesu pa mor debygol o ymlosgi yw tomen, asesir ei werth caloriffig (po uchaf yw'r gwerth caloriffig, y mwyaf tebygol ydyw o ymlosgi). Mae Richards et al yn egluro, "colliery spoil deposited in the nineteenth century and early twentieth century are likely to have higher calorific values ... because of their higher coal content."¹⁴³ Hefyd, o'i gymharu â gwastraff yn Yr Almaen, Sbaen a Ffrainc, roedd gan wastraff y

¹³⁶ Cyfarfod gyda'r Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter ac I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 214.

¹³⁷ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 186.

¹³⁸ Uchod t 217.

¹³⁹ V H Sussman and J J Mulhern, "Air Pollution from Coal Refuse Disposal Areas" (1964) *Journal of the Air Pollution Control Association* p 279 <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/00022470.1964.10468282> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁴⁰ *Anthony v The Coal Authority* [2005] EWHC 1654 (QB), [2006] Env L R 17.

¹⁴¹ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 219.

¹⁴² Uchod, t 219.

¹⁴³ Uchod, t 223.

DU werthoedd caloriffig uwch.¹⁴⁴ Mae hynny yn wir oherwydd bod gwythiennau glo yn y DU yn cynnwys cyfran uwch o lo dwysach o radd uwch na glo tir mawr Ewrop.

- 2.57 Mae yna wahanol ddulliau o drin tanau tomennydd glo, yn ddibynnol ar amgylchiadau'r domen a'r tân. Y dulliau yma yw tyllu, creu ffosydd, blancedu, a chwistrellu â growt. Mae trin tomennydd sydd yn llosgi yn waith peryglus, ac mae damweiniau marwol wedi digwydd.
- 2.58 Mae yna ymdrechion hanesyddol wedi bod i reoli tannau tomennydd glo. Cyflwynwyd y Bil Iechyd Cyhoeddus (Gwastraff Glofeydd) gerbron y Senedd yn 1938 mewn ymdrech i reoli'r tannau. Roedd yn Fil un cymal wedi ei eirio fel a ganlyn:

For the purposes of section ninety-two of the Public Health Act, 1936, an accumulation or deposit of refuse from a coal mine which is liable to spontaneous combustion shall be deemed to be an accumulation or deposit which is prejudicial to health or a nuisance and liable to be dealt with summarily in manner provided by that Act.¹⁴⁵

- 2.59 Roedd y Bil yn amcanu at sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gweithredu i ddiffodd tomennydd oedd yn llosgi. Ar y pryd roedd yna 226 o domennydd yn llosgi yng Nghymru a Lloegr, gan achosi niwsans difrifol i gymunedau lleol.¹⁴⁶ Yn y ddadl Seneddol, adroddodd John Parkinson AS (Wigan) hanes tomen yn llosgi pan oedd yn blentyn:

To my knowledge, that heap has been burning for at least 50 years, and I am not sure whether or not it is now extinct, but I remember when I was a boy seeing the same heap burning, and that is considerably over 50 years ago.¹⁴⁷

- 2.60 Disgrifiodd Archwilydd Iechyd Sir Durham effaith tanau tomennydd glo fel hyn:

In the course of burning pit heaps inquiries I have found conditions where food (e.g., the week-end joint) had to be cooked immediately to prevent its spoliation by fumes, where brassware and paintwork were badly attacked by the same cause, and even where windows had to be kept more or less permanently closed lest any veering of the wind should flood the premises with noxious vapours.¹⁴⁸

- 2.61 Hefyd effeithiwyd ar ysgolion a bu'n raid iddynt gadw eu drysau a'u ffenestri ynghau, neu byddai'r ysgolion yn llenwi â mygdarth. Roedd yna bryder ar y pryd hefyd y byddai'r tomennydd oedd yn llosgi yn effeithio at ymdrechion i dywyllu'r wlad yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

¹⁴⁴ Uchod, t 224.

¹⁴⁵ *Hansard* (HC), 25 November 1938, vol 341, col 2118, [https://hansard.parliament.uk/Commons/1938-11-25/debates/ab1744f4-0ce4-4968-90b0-a46d473bf453/PublicHealth\(CoalMineRefuse\)Bill](https://hansard.parliament.uk/Commons/1938-11-25/debates/ab1744f4-0ce4-4968-90b0-a46d473bf453/PublicHealth(CoalMineRefuse)Bill) (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁴⁶ *Hansard* (HC), 25 November 1938, vol 341, col 2120.

¹⁴⁷ *Hansard* (HC), 25 November 1938, vol 341, col 2181.

¹⁴⁸ *Hansard* (HC), 25 November 1938, vol 341, col 2121.

- 2.62 Gallai tanau tomennydd hefyd achosi i bobl golli eu bywydau. Tystiolaethir am hynny gan Mr Joshua Ritson AS (Durham) mewn trafodaeth am domennydd glo yn llosgi a ddigwyddodd yn Nhŷ'r Cyffredin yn 1936 yn ystod ymdrech gynharach i gyflwyno'r Bil.

Adults and children have lost their lives on these heaps. They are burning continually and no one really knows what happens. They are hollow inside, and in Durham within the last four or five years adults have been lost; they have dropped through the hollow slag-heaps while searching for coal or cinders for their fires.¹⁴⁹

- 2.63 Pasiwyd y Bil yn 1939 gyda diwygiadau. Diwygiwyd Adran 92 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 er mwyn darparu ar gyfer "an accumulation or deposit of refuse from a coal mine in respect of which there is reasonable cause to believe that spontaneous combustion is likely to occur shall be deemed to be an accumulation or deposit which is prejudicial to health or a nuisance". O dan y Ddeddf roedd crynodiad neu ddyddodiad oedd yn effeithio ar iechyd yn niwsans statudol, oedd yn galluogi i Awdurdodau Lleol roi hysbysiad atal i'r unigolyn oedd yn achosi'r niwsans, neu berchennog neu feddiannydd yr eiddo yr effeithiwyd arno, oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt atal y niwsans ac i wneud gwaith angenrheidiol at y diben hwnnw.¹⁵⁰

- 2.64 Ond er hynny parhau ddaru problem tanau digymell mewn tomennydd. Yn hanesyddol roedd hyn yn ddigwyddiad cyffredin iawn. Yn 1967 roedd y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn berchen ar 2000 o domennydd, a chofnodwyd bod 15% ohonynt wedi 'llosgi'n gyfan gwbl' a bod 50% yn 'llosgi'.¹⁵¹ Fel y byddwn yn nodi'n ddiweddarach, roedd Tomen 5 uwch ben Aberfan yn llosgi am nifer o flynyddoedd.¹⁵² Yn y ddadl am Fil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969¹⁵³ siaradodd Fred Evans AS (Caerffili) am domen a aeth ar dân yn ei etholaeth:

The Bill will receive a general welcome in the House. It will be particularly welcome in South Wales because of the topography of our valleys, with houses clustered around the collieries and the colliery tips either on the fringe of the built-up area on a precipitous slope or, in some cases, dumped in the middle of the built-up area, as in my own village which achieved television fame four years ago when the whole thing went to fire. For a couple of months on television we saw pictures of the green and red ten-foot-high flames which, standing above and looking down, reminded me of Dante's Inferno. In moments of wild imagination I sometimes dreamed that at the bottom I could see the shrivelled souls of the coal owners who originally put the stuff there. When this dreadful tip went afire in my own village, the content of lethal gas in

¹⁴⁹ *Hansard* (HC), 14 May 1936, vol 312, col 703, [https://hansard.parliament.uk/Commons/1936-05-14/debates/eb0c4688-1658-4d8b-bdbd-817637f4c34e/CoalMines\(RefuseHeaps\)?highlight=slag%20heaps#contribution-e2dae4f9-cae7-431f-af49-e6755d8a1a5d](https://hansard.parliament.uk/Commons/1936-05-14/debates/eb0c4688-1658-4d8b-bdbd-817637f4c34e/CoalMines(RefuseHeaps)?highlight=slag%20heaps#contribution-e2dae4f9-cae7-431f-af49-e6755d8a1a5d) (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁵⁰ Cafodd adrannau 92 a 93 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 eu diddymu gan Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990. Gweler paragraff 5.25 isod.

¹⁵¹ R K Taylor, "Colliery Spoil Heap Materials – Time Dependent Changes" (1974) 7 *Ground Engineering*, https://cdn.ca.emap.com/wp-content/uploads/sites/13/1974/07/1974-07_Pages_24-27.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁵² Gweler para 4.9 isod.

¹⁵³ Trafodir y Bil ym mharagraffau 4.12 i 4.29 isod.

the atmosphere was about 1,000 per cent. greater than the level necessary to kill. A section of the village had to be evacuated as a matter of emergency.¹⁵⁴

- 2.65 Mae nifer o danau o'r fath wedi digwydd. Parodd tân tanddaearol yn Yr Alban am 45 mlynedd, gan achosi ymsuddiant mewn adeiladau uwch ben a mygdarth gwenwynig.¹⁵⁵ Ym mis Tachwedd 1985, aeth tomen lo yng Nglofa Polkemmet ar dân, gan barhau i losgi tan o leiaf diwedd Ionawr 1986.¹⁵⁶ Roedd y mygdarth yn achosi cymaint o niwsans i'r gymuned leol fel y gofynnodd eu AS am ymweliad gweinidogol â'r domen.¹⁵⁷ Y dilyn yr ymweliad adroddodd y gweinidog i'r Senedd ei fod wedi cael sicrwydd gan NCB a'r awdurdod lleol bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i adfer y sefyllfa. Ymatebodd yr AS lleol, Syr Thomas Dalyell, fel hyn:

I thank the Minister publicly, as I have privately, for making the detour there. Will he give this copper piping that I am holding, which I was given yesterday by a constituent, Mr. Alec Gibson, to his analysts, because if the sulphur emissions do that to copper, what do they do to the guts and intestines of my constituents? Will he provide resources for continuous 24-hour work to rectify this desperate problem? I saw the Bing¹⁵⁸ yet again yesterday, and it is a serious health hazard.¹⁵⁹

- 2.66 Aeth tomen lo yn Abertawe ar dân yn 1966 gan losgi am dros dair blynedd nes i'r awdurdod lleol ei ddiffodd am gost o £1 miliwn. Daethpwyd ag achos yn erbyn yr Awdurdod Glo gan drigolion yr effeithiwyd arnynt gan y mygdarth.¹⁶⁰ Dyfarnwyd bod y tân wedi cael ei achosi gan ymlosgiad digymell ac nid, fel yr honnwyd gan yr Awdurdod Glo, gan blant yn ei roi ar dân. Dyfarnwyd hefyd bod yr Awdurdod Glo yn atebol, er bod y domen wedi cael ei gwerthu gan y British Coal Corporation flynyddoedd ynghynt ac nad oedd yr Awdurdod Glo erioed wedi bod yn berchen arni. Roedd y dyfarniad yn trafod tanau mewn tomennydd glo gerllaw yng nglofeydd Garngoch, Broadoak, Caeduke, Mountain a Morlais. Roedd yna hefyd dystiolaeth o gynhesu yn y domen ei hun am flynyddoedd cyn iddi fynd ar dân, yn ogystal â'r tomennydd cyfagos a gwastraff tanddaearol. Llosgodd tân tomen lo danddaearol yn

¹⁵⁴ *Hansard* (HC), 7 November 1968, vol 772, col 1159, [https://hansard.parliament.uk/Commons/1968-11-07/debates/c1ce43ba-6c55-4d71-a319-f0a0796daaa8/MinesAndQuarries\(Tips\)Bill?highlight=coal%20tip#contribution-d098fc37-a2dc-40f3-9fb2-05581eaefe2d](https://hansard.parliament.uk/Commons/1968-11-07/debates/c1ce43ba-6c55-4d71-a319-f0a0796daaa8/MinesAndQuarries(Tips)Bill?highlight=coal%20tip#contribution-d098fc37-a2dc-40f3-9fb2-05581eaefe2d) (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁵⁵ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 215.

¹⁵⁶ *Hansard* (HC), 13 November 1985, vol 86, col 551, <https://hansard.parliament.uk/Commons/1985-11-13/debates/6c72868b-643a-4f04-b5eb-59aa578e204d/PolkemmetBing?highlight=polkemmet%20bing#contribution-5860c56a-eb34-43da-b2ee-ec86b218317a> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁵⁷ *Hansard* (HC), 25 November 1985, vol 87, col 597, <https://hansard.parliament.uk/Commons/1985-11-25/debates/5a731fbd-4105-453e-8710-cb9d8de7b106/CoalIndustry?highlight=polkemmet%20bing#contribution-85db5e2c-ac49-4719-b06a-fe7f5d4fe593> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁵⁸ Mae Bing yn air arall am 'domen'.

¹⁵⁹ *Hansard* (HC), 16 December 1985, vol 89, col 3, [https://hansard.parliament.uk/Commons/1985-12-16/debates/eab7532a-2e02-4783-a996-33c37bfe445f/PolkemmetBing\(MinisterialVisit\)?highlight=polkemmet%20bing#contribution-09d3dab1-bbe7-4b25-987a-77ba6a1cb117](https://hansard.parliament.uk/Commons/1985-12-16/debates/eab7532a-2e02-4783-a996-33c37bfe445f/PolkemmetBing(MinisterialVisit)?highlight=polkemmet%20bing#contribution-09d3dab1-bbe7-4b25-987a-77ba6a1cb117) (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁶⁰ *Anthony v The Coal Authority* [2005] EWHC 1654 (QB), [2006] Env L R 17.

Keele am 13 o flynyddoedd nes y cafodd ei ddiffodd yn 2018, oedd yn golygu cau ffordd am saith mis.¹⁶¹

- 2.67 Gall y tanau ddigwydd nifer o flynyddoedd ar ôl i'r tomennydd gael eu gadael. Er enghraifft, dechreuodd tân mewn gwastraff tanddaearol yn 2015 mewn mwynglawdd a adawyd yn 1966.¹⁶² Roedd yn dal i losgi yn 2020.¹⁶³ Wnaeth tomen lo agos at Gwm Ogwr llosgi am flynyddoedd.¹⁶⁴
- 2.68 Mae tomennydd a ffurfiwyd yn fwy diweddar yn llai tebygol o ymlosgi na thomennydd hŷn, oherwydd bod y dull o adeiladu tomennydd wedi newid, sydd yn golygu bod y gwastraff yn cael ei gywasgu cyn ei dipio.

ADFER AC ADENNILL TOMENNYDD

- 2.69 Mae'r gwaith o adfer tomennydd yn amcanu at sicrhau diogelwch y tomennydd. Mae Richards et al yn categoreiddio mesurau adfer i:
- (1) Gwaith rhagofaol: lle mae dadansoddiad sefydlogrwydd yn dynodi y gallai tomen fod yn ansefydlog, neu lle mae nodweddion a welir ar safle yn awgrymu y gallai ddymchwel.¹⁶⁵
 - (2) Gwaith adfer: lle mae'r domen wedi llithro neu fod symudiadau yn awgrymu fod y domen yn ansefydlog.¹⁶⁶
 - (3) Gwaith cynnal a chadw: sydd yn ofynnol ar gyfer pob tomen. Enghraifft o hynny yw cynnal a chadw systemau draenio neu lystyfiant.¹⁶⁷
- 2.70 Mae Richards et al yn egluro y gellid cyflawni'r gwaith rhagofaol neu adferol canlynol er mwyn gwella neu adfer y sefydlogrwydd:¹⁶⁸

¹⁶¹ BBC News, *Keele underground fire to be extinguished after 13 years* (2018), <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-stoke-staffordshire-45353666> (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mawrth 2021).

¹⁶² A Hawken, "Underground fire still burning more than a year after it was found in a disused mine and experts have no idea when it will stop" (2016) *Mail Online*, <https://www.dailymail.co.uk/news/article-3565312/Underground-fire-burning-YEAR-disused-experts-no-idea-stop.html> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

¹⁶³ H Sodan, "Underground fire in old mine workings still burning five years after it was discovered" (2020) *Northern Echo* <https://www.thenorthernecho.co.uk/news/local/northdurham/18136221.underground-fire-old-mine-workings-still-burning-five-years-discovered/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

¹⁶⁴ Penllwyngwent Colliery, Wyndam, Pen y Bont ar Ogwr, <https://www.mindat.org/loc-11750.html>.

¹⁶⁵ I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (1993) p 200.

¹⁶⁶ Uchod, t 201.

¹⁶⁷ Uchod, t 205.

¹⁶⁸ Uchod, t 203.

- Creu ysgafell¹⁶⁹ un ran o dair neu hanner ffordd i fyny'r llethr er mwyn cynyddu'r grymoedd ymwrthedd;
- Gostwng uchder y domen;
- Lleihau graddfa'r llethr drwy osod deunydd newydd
- Gostwng y ddyfrhaen yn y domen drwy wella'r system ddraenio bresennol neu osod system ddraenio ddofn drwy ddefnyddio ffynhonnau rhyddhau neu ddraeniau hidlo wedi eu tyllu;
- Adeiladu wal gynnal, neu osod polion dalennog ar flaen y domen. Yn achos polion dalennog, dylid ystyried effeithiau niweidiol posibl hyrddio polion ar sefydlogrwydd y domen;
- Atal erydiad wyneb drwy ddefnyddio llystyfiant.

2.71 Mae'r hyn sydd yn ofynnol ym mhob achos yn ddibynnol ar ddealltwriaeth o'r domen unigol. Nid oes yna ateb unffurf.¹⁷⁰ Eglurwyd i ni mai'r peth pwysicaf un yw rheoli dŵr wyneb a dŵr wyneb ffo. Cyn belled â phosibl, mae'n bwysig ceisio atal dŵr rhag mynd i mewn i'r domen drwy ddefnyddio sianeli dargyfeirio neu sianeli dŵr blaenoriaethol. Mae datblygu sianeli llif drwy'r deunydd yn fwy effeithiol na strwythur concrid. Hefyd, mae'n bwysig rheoli pwysedd dŵr tir. Hefyd, efallai y bydd angen ail-broffilio neu ddefnyddio byndiau. Mae gwaith adfer yn hierarchaeth ddylai gael ei seilio ar broffil risg y domen - gwaredu, ail-broffilio, sefydlogi.¹⁷¹

2.72 Mae amcanion adennill neu ailfodelu tirffurf yn wahanol i amcanion gwaith adfer. Amcanion ailfodelu tirffurf yw sicrhau:¹⁷²

- (1) Bod y tir yn ddiogel;
- (2) Bod modd defnyddio'r tir;
- (3) Y gellir rheoli'r tir yn economaidd;
- (4) Bod ansawdd yr amgylchedd lleol yn cael ei wella;
- (5) Bod adfywiad economaidd yn cael ei gyflymu drwy greu tirffurfiau newydd all gynnal datblygiad newydd penodol.

¹⁶⁹ Mae hwn yn rhwystr wedi'i beiriannu sydd yn cynnwys silff lorweddol wedi'i ffurfio ran o'r ffordd i fyny llethr tomen er mwyn gwella sefydlogrwydd.

¹⁷⁰ Yr Athro Karen Hudson-Edwards, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter.

¹⁷¹ Cyfarfod gyda'r Athro Patrick Foster a'r Athro John Coggan, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter. Gweler paragraff 8.25 isod ar gyfer hierarchaeth yr opsiynau adfer a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Glo.

¹⁷² I G Richards, J P Palmer and P A Barratt, *The Reclamation of Former Coal Mines and Steelworks* (Elsevier 1993) p 427.

- 2.73 Enghraifft dda o gynllun adennill tir oedd y gwaith a wnaethpwyd yn y 1970au er mwyn adennill cwm Blaenau a Nant y Glo yn Ne Cymru.¹⁷³ Roedd gan y cwm waith dur a phyllau glo, a chaewyd y pwll glo olaf yn 1975. Roedd yno nifer o byllau slyri a thomennydd glo mawr. Roedd yno ddwy domen fawr ansefydlog ar ochr y bryn oedd yn uniongyrchol uwch ben tai. Gwareddwyd un o'r tomennydd ac fe'i defnyddiwyd i godi llawr y cwm. Cafodd gweddill y tomennydd eu sefydlogi, eu hail-raddio a phlannwyd llystyfiant arnynt. Drwy hynny, darparwyd 67.5 hectar o dir a adennillwyd ar gyfer amwynder, pori, tai a defnydd diwydiannol. Cost y cynllun oedd £7.25 miliwn.

¹⁷³ Uchod, t 587.

Pennod 3: Mapio tomennydd glo Cymru: statws gweithgaredd, perchnogaeth a chategorïau risg

- 3.1 Mae ffigurau dros dro yn dangos bod yna 2,144 o domennydd glo wedi eu nodi yng Nghymru. Mae ychydig mwy na 70% o'r tomennydd, cyfanswm o 1574, ar dir preifat, neu dir â pherchnogaeth anhysbys. Mae awdurdodau lleol yn berchen ar 354 (17%) o'r tomennydd, ac mae 183 yn cael eu rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (9%). Mae'r Awdurdod Glo yn berchen ar 33 o domennydd (2%).¹⁷⁴
- 3.2 Bydd y bennod hon yn darparu proffil o'r tomennydd hynny. Bydd yn ystyried i ba raddau y mae tomennydd yn anweithredol, eu categori perchnogaeth, a'u gwasgariad ledled yr awdurdodau lleol a chategorïau risg.

GLOFEYDD GWEITHREDOL

- 3.3 Ychydig iawn o domennydd glo yng Nghymru erbyn heddiw sydd yn gysylltiedig â phyllau glo gweithredol. Mae yna nifer fechan o lofeydd brig gweithredol ar ôl yng Nghymru, mewn tri safle yn Ne Cymru, a dau bwl glo sy'n cael eu categoreiddio fel rhai dwfn.
- 3.4 Mae pob mwynglawdd gweithredol angen trwydded gan yr Awdurdod Glo a roddir o dan Ddeddf y Diwydiant Glo 1994; mae amrywio trwydded o ran amser neu le angen cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Glo hefyd. O dan adran 26A Deddf 1994, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw drwydded newydd neu amrywedig cyn iddi ddod i rym. Y weithdrefn yw bod gweithredwyr mwyngloddiau yn cael trwydded yr Awdurdod Glo ac unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol yn ogystal â chymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.
- 3.5 Mae gan Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Glo feini prawf arwyddocaol wahanol ar gyfer cymeradwyo trwydded. Mae gan yr Awdurdod Glo ddyletswydd o dan Ddeddf 1994 i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu er mwyn sicrhau diwydiant cloddio glo ym Mhrydain Fawr sy'n hyfyw yn economaidd.¹⁷⁵ I'r gwrthwyneb, polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi parhau i echdynnu glo. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi tanwydd ffosil ar waelod yr hierarchaeth ynni ac nid yw'n caniatáu mwyngloddio glo ar gyfer cynhyrchu ynni. Gellir echdynnu glo at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag ynni, megis cynhyrchu dur a sment, ac ar gyfer hidlo dŵr.¹⁷⁶

¹⁷⁴ Ffigurau wedi'u darparu gan Llywodraeth Cymru. Ni fydd ffigurau terfynol ar gael tan hydref 2021. Gweler paragraffau 3.42 a 3.43 isod.

¹⁷⁵ Deddf y Diwydiant Glo 1994, a 2(1)(a).

¹⁷⁶ Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn nodi'r targedau newydd a amlinellwyd gan y Gweinidog yn 2016, sef bod 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru yn dod o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn darparu rhagdybiaeth gref yn erbyn mwyngloddio glo, ac eithrio dan amgylchiadau cwbl eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei ymateb i ymgynghoriad ar bolisi glo: <https://gov.wales/coal-policy-statement> and <https://gov.wales/coal-policy-wales> (cyrchwyd ddiwethaf ar 25 Mawrth 2021). Mae hynny yn nodi nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu awdurdodi trwyddedau mwyngloddio newydd gan yr Awdurdod Glo nac amrywiadau i drwyddedau sydd yn bodoli. Mae'r datganiad

- 3.6 Nid yw creu nifer sylweddol o byllau glo newydd yng Nghymru nac ehangu'n sylweddol yr ychydig o byllau sydd yn dal yn weithredol yn y dyfodol yn debygol o gwbl. Dim ond dau fwynglawdd tanddaearol sydd yn weithredol, ac mae un ohonynt yn cynhyrchu swm cymharol fychan o wastraff. Mae mwyngloddiau cast agored yn cynhyrchu llawer iawn o wastraff, ond yn gyffredinol mae'n amod yn y caniatâd cynllunio bod y gwastraff yn cael ei ddychwelyd i'r gwagle ar ôl cwblhau'r gwaith cloddio.¹⁷⁷
- 3.7 Mae trwydded mwyngloddio yn benodol ar gyfer y weithred fwyngloddio ac nid yw ynddo ei hun yn awdurdodi creu tomennydd glo; mae'r rhain yn cael eu rheoleiddio gan reolaeth cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol a roddir gan CNC, sydd yn ymwneud â materion megis gwastraff a draenio.¹⁷⁸ Fel mater cysylltiedig â rheolaeth cynllunio, mae rhwymedigaethau a nodir mewn cytundeb adran 106 sy'n benodol ar gyfer y safle a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys materion megis gwaith adfer ac ôl-ofal ar ôl cwblhau'r gweithredoedd mwyngloddio, y gost gytunedig a'r ddarpariaeth i'r gweithredwr dalu i gronfa adfer yn y dyfodol a ddelir gan yr awdurdod cynllunio mewn ysgrow yn ystod oes y mwynglawdd. Defnyddir y cronfeydd yma ar ôl cwblhau'r gweithredoedd mwyngloddio er mwyn talu am ôl-ofal y mwynglawdd.
- 3.8 Gall gwaith adfer gofynnol ar ôl cau glofa brig gynnwys gofyniad i roi'r gwastraff yn ôl yn y gwagle cloddio pan ddaw gweithgareddau mwyngloddio i ben.¹⁷⁹ Gall gweithredwyr mwyngloddio wneud cais am ganiatâd i storio deunyddiau a echdynnwyd mewn tomen uwch ben y gwagle yn barhaol, sydd yn ddewis rhatach na symud y deunydd yn ôl i'r gwagle.¹⁸⁰

Glofeydd gweithredol yng Nghymru

- 3.9 Ar hyn o bryd mae yna bum glofa, â thomennydd glo cysylltiedig, yn gweithredu dan drwydded yng Nghymru. Dim ond tri sy'n cynhyrchu glo ar hyn o bryd.¹⁸¹

yn cydnabod y bydd angen trwyddedau glo efallai dan amgylchiadau cwbl eithriadol, a byddir yn penderfynu ar bob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun, ond bydd y rhagdybiaeth bob amser yn erbyn echdynnu glo.

¹⁷⁷ . Os mae glofeydd brig yn weithredol, mae wedi'i ddiffinio fel chwarel dan y Rheoliadau Chwareli 1999. Gweler paragraff 4.47 isod. Pan fo'r deunydd hwn yn cael ei ddychwelyd i'r gwagle a gloddiwyd, nid yw'n cael ei drin fel gwastraff a echdynnwyd y mae angen trwydded ar ei gyfer o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Yn hytrach, mae Datganiad Mwynau Echdynnol yn cadarnhau sut y byddir yn rheoli'r deunyddiau. Gweler Environment Agency, *Position Statement, Regulatory Framework for the implementation of the Mining Waste Directive* (2010), https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328135419/http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Research/PS019-MWD_Regulatory_Framework.pdf (last visited 15 March 2021) a Natural Resources Wales, *Mining Waste: Do you need to apply for a permit?*, <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/waste-permitting/apply-for-a-waste-permit/mining-waste/?lang=en> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021). Gweler pennod 5 isod ar gyfer trafodaeth o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

¹⁷⁸ Gweler pennod 5.

¹⁷⁹ Cyfarfod gyda Colin Mew, Archwilydd Chwareli EM.

¹⁸⁰ Dyma ddigwyddodd yn Nant Helen. Gweler isod para 3.9(5).

¹⁸¹ Gwybodaeth gan Jennifer Pride a Richard Griffiths, Adran Ynni, Yr Adran dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru.

- (1) Mae Aberpergwm yn lofa ddrifft y ceir mynediad iddi drwy ochr y mynydd. Mae'n cynhyrchu swm sylweddol o wastraff a ddyddodir mewn tomennydd. Amcangyfrifir bod gan y mwynglawdd 42 miliwn tonnall o lo ar ôl, ac mae'r drwydded mwyngloddio yn para tan 2097. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwy o lo yn 2018; mae cytundeb adran 106 yn darparu ar gyfer gwarant adfer ariannol er mwyn sicrhau gwaith adfer ac ôl-ofal ar y safle.¹⁸²
- (2) Mae Dan y Graig yn lofa danddaearol fechan iawn. Daeth y drwydded mwyngloddio bresennol i ben ym mis Mawrth 2021. Byddai angen gwneud cais ar gyfer unrhyw estyniad i'r Awdurdod Glo, a byddai'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru...
- (3) Mae Ffos y Fran yn brosiect adennill sydd yn gysylltiedig â hen lofa brig fawr iawn, sydd wedi gadael gwagle mawr sydd yn cynnwys gwastraff. Mae glo yn cael ei adfer o'r gwastraff fel rhan o'r gwaith o adfer yr ardal. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm o tua 11 miliwn tonnall yn cael ei echdynnu yn ystod y cynllun adennill.¹⁸³ Mae'r gwaith yn cael ei wneud dan drwydded a roddwyd yn 1994 gan yr Awdurdod Glo sydd yn para tan ddiwedd y ganrif bresennol, ond daw'r caniatâd cynllunio i ben yn 2022 ac mae'r gwaith yn agos at ddod i ben.
- (4) Mae Glan Lash yn lofa brig sydd yn ddiweddar wedi cwblhau ei waith mwyngloddio presennol. Nawr mae'n gofyn am ganiatâd i echdynnu 110,000 tonnall arall o lo. Bydd yr echdynnu yn golygu creu tomennydd, ond mae natur y lofa yn golygu na fydd y tomennydd yn fawr. Mynegir mai prif bwrpas yr echdynnu bydd hidlo dŵr yn hytrach na thanwydd. Hyd yma ni roddwyd caniatâd cynllunio. Bydd angen trwydded mwyngloddio glo newydd ar gyfer unrhyw estyniad o ran amser neu le.
- (5) Mae Nant Helen yn lofa brig sydd yn dal yn weithredol sydd wedi cyrraedd y pwynt o bontio i waith adfer. Cafodd cymeradwyaeth i estyniad trwydded a ganiatawyd gan yr Awdurdod Glo ei wrthod gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2020, ond yna fe'i cymeradwywyd yn Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i'r mwynglawdd gael ei gau yn ddiogel ac i bontio at waith adfer. Mae ganddo domennydd mawr sydd yn gynwysedig dan drwyddedau amgylcheddol. O dan delerau'r caniatadau cynllunio ar gyfer y lofa, bydd y tomennydd yma yn aros yn eu lle; mae'r gwaith adfer yn canolbwyntio'n bennaf ar wagle'r lofa. Mae gan y lofa gronfa adfer a darpariaeth ar gyfer cyfnod ôl-ofal o ddeng mlynedd. Ar ôl adfer y safle, mae'r cyfnod ôl-ofal yn sicrhau bod y tir yn cyrraedd y safon sydd yn ofynnol ar gyfer yr ôl-ddefnydd a fwriedir. Yn achos Nant Helen, bydd hynny yn cynnwys rhaglen o weithgareddau a monitro er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor y gwaith adfer, yn cynnwys monitro cyflwr llystyfiant, strwythur pridd a draenio er mwyn cyrraedd y safonau sydd yn ofynnol ar gyfer tir amaethyddol, cadwraeth ac adfer coetir.

¹⁸² Welsh Government, *Coal Extraction in Wales: The Existing Impact Evidence*, (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-06/wardell-armstrong-coal-extraction-impact-report.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

¹⁸³ Merthyr (South Wales) Ltd, *Ffos-y-fran: The project*, <https://www.merthyrsw.com/projects/ffos-y-fran/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

GLOFEYDD ANWEITHREDOL

- 3.10 Wrth i lofeydd gau, mae tomennydd wedi dod yn anweithredol. Mae patrwm perchnogaeth y tomennydd yma yn adlewyrchu hanes y diwydiant glo. Mae rhan hon y bennod yn edrych ar sut y datblygodd y patrwm perchnogaeth; mae'r rhan nesaf yn defnyddio gwaith y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo er mwyn cofnodi perchnogaeth tomennydd yn fanylach ledled awdurdodau lleol a'u dosbarthiadau risg. Yn olaf, byddwn yn trafod y problemau sydd wedi codi ynghylch gorfodi gwaith adfer mewn glofeydd sydd wedi cau.

Perchnogaeth ar domennydd glo anweithredol

- 3.11 Mae tair set o ddigwyddiadau - cenedlaetholi, ac yna preifateiddio'r diwydiant glo, a'r dirywiad mawr mewn gweithgaredd mwyngloddio glo yn yr hanner canrif diwethaf - wedi effeithio'n fawr iawn ar broffil perchnogaeth tomennydd glo yng Nghymru. Mae'r rhan hon y bennod hon yn trafod hyn â pheth manylder, gan ddechrau gyda gwaddol gynharach tipio oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd mwyngloddio cyn-ddiwydiannol.

Mwyngloddio cynnar

- 3.12 Roedd rhai tomennydd hyn oedd yn gysylltiedig â glofeydd eisoes yn anweithredol pan y'u cenedlaetholwyd. Ni ddaeth gweithfeydd mwyngloddio a'r tomennydd cysylltiedig oedd eisoes wedi eu gadael ar adeg cenedlaetholi'r diwydiant glo i berchnogaeth y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Yn nodweddiadol roeddent wedi cael eu gweithio gan weithredwyr mwyngloddio preifat drwy gydol y canrifoedd cyn cenedlaetholi; mae nifer o'r tomennydd yn fychan iawn, gan adlewyrchu dyddiau cynnar mwyngloddio glo, a ddechreuodd drwy echdynnu dyddodiadau hygyrch iawn gan gymunedau lleol - ar y dechrau cyn y diwydiant haearn oedd yn esblygu, ac yna yn gyfochrog â hynny.¹⁸⁴ Gellir eu canfod ar dir o dan unrhyw fath o berchnogaeth.

Newidiadau i berchnogaeth glofeydd a thomennydd o ganlyniad i genedlaetholi a phreifateiddio'r diwydiant glo

- 3.13 Y prif ddylanwadau diweddar ar berchnogaeth tomennydd fu cenedlaetholi ac yna preifateiddio'r diwydiant glo ym Mhrydain Fawr, neu ddylanwadau'n gysylltiedig â hynny.

Cenedlaetholi

- 3.14 Fel y nodwyd ym mhennod 1, roedd cenedlaetholi'r diwydiant glo yn y 1940au yn golygu y trosglwyddwyd y diwydiant glo i berchnogaeth a rheolaeth gyhoeddus ac arweiniodd hynny at greu'r Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB), y gorfforaeth statudol a grëwyd i redeg y diwydiant a genedlaetholwyd.¹⁸⁵

Ar ôl cenedlaetholi roedd NCB yn berchen ar bron i fil o lofeydd, gan gynnwys eu tomennydd cysylltiedig, yn ogystal â 250,000 acer o dir ffermio a 140,000 o dai, ac roedd yn gyfrifol am

¹⁸⁴ Gweler paragraffau 1.10 a 1.11 uchod.

¹⁸⁵ Gweler paragraff 1.14 uchod.

nifer o weithgareddau ategol.¹⁸⁶ Yn 1987, ailenwyd y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn Gorfforaeth Glo Prydain, a elwid ar lafar gwlad yn Glo Prydain.

- 3.15 Dilynwyd cenedlaetholi gan broses gyflym o gau glofeydd. Caewyd tua 767 o lofeydd rhwng 1947 a 1983. Ar ôl cau'r mwyngloddiau, roedd yn bosibl newid perchnogaeth ar y cloddfeydd segur a'r domen segur.

Preifateiddio

- 3.16 Preifateiddiodd Deddf Diwydiant Glo 1994 asedau economaidd y diwydiant glo, oedd erbyn hynny wedi crebachu llawer, ac eithrio glo oedd heb ei weithio. O dan Ddeddf 1994 gwerthwyd y tir oedd yn eiddo i Glo Prydain. Gwaredwyd peth o'r tir yn uniongyrchol gan Glo Prydain. Gwaredwyd ei holl fuddiannau eiddo eraill drwy Gynlluniau Ailstrwythuro a luniwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn unol ac adran 12 y Ddeddf.¹⁸⁷ Roedd y Cynlluniau yn delio â'r mathau canlynol o eiddo:
- (1) Tir gweithredol cysylltiedig â glofeydd gweithredol neu safleoedd glo brig (naill ai'n weithredol neu'n arfaethedig). Roedd yna o leiaf dau Gynllun o'r fath.
 - (2) Safleoedd atebolrwydd a thri na allai Glo Prydain werthu ei hun cyn 20 Rhagfyr 1997.¹⁸⁸ Trosglwyddwyd y tir yma i'r Awdurdod Glo. Bu deg cynllun o'r fath, yn cynnwys tir yn Yr Alban.
 - (3) Safleoedd glofeydd anweithredol. Trosglwyddwyd nifer o safleoedd anweithredol yn Lloegr o dan Gynllun i'r Asiantaeth Adfer Trefol, a elwid yn English Partnerships.
 - (4) Trosglwyddwyd tir hamdden o dan Gynllun i Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo, oedd yn elusen ledled y DU oedd yn darparu cymorth i gyn lowyr a'u teuluoedd.
 - (5) Trosglwyddwyd Gorsafoedd Achub ar 31 Mawrth 1996 i'r Coal Mines Rescue Stations Company, cwmni cyfyngedig drwy warant a sefydlwyd gan y cwmnïau mwyngloddio glo oedd newydd gael eu preifateiddio at ddibenion ymgymryd â gweithgareddau'r Gwasanaeth Achub Mwyngloddiau, a ymgwymerwyd yn flaenorol gan Glo Prydain.
- 3.17 Daeth y Cynllun cyntaf i drosglwyddo'r Awdurdod Glo i rym ar 31 Rhagfyr 1994. Trosglwyddodd y seithfed Cynllun o'r fath yr Awdurdod Glo (gydag eithriadau cyfyngedig iawn) weddill tir a buddiannau eiddo Glo Prydain yn gyfan gwbl ar 20 Rhagfyr 1997. Yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 1994 a Rhagfyr 1997, ymgwymerodd Glo Prydain â rhaglen o waredu ei dir a gadwyd a'i fuddiannau eiddo nad oeddent yn

¹⁸⁶ Gweler Department of Energy and Climate Change, *Appraisal report relating to the records of the former National Coal Board*, 2014. <https://www.nationalarchives.gov.uk/documents/information-management/british-coal-corporation-appraisal-report.pdf>

¹⁸⁷ Gwybodaeth gan Clare Wasteney, Pennaeth Cyfreithiol a Llywodraethiant, yr Awdurdod Glo.

¹⁸⁸ O dan a 12(6) Deddf Diwydiant Glo 1994, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, pan fo rhwymedigaethau yn cael eu trosglwyddo, ystyried gallu'r prynwr i ariannu eu cyflawniadau. Pan fo cost gwaith adfer ar domen lo yn debygol o fod yn uchel iawn, byddai'r tir wedi bod yn anodd iawn neu yn amhosibl ei werthu.

gynwysedig mewn unrhyw Cynlluniau Ailstrwythuro. Roedd rhai o'r gwerthiannau hynny i grwpiau cymunedol neu sefydliadau eraill. Gwerthwyd rhai safleoedd, er enghraifft, ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt.¹⁸⁹ Cadwyd y safleoedd na ellid eu gwerthu gan yr Awdurdod Glo. Roedd y rhain yn cynnwys safleoedd tomennydd problemus, a hynny sydd yn gyfrifol am berchnogaeth bresennol yr Awdurdod Glo ar y tomennydd hynny.

- 3.18 Cyfrifwyd cost cynnal a chadw'r tomennydd ar adeg eu gwerthu, ac mewn rhai achosion rhoddodd Glo Prydain symiau o arian i brynwyr er mwyn cyfrannu at gostau rheoli'r tomennydd. Pan fo'r cyfrifiad o'r cyfraniad yn uwch na'r hyn allai Glo Prydain ei fforddio, roedd Glo Prydain, ac yna yr Awdurdod Glo yn cadw perchnogaeth.¹⁹⁰
- 3.19 Cynhyrchodd Glo Prydain becyn gwybodaeth ar gyfer pob gwerthiant oedd yn cynnwys dyfyniadau o'r Cynlluniau Ailstrwythuro perthnasol, copïau o weithredoedd hawliau tanddaearol perthnasol a Nodyn Esboniadol. Darparwyd yr wybodaeth hon gyda'r bwriad y byddai'n cael ei throsglwyddo i unrhyw dirfeddiannwr dilynol.
- 3.20 Gosodwyd cyfamodau ar brynwyr gan NCB, ac yna Glo Prydain, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau mewn perthynas ag adfer tomennydd. Roedd yr Awdurdod Glo, fel olynydd mewn teitl i NCB a Glo Prydain, yn barti i'r trosglwyddiadau hynny, er mwyn derbyn buddion cyfamodau wrth drosglwyddo teitl ac er mwyn sicrhau y byddai nid yn unig y perchennog newydd, ond eu holynwyr hefyd, yn rhwymedig gan y cyfamodau o blaid yr Awdurdod Glo i gydymffurfio gyda'r darpariaethau ar gyfer adfer tomennydd.
- 3.21 Pan fo tomennydd yn dal ar y tir, byddai gwaredu'r tir i barti arall fel arfer yn cynnwys cyfamod i'r perchennog newydd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â thomennydd ar yr adeg honno neu unrhyw ymddeddfu/ deddfwriaeth yn y dyfodol.¹⁹¹ Byddai'n arferiad creu rhwymedigaeth yn y gwarediad i unrhyw berchennog yn y dyfodol ddarparu gweithred cyfamod i'r Awdurdod Glo fyddai'n indemnio'r Awdurdod Glo am unrhyw achos o dorri rheoliadau mewn perthynas â thomennydd.
- 3.22 Pan fo'r tir yn cael ei adfer ac mae'r awdurdod lleol yn darparu llythyr rhyddhau, neu pan fo darpariaethau tomennydd wedi cael eu cynnwys yn y gwarediad drwy gamgymeriad, oherwydd nad oes tomennydd ar y tir, gall yr Awdurdod Glo waredu'r darpariaethau tomennydd.¹⁹²
- 3.23 Pan fo tomen wedi cael ei throsglwyddo gan Glo Prydain i berchnogaeth trydydd parti yn ystod y cyfnod ailstrwythuro, nid oes gan yr Awdurdod Glo ddyletswyddau fel

¹⁸⁹ Cyfarfod gyda Stephen Smith a Howard Siddle, aelodau o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo

¹⁹⁰ Paul Maliphant, aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo.

¹⁹¹ Petai tomennydd yn dal ar y tir a drosglwyddwyd, arferiad yr Awdurdod Glo oedd cynnwys dolen i'w canllawiau ynghylch gofynion cyfreithiol: <https://www.gov.uk/guidance/coal-mining-title-deed-covenants-and-legal-requirements> (Clare Wastenev, Pennaeth Cyfreithiol a Llywodraethiant, yr Awdurdod Glo).

¹⁹² Fel arfer mae'r wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn deillio o amodau cynllunio. Bydd yr Awdurdod Glo hefyd yn gofyn am adroddiad mwynloddio er mwyn delio ag unrhyw nodwedd mwynloddio sydd yn dal i fodoli ar y tir. Os bydd tomen wedi cael ei hadfer, bydd y llythyr yn cynnwys tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd (Clare Wastenev, Pennaeth Cyfreithiol a Llywodraethiant, yr Awdurdod Glo).

perchennog i gynnal y domen, ond fel olynydd i Glo Prydain, mae'n atebol am rwymedigaethau Glo Prydain sydd yn deillio o'i berchnogaeth blaenorol.¹⁹³

Tomennydd sy'n eiddo i'r Awdurdod Glo

- 3.24 Mae atebolrwydd y perchennog am y tomennydd a drosglwyddwyd i'r Awdurdod Glo o dan y Cynlluniau Ailstrwythuro yn parhau. Mae'r Awdurdod Glo yn dal i fod yn berchen ar 40 o domennydd glo ledled y DU, ac mae 33 ohonynt yng Nghymru. Mae ei swyddogaethau yn cynnwys archwilio a rheoli tomennydd y mae'n gyfrifol amdanynt fel perchennog. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu "gwasanaethau ymgynghori" ar gyfer archwilio a rheoli tomennydd nad yw'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt; er enghraifft, mae CNC wedi contractio'r Awdurdod Glo i ddarparu gwasanaethau archwilio a chynnal a chadw ar gyfer y tomennydd glo ar eu tir.¹⁹⁴ Os bydd yr Awdurdod Glo yn gwaredu tomen, bydd atebolrwydd posibl i gyfrannu at gost gwaith adfer yn parhau am 12 mlynedd o'r dyddiad gwaredu o dan adran 19(1) (a) Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969.¹⁹⁵

Perchnogaeth awdurdodau lleol a'r Rhaglen Adfer Tir

- 3.25 Mae yna nifer o lwybrau wedi bodoli ar gyfer trosglwyddo tomennydd glo i berchnogaeth awdurdodau lleol. Mae rhai wedi cael eu caffael gan awdurdodau lleol drwy brynu gorfodol, yn benodol o dan Raglen Adfer Tir A ddechreuodd yn 1966 pan sefydlodd y Swyddfa Gymreig Uned Tir Diffaith; o 1976 Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) oedd yn gyfrifol amdani ac fe'i trosglwyddwyd i Llywodraeth Cymru yn 2006. Digwyddodd y pryniannau yma yn dilyn cau nifer cynyddol o lofeydd o'r 1970au ymlaen. Prynwyd tomennydd eraill gan awdurdodau lleol oddi wrth yr Awdurdod Glo ar adeg preifateiddio gan ddisgwyl y byddai grantiau gan WDA yn talu am gostau adfer.¹⁹⁶
- 3.26 Roedd amcanion statudol WDA yn cynnwys gwella amgylchedd Cymru, a hynny i'w gyflawni drwy ddulliau oedd yn cynnwys ail-ddefnyddio tir diffaith.¹⁹⁷ Mae'r broses hon wedi cael ei disgrifio fel hyn:

Y diffiniad traddodiadol a fabwysiadwyd yn y DU ar gyfer tir diffaith yw "land so damaged by past industrial or other activity that it is incapable of beneficial use without treatment". Mae'r diffiniad yn rhoi pwyslais clir ar ddefnydd y tir yn y dyfodol

¹⁹³ Gweler, er enghraifft, *Anthony and Ors v Coal Authority* [2005] EWHC 1654 (QB) [2006] Env L R 17.

¹⁹⁴ Gweler para 3.31 i 3.35 isod i weld mwy o wybodaeth am y tomennydd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

¹⁹⁵ Mae Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, yn rhoi pŵer i lys, ar gais gan unigolyn y rhoddir iddynt hysbysiad o dan a 14 neu 17 y Ddeddf, i gyfarwyddo cyfraniad tuag at gostau gwaith adfer gan, ymysg eraill, unrhyw unigolyn fu â buddiant yn y tir y lleolir y domen arno yn ystod y 12 mlynedd blaenorol. Mae'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddyfarnu cyfraniad yn cael eu nodi yn a 19(4). Am drafodaeth pellach, gweler pennod 4.

¹⁹⁶ Cyfarfod gyda Stephen Smith a Howard Siddle, aelodau o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo. Roedd Stephen Smith yn Bennaeth Adfer Tir yn Awdurdod Datblygu Cymru ac yn ddiweddarach yn Llywodraeth Cymru o 2004 i 2012. Gweithiodd Howard Siddle fel peiriannydd i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol ar raglenni cysylltiedig â diogelwch oedd yn cynnwys archwilio tomennydd a dylunio gwaith unioni. I weld rhestr o'r cynlluniau a gwblhawyd rhwng 1966 a 1969, er enghraifft, gweler [https://hansard.parliament.uk/Commons/1969-12-16/debates/a9ae062d-2fa2-42c5-b0a9-da1e2ea8c197/DerelictLand\(ClearanceSchemes\)](https://hansard.parliament.uk/Commons/1969-12-16/debates/a9ae062d-2fa2-42c5-b0a9-da1e2ea8c197/DerelictLand(ClearanceSchemes)).

¹⁹⁷ Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, a 1.

ac mae'n tanategu'r gwahaniaeth rhwng mynd i'r afael â rhwymedigaethau a sicrhau adfywiad. Adfer yw'r broses o wneud defnydd buddiol penodol o dir segur sydd wedi ei ysbeilio neu ei halogi. Fel rhan o'r broses honno, yn aml mae angen gweud gwaith unioni, sef y broses a ddefnyddir ar gyfer lleihau'r risgiau iechyd ac amgylcheddol sydd yn gysylltiedig â phresenoldeb halogiad i lefel dderbyniol.¹⁹⁸

- 3.27 Rhoddwyd y dasg o wireddu "ôl-werth" i'r Rhaglen Adfer Tir drwy adfer tir. Er mwyn gwireddu'r gwerth hwnnw, trosglwyddwyd y tir yn gyntaf i berchnogaeth awdurdod lleol, er mai WDA a ddarparodd y cyllid ac oedd a rheolaeth oruchwyliol. Pan ddaeth y prosiectau i ben yn 2012, roedd awdurdodau lleol mewn rhai achosion yn dal i ddal safleoedd nad oeddent hyd hynny wedi cael eu hadfer, ac nad oedd grantiau mwyach ar gael ar eu cyfer, ac nad oeddent yn gallu eu gwerthu.¹⁹⁹ Mae hynny yn golygu mai llawer o'r tomennydd sydd yn dal ym mherchnogaeth awdurdod lleol hyd heddiw yw'r rhai sydd â'r potensial datblygu lleiaf. Disgrifiodd un awdurdod y tomennydd yma i ni fel "the runts of the litter".²⁰⁰ Roedd nifer y tomennydd a oedd yn cael budd o'r Rhaglen yn gymharol isel o'i gymharu â'r nifer cyffredinol o domenni glo yng Nghymru.
- 3.28 Yn achos nifer o domennydd oedd wedi cael eu hadennill yn llwyddiannus o dan y Rhaglen Adfer Tir, yn arbennig yn y 1980au, roedd contractwyr yn "golchi" y glo oedd yn y gwastraff, a hynny yn ariannu'r gwaith drwy werthu'r glo a adenillwyd. Roedd y tomennydd oedd yn cynnwys y symiau mwyaf o lo yn cael eu gwaredu drwy'r dull yma, ond daeth yr arferiad i ben pan gostyngodd gwerth y glo a adferwyd a phan nad oedd ysgogiad economaidd i wneud y gwaith.²⁰¹ O ganlyniad i'r rhaglenni adfer, mae gan rai awdurdodau lleol, er enghraifft Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, gyfran uchel o domennydd wedi eu hadfer yn eu hardal. Nid yw llawer ohonynt yn edrych fel tomennydd; adeiladwyd ar rai, ac mae'r deunydd o rai wedi cael ei waredu yn gyfan gwbl. Er enghraifft, yn ardal Abertawe, mae peth o ddeunydd gwreiddiol tomennydd o dan ffyrdd a thraffordd yr M4.²⁰²
- 3.29 Mae patrwm perchnogaeth awdurdodau lleol wedi cael ei gymhlethu gan ailstrwythuro awdurdodau lleol ac ail-lunio ffiniau yn ystod y blynyddoedd. Pan basiwyd Deddf 1969, dau awdurdod lleol oedd yn pontio meysydd glo De Cymru: Sir Fynwy a Morgannwg. Yn 1972, rhannwyd yr awdurdodau yma yn system ddwy haen gan ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Rhannwyd Morgannwg yn Gynghorau Sir Gorllewin, Canol a De Morgannwg, wedi eu tanategu gan nifer o gynghorau

¹⁹⁸ S Smith, "The industrial legacy of Wales – from blight to asset", papur a gyhoeddwyd ar gyfer Cynhadledd Treftadaeth Adfer Mwynloddiau Gadwedig a Mwynloddio Glo Pennsylvania 2008 a gynhaliwyd yn State College, Pennsylvania ym mis Awst 2008.

¹⁹⁹ Cyfarfod gyda Stephen Smith a Howard Siddle, aelodau o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo.

²⁰⁰ Gweler paragraff 7.7 isod. Tomen Tylorstown, y cyfeirir ati ym mharagraffau 1.3 a 1.4 uchod, oedd un o'r safleoedd oedd ar ôl yn y rhaglen pan ddaeth honno i ben. Er bod gwaith archwilio eisoes wedi dechrau gydag amcan i wneud gwaith adfer, nid oedd yn bosibl cwblhau'r gwaith. Roedd y lofa oedd yn gysylltiedig â'r domen wedi cael ei gadael cyn cenedlaetholi, ac nid oedd y domen felly wedi bod ym mherchnogaeth y Bwrdd Glo Cenedlaethol.

²⁰¹ Cyfarfod gydag Archwilydd Mwynloddiau EM, Bob Leeming.

²⁰² Cyfarfod gyda Chyngor Abertawe.

rhanbarth. Yn ystod y cyfnod yma, roedd rhai tomennydd yn eiddo i'r cynghorau sir, a rhai i'r cynghorau haen is.

- 3.30 Diddymodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1993 yr haen uchaf o gynghorau a chreu'r strwythur presennol o 22 o awdurdodau lleol a ddaeth i rym yn 1996. Effaith y newidiadau hynny ar ffigurau dros dro oedd gwasgaru bron i 80% o domennydd glo Cymru ar draws saith awdurdod lleol. Efallai bod y tomennydd yn wreiddiol wedi cael eu perchnogi ar lefel cyngor sir neu cyngor bwrdeistref sirol. Mewn rhai achosion gall fod yn anodd i awdurdodau lleol presennol olrhain eu perchnogaeth ar domennydd oherwydd bod cynlluniau tir efallai ond yn cyfeirio at y perchennog gwreiddiol.²⁰³

Tomennydd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

- 3.31 CNC sydd yn rheoli'r tomennydd sydd yn eiddo i Lywodraeth Cymru ar yr Ystâd Coetir. Mae hynny yn cynnwys y tir arferai gael ei reoli gan dri chorff gwaddol CNC: Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.²⁰⁴ Mae'r tir yn gorchuddio tua 6.5 i 7% o Gymru.
- 3.32 Mae'r tomennydd ar y tir yma mewn nifer o achosion yn dyddio'n ôl i flynyddoedd cynharaf y dirywiad yn y diwydiant glo. Wrth i'r tir ddod ar gael, cafodd ei gaffael a'i ail-blannu gyda choed fel rhan o ymdrechion i hybu ffynonellau coed, yn arbennig ar ôl y Rhyfeloedd Byd Cyntaf a'r Ail pan oedd coed yn brin. O'r 1950au i'r 1970au ehangwyd mwy ar goedwigaeth gyhoeddus. Cafodd y Comisiwn Coedwigaeth safleoedd drwy bryniant gorfodol yn ogystal â phryniannau preifat pan fo hynny ar gael at ddibenion ehangu adnoddau coed wrth gefn.²⁰⁵ Cyfeiriodd gwaith ar goedwigaeth yn 1961 at y posibiladau o blannu coed ar hen domennydd:

Ymddengys ei fod yn eithaf posibl tyfu cnydau dros safleoedd glo brig a'r ffordd fwyaf economaidd yw drwy blannu coed. Y binwydden Corsica mae'n debyg yw'r rhywogaeth gorau ... ond mae sawl un arall yn ffynnu mewn ardal arbrofol yn Aberpergwm.²⁰⁶

- 3.33 Bu cyfnod sylweddol o gaffael cyhoeddus yr un pryd â'r gwaith archwilio ac adfer a ddilynodd drychineb Aberfan. Mewn nifer o achosion, y dull o adfer oedd plannu coetiroedd, yn arbennig conwydd, er mwyn gwneud gwell defnydd o'r tir. Prynydd llawer o hyn gan dirfeddianwyr a NCB gan Lywodraeth y DU ac fe'i rheolwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth. Roedd bwletin gan y Comisiwn Coedwigaeth a gyhoeddwyd yn 1994 yn cynnwys y cyngor canlynol ynghylch adfer:

Yng Nghymru, roedd bron 11k hectar wedi'u heffeithio gan waith mwynau neu waredu gwastraff (Swyddfa Gymreig 1991). Mae'r ddeddfwriaeth fodern yn golygu bod amodau ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio ar y mwyafrif o'r tir yr effeithiwyd arno gan waith mwynau. Dylai hynny sicrhau bod y tir yn cael ei adfer yn briodol ar

²⁰³ Cyfarfod gyda Chastell Nedd Port Talbot; Cyfarfod gyda Huw Williams, Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Senedd.

²⁰⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Coetir Cymru: canllaw cyflym* (2017), ar gael yn: <https://senedd.wales/research%20documents/17-008-woodlands/17-008-web-english.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 16 Mawrth 2021).

²⁰⁵ Gwybodaeth gan Robert Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru.

²⁰⁶ H L Edlin, *Glamorgan Forests* (1961) p 27.

gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'n bosibl y gellir tyfu llystyfiant ar dir yr effeithiwyd arno gan waith mwynau neu ddiffeithder. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, nid yw'n dderbyniol gadael tir ysbeiliedig i natur yn unig, ac mae ymyrraeth, drwy waith adfer, yn angenrheidiol. Ceir sawl rheswm dros ystyried coedwigoedd fel defnydd tir ar ôl adfer tir diffaith neu waith mwynau.²⁰⁷

3.34 Trosglwyddwyd y tir a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 1999 yn dilyn datganoli.²⁰⁸

3.35 Mae CNC yn rheoli rhai tomennydd glo ar dir gaiff ei brydlesu iddynt gan gyrff eraill, megis cwmnïau dŵr (er enghraifft o gwmpas cronfeydd dŵr mawr megis Talbont yn nalgylch Brynbuga) a thir awdurdodau lleol sydd â chefnidir diwydiannol (megis Llynfi yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr).²⁰⁹

Perchnogaeth anhysbys neu ddarniog

3.36 Mewn rhai achosion mae'n anodd iawn sefydlu perchnogaeth ar domen. Mae hynny yn broblem mewn rhai achosion pan adeiladwyd ar domen a adferwyd, er enghraifft, pan fo ystâd o dai wedi cael ei adeiladu ar domen: bydd perchnogaeth wedi cael ei drosglwyddo i nifer o berchnogion drwy brynu'r tai unigol. Mae'n bosibl y bydd rhan fechan o'r domen dal angen ei archwilio, er enghraifft mewn ardal hamdden. Dylai'r broses gynllunio fod wedi cael gwared â'r holl risg o ansefydlogrwydd neu niwed amgylcheddol, er yn ymarferol, mae'n bosibl nad yw hynny wedi digwydd.

3.37 Mae awdurdodau lleol ar brydiau wedi cael anhawster canfod pwy yw perchennog tomen yn eu hardal. Roedd swyddog yng Nghyngor Castell Nedd Port Talbot yn cofio y byddai cydweithiwr, sydd bellach wedi ymddeol, oedd â chyfrifoldeb am domennydd yn y gorffennol, yn cadarnhau perchnogaeth drwy gerdded dros y tomennydd a chyfarfod y bobl yr oedd yn eu cyfarfod.²¹⁰ Defnyddiodd y swyddog yr enghraifft hon er mwyn dangos i ba raddau mae gwybodaeth leol wedi cael ei cholli yn dilyn newid mewn aelodau staff, ailstrwythuro awdurdodau lleol a lleihau'r gweithlu. Ychydig iawn o ymatebion a dderbyniodd ymarferiad a gynhaliwyd gan yr awdurdod yn ddiweddar er mwyn ceisio canfod pwy yw'r perchnogion drwy ysgrifennu at dirfeddianwyr i ofyn am gofnodion tomennydd glo ar eu tir.²¹¹ Efallai bod tomennydd mewn perchnogaeth breifat ar dir heb ei gofrestru.

Tomennydd ar dir comin neu dir â hawliau mynediad agored

3.38 Gall perchnogaeth fod yn fwy cymhleth hefyd o ganlyniad i hawliau comin, megis hawliau pori, a ddelir ar ardaloedd megis ardaloedd ucheldir yng Nghymru ble mae tomennydd glo wedi eu lleoli efallai. Mae hawl comin a ddelir gan drigolion mewn ardal yn cael ei drosglwyddo gyda phob eiddo unigol. Efallai na fydd tirfeddianwyr yn

²⁰⁷ FC Bulletin 110 *Reclaiming Disturbed Land for Forestry* (1994) pp 3-5. John Browne, Cyfoeth Naturiol Cymru.

²⁰⁸ Gaeth y tir ei throsglwyddo yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a 23.

²⁰⁹ Gwybodaeth gan Robert Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru.

²¹⁰ Paul Ransome, Cyngor Castell Nedd Port Talbot, a gweler y drafodaeth bellach ar broblemau a wynebwyd gan awdurdodau lleol yn bennod 7.

²¹¹ Cyngor Castell Nedd Port Talbot.

cyfyngu ar yr hawliau yma, sydd yn golygu bod raid cadw'r tir yma yn agored.²¹² Mae'r hawliau wedi'u cofrestru.²¹³

- 3.39 Enghreifftiau a roddwyd i ni o dir comin sydd yn cynnwys tomennydd glo yw safle glo brig Dwyrain Merthyr a safle Cilfynydd.²¹⁴ Mae peth o'r tir yn dir comin ers amser maith; mewn achosion eraill mae perchnogaeth comin wedi digwydd yn ystod y degawdau diweddar pan brynwyd tir ar ôl cau glofeydd a phreifeiddio'r diwydiant glo er lles cymunedau lleol.²¹⁵
- 3.40 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwyo 2000 yn rhoi hawliau mynediad cyhoeddus agored mwy eang ar dir sydd wedi ei fapio fel "tir agored" (mynydd, cors, a rhostir) a'r llain arfordirol, yn ogystal â thir comin cofrestredig.²¹⁶ Ni all perchennog y tir rwystro mynediad, ond caiff ei warchod rhag atebolrwydd o dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957.²¹⁷

GWASGARIAD TOMENNYDD GLO MEWN AWDURDODAU LLEOL A CHATEGORÏAU RISG: FFIGURAU DROS DRO

- 3.41 Mae tomennydd glo wedi eu crynhoi mewn nifer fechan o ardaloedd awdurdodau lleol yn Ne Cymru. Mae chwe deg y cant o'r tomennydd yng Nghastell Nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Caerffili ac Abertawe. Mae gan Ferthyr Tydfil, Pen-y-bont ar Ogwr a Blaenau Gwent niferoedd uchel hefyd. Gyda'i gilydd mae'r awdurdodau yma yn gyfrifol am 78% o holl domennydd glo Cymru, yn seiliedig ar ffigurau dros dro.²¹⁸
- 3.42 Mae tomennydd glo yn Ne Cymru, eu math o berchnogaeth a'u hasesiad risg dros dro wedi cael eu mapio dros dro gan yr Awdurdod Glo, mewn gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gyda chymorth awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o greu cronfa ddata gyflawn o domennydd. Mae'r tîm Awdurdod Glo hefyd wedi mabwysiadu system gategoreiddio risg dros dro, pan fo lefelau risg yn cael eu categorïddio o gategori A i gategori D, gyda chategori R ychwanegol ar gyfer tomennydd a adferwyd a NR ar gyfer tomennydd na ddyrannwyd categori iddynt hyd yma. Trafodir y gwaith hwn yn fanwl ym mhennod 8.

²¹² O dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi caniatâd i wneud unrhyw waith gwaharddedig ar dir comin. Mae gwaith gwaharddedig yn cynnwys unrhyw waith sydd yn atal neu yn amharu ar fynediad i neu ar dir, megis ffensio, adeiladau, strwythurau, ffosydd ac argloddiau.

²¹³ Yn unol â gofynion Deddf Cofrestru Tir Comin 1965, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn Awdurdod Cofrestru Tir Comin ac maent yn dal cofrestrau a sefydlwyd o dan y Ddeddf. Gweler <https://law.gov.wales/environment/countryside-and-access/common-land/?lang=en#/environment/countryside-and-access/common-land/?tab=overview&lang=en> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

²¹⁴ Cyfarfod gyda Stephen Smith a Howard Siddle, aelodau o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo.


²¹⁵ Gweler, er enghraifft, *Anthony and Ors v Coal Authority* [2005] EWHC 1654 (QB) [2006] Env L R 17, pan yr oedd tomen, a aeth wedyn ar dân, ar dir oedd wedi ei werthu i grŵp o bobl gyffredin. Gweler para 6.16 i 6.20 isod.

²¹⁶ Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwyo 2000, a 1.

²¹⁷ Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwyo 2000, a 13.

²¹⁸ Ffigurau dros dro wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Mae Awdurdodau Lleol yn mireinio'r ddata sydd ar gael cyn belled. Ni fydd ffigurau terfynol ar gael tan hydref 2021.

- 3.43 Mae dadansoddiad o niferoedd tomennydd yn ôl awdurdodau lleol, sydd wedi deillio o'r gwaith hwn ac a nodir isod, yn dangos bod cyfran o fathau o berchnogaeth a chategorïau risg yn amrywio'n eang o un awdurdod lleol i'r llall.²¹⁹ Mae'r awdurdodau sydd â'r nifer mwyaf o domennydd yn cael eu rhestru'n gyntaf.



- 3.44 Mae dadansoddiad o niferoedd y tomennydd dros dro yn ôl awdurdod lleol, sy'n deillio o'r gwaith hwn ac sy'n cael ei nodi isod, yn dangos bod cyfran y mathau o berchnogaeth a chategorïau risg yn amrywio'n fawr ar draws pob awdurdod lleol. Rhestrir yr awdurdodau sydd â'r nifer uchaf o gynghorion yn gyntaf. Ni fydd y ffigurau hyn, gan gynnwys data ar gyfer tomennydd sydd wedi'u dosbarthu fel NR ar hyn o bryd, ar ffurf derfynol tan hydref 2021.

Castell Nedd Port Talbot

- 3.45 Mae gan Gastell Nedd Port Talbot 584 o domennydd glo, ac mae 67% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 10% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 23% ym mherchnogaeth CNC a 0.7% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo. Mae tri y cant yng nghategori D, 3% yng nghategori C, 20% yng nghategori B, 55% yng nghategori A ac mae'r 20% arall yn domennydd categori NR neu R.
- 3.46 Mae naw y cant o domennydd C a D ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 17% ym mherchnogaeth CNC, 11% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo a 63% mewn perchnogaeth breifat.

Rhondda Cynon Taf

- 3.47 Mae gan Rhondda Cynon Taf 286 o domennydd yn ei awdurdodaeth. Mae 57% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 32% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 8% ym mherchnogaeth CNC a 3% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo. Mae wyth y cant

²¹⁹ Mae gwaith yr Awdurdod Glo ar ran Llywodraeth Cymru wedi'i drafod ym mharagraffau 8.2 i 8.20 isod.

yng nghategori D, 14% yng nghategori C, 36% yng nghategori B, 20% yng nghategori A ac mae'r 22% yn domennydd categori NR neu R.

- 3.48 O blith y tomennydd categori C a D, mae 40.6% mewn perchnogaeth breifat, 34% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol a'r 25% arall ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo neu CNC.

Caerffili

- 3.49 Mae gan Gaerffili 205 o domennydd glo. Mae 55% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 42% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 1% ym mherchnogaeth CNC a 2% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo. Mae dau y cant yn domennydd categori D, 32% yn domennydd categori C, 25% yn domennydd categori B a 25% yn domennydd categori A. Mae pymtheg y cant yn domennydd NR.
- 3.50 O blith y tomennydd categori C a D, mae 73% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 20% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 7% ym mherchnogaeth CNC neu'r Awdurdod Glo.

Abertawe

- 3.51 Mae gan Abertawe 201 o domennydd glo. Mae'r holl domennydd glo yn Abertawe mewn perchnogaeth breifat neu anhysbys. Nid oes gan Abertawe domennydd categori D a dim ond 4% o'r tomennydd sydd yn rhai categori C. Mae saith deg y cant o domennydd glo Abertawe yn domennydd NR neu R. Mae'r 26% arall yn domennydd categori A neu B.

Merthyr Tydfil

- 3.52 Mae gan Ferthyr Tydfil 119 o domennydd glo. Mae 82% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 13% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, a'r 4% arall ym mherchnogaeth CNC neu'r Awdurdod Glo. Mae pymtheg y cant yn domennydd categori D, 34% yn domennydd categori C, 17% yn domennydd categori B a 19% yn domennydd categori A. Mae'r 14% arall yn domennydd categori NR.
- 3.53 O blith y tomennydd categori C a D, mae 81% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 11% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 5% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo, a 2% ym mherchnogaeth CNC.

Pen-y-bont ar Ogwr

- 3.54 Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr 159 o domennydd glo. Mae 55% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 31% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 11% ym mherchnogaeth CNC a 3% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo. Mae chwech y cant yn domennydd categori D, 21% yn domennydd categori C, 20% yn domennydd categori B a 47% yn domennydd categori A. Mae'r 7% arall yn domennydd categori NR.
- 3.55 O blith y tomennydd categori C a D, mae 45% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 26% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, a 29% ym mherchnogaeth CNC.

Blaenau Gwent

- 3.56 Mae gan Blaenau Gwent 125 o domennydd glo. Mae 64% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 31% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, 1% ym mherchnogaeth CNC a 4% ym mherchnogaeth yr Awdurdod Glo. Mae tri y cant yn domennydd categori D, 10% yn domennydd categori C, 30% yn domennydd categori B a 23% yn domennydd categori A. Mae'r 34% arall yn domennydd categori NR a R.
- 3.57 O blith y tomennydd categori C a D, mae 37.5% ohonynt mewn perchnogaeth breifat, 25% ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, a 37.5% ym mherchnogaeth CNC neu'r Awdurdod Glo.
- 3.58 Yn y gorffennol mae mapio perchnogaeth wedi cael ei gymhlethu gan yr arferiad mewn rhai ardaloedd o gategoreiddio tomennydd yn ôl casgliadau o domennydd yn hytrach na thomennydd unigol. Mewn rhai achosion roedd gan gasgliadau o domennydd berchnogion lluosog. Mae'r gofrestr a grëwyd gan yr Awdurdod Glo fel rhan o waith y Tasglu yn cyfrif pob tomen yn unigol.

Eraill

- 3.59 Nid oes yna domennydd categori C a D ar hyn o bryd yn yr awdurdodau lleol eraill sydd â thomennydd. Mae gan Sir Gaerfyrddin 170 o domennydd. Mae pob un yng nghategoriâu A, NR neu R.
- 3.60 Mae gan Sir Fynwy ddwy domen categori B a dwy domen categori A. Mae gweddill ei thomennydd yn rhai categori NR. Mae gan Dorfaen ddwy domen categori B, ac un ohonynt yn eiddo i'r Awdurdod Glo a'r llall i CNC. Mae gweddill ei 173 o domennydd yn rhai categori A, R neu NR. Mae gan Gaerdydd bedair tomen categori B, a rhai tomennydd NR. Mae gan Bowys un domen categori B, ac un tomen categori A, a rhai tomennydd NR. Dim ond tomennydd NR sydd yn Wrecsam, Gwynedd, Sir y Fflint a Sir Benfro. Mae pob un mewn perchnogaeth breifat.

PROBLEMAU RHEOLEIDDIO GYDA GLOFEYDD SYDD WEDI CAU YN DDIWEDDAR

- 3.61 Cafwyd problemau rheoleiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar o ran gorfodi gwaith adfer ar dir yr effeithiwyd arno yn niweidiol gan fwyngloddio glo. Effeithiwyd ar waith adfer gan ddarpariaeth ariannol annigonol ac o ganlyniad i drosglwyddo rhwymedigaethau i gwmnïau coeg.

Darpariaeth ariannol annigonol

- 3.62 Mae problemau wedi codi o ganlyniad i bennu bondiau adfer²²⁰ ar lefelau sydd yn llawer is na'r swm sydd ei angen ar gyfer gwaith adfer. Digwyddodd hynny'n benodol yn dilyn preifateiddio'r diwydiant yn 1994, pan roddwyd mwy o ryddid i gwmnïau nag sydd yn bodoli erbyn heddiw. Er enghraifft, rhoddwyd "gwyliau" deng mlynedd i rai cwmnïau rhag cyfrannu i gronfeydd adfer, a hynny yn gyfnewid am ymgymryd â'r mwyngloddiau, ac arweiniodd hynny at fondiau adfer oedd yn is na'r lefel oedd ei hangen. Yn Ne Cymru, cafodd gwaith glo brig Glo Prydain ei gaffael gan Celtic Energy Ltd, a gaffaelodd safleoedd gweithredol a reolwyd gan Glo Prydain, a thrwyddedau ar

²²⁰ Math o offeryn ariannol er mwyn gwarantu bod yr arian angenrheidiol ar gyfer gwaith adref yn cael ei ddarparu.

gyfer safleoedd nad oeddent bryd hynny wedi cael caniatâd cynllunio. Bu i'r cwmni gaffael y safleoedd ar delerau nad oedd yn golygu bod bondiau adfer yn ofynnol:

Roedd Celtic Energy Ltd, y gweithredwr preifat newydd, yn rhwymedig gan amodau caniatadau cynllunio ar gyfer y safleoedd yma. Ond, nid oedd bondiau adfer yn ofynnol gan y gweithredwr newydd ac ni chymhwyswyd bondiau adfer i safleoedd oedd yn derbyn caniatâd cynllunio (nac estyniadau i ganiatadau) yn ystod y ddegawd ar ôl preifateiddio yn 1995. Mae safleoedd ac estyniadau i safleoedd sydd yn derbyn caniatâd cynllunio ers 2005 wedi bod yn ddarostyngedig i amrywiol fathau o fondiau adfer a chronnwyd symiau amrywiol o arian.²²¹

- 3.63 Mae'r broblem wedi cael ei nodi ledled y DU gyfan mewn perthynas ag adfer glofeydd brig, gyda nifer o achosion o ddiffyg yn lefel y bond adfer sydd ei angen i adfer y safle mwyngloddio.²²² Mae tomennydd y bwriadwyd iddynt fod yn rhai dros dro yn dod yn rhai parhaol pan fo'r bond a ddarperir gan weithredwyr mwynglawdd yn annigonol ar gyfer talu am gost ôl-lenwi'r gwagle.²²³
- 3.64 Un arfer yn ddiweddar er mwyn atal hynny rhag digwydd fu cynnwys amod mewn cytundebau cynllunio adran 106 sydd yn rhwystro'r gweithredwr rhag gwerthu nes bod gofynion ôl-ofal y mwynglawdd wedi eu cwblhau. Mae trefniadau adran 106 diweddar yn cynnwys cost adfer gytunedig a phennu ffigwr ar gyfer cyfraniadau blynyddol i gronfa adfer.

Cwmnïau coeg

- 3.65 Problem arall fu gwerthu tir a rhwymedigaethau sydd yn gysylltiedig â glofeydd brig i gwmnïau coeg mewn perchnogaeth dramor.²²⁴ Mae'r tomennydd wedi eu gadael heb gydymffurfio ag unrhyw un o'r dyletswyddau a nodwyd yn y drwydded fwyngloddio, caniatadau cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol; ni fu'n bosibl gorfodi'r cwmni coeg i gyflawni'r dyletswyddau.
- 3.66 Mae pedwar safle glo brig yr arferai Celtig Energy eu gweithredu yn ardal Cynffig, yn enghreifftiau. Pan roddodd y cwmni'r gorau i fwyngloddio, gadawyd gwagleoedd mawr yn y tir oedd yn cynnwys gwastraff. Amcangyfrifwyd bod cost adfer dim ond un o'r safleoedd, safle East Pit, yn £115 miliwn. Yn 2010 gwerthodd y cwmni yr hawliau tir a'r rhwymedigaethau mewn perthynas ag East Pit a thair glofa arall i gwmni yn

²²¹ Welsh Government, *Coal Extraction in Wales: The Existing Impact Evidence*, (2019) p 9, <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-06/wardell-armstrong-coal-extraction-impact-report.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 15 Mawrth 2021).

²²² Gweler, er enghraifft, y ddadl yn y Senedd yn 2015 ar y broblem: *Hansard* (HC) 29 Ionawr 2015, col 591, col 1090,; [https://hansard.parliament.uk/Commons/2015-01-29/debates/15012952000001/Open-CastCoalSites\(Restoration\)](https://hansard.parliament.uk/Commons/2015-01-29/debates/15012952000001/Open-CastCoalSites(Restoration)) (cyrchwyd ddiwethaf ar 16 Mawrth 2021). Mae'r enghreifftiau a roddir yn cynnwys Dynant Fawr yng Nghymru a dwyrain Ayrshire yn Yr Alban. Yn achos Dwyrain Ayrshire, gadawyd bron i 20 km sgwâr o dir heb ei adfer. Amcangyfrifwyd bod cost adfer yr ardal yn £160 miliwn, a'r bond oedd ar gael oedd £28 miliwn.

²²³ Wnaeth y tomennydd wedyn dod yn domennydd anweithredol o fewn diffiniad Rhan 2 o'r Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969. Gweler pennod 4.

²²⁴ Gweler er enghraifft Welsh Government, *Research into the failure to restore opencast coal sites in South Wales* (2014) p 35, <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/failure-to-restore-opencast-coal-sites-in-south-wales.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 16 Mawrth 2021). Mae'r adroddiad yn nodi'r angen i fondiau perfformiad dalu am gostau adfer ac ôl-ofal mwyngloddiau.

Ynysoedd British Virgin, o'r enw Oak Regeneration, am £1 am bob glofa. Trosglwyddodd Oak Regeneration y rhwymedigaethau i Pine Regeneration, Beech Regeneration ac Ash Regeneration, ac nid oedd gan yr un ohonynt asedau ar gyfer gwaith adfer. Cyhuddwyd y rhai oedd yn gysylltiedig â'r trosglwyddiad, yn cynnwys dau o gyfarwyddwyr Celtic Energy, o gynllwynio i dwyllo Cyngorau Castell Nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys a'r Awdurdod Glo, ond methodd yr erlyniad.²²⁵ Canfu'r barnwr, er y byddai rhai pobl yn ystyried bod eu gweithredoedd yn anonest, nad oeddent yn anghyfreithlon. Cafodd yr atebolrwydd i adfer y tir ei osgoi.²²⁶

²²⁵ BBC News, *Celtic Energy and M & A Solicitors staff cleared as fraud case is thrown out* (2014), <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-26245865> (cyrchwyd ddiwethaf ar 16 Mawrth 2021).

²²⁶ G Monbiot, "Big Coal's big scam: scar the land for profit, then let others pay to clean up"(2015) *Guardian*.

Pennod 4: Trychineb Aberfan a Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969

- 4.1 Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ddeddfwriaeth gyntaf er mwyn darparu sefydlogrwydd a diogelwch gwastraff mwynau yn y DU, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a ymddeddfwyd mewn ymateb i drychineb Aberfan. Bydd yn ystyried sut y siapiwyd y Ddeddf gan y drychineb, ac i ba raddau y mae'r ffordd y mae'n gwahaniaethu rhwng tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol a segur yn dal i reoli diogelwch tomennydd heddiw. Mae'r bennod yn crynhoi darpariaethau gwreiddiol y Ddeddf, yn arbennig Rhan 2 (sydd yn dal mewn grym) sydd yn rheoli tomennydd anweithredol. Yn olaf, mae'r bennod yn nodi'r gyfundrefn o dan Reoliadau Mwyngloddiau 1999²²⁷ a Rheoliadau Chwareli 2014,²²⁸ sydd wedi disodli Rhan 1 y Ddeddf.
- 4.2 Bydd y penodau dilynol yn adeiladu ar hyn drwy edrych ar ddwy thema arall. Bydd y cyntaf ohonynt yn ystyried meysydd arall y gyfraith sydd yn berthnasol i ddiogelwch tomennydd, ac effaith ar ddiwygiadau yn y dyfodol o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru sydd yn pennu egwyddorion trosfwaol ar gyfer llunio polisi mwn perthynas â'r amgylchedd a datblygu i'r dyfodol. Mae'r ail yn edrych ar sefyllfa perchennog tomen o safbwynt atebolrwydd sifil a throseddol mewn achos o ddamwain.

TRYCHINEB ABERFAN A THRIBIWNLYS Y DRYCHINEB

- 4.3 Roedd yna saith tomen lo uwch ben pentref Aberfan yng Nghwm Taf, a ffurfiwyd rhwng 1914 a 1966. Tomen saith oedd yr un olaf i gael ei ffurfio; roedd yn cynnwys 297,000 llathen giwbig o wastraff ac roedd yn 111 troedfedd o uchel, sydd yn cyfateb i adeilad deg llawr. Yr un mwyaf oedd tomen pump, oedd yn 706,000 llathen giwbig ac yn 171 troedfedd o uchel.
- 4.4 Ar fore 21 Hydref 1966, llithrodd ffrwd o slyri o domen saith yn gyflym i lawr ochr Mynydd Merthyr. Dinistriodd ddau ffermdy gan ladd y meddianwyr, cyn dinistrio ysgol a deunaw o dai, a difrodi ysgol arall. Lladdwyd cant a naw o blant, y rhan fwyaf ohonynt rhwng saith a deg oed, a phum athro, y tu mewn i ysgol Pantglas. Rhuthrodd trigolion, glowyr ac ymatebwyr cyntaf i'r ysgol a dechrau cloddio drwy'r rwbwl ac achub plant. Ni thynnwyd neb allan yn fyw ar ôl 11am. Achubwyd pump o blant, gafodd eu hamddiffyn gan gorff Nansi Williams, y ddynes cinio. Lladdwyd cyfanswm o 144 o bobl.
- 4.5 Mewn ymateb i'r drychineb, sefydlodd y llywodraeth Dribiwnlys Aberfan a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Ustus Edmund Davies.²²⁹ Canfu'r tribiwnlys mai'r ffactor pennaf a

²²⁷ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014/ 3248.

²²⁸ Rheoliadau Chwareli 1999/ 2024.

²²⁹ Adroddiad y Tribiwnlys a benodwyd ar gyfer ymchwilio i Drychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966, <http://www.mineaccidents.com.au/uploads/aberfan-report-original.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

gyfrannodd at lithriad y domen oedd y dŵr a lifai drwy'r domen o'r nentydd oddi tani, yn ogystal â dŵr glaw. Roedd y nentydd o dan y domen yn hysbys iawn; fel y nododd y tribiwnlys, roedd y tîm tipio yn arfer yfed dŵr o waelod tomen saith ac arferai plant dyllu pyllau ar waelod y domen. Hefyd, canfuwyd bod ymsuddiant o dan y domen a achoswyd gan waith mwyngloddio, wedi caniatáu i ddŵr gronni o dan y domen.

- 4.6 Canfu'r tribiwnlys bod pryderon am sefydlogrwydd y domen wedi cael eu mynegi cyn y drychineb, a bod pryder ynghylch cau'r lofa wedi atal nifer (megis AS Merthyr Tydfil bryd hynny) rhag bwrw ymlaen â'u pryderon. Hefyd canfu na archwiliwyd y tomennydd yn rheolaidd, ac nad oedd yr archwiliadau a gynhaliwyd wedi bod yn gysylltiedig â sefydlogrwydd. Roedd y Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB) wedi dweud celwydd am hynny wrth Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tydfil.
- 4.7 Hefyd canfuwyd nad oedd unrhyw ddeddfwriaeth ynghylch diogelwch tomennydd yn bodoli yn unman yn y byd, ac eithrio Gorllewin yr Almaen a De Affrica. Y ddeddfwriaeth fwyaf diweddar ym Mhrydain mewn perthynas â mwyngloddio ar yr adeg honno oedd Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1954, nad oedd yn cynnwys diogelwch tomennydd. Roedd Deddf 1954 yn seiliedig ar adroddiad 1938 y Comisiwn Brenhinol ar Ddiogelwch Mwyngloddiau, na chyfeiriodd o gwbl at domennydd (ac erbyn amser pasio'r Ddeddf roedd yn eithriadol o anghyfredol, gan bennu safonau ar gyfer mulod pyllau yn hytrach na'r cludfeltiau oedd yn cael eu defnyddio'n eang erbyn 1954).²³⁰ Hefyd canfuwyd nad oedd yr Arolygiaeth Mwyngloddiau wedi ystyried diogelwch tomennydd, a hynny, meddai, oherwydd na chollwyd bywydau tan 1966. Roedd y datganiad hwn yn anghywir; fel y cyfeiriwyd ato ym mhennod 2, bu un farwolaeth o ganlyniad i lithriad tomen yn 1909 ym Mhentre; nid oedd y tribiwnlys yn ymwybodol o hynny. Canfu'r tribiwnlys hefyd nad oedd yr uwch archwilydd yn ymwybodol o gwbl o'r llithriad mawr yn 1944 yn Aberfan, tan ar ôl trychineb 1966.
- 4.8 Casglodd y tribiwnlys na ellid herio atebolrwydd cyfreithiol NCB o dan y rheol yn *Rylands v Fletcher*.²³¹ Wrth drafod i ba raddau yr oedd y bai ar NCB, archwiliodd y tribiwnlys lythyrau a anfonwyd rhwng yr awdurdod lleol a NCB, oedd yn mynegi pryder y gallai'r slyri oedd yn cael ei dipio uwch ben ysgol Pantglas lithro. Hefyd, yn 1963 roedd peiriannydd wedi mynegi pryder am sefydlogrwydd y tomennydd mewn stormydd. Ddwy waith yn 1963, digwyddodd llithriad ar domen saith ei hun. Gwadodd NCB bod unrhyw lithriadau wedi digwydd, gan ddweud mai dim ond "rhediad sorod" a ddigwyddodd. Hefyd canfuwyd bod y domen wedi bod yn symud a suddo yn 1966 am fisoedd cyn y drychineb. Canfu'r tribiwnlys mai NCB, ei Fwrdd Adrannol De Orllewinol, ac unigolion eraill y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, oedd ar fai am y drychineb.
- 4.9 I ddechrau argymhellodd y tribiwnlys bod gwaith yn cael ei wneud ar unwaith i ddiogelu'r tomennydd eraill uwch ben Aberfan (a gymhlethwyd gan y ffaith bod tomen 5 yn dal i losgi).²³² Awgrymwyd i'r tribiwnlys na ddylid creu mwy o domennydd uwch ben Aberfan, ac y dylai'r gwastraff gael ei storio o dan y ddaear; nid oedd y tribiwnlys yn teimlo y gallai argymhell hynny oherwydd byddai'n rhy gostus i'r diwydiant glo a

²³⁰ Report of the Royal Commission on Safety in Coal Mines (1938) Cmd 5890.

²³¹ *Rylands v Fletcher* (1866) L R 1 Ex. 265; (1868) L R 3 HL 330. Wnaeth y tribiwnlys ddyfynnu hefyd yr achos yn 1921 o lithriad Pentre y trafodwyd ym mharagraff 6.7 i 6.9 isod. I weld mwy o drafodaeth am atebolrwydd o dan y rheol hon, gweler pennod 6.

²³² Trafodir ymlosgiad tomen lo yn Aberfan ym mharagraff 2.64 uchod.

gallai'r llwch fyddai'n cael ei greu achosi clefydau anadlol. Ond amlygodd y tribiwnlys y dylid ystyried bod pob tomen yn beryglus o bosibl a'u bod yn cael eu trin fel strwythurau wedi'i peiriannu. Hefyd awgrymodd y dylid trawsnewid y system o gyfathrebu o fewn NCB.

- 4.10 Hefyd, argymhellodd y tribiwnlys y dylid creu Pwyllgor Diogelwch Tomennydd Cenedlaethol, fyddi'n cyflwyno canllawiau ynghylch safonau diogelwch, a gwnaeth nifer o argymhellion eraill er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd i'r dyfodol.
- 4.11 Talodd NCB £500 am bob marwolaeth a iawndal am eiddo o ddifrodwyd a goroeswyr oedd wedi dioddef trawma.

DADLEUON SENEDDOL A ARWEINIODD AT DDEDDF MWYNGLODDIAU A CHWARELI (TOMENNYDD)

- 4.12 Pasiwyd Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 mewn ymateb i ganfyddiadau'r tribiwnlys. Mae ystyried cyd-destun drafftio'r Bil yn bwysig er mwyn deall sut a pham mae'r Ddeddf wedi dyddio.
- 4.13 O'r dadleuon am y Bil yn 1968 roedd yn amlwg y bwriadwyd i'r Bil ategu diwydiant mwyngloddio gweithredol. Roedd Rhan 1 yn pennu safonau ar gyfer tomennydd oedd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol, tra bod Rhan 2 yn delio ar wahân â mwyngloddiau anweithredol. Cyflwynodd y Gweinidog Pŵer (Roy Mason AS) y Bil fel a ganlyn:

The Bill is designed to deal with all accumulations of solid or liquid refuse from mines and quarries. Part I is in effect an extension of the Mines and Quarries Act, 1954, and deals with all tips whether working or not, associated with mines and quarries at present subject to the Act and as such under the supervision of HM Inspectors of Mines and Quarries. Part II of the Bill is concerned with tips belonging to mines and quarries which have been abandoned and are no longer under that supervision. The provisions of each Part, are therefore, somewhat different though the objective is the same—to eliminate hazards arising from the sort of instability which caused the disaster at Aberfan.²³³

- 4.14 Roedd yn amlwg yn y dadleuon yr ystyriwyd bod tomennydd gweithredol yn fwy peryglus na thomennydd anweithredol. Mewn perthynas â Rhan 2 y Bil, dywedodd y Gweinidog Pŵer:

It covers the many thousands of tips belonging to abandoned mines and quarries from earliest times—the chalk heaps made by Stone Age man in his search for flints, the spoil left by the Phoenicians in search of tin, and the large pit heaps made before and since the Industrial Revolution. Many tips are no longer recognisable as such; they have been overgrown with vegetation and have long formed part of the landscape. Others are more recent. But with the passage of time, most of these tips have become increasingly stable, thanks to natural consolidation. The surveys that

²³³ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1139, [https://hansard.parliament.uk/Commons/1968-11-07/debates/c1ce43ba-6c55-4d71-a319-f0a0796daaa8/MinesAndQuarries\(Tips\)Bill?highlight=coal%20tip#contribution-d098fc37-a2dc-40f3-9fb2-05581eaefe2d](https://hansard.parliament.uk/Commons/1968-11-07/debates/c1ce43ba-6c55-4d71-a319-f0a0796daaa8/MinesAndQuarries(Tips)Bill?highlight=coal%20tip#contribution-d098fc37-a2dc-40f3-9fb2-05581eaefe2d) (cyrchwyd ddiwethaf ar 16 Mawrth 2021).

have been carried out since Aberfan indicate that only a very small proportion could present any hazard to members of the public. But because nothing can be certain, we have felt it necessary to give local authorities powers to identify and deal with any tips that give grounds for anxiety and to make provision for Exchequer grants.²³⁴

4.15 Mynegodd y Cynol CG Lancaster AS (De Flyde) y safbwynt yma:

We should be ill-advised to take the attitude from Aberfan onwards that tips are immensely dangerous things; they are not.²³⁵

4.16 Ond roedd yna farn anghytûn, a leisiwyd gan Arthur Probert AS (Aberdâr):

[T]here are a number of coal tips in my area, one of which recently started to move, thereby causing great anxiety.

My right hon. Friend the Minister of Power has said that trouble is invariably caused by active working tips. I have a theory that many tips which are now 40 or 50 years old are reaching a stage at which trouble can arise. The tip to which I have referred already was last tipped upon 50 years ago. It still has trees between 50 ft. and 100 ft. high on it. We should look more closely at tips which are not actively working, as well as keeping under observation those which are.²³⁶

4.17 Yr unig aelod i fynd yn groes i'r gred na fu marwolaeth cyn Aberfan oedd Fred Evans AS (Caerffili):

Although hon. Members have pointed out that there have not been disasters before on the scale of Aberfan—indeed, there have been instances of loss of life—there have been great social disasters arising from these tips—flooding of houses with mounds of slurry carried down, the destruction of furniture and the blocking of roads and sewers—and huge sums have had to be paid by local authorities to deal with these matters.²³⁷

4.18 Hefyd, wrth drafod y Bil, mynegodd nifer o Aelodau obaith mai cam cyntaf yn unig fyddai hyn, gyda mwy o ddeddfwriaeth i ddilyn er mwyn mynd i'r afael â'r materion amgylcheddol a thirlunio mewn perthynas â thomennydd glo. Dywedodd Fred Evans AS:

I, too, hope that the Bill is only a first step. The basis of this Measure is security. I hope that there will be a second stage, when we can make an imaginative approach to the whole business of industrial scars, and consider, in particular, my country with its glorious valleys. Sometimes when I look at it, and in my imagination get rid of the industrial scars, I see some of the most desirable commuter country that I have ever

²³⁴ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1141.

²³⁵ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1153.

²³⁶ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1164.

²³⁷ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1159.

seen. I welcome the Bill, but I ask my right hon. Friend to consider the points which I have raised.²³⁸

4.19 Ategwyd hynny gan Emlyn Hooson QC AS (Sir Fynwy):

There should be a national campaign to restore these areas to their former greenness.... The hon. Member for Bassetlaw (Mr. Ashton) said that he did not have the same problem, because the land around his constituency is level. But when I look at the valleys in Wales I always think how beautiful they must have been. I am sure that with modern techniques and determination they can be restored to their former beauty. The community has a duty to see that this is done.²³⁹

4.20 Hefyd, rhagwelwyd y byddai cymorth yn cael ei ddarparu gan Awdurdodau Lleol. Awgrymodd Arthur Probert y dull canlynol:

In the general supervision of tip removal I suggest that the officers of the National Tip Safety Committee should have power to assist local authorities in enforcing the observance of certain conditions. This would be of considerable assistance to local authorities. I know that the Committee is considering a standard code of practice....²⁴⁰

4.21 Sefydlwyd y Pwyllgor Diogelwch Tomennydd Cenedlaethol ("y Pwyllgor") ym Mawrth 1968, ac roedd yn cynnwys peirianyddion, syrfewyr ac aelodau o NCB.²⁴¹ Ond, ni chynhwyswyd y Pwyllgor yn y Bil: ni phasiwyd y cymal at y diben hwn. Nodwyd y rheswm am hynny gan y Gweinidog Pŵer:

I want to spell out briefly that there is no need for the Clause. First, the Tip Safety Committee will remain in being as long as there is work for it to do. It will be helping with the preparation of regulations. Then it will be advising on any changes that may be necessary in the light of its experience or knowledge. Secondly, I gave strong assurances in Standing Committee—I refer hon. Members to columns 16–17 of the OFFICIAL REPORT of 19th November—that the Committee would be consulted on the many regulations that we may have to frame following the Bill. These regulations will necessarily be drafted against a civil engineering background. It is in their preparation that the Committee can make one of its most effective contributions.

The hon. Member for Bournemouth, West (Sir J. Eden) argued that because of its background the Committee can be useful as distinct from the Mines Inspectorate. Therefore, it will be kept on as long as it can give advice and guidance to me, and possibly long after the regulations have been framed. Thirdly, it is unusual for advisory committees to be mentioned in a Statute. My Nuclear Safety Advisory Committee and my Advisory Committee on Research and Development have no statutory existence, but they are none the worse for that. Fourthly, the present

²³⁸ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1160.

²³⁹ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1158.

²⁴⁰ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1165.

²⁴¹ *Hansard* (HC) 20 March 1968, vol 761, col 123.

arrangement allows the maximum flexibility both in the Committee's terms of reference and in its composition to meet the changing circumstances.

Therefore, although fears may be expressed based on the Committee's not having a statutory base, I assure the House that the Committee will remain in being for as long as there is work for it to do. It is pressing ahead with its notes for guidance of local authorities, which will be an extensive and detailed document. I hope that it will not be long before it is available. The National Coal Board has already produced its code of practice on tipping operations, which in itself is a mammoth document.²⁴²

4.22 Nid ydym wedi gallu canfod unrhyw gyfeiriad arall at y Pwyllgor nac at ganllawiau a gynhyrchwyd ganddo. Efallai bod y Pwyllgor wedi ei ddiddymu yn fuan ar ôl pasio'r Ddeddf.

4.23 Awgrymodd Peter Emery AS (Honiton) y dylai'r Arolygiaeth Mwynglodddiau fod ar gael i gynorthwyo awdurdodau lleol. Mae'n ymddangos y rhagwelwyd bod hynny yn gam diogelu amgen derbyniol:

Where remedial action is required by a local authority I consider that the views of the Inspectors of Mines and Quarries should be obtained. What I have in mind as a suggestion is that, before the service of any notice under Part II by a local authority for remedial action, or before any action is taken on remedial work by or on behalf of a local authority, the local authority should obtain the agreement of the Inspectorate of Mines and Quarries to the specific work in question.²⁴³

4.24 Cytunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru (George Thomas MP) y byddai "local authorities will be able to call on the full expertise of Her Majesty's Inspectorate of Mines and Quarries", gan ragweld dyfodol pryd y byddai cymorth sylweddol yn cael ei roi i Awdurdodau Lleol ac y byddai arbenigedd a gael. Byddai'r arbenigedd yn cael ei sicrhau ymhellach drwy gynnwys diogelwch tomennydd yn rhaglenni colegau technegol a phrifysgolion:

The Mining Qualifications Board, which I appoint, has been looking into the wider question of training in soil mechanics and related subjects for those engaged in mining and quarrying. The co-operation of universities, technical colleges, the Institution of Mining Engineers and the Institute of Quarrying will ensure that engineers in these industries will in future receive instruction in soil mechanics as part of their normal training.²⁴⁴

4.25 Pan fo tomen mewn perchnogaeth breifat, y bwriad oedd i berchnogion y tomennydd ysgwyddo'r cyfrifoldeb:

The powers which the Bill will confer on local authorities are powers to obtain information, enter land and carry out tests to determine whether a tip constitutes a hazard by reason of its instability. If it does, there is power for the local authority to require the owner to carry out remedial operations, or, if the authority prefers to do

²⁴² *Hansard* (HC), 21 January 1969, vol 776, col 395.

²⁴³ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1187.

²⁴⁴ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1139.

the work itself, it may do so. The cost of such remedial operations, and of any damage caused by them, will fall upon the owner of the tip, but the Bill also provides that the owner or the local authority may recover the whole or part of these costs from other persons whose action may have contributed to the unsatisfactory condition of the tip.²⁴⁵

- 4.26 Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn mynnu mai bwriad y Bil yw perchnogion y domen yn gorfod ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb.²⁴⁶ Ond roedd Arthur Probert AS yn rhagweld problemau i awdurdodau lleol petai ansicrwydd ynghylch perchnogaeth tomennydd neu os na fyddai gan berchnogion ddiddordeb:

I am a little perturbed at the possibility of Part II presenting a problem in respect of the responsibilities of local authorities. If an owner cannot be traced, or knows nothing about his tip being made safe, the local authority will have to use its default powers. If it is subsequently shown to be dilatory, technically speaking, and a serious accident occurs, the local authority will be blamed. Acceptance by local authorities of liability must be conditional on their having the services of the Mines Inspectorate for reports on the condition of disused pits.²⁴⁷

- 4.27 Mewn ymateb i drychineb Aberfan, diwygiwyd Gorchymyn Mwyngloddiau (Hysbysiad am Ddigwyddiadau Peryglus) 1959 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i adrodd am unrhyw symudiad tomennydd i'r Arolygiaeth Tomennydd:

On 1st November, last year, two Orders came into force amending the Mines (Notification of Dangerous Occurrences) Order, 1959, and the corresponding Order relating to quarries. They require that any movement of material, or any fire, or any other event indicating that a tip or settling pond belonging to a mine is or is likely to become unstable, must be reported to Her Majesty's Inspector of Mines and Quarries for the district. Even that is quite an advance. Many is the time when we in mining areas have glanced anxiously at smouldering muck stacks near our villages.²⁴⁸

- 4.28 Mae hynny yn pwysleisio'r rôl a ragwelwyd ar gyfer yr Arolygiaeth Mwyngloddiau a'r cymorth yr oedd i'w roi i awdurdodau lleol neu berchnogion preifat.
- 4.29 Yn y cyd-destun hwnnw y crëwyd y Ddeddf; ffydd yn y cymorth a ddarparwyd gan ddiwydiant gweithredol, yn benodol i awdurdodau lleol, y gred y byddai tomennydd anweithredol yn annhebygol o lithro, a'r gobaith y byddai yna fwy o ddeddfwriaeth i ymdrin â materion amgylcheddol a achoswyd gan y tomennydd. Ni fyddai'r Senedd wedi gallu rhagweld y newidiadau fyddai'n arwain at ddod â gweithredu i ben yn achos bron yr holl domennydd. Hefyd ni fyddai wedi gallu rhagweld y newidiadau amgylcheddol sydd wedi effeithio ar eu sefydlogrwydd.

²⁴⁵ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1141.

²⁴⁶ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1198.

²⁴⁷ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1166.

²⁴⁸ *Hansard* (HC) 7 November 1968, vol 772, col 1138 (Y Weinidog Pŵer).

DEDDF MWYNGLODDIAU A CHWARELI (TOMENNYDD)

4.30 Roedd y Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 yn gymwys i bob tomen oedd yn gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli, nid tomennydd glo yn unig. Roedd Deddf 1969 i gael ei dehongli yn gyfun â Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1954, oedd yn gyfuniad ynddi ei hun o deddfwriaeth mwyngloddio blaenorol oedd yn dyddio'n ôl i 1842. Roedd Deddf 1954 yn darparu ar gyfer rheoli mwyngloddiau a chwareli ac er mwyn sicrhau diogelwch, iechyd a lles y rhai oedd yn cael eu cyflogi ganddynt. Roedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ffensio mwyngloddiau a chwareli segur ac anweithredol. Nid oedd yn benodol yn gymwys i domennydd glo. Yr unig gyfeiriad at domen oedd mewn adran ddehongli a nodai "premises for the time being used for depositing refuse from a ... mine or quarry ... shall be deemed to form part of that mine or quarry".²⁴⁹ Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o Ddeddf 1954 wedi cael ei diddymu.

4.31 Roedd Deddf 1969 yn diffinio tomen fel:

an accumulation or deposit of refuse from a mine or quarry (whether in a solid state or in solution or suspension) other than an accumulation or deposit situated underground, and where any wall or other structure retains or confines a tip then, whether or not that wall or structure is itself composed of refuse, it shall be deemed to form part of the tip for the purposes of this Act.²⁵⁰

4.32 Mae'r gwahaniaeth a nodir yn Rhannau 1 a 2 Deddf 1969, rhwng tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol ac anweithredol wedi sefydlu ymagwedd tuag at reoleiddio tomennydd sydd yn parhau hyd heddiw. Roedd Rhan 1 y Ddeddf yn nodi dyletswyddau manwl ar gyfer archwilio a rheoli "tomennydd gweithredol" a "tomennydd anweithredol".²⁵¹ Diffiniwyd tomennydd gweithredol fel rhai ar safle oedd yn rhan o fwynglawdd neu chwarel weithredol. Diffiniwyd tomennydd anweithredol fel rhai nad oedd ar safle o'r fath ond pan nad yw'r chwarel neu'r fwynglawdd sydd yn gysylltiedig â'r domen wedi cau ac mae'r safle ble y'i lleolir yn parhau i gael ei feddiannu gan berchennog y fwynglawdd neu'r chwarel honno yn unig.²⁵² Trafodir deddfwriaeth olynedd isod.²⁵³

Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1971

4.33 Lluniwyd Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1971 (nad ydynt mwyach mewn grym) o dan Ddeddfau Mwyngloddiau a Chwareli 1954 a 1969 ac roeddent yn nodi dyletswyddau mewn perthynas â draenio, goruchwyliaeth, cynnal a chadw ac archwilio pob tomen weithredol ac anweithredol yr oedd Rhan 1 Deddf 1969 yn gymwys iddynt. Roeddent hefyd yn creu cyfundrefn uwch ar gyfer tomennydd

²⁴⁹ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1954, a 180(4).

²⁵⁰ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 2(1). Mae'r diffiniad yma yn cynnwys lagwnau sorod mwyngloddiau. Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn gwahaniaethu rhwng lagwnau mwyngloddiau a chwareli a chronfeydd dŵr. Mae Deddf 1975 yn diffinio "cronfa ddŵr" fel "a reservoir for water as such (and accordingly does not include a mine or quarry lagoon which is a tip within the meaning of the Mines and Quarries (Tips) Act 1969)".

²⁵¹ Disodlwyd a diddymwyd Rhan 1 gan Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, gaiff eu hystyried ym mharagraffau 4.63 i 4.72 isod.

²⁵² Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 2(2).

²⁵³ Gweler paragraffau 4.63 i 4.72 isod.

“dosbarthedig”, sef y rhai oedd yn fwy tebygol o achosi perygl posibl oherwydd eu maint neu leoliad. Diffiniwyd y rhain yn Rheoliad 2 fel unrhyw domen oedd yn perthyn i'r dosbarthiadau canlynol:

(a) mae'r domen yn cynnwys gwastraff sydd wedi ei gronni neu a ddyddodwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn cyflwr solid ac nid fel sylwedd neu ynghrog a-

(i) mae arwynebedd y tir orchuddir gan y gwastraff yn fwy na 10,000 metr sgwâr; neu

(ii) mae uchder y domen yn fwy na 15 metr; neu

(iii) mae graddiant gyfartalog y tir a orchuddir gan y gwastraff yn fwy na 1 mewn 12;

(b) mae'r domen yn cynnwys gwastraff sydd wedi ei gronni neu a ddyddodwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel sylwedd neu ynghrog a-

(i) mae unrhyw ran o'r domen (ac eithrio unrhyw wal neu strwythur arall sydd yn ei gynnal neu'n ei gyfyngu, ond yn cynnwys unrhyw hylif ynddo) yn fwy na 4 metr uwch ben lefel unrhyw ran o'r tir cyfagos sydd o fewn 50 metr o berimedr y domen; neu

(ii) mae cyfaint y domen (ac eithrio unrhyw wal neu strwythur arall sydd yn ei gynnal neu'n ei gyfyngu, ond yn cynnwys unrhyw hylif ynddo) yn fwy na 10,000 metr ciwbig:

At ddibenion penderfynu a yw gwastraff wedi cael ei gronni neu ei ddyddodi yn gyfan gwbl neu yn bennaf mewn cyflwr solid neu'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel sylwedd neu ynghrog, ni fydd unrhyw wal neu strwythur arall sydd yn cynnal neu'n cyfyngu'r domen yn cael ei chynnwys.

- 4.34 Roedd y rheoliadau yn pennu gofynion mwy caeth ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chau tomennydd dosbarthedig. Pan gynigiwyd tomen dosbarthedig, roedd angen paratoi cynlluniau cywir a chael adroddiad gan berson cymwys er mwyn cadarnhau sefydlogrwydd y tir ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig.²⁵⁴ Yn achos y tomennydd hynny oedd yn perthyn i gategori tomen ddosbarthiadol, roedd yna ddyletswydd archwilio wythnosol, yn cynnwys archwilio draeniau a'r holl faterion oedd yn ofynnol o dan y rheolau tipio ar gyfer tomennydd dosbarthiadol gweithredol yn unol â'r rheoliadau.²⁵⁵ Yn achos y tomennydd dosbarthiadol anweithredol, roedd yna ddyletswydd i archwilio'r tomennydd bob chwe neu ddeuddeg mis, yn ddibynnol ar gyfansoddiad deunydd y domen.²⁵⁶ Hefyd gwnaethpwyd darpariaeth mewn perthynas â thomennydd dosbarthiadol gweithredol ar gyfer adroddiadau ar faterion penodol, cofnodion o'r gwastraff a dipiwyd, a hysbysiadau o newidiadau i ddyluniad neu

²⁵⁴ Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, Rheoliad 9.

²⁵⁵ Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, Rheoliad 11.

²⁵⁶ O dan reoliad 17, roedd archwiliadau yn ofynnol bob chwe mis os oedd cyfansoddiad y tomennydd yn sylwedd gwastraff yn bennaf, a phob deuddeg mis os oedd y domen yn solid yn bennaf.

fanyleb.²⁵⁷ Ar gyfer tomennydd dosbarthedig anweithredol, roedd angen llunio adroddiadau ar faterion penodol bob 5 neu 10 mlynedd, yn ddibynnol eto ar gyfansoddiad y domen, ac roedd angen cadw cofnodion a chynlluniau penodol.²⁵⁸

- 4.35 Er nad yw'r Rheoliadau yma mewn grym mwyach, mae'r Awdurdod Glo yn ystyried eu bod wedi sefydlu arferion gorau ac fe'u dilynir o ran cynnal a chadw tomennydd glo anweithredol y maent yn gyfrifol amdanynt.²⁵⁹

Cyfundrefn Rhan 2 ar gyfer tomennydd anweithredol

- 4.36 Roedd Rhan 2 y Ddeddf, sydd yn dal mewn grym, yn cyflwyno rheolau ynghylch atal perygl i'r cyhoedd o hen domennydd anweithredol. Roedd tomen anweithredol yn cael ei diffinio yn wreiddiol fel tomen nad oedd Rhan 1 y Ddeddf yn gymwys iddi.²⁶⁰ Yn gryno, mae tomen anweithredol yn un sydd yn gysylltiedig â mwynglawdd neu chwarel adawedig.

- 4.37 Mae Rhan 2 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol i sicrhau nad yw tomennydd anweithredol, oherwydd ansefydlogrwydd, yn fygythiad i'r cyhoedd.²⁶¹ O dan y pwerau yma gall awdurdodau lleol gael mynediad i wybodaeth am domennydd ac mae ganddynt hawl mynediad i gynnal profion archwiliadol. At ddibenion Rhan 2, mae Adran 36 yn darparu ar gyfer trin tomen anweithredol fel un ansefydlog

if and only if there is, or there is reasonable ground for believing that there is likely to be, such a movement of the refuse which makes up the tip as to cause a significant increase in the area of land covered by the tip.

- 4.38 Mae adran 12(1) yn darparu:

For the purpose of enabling a local authority to assess whether a disused tip which is situated wholly or partly within its area is stable and whether any instability of the tip is or is likely to constitute a danger to members of the public, the local authority may, by notice served on the owner of the tip or on any other person who the authority has reason to believe may be able to assist it, require him, within such time, not being less than fourteen days, as may be specified in the notice, to produce to the authority such documents in his possession or control (whether in the form of maps, surveys, plans, records of work or otherwise and whether relating to the tip itself or the land on which it is situated) as may be so specified.

²⁵⁷ Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, Rheoliadau 12 i 15.

²⁵⁸ Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, Rheoliadau 18 i 20.

²⁵⁹ Roddwyd y wybodaeth i Gomisiwn y Gyfraith gan yr Awdurdod Glo a gweler <https://www.gov.uk/government/publications/disused-colliery-tips-owned-and-inspected-by-the-coal-authority> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

²⁶⁰ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 11. Diwygiwyd yr adran hon gan Reoliadau Mwyngloddiau 2014 er mwyn (a) diffinio tomen anweithredol fel tomen nad yw Rheoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddi a (b) dod â'r diffiniad o domen o'r adran 2 (a ddiddymwyd) i'r adran hon.

²⁶¹ Mae Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 11, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn diffinio awdurdod lleol yng Nghymru fel cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

4.39 Rhoddir dirwy am fethu â chydymffurfio â rhybudd heb esgus rhesymol. Ceir darpariaeth bellach ynghylch atebolrwydd troseddol os yw'r wybodaeth a ddarperir yn anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid.²⁶²

4.40 Mae Adran 13 yn darparu hawl mynediad i gynnal profion archwiliadol er mwyn penderfynu a yw'r domen yn achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd:

(1) ... a person duly authorised in writing by a local authority may at any reasonable time enter upon the land on which a disused tip is situated or upon any neighbouring land—

(a) for the purpose of investigating whether any instability of the tip might constitute a danger to members of the public;

(b) for the purpose of carrying out any operations (in this Part of this Act referred to as “exploratory tests”) which, in the opinion of the local authority, are necessary to determine whether the tip is unstable; and

(c) for the purpose of inspecting any operations which are being carried out on that land where those operations may affect the stability of the tip;

but, subject to the following provisions of this section, a person so authorised shall not demand admission as of right to any land which is occupied unless at least forty-eight hours' notice in writing of the intended entry has been given to the occupier.

4.41 Mae yna hefyd bŵer i wneud cais am warant os gwrthodir neu y rhwystrir mynediad, neu os yw'r perchennog yn absennol dros dro. Mae'r gwarant yn caniatáu mynediad drwy rym os bydd angen.²⁶³

4.42 At ddibenion Rhan 2, diffinnir y “perchennog” yng Nghymru a Lloegr fel y person sydd ag ystad gyfreithiol yn y tir lle:

(1) mae'r domen naill ai'r ffi yn syml neu'n denantiaeth am gyfnod penodol nad yw'n llai na blwyddyn heb ddod i ben ac nad yw'n un o delerau'r morgais; a

(2) nad yw'r domen yn disgwyl yn ôl pan ddaw tenantiaeth o'r fath i ben.²⁶⁴

Effaith hyn yw y gall y “perchennog” fod (a) yn rhydd-ddeiliad nad yw wedi rhoi prydles, (b) yn denant sydd wedi cael tenantiaeth am gyfnod o unrhyw hyd, ar yr amod bod gan y cyfnod, ar y dyddiad perthnasol, o leiaf flwyddyn i redeg neu (c) yn rhydd-ddeiliad sydd â rifersiwn prydles sydd, ar y dyddiad perthnasol, â llai na blwyddyn i redeg.²⁶⁵ Bydd rhoi prydles 99 mlynedd yn golygu mai'r lesddeiliad fydd y

²⁶² Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 12(2).

²⁶³ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 13(2).

²⁶⁴ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 13(6)(a). Mae'r term “rifersiwn”/disgwyl yn ôl yn cyfeirio at reolaeth y tir yn mynd yn ôl i'r rhydd-ddeiliad pan mae prydles yn dod i ben.

²⁶⁵ Ar gyfer symlrwydd, mae hwn yn tybio nad oes unrhyw prydlesi rhyngol. Gall llesdeiliad rhyngol bod yn y “perchennog” os oes gan ei prydles nhw fwy na blwyddyn i rhedeg ac mae gan yr is brydles llai.

“perchennog” am y 98 mlynedd cyntaf a’r rhydd-ddeiliad yw’r “perchennog” am y flwyddyn olaf ond, yn yr un modd, bydd rhoi prydles dwy flynedd yn golygu mai’r lesddeiliad fydd y “perchennog” am y flwyddyn gyntaf a’r rhydd-ddeiliad fydd y “perchennog” am yr ail flwyddyn.

- 4.43 Pan fo sail rhesymol i gredu bod tomen anweithredol yn ansefydlog a bod angen mynediad ar unwaith, mae adran 13 (4) yn rhoi pŵer i’r awdurdod lleol gael mynediad i’r tir heb roi rhybudd na chael gwarant.²⁶⁶

If a local authority has reasonable ground for believing that a disused tip is unstable and that possible danger to members of the public requires an immediate entry on to any such land as is referred to in subsection (1) for one or more of the purposes specified in that subsection, a person duly authorised in writing by the local authority may, at any time and without giving notice or obtaining a warrant under this section, enter upon the land for that purpose (or those purposes).

- 4.44 Gellir cosbi rhwystro mynediad yn fwriadol gyda dirwy.²⁶⁷

- 4.45 Pan fo hyn yn gymwys - “it appears to a local authority that a disused tip situated wholly or partly within its area is unstable and, by reason of that instability, constitutes or is likely to constitute a danger to members of the public”,²⁶⁸ mae adran 14 yn rhoi pŵer i’r awdurdod hysbysu’r perchennog, fel y diffinnir gan adran 36, fod rhaid iddynt wneud gwaith adfer i sicrhau sefydlogrwydd y domen o fewn cyfnod penodol. Mae’r cyfnod dylai’r gwaith cael ei wneud o fewn dechrau dim yn gynharach na 21 dydd ar ôl dyddiad yr hysbysiad. Mae’n rhaid bod yr hysbysiad hefyd yn cael ei hysbysu i unrhyw berson arall sydd yn feddiannwr ar yr holl neu ran o’r tir lle mae’r gwaith i fod, ac unrhyw berson, yn ôl gwybodaeth yr awdurdod lleol, sydd â buddion yn y tir, neu wedi cael budd o’r fath o fewn y 12 mlynedd cyn dyddiad yr hysbysiad i berchennog y domen. Mae’n rhaid hysbysu unrhyw un sydd â budd yn y deunydd sydd yn y domen, sydd wedi defnyddio’r domen er mwyn gwaredu gwastraff o bwl glo neu chwarel o fewn y 12 mlynedd flaenorol, neu sydd wedi, o fewn yr un cyfnod, achosi neu gyfrannu at ansefydlogrwydd y domen.²⁶⁹

- 4.46 Mae Adran 14 (5) yn caniatáu i’r perchennog roi gwrth-hysbysiad sydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau ei hun (o dan adran 17, yr ystyrir nes ymlaen isod) i wneud y gwaith:

Where a local authority serves a notice under this section on the owner of a disused tip, then, within the period of twenty-one days beginning with the day on which the notice was served, the owner may serve a counter-notice under this subsection in the prescribed form requiring the local authority to exercise its powers under section 17; and where such a counter-notice is served—

²⁶⁶ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 13.

²⁶⁷ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 13(6).

²⁶⁸ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 14(1).

²⁶⁹ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 14(4).

(a) the local authority shall serve a copy of the counter-notice on every person on whom, under subsection (4), it served a copy of the notice under this section;

(b) the notice under this section and any copy thereof served under subsection (4) shall be deemed for the purposes of the following provisions of this Part of this Act never to have been served; and

(c) the local authority shall, as soon as reasonably practicable, exercise its powers under section 17 in relation to the disused tip in question.

4.47 Mae adran 15 yn rhoi hawl i'r perchennog apelio yn erbyn hysbysiad adran 14, y gellir ei defnyddio o fewn 21 diwrnod o roi'r hysbysiad, ar ffurf cais i'r llys²⁷⁰ am orchymyn i amrywio neu ganslo'r hysbysiad ar un neu ragor o'r seiliau canlynol:

(a) that there is no reasonable ground for believing that the tip is unstable or that, by reason of instability, the tip constitutes or is likely to constitute a danger to members of the public;

(b) that the remedial operations specified in the notice are more extensive than is necessary to secure the safety of members of the public;

(c) that the stability of the tip could be ensured by the carrying out of operations different, in whole or in part, from the remedial operations specified in the notice and that the owner is prepared to undertake those alternative operations;

(d) that the owner or some other person has already begun, or has entered into a contract with a third party to begin, operations different, in whole or in part, from the remedial operations specified in the notice and those alternative operations will ensure the stability of the tip;

(e) that the time within which the remedial operations are to be carried out is not reasonably sufficient for the purpose;

(f) that there is some defect or error in, or in connection with the notice.

4.48 Os bydd y llys yn fodlon bod y sail unrhyw un o'r seiliad yn ddilys, gall roi gorchymyn i amrywio'r neu i ganslo'r hysbysiad. Mae'r cyfnod a nodwyd ar gyfer cwblhau'r gwaith yn cael ei ymestyn nes y penderfynir yn derfynol ar y cais.

4.49 Mae Adran 17 yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol wneud y gwaith yma ei hun, yn ddarostyngedig i roi hysbysiad i'r perchennog a chyfnod rhybudd o 21 diwrnod, ac eithrio pan fo'n ystyried bod yna berygl uniongyrchol i'r cyhoedd:²⁷¹

(1) Where a local authority considers that such circumstances exist as are specified in section 14(1) then, instead of serving a notice under that section requiring the owner of the disused tip in question to carry out remedial operations, the authority

²⁷⁰ Diffiniwyd yn wreiddiol fel yr Uchel Lys (Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 28(1)), ond a estynnwyd i gynnwys y llys sirol gan Ddeddf Llysoedd a Throseddau 2013.

²⁷¹ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 17.

may itself carry out remedial operations and any works of reinstatement reasonably necessary in consequence of the carrying out of those remedial operations.

(2) Subject to subsection (3), where a local authority proposes to carry out remedial operations under subsection (1) in relation to a disused tip it shall, not less than twenty-one days before the operations are begun, serve notice on the owner of the tip of its intention to carry out the operations, specifying the nature and extent of the operations and of any consequential works of reinstatement which it proposes to carry out.

(3) If a local authority has reasonable ground for believing that a disused tip is unstable and that possible danger to members of the public requires the immediate carrying out of remedial operations, it may begin operations under subsection (1) forthwith, notwithstanding that no notice under subsection (2) has been served or that less than twenty-one days has elapsed since the service of such a notice; but if no such notice has been served at the time the remedial operations are begun, then, as soon thereafter as is reasonably practicable, the local authority shall serve notice on the owner of the tip of the commencement of the operations, specifying the nature and extend of the operations and of any consequential works of reinstatement which it proposes to carry out.

- 4.50 Mae gan yr awdurdod lleol pŵer o fynediad i wneud gwaith adfer. Mae rhaid bod hysbysiad ysgrifenedig o'r mynediad i'r meddiannwr 24 awr ymlaen llaw, gyda phŵer i roi cais mewn am warant os mae mynediad yn cael ei gwrthod neu mae'r perchennog yn absennol dros dro, oni bai fod yr awdurdod lleol yn ystyried bod yna perygl ar unwaith o fewn termau adran 17(3).²⁷²
- 4.51 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth braidd yn gymhleth o ran talu am gost archwiliadau a gwaith. Mae ein prif nodweddion fel a ganlyn. Yn gyntaf, o dan adran 23(1) a (2), mae gan yr awdurdod lleol bŵer i adennill oddi wrth y perchennog dreuliau (ymhlith pethau eraill) gweithrediadau adfer a gyflawnir ganddo o dan adran 17, ac o brofion archwiliadol a arweiniodd naill ai at y gweithrediadau hynny neu at hysbysiad o dan adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y domen gyflawni gweithrediadau adfer. Mae darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn galwad gan awdurdod lleol.²⁷³
- 4.52 Caiff perchennog neu awdurdod lleol sy'n cyflawni gweithrediadau o dan adrannau 14 neu 17 symud a gwerthu deunydd sy'n eiddo i eraill, ond rhaid iddynt roi cyfrif am elw'r gwerthiant iddynt.²⁷⁴ Os bydd awdurdod lleol yn canslo hysbysiad o dan adran 14, caiff y perchennog hawlio gwariant a dynnir wrth gyflawni gweithrediadau oddi tani ac addesir y darpariaethau ar gyfraniadau trydydd parti (a drafodir nesaf).²⁷⁵ Mae perchnogion ac awdurdodau lleol yn atebol i ddigolledu trydydd parti'n am ddifrod

²⁷² Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 18.

²⁷³ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 23 a 24.

²⁷⁴ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 14(7), 17(6).

²⁷⁵ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 16(4) ac atodlen 4.

neu aflonyddwch i'w mwynhad o dir o ganlyniad i brofion neu waith adfer.²⁷⁶ Gall awdurdodau lleol hawlio hyn yn ôl gan berchnogion.²⁷⁷

- 4.53 Gellir gwneud gorchymyn cyfrannu o dan adran 19, ar gais y perchennog, yn gofyn am gyfraniad gan dri chategori eraill o bartïon:

Where a notice relating to remedial operations at a disused tip has been served on the owner of the tip under section 14 or section 17 and an application is made to the court under this section, the court may order that a contribution towards the expenses otherwise falling to be borne by the owner of the disused tip as a result of the carrying out of the remedial operations shall be made by any one or more of the following persons on whom notice of the application has been served.²⁷⁸

- 4.54 Y categorïau yw: unrhyw un sydd wedi rhoi gwastraff mwynglawdd neu chwarel ar y domen yn y 12 mlynedd ddiwethaf; unrhyw berson sydd, o fewn y 12 mlynedd honno, wedi cyfrannu, drwy weithred neu anwaith afresymol, at ansefydlogrwydd y domen ac:

unrhyw berson a oedd, ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad o dan adran 14 neu adran 17, ag ystad neu fuddiant, ac eithrio fel morgeisai, yn y tir y mae'r domen wedi'i leoli arno ac unrhyw berson a oedd ag ystad neu fuddiant o'r fath ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o ddeuddeng mlynedd yn union cyn y dyddiad hwnnw.²⁷⁹

- 4.55 Y llys sy'n penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn cyfrannu ai peidio ac sy'n pennu'r cyfrannau. Mae adran 19(4) yn nodi rhestr anghyflawn o amgylchiadau y mae'r llys i roi sylw iddynt; mae'r rhain yn cynnwys i ba raddau y mae'r person wedi defnyddio'r domen ar gyfer tipio, maint ei gyfraniad at ei ansefydlogrwydd, natur ei ystad neu ei fuddiant yn y tir sy'n cynnwys y domen, a ydynt wedi cael gwared â'r buddiant hwnnw er mwyn osgoi atebolrwydd mewn perthynas â'r domen a thelerau unrhyw gytundeb cyfamod, cytundeb neu ddarpariaeth statudol sy'n effeithio ar hawliau a rhwymedigaethau'r awdurdod a'r "perchennog". Mae hyn yn galluogi'r llys i liniaru effaith adran 23 ar, er enghraifft, denant o dan brydles fer.

- 4.56 Os mae llys wedi rhoi gorchymyn cyfrannu o blaid perchennog dan adran 19, gall awdurdod lleol sydd wedi gwneud gwaith hawlio'r cyfraniad syth o'r cyfrannwr;²⁸⁰ os mae'r perchennog a gafwyd y gorchymyn cyfrannu wedi gwneud y gwaith dan adran 14, all y perchennog adennill y cyfraniad.²⁸¹ Mae rhaid i perchennog ac awdurdod lleol sy'n rhoi cais mewn yn erbyn cyfrannwr hysbysu hwn gyntaf.²⁸² Mae yna ddarpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn hawliad gan awdurdod lleol.²⁸³

²⁷⁶ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 20.

²⁷⁷ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 23(1)(d).

²⁷⁸ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1969, a 19, 21 a 22.

²⁷⁹ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 19(1).

²⁸⁰ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 23(3).

²⁸¹ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 21.

²⁸² Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 21(3) a 23(4).

²⁸³ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 22 a 24.

- 4.57 Mae Adran 20 yn darparu ar gyfer ceisiadau am iawndal am ddifrod neu aflonyddwch a achoswyd gan waith adfer. Caiff ei ategu gan ddarpariaeth bellach yn atodlen 3.
- 4.58 Gall y Gweinidog priodol, gyda chydsyniad y Trysorlys, roi grant i'r awdurdod lleol tuag at wariant a ysgwyddwyd gan yr awdurdod lleol wrth gynnal profion archwiliadol neu waith adfer neu unrhyw waith adfer canlyniadol.²⁸⁴ Yng Nghymru, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru ac nid oes angen cydsyniad y Trysorlys.²⁸⁵
- 4.59 Mae Atodlen 2 yn addasu darpariaethau Rhan 2 mewn amryw o ffyrdd mewn achosion pan fo awdurdod lleol yn berchennog ar domen segur a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ei ardal.
- 4.60 Yn gritigol, nid yw Deddf 1969 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio a diogelu tomennydd anweithredol, dim ond darparu cyfundrefn oddefol sydd yn rhoi disgresiwn eang i'r awdurdodau. Mae cylchlythyr a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Weinyddiaeth Tai a Llywodraeth Leol a'r Swyddfa Gymreig ar gyfer awdurdodau lleol ym Mehefin 1969 yn tanlinellu'r bwriad y tu ôl i'r ddeddfwriaeth hon. Mae'n cofnodi bod y Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Tomennydd wedi pwysleisio'r angen i archwilio tomennydd anweithredol yn rheolaidd pan fo yna berygl i'r cyhoedd petaent yn symud. Argymhellodd y cylchlythyr y dylai awdurdodau lleol gynnal rhestr o domennydd a lagŵns a fyddai yn eu barn nhw yn beryglus i'r cyhoedd petaent yn diffygio; a threfnu eu bod yn cael eu harchwilio o bryd i'w gilydd am dystiolaeth eu bod yn ansefydlog. Dylai'r canlyniad bosibl o ddiffygion yn ogystal â hanes a chyflwr y domen bennu pa mor aml y dyllid cynnal archwiliadau.
- 4.61 Dywedwyd wrth awdurdodau lleol y dylent ddibynnu ar eu staff nhw cyn belled ag sy'n bosibl neu gyfarwyddo ymgynghorwyr i gynghori ar sefydlogrwydd tomennydd amheus. Roedd y cylchlythyr yn pwysleisio y gallai Archwilwyr Mwyngloddiau a Chwareli EM roi cymorth cyfyngedig yn unig ar faterion megis cynnal profion archwiliadol, ond na fyddent yn gallu cynnal y profion eu hunain na goruchwyllo mesurau adfer. Roedd y cylchlythyr yn egluro yn y pen draw mai cyfrifoldeb perchennog y domen yw sefydlogrwydd y domen, ac y byddai disgwyl iddynt fel arfer talu am gost gwaith adfer. O dan amgylchiadau eithriadol efallai byddai grant ar gael i gynorthwyo gwaith adfer gaiff ei wneud gan awdurdodau lleol, yn ôl disgresiwn y Gweinidog a gyda chydsyniad y Trysorlys.²⁸⁶

Y GYFUNDREFN BRESENNOL AR GYFER TOMENNYDD SYDD YN GYSYLLTIEDIG Â MWYNGLODDIAU A CHWARELI GWEITHREDOL

- 4.13 Mae'r prosiect hwn yn cynnwys holl domennydd glo Cymru, yn cynnwys y nifer llai sydd yn dal yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol. Felly rydym yn nodi'r ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn gymwys i'r tomennydd hynny.

²⁸⁴ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, a 25.

²⁸⁵ Gorchymun Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaeth) 1999/672.

²⁸⁶ Cylchlythyr 38, 69 (Y Swyddfa Gymreig), 25 Mehefin 1969.

Rheoliadau Mwyngloddiau 2014

4.14 Diddymwyd Rhan 1 Deddf 1969 gan Reoliadau Mwyngloddiau 2014 a luniwyd o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.²⁸⁷ Roedd y Rheoliadau yn alinio deddfwriaeth mwyngloddio gyda'r rhan fwyaf o ddarpariaethau iechyd a diogelwch eraill, yn yr ystyr bod y dull mwy rhagnodol a fabwysiadwyd gan Reoliadau 1971 wedi cael eu disodli gan ddarpariaethau pennu amcanion.²⁸⁸

4.15 Mae'r diffiniad o domen yn rheoliad 2 yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yn Neddf 1969:

an accumulation or deposit of any refuse from a mine (whether in a solid or liquid state or in solution or suspension) other than an accumulation or deposit situated underground, and includes, but is not limited to — (a) overburden dumps, backfill, spoil heaps, stock piles and lagoons, and (b) any wall or other structure that retains or confines a tip.

4.16 Yn fras, fel yn achos Rhan 1, mae'r Rheoliadau yn gymwys i domennydd sydd yn rhan o fwynglawdd gweithredol ac mae'r gyfundrefn neilltuol a grëwyd gan Ddeddf 1969 ar gyfer rheoli tomennydd anweithredol yn dal i fodoli. Mae Rheoliad 4(3) yn nodi dwy sefyllfa pan fo tomen yn perthyn i'w cylch gorchwyl:

- (1) the tip is on premises which are deemed to form part of a mine; or
- (2) the tip is not on such premises but the mine with which it is associated has not been abandoned and the premises on which the tip is situated continue to be occupied exclusively by the owner of that mine.

4.17 Diffinnir mwynglawdd fel cloddfa neu system gloddio a wneir at ddiben, neu mewn cysylltiad ag echdynnu, yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, drwy gyfrwng sy'n cynnwys unigolion sy'n gweithio o dan y ddaear.²⁸⁹

4.18 Ar gyfer tomennydd sydd yn rhan o gylch gorchwyl y Rheoliadau, mae Rhan 8 yn gosod dyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch.²⁹⁰ Mae'n rhaid i weithredwr mwynglawdd sicrhau bod arfarniad addas o'r holl domennydd sydd yn bodoli neu domennydd arfaethedig yn cael ei gynnal gan unigolyn cymwys er mwyn sefydlu a yw, neu a fyddai tomen yn achosi "perygl sylweddol".²⁹¹ Rhaid cadw cofnodion o ganfyddiadau'r arfarniad. Os nad yw'r domen yn achosi perygl sylweddol, rhaid cynnal mwy o arfarniadau yn "briodol reolaidd", neu pryd bynnag fo yna reswm i amau y bu

²⁸⁷ SI 2014 Rhif3248. Roedd Rheoliadau 2014 yn diddymu a 1 i 7 a 10 Deddf 1969. Roedd adrannau 8 a 9 eisoes wedi cael eu diddymu gan Reoliadau Ddeddfau Mwyngloddiau a Chwareli 1954 a 1971 (Diddymiadau ac Addasiadau) 1974. Effaith diddymu'r darpariaethau galluogi yma (ynghyd â diddymu darpariaeth arbed mewn perthynas â darpariaethau Rheoliadau 1971 a luniwyd gan Reoliadau 1974) oedd diddymu Rheoliadau 1971.

²⁸⁸ JR Leeming, Prif Arolygydd Mwyngloddiau EM *The Aberfan Disaster and its Legacy* papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Coffa Hanner Canrif ers Trychineb Aberfan yng Nghaerdydd ar 21 Hydref 2016.

²⁸⁹ Deddf Deddf Mwyngloddiau a Chwareli 1954, a 180, fel a'i amnewid gan atodiad 5 i'r Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 3.

²⁹⁰ Diffinnir gan reoliad 60 fel "a duty to ensure that (a) instability or (b) movement which is likely to give rise to a risk to the health and safety of any person is avoided".

²⁹¹ Diffinnir gan reoliad 63 fel "a significant hazard by way of instability or movement".

neu y bydd yna newid mewn amgylchiadau sydd yn effeithio ar sefydlogrwydd y domen.²⁹²

- 4.19 Os ystyrir bod tomen yn achosi “perygl sylweddol”, a’i bod yn domen “hysbysadwy” oherwydd hynny, mae yna ddyletswydd i gynnal asesiad geodechnegol gan “arbenigwr geodechnegol” bob dwy flynedd. Rhaid i’r asesiad gynnwys safbwynt yr arbenigwr ar ddiogelwch a sefydlogrwydd, yn cynnwys a yw hynny yn cynrychioli perygl sylweddol oherwydd ansefydlogrwydd neu symudiad, a oes angen gwaith adfer, yr amserlen ar gyfer cwblhau hynny, ac erbyn pryd y mae’n rhaid cynnal yr asesiad nesaf.²⁹³ Mae’n ddyletswydd hefyd ar weithredwr y mwynglawdd i gynnal asesiad geodechnegol arall os oes yna reswm i amau y bu neu y bydd yna newid arwyddocaol mewn amgylchiadau perthnasol, neu reswm i amau canlyniad yr asesiad cyfredol.²⁹⁴
- 4.20 Rhaid i weithredwr mwynglawdd gadw cofnodion digonol o natur, swm a lleoliad yr holl sylweddau a ddyddodir ar domen hysbysadwy er mwyn galluogi asesiad cywir o sefydlogrwydd.²⁹⁵
- 4.21 Rhaid i weithredwr y mwynglawdd bennu rheolau tomennydd sydd yn darparu ar gyfer ffurfio a gweithredu tomennydd yn ddiogel. Mae’n rhaid i’r rhain gynnwys darpariaeth ar gyfer natur a swm yr oruchwyliaeth ar ffurfio a gweithredu tomennydd, a’r rhagofalon sydd yn rhaid eu cymryd er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch a sefydlogrwydd y domen.²⁹⁶
- 4.22 Bydd y Rheoliadau yn peidio â bod yn gymwys pan, ar gyfarwyddyd y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, fydd yn peidio â bod y rhan o’r mwynglawdd,²⁹⁷ neu pan roddir hysbysiad ei bod yn segur,²⁹⁸ sydd yn golygu bod tomen anweithredol yn rhan o’r fframwaith rheoleiddio a nodir yn Rhan 2 Deddf 1969. Ond, mae’n rhaid i weithredwr y mwynglawdd gadw pob adroddiad neu gofnod a wnaed o dan y Rheoliadau yn y mwynglawdd neu leoliad addas arall am o leiaf tair blynedd o ddyddiadau eu llunio,²⁹⁹

²⁹² Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 61. Diffinnir unigolyn cymwys yn rheoliad 2 fel unigolyn “with sufficient training and experience, or knowledge and other qualities, to enable that person properly to undertake the duties assigned to that person”.

²⁹³ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 62. At ddiben Rhan 8, mae Rheoliad 62 yn nodi bod “asesiad geodechnegol” yn golygu asesiad a gynhelir gan arbenigwr geodechnegol sydd yn nodi ac yn asesu’r holl ffactorau allai effeithio ar sefydlogrwydd a diogelwch tomen arfaethedig neu domen bresennol; ac mae “arbenigwr geodechnegol” yn golygu unigolyn sydd yn addas o gymwys i berfformio dadansoddiad geodechnegol er mwyn penderfynu ar y perygl a’r risg sydd yn deillio o asesu’r domen.

²⁹⁴ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 63.

²⁹⁵ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 64.

²⁹⁶ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 66.

²⁹⁷ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliadau 4(5) a (6).

²⁹⁸ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 67, gydag eithriad yn rheoliad 4(8) bod y Rheoliadau yn parhau i fod yn gymwys pan fo’r domen ar safle a feddiannir yn unig gan berchennog mwynglawdd segur ac a ddefnyddir ar gyfer dyddodi gwastraff o fwynglawdd arall.

²⁹⁹ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 68.

ac, ar adeg gadael y domen, rhaid rhoi cynllun cywir o'r domen segur i'r Weithrediaeth lechyd a Diogelwch.³⁰⁰

- 4.23 Arolygydd Mwyngloddiau EM, fel rhan o Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio'r Weithrediaeth lechyd a Diogelwch, sydd yn gyfrifol am archwilio mwyngloddiau ac am roi'r Rheoliadau ar waith yn briodol.

Rheoliadau Chwareli

- 4.24 Mae Rheoliadau Chwareli 1999, a wnaed hefyd o dan Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac a oruchwylir gan y Weithrediaeth lechyd a Diogelwch, yn darparu fframwaith cyfochrog o reoliadau ar gyfer tomennydd chwarel.³⁰¹ Fe'u defnyddiwyd fel model ar gyfer y Rheoliadau Mwyngloddiau ac maent yn gweithredu mewn ffordd gyffelyb. O dan Rhan VI, rhoddir dyletswydd drosfwaol ar weithredwr chwarel i sicrhau bod tomennydd sydd yn gynwysedig yn y Rheoliadau yn cael eu dylunio, ffurfio, gweithredu a'u cynnal fel y gellir osgoi ansefydlogrwydd neu symudiad sydd yn debygol o achosi risg i lechyd a diogelwch unrhyw unigolyn.³⁰² Mae rheolau tipio yn nodi sut y dylid ffurfio a chynnal pob elfen o'r domen.³⁰³ Mae'r tomennydd sydd yn gynwysedig yn y Rheoliadau yn cael eu diffinio fel rhai ble mae unigolion yn gweithio. Nid ydynt yn gymwys i chwareli ble na bu echdynnu neu baratoi ar gyfer gwerthu mwynau yn ystod y 12 mis blaenorol neu rai mewn perthynas â rhoi hysbysiad eu bod yn segur neu derfynu gweithgaredd i HSE.³⁰⁴ Drwy hyn, gwahaniaethir rhwng tomennydd sydd yn gysylltiedig â chwareli gweithredol a rhai anweithredol, yn yr un modd ag y gwahaniaethir y ffordd o reoleiddio tomennydd glo.
- 4.25 Diffinnir chwareli gan y Rheoliadau fel cloddiadau at ddiben echdynnu mwynau, nad ydynt yn fwyngloddiau, ffynhonnau neu dyllau turio.³⁰⁵ Mae hyn yn cynnwys mwynglawdd glo brig, nad yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithio o dan y ddaear. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys unrhyw domen segur "from which minerals are being extracted for sale or further use".³⁰⁶ Mae hynny yn cynnwys ail-weithio tomen anweithredol er mwyn echdynnu mwynau yn cynnwys glo. Bydd tomennydd o'r fath yn dod yn chwareli i bob pwrpas.
- 4.26 Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer arfarniad cychwynnol o domen chwarel er mwyn penderfynu a yw'n achosi "perygl sylweddol". Os canfyddir nad yw'n achosi perygl o'r fath, mae'n ddyletswydd ar y gweithredwr i sicrhau bod arfarniad arall yn cael ei gynnal yn briodol reolaidd a phan fod yna unrhyw reswm i amau newid arwyddocaol. Os canfyddir ei bod yn achosi perygl sylweddol, rhai cynnal asesiad geodechnegol.³⁰⁷ Rhaid ailadrodd yr asesiad geodechnegol bob dwy flynedd o leiaf, neu'n amlach os

³⁰⁰ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, rheoliad 69.

³⁰¹ SI 1999 Rhif 2024.

³⁰² Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 30.

³⁰³ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 31.

³⁰⁴ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 4.

³⁰⁵ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 3(1)(a).

³⁰⁶ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 3(1)(c).

³⁰⁷ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 32. Bydd tomennydd y canfyddir eu bod yn achosi perygl sylweddol yn cael eu hadnabod y dan y Rheoliadau fel "tomennydd hysbysadwy".

oes achos pryder.³⁰⁸ Rhoddir dyletswydd ar y gweithredwr i roi hysbysiad i'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch am domen o'r fath ac i gynnwys gwybodaeth benodol am y domen yn yr hysbysiad hwn.³⁰⁹ Mae'n rhaid i'r arfarniad cychwynnol gael ei gynnal gan "unigolyn cymwys". Rhaid i'r asesiad geodechnegol gael ei gynnal gan "arbenigwr geodechnegol".³¹⁰

³⁰⁸ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliadau 33 a 34.

³⁰⁹ Rheoliadau Chwareli 1999, rheoliad 37.

³¹⁰ Diffinnir y termau yma yn rheoliad 2. Mae "unigolyn cymwys" yn golygu "a person with sufficient training, experience, knowledge and other qualities to enable him properly to undertake the duties assigned to him". Mae "arbenigwr geodechnegol" yn golygu peiriannydd siartredig neu ddaearogwr siartredig sydd â (a) profiad perthnasol o dair blynedd neu ragor mewn mecanwaith pridd, mecanwaith creigiau neu beirianneg cloddio; a (b) sydd yn gymwys i gynnal dadansoddiad geodechnegol er mwyn penderfynu ar y perygl a'r risg sydd yn deillio o'r cloddiad neu domen a asesir.

Pennod 5: Cyfreithiau eraill sydd yn berthnasol i ddiogelwch tomennydd

- 5.1 Mae'r bennod hon yn adolygu deddfwriaeth arall sydd yn berthnasol i'r prosiect. Ei phwrpas yw egluro'r cyd-destun statudol ehangach y mae'r drefn diogelwch ar y domen a amlinellir ym mhennod 4 yn gweithredu o'i fewn. Mae hyn yn helpu i esbonio rhai o'r ffyrdd nad yw Deddf 1969 yn gweithio'n dda. Mae hefyd yn nodi'r egwyddorion y bydd angen cysoni'r deddfwriaeth newydd â hwy, a'r mecanweithiau atebolrwydd y bydd yn ddarostyngedig iddynt. Nid ydym yn bwriadu awgrymu diwygio unrhyw un o'r meysydd a drafodwyd.
- 5.2 Mae'r bennod wedi'i rhannu yn ôl y testunau canlynol:
- (1) Mae'n gyfleus dechrau gyda Chyfarwydddebau'r UE sydd wedi cyfrannu at siapio'r deddfwriaeth ddomestig, a'r Rheoliadau sydd wedi eu rhoi ar waith yng Nghymru a Lloegr; bydd trafodaeth ar y rhain yn cael ei dilyn gan:
 - (2) Deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a chyffelyb a ymddeddfwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig;
 - (3) Deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol a chyffelyb a ymddeddfwyd gan y Senedd;
 - (4) deddfwriaeth amgylcheddol gaiff ei hystyried yn San Steffan a Chaerdydd o ganlyniad i adael yr UE; a
 - (5) chymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.³¹¹

CYFARWYDDEBAU'R UE

Cyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio

- 5.3 Gwastraff mwyngloddio, o bob math o fwyngloddio echdynnol yn cynnwys glo, yw 30% o wastraff yr UE. Mabwysiadodd yr UE Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio ("MWD")³¹² yn 2006 yn dilyn nifer o drychinebau a achoswyd gan wastraff mwyngloddio ledled yr UE, gan gydnabod hefyd bod gweithgareddau mwyngloddio a

³¹¹ Mae'r Athro Robert Lee, aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo, , wedi rhoi cymorth mawr i ni wrth baratoi y bennod hon.

³¹² Cyfarwydddeb 2006/21/EC Senedd a Chyngor Ewropeaidd 15 Mawrth 2006 ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnol a diwygio Cyfarwydddeb 2004/35/EC. Erbyn hyn mae hyn yn rhan o Gyfraith yr UE a gedwir o dan adran 2 Deddf Undeb Ewropeaidd (Gadael) 2018, ar ôl ei chynnwys mewn deddfwriaeth ddomestig cyn gadael yr UE, ac felly mae'n parhau i fod mewn grym mewn cyfraith ddomestig ar ôl y dyddiad gadael. Fe'i gweithredwyd yn bennaf drwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 SI 2021 Rhif 675, a ddisodlwyd gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 SI 2016 Rhif 1154. Gweithredwyd Erthygl 6 (atal damweiniau) gan Rheoliadau Cynlluniau Argyfwng Damweiniau Mawr Oddi ar y Safle (Rheoli Gwastraff o Ddiwydiannau Echdynnol) (Cymru a Lloegr) 2009 SI 2009 Rhif 1927.

chwarela wedi eu heithrio i raddau helaeth o ddeddfwriaeth bresennol yr UE.³¹³ Yn hanesyddol dadleuwyd bod diwydiannau strategol fel y diwydiant echdynnu mwynau yn cael sylw penodol yn y ddeddfwriaeth gymunedol gyda lefel isel o reolaeth dros ei effeithiau amgylcheddol.³¹⁴ Amcan gyffredinol yr MWD yw darparu ar gyfer mesurau er mwyn atal neu leihau cymaint a phosibl ar effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd yn ogystal ag unrhyw risg canlyniadol i iechyd pobl mewn perthynas â rheoli gwastraff y diwydiannau echdynnol.³¹⁵

- 5.4 Mae'r MWD yn diffinio gwastraff echdynnol fel gwastraff sydd yn deillio o archwilio, echdynnu, trin a storio adnoddau mwynau a gweithgaredd chwareli.³¹⁶ Cyflwynodd fesurau er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol a'r risg i iechyd pobl o ganlyniad i bob gwastraff echdynnol yn y diffiniad yma, a chategori mwy caeth o fesurau ar gyfer cyfleusterau "Categori A" megis rhai allai achosi damwain fawr.³¹⁷
- 5.5 Er bod gwastraff echdynnol yn cael ei ddiffinio'n eang, mae yna gyfyngiadau arwyddocaol i gwmpas y Gyfarwydddeb. Mae Erthygl 24 yn cynnwys darpariaethau y mae eu heffaith gyffredinol yn golygu bod y Gyfarwydddeb yn rhannol gymwys i gyfleusterau gwastraff oedd yn weithredol ar neu ar ôl 1 Mai 2006, ac yn gyfan gwbl i gyfleusterau oedd yn weithredol ar neu ar ôl 1 Mai 2008.
- 5.6 Hefyd, mae mathau penodol o wastraff echdynnol yn cael eu heithrio, neu eu heithrio'n rhannol. Nid yw gwastraff echdynnol gaiff ei gategoreiddio fel gwastraff anadweithiol a phridd heb ei halogi sydd ddim yn beryglus, yn cael ei gynnwys yn nifer o'r mesurau, yn cynnwys mewn perthynas â thrwyddedu, rheoli cymwys a gweithdrefnau ar ôl cau, oni bai ei fod wedi ei ddyddodi mewn cyfleuster Categori A.³¹⁸ Diffinnir gwastraff anadweithiol fel gwastraff nad yw'n adweithio'n gemegol ac na

³¹³ Hefyd gweler <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/en/TXT/?uri=CELEX%3A52016DC0553> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021) a <https://ec.europa.eu/environment/waste/mining/index.htm> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021). Digwyddodd trychinebau nodedig, yn ychwanegol at Aberfan yn 1966, yn Stava, yr Eidal yn 1985, pan gwympodd argae sorod a lladd 268 o bobl, Aznalcóllar, Sbaen yn 1998, pan fethodd argae sorod mewn mwynglawdd aur, copr, plwm a sinc gan ollwng bron i 2 miliwn tonnell o sorod gwenwynig iawn i ddyfrffyrdd ecolegol arwyddocaol, a Baia Mare a Baia Borsa, Romania, yn 2000, pan fethodd argae sorod mewn mwynglawdd aur a mwynglawdd plwm a sinc, gan ryddhau cyfanswm o 200,000 metr ciwbig o ddŵr halogedig a 40,000 tonnell a sorod, yn cynnwys 50 i 100 tonnell o seianid i un o brif isafonydd afon Donwy. Gweler <https://www.tailings.info/casestudies/stava.htm> (cyrchwyd ddiwethaf 11 Mai 2021), <https://www.grida.no/resources/11433> (cyrchwyd ddiwethaf 26 Mawrth 2021), a <https://www.grida.no/resources/11432> (cyrchwyd ddiwethaf 26 Mawrth 2021).

³¹⁴ T Hamor, "Sustainable Mining in the European Union: The Legislative Aspect" (2004) 33(2) *Environmental Management* 252-61, Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/8425377_Sustainable_Mining_in_the_European_Union_The_Legislative_Aspect (cyrchwyd ddiwethaf 9 Mawrth 2021).

³¹⁵ Rhaglith i Gyfarwydddeb 2006/21/EC Senedd a Chyngor Ewropeaidd ar 15 Mawrth 2006 yn (4).

³¹⁶ Cyfarwydddeb 2006/21/EC Senedd a Chyngor Ewropeaidd ar 15 Mawrth 2006m, erthygl 2.

³¹⁷ I weld trafodaeth fanylach ar y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio gweler Department for the Environment, Food and Rural Affairs, *Environment Permitting Guidance - The Mining Waste Directive* (2010), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69323/pb13636-ep2010miningwaste.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 9 Mawrth 2021), a R Burnett-Hall and B Jones(eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012) paragraffau 14-145 i 14-149.

³¹⁸ Erthygl. 2(3): "Inert waste and unpolluted soil resulting from the prospecting, extraction, treatment and storage of mineral resources and the working of quarries and waste resulting from the extraction, treatment and storage of peat shall not be subject to Articles 7, 8, 11(1) and (3), 12, 11(6), 14 and 16, unless deposited in a Category A waste facility." Mae Erthyglau 4, 5, 10, 11(2) a 13(1) i (5) yn dal i fod yn gymwys..

all ymdoddi mewn dŵr, ond nid yw'r diffiniad yn ystyried y gall gwastraff anadweithiol achosi effaith o ganlyniad i'w bresenoldeb mewn symiau mawr.³¹⁹ Yn ymarferol dyma grynsrth cynhyrchiant gwastraff mwyngloddio'r UE. Hefyd cyflwynir categori gwastraff arall, sef gwastraff nad yw'n beryglus ac anadweithiol (*non-hazardous non-inert*). Gall yr aelod wladwriaethau leihau neu hepgor gofynion penodol o ran dyddodi'r math yma o wastraff, eto oni bai y caiff ei ddyddodi mewn cyfleuster Categori A.³²⁰

5.7 Mae cyfleuster yn un Categori A os:³²¹

- (1) Gallai "methiant neu weithrediad amhriodol" achosi damwain fawr (er enghraifft, cwymp tomen lo);
- (2) mae'n cynnwys gwastraff gwenwynig; neu
- (3) Mae'n cynnwys sylweddau peryglus.

5.8 Yn unol â hynny, os yw gwastraff mewn tomen yn achosi perygl ffisegol amlwg, dylai gael ei ddosbarthu yng Nghategori A, a bydd yn gynywysedig yn holl ddarpariaethau MWD beth bynnag fo mathau y gwastraff gaiff ei storio.³²²

5.9 Mae'r MWD yn nodi darpariaethau sylfaenol ar gyfer storio a thrin gwastraff mwyngloddio o ddydd i ddydd.³²³ Mae mesurau eraill yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i weithredwr cyfleuster gwastraff echdynnol lunio cynllun rheoli gwastraff³²⁴ ac i gyfleusterau Categori A baratoi polisi atal damweiniau mawr.³²⁵ Mae hefyd yn cyflwyno gofyniad i bob cyfleuster gwastraff feddu ar drwydded a roddwyd gan awdurdod cymwys.³²⁶ Mae angen cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o roi trwyddedau.³²⁷

5.10 Pennir safonau ar gyfer creu cyfleuster gwastraff newydd, gan sicrhau bod y cyfleuster yn cael ei adeiladu mewn ffordd sydd yn lleihau effaith amgylcheddol ac

³¹⁹ Mae Erthygl 3(3) yn diffinio gwastraff anweithredol: "Inert waste' means waste that does not undergo any significant physical, chemical or biological transformations. Inert waste will not dissolve, burn or otherwise physically or chemically react, biodegrade or adversely affect other matter with which it comes into contact in a way likely to give rise to environmental pollution or harm human health. The total leachability and pollutant content of the waste and the ecotoxicity of the leachate must be insignificant, and in particular not endanger the quality of surface water and/or groundwater."

³²⁰ S Moroz, "The Mining Waste Directive – will it address the toxic burden?", (2007) 19(5) *Environmental Law and Management*, 232.

³²¹ Atodiad III.

³²² S Moroz, "The Mining Waste Directive – will it address the toxic burden?", (2007) 19(5) *Environmental Law and Management*, 232 at 239.

³²³ Erthygl 4.

³²⁴ Erthygl 5. Amcan y cynllun yw atal neu leihau gwastraff, hyrwyddo ôl-lenwi ac adfer gwastraff, a sicrhau gwaredu diogel yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae erthygl 5 yn nodi gofynion sylfaenol penodol ar gyfer y cynlluniau.

³²⁵ Erthygl 6.

³²⁶ Erthygl 7, ac eithrio'r cyfleusterau hynny a gaewyd erbyn 1 Mai 2008, rhai sydd wedi rhoi'r gorau i dderbyn gwastraff, a'r rhai fydd wedi eu cwblhau erbyn Rhagfyr 2010.

³²⁷ Erthygl 8.

unrhyw risgiau i iechyd pobl.³²⁸ Hefyd dylid gwneud trefniadau addas ar gyfer “cyfnod ar ôl cau” y cyfleuster. Gweithredwr y cyfleuster sydd yn gyfrifol am fonitro a chynnal a chadw'r safle ar ôl ei gau, oni bai bod yr awdurdod cymwys yn ymgymryd â'r safle.³²⁹ Hefyd, rhaid bodloni safonau amgylcheddol.³³⁰

- 5.11 Er mwyn sicrhau y bodlonir y safonau yma, rhaid darparu gwarant ariannol cyn dechrau ar y gwaith er mwyn sicrhau bod arian ar gael ar gyfer adsefydlu'r tir yr effeithir arno gan y cyfleuster.³³¹ Hefyd mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys archwilio'r cyfleuster yn rheolaidd, yn cynnwys yn ystod y “cyfnod ar ôl cau”.³³²
- 5.12 Er nad yw'r rhan fwyaf o'r MWD yn gymwys i domennydd hŷn anweithredol, roedd yn pennu gofyniad bod aelod wladwriaethau, erbyn Mai 2012, yn cynhyrchu rhestr o'r holl gyfleusterau gwastraff sydd wedi cau ac sydd yn achosi effeithiau amgylcheddol difrifol neu sydd â'r potensial o fod yn fygythiad difrifol i iechyd pobl yn y tymor canolog neu dymor byr.³³³ Penodwyd yr Environment Agency i gynhyrchu'r rhestr o'r gwastraff mwyngloddiau caeedig ar gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd yn 2014. Nododd yr Environment Agency 150 o safleoedd oedd yn achosi effeithiau amgylcheddol difrifol. Roedd tri deg naw o'r safleoedd yma yng Nghymru. Roedd pob un o'r rhain yn fwyngloddiau metel a nodwyd eu bod yn achosi llygredd dŵr. Ni enwyd yr un domen lo.³³⁴

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff

- 5.13 Pan nad yw gwastraff yn gynwysedig yn MWD, bydd yn perthyn i'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff.³³⁵ Hefyd, bydd gwastraff a gynhyrchwyd mewn cyfleuster gwastraff mwyngloddio, ond sydd wedi ei gludo o'r cyfleuster, yn gynwysedig yn y

³²⁸ Erthygl 11. O dan Erthygl 4(1) y Cyfarwydded Asesu Effaith Amgylcheddol 2011/92/EU, mae asesiad o'r effaith amgylcheddol yn orfodol ar gyfer glofeydd brig sydd yn fwy na maint penodol (fel y rhestrir hynny yn Atodiad 1). O dan erthygl 4(2), efallai y bydd glofeydd brig llai a glofeydd mwyngloddiau tanddaearol (fel y'u rhestrir yn Atodiad II) angen asesiad pan fo'r Aelod Wladwriaethau yn ystyried eu bod yn debygol o achosi effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

³²⁹ Erthygl 12.

³³⁰ Erthygl 13.

³³¹ Erthygl 14.

³³² Erthygl 17.

³³³ Erthygl 20.

³³⁴ Gweler Environment Agency, *Inventory of closed mineral waste facilities* (2014), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/288582/LIT_6797_7d390c.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021). Yn Lloegr, roedd nifer o domennydd glo wedi eu cynnwys fel rhai oedd yn achosi llygredd, a dwy yn achosi perygl tân (yr oedd un ohonynt ar dân pan gyhoeddwyd yr adroddiad). Nodwyd dau safle fel rhai oedd yn achosi perygl o ran ansefydlogrwydd (roedd un safle yn fetelaidd, a'r llall yn cynnwys deunyddiau adeiladu). Yn yr adroddiad cyfatebol a gyhoeddwyd gan Senedd yr Alban yn 2015, nodwyd bod pedair tomen lo yn ansefydlog: gweler Senedd yr Alban, *Inventory of Closed Mining Waste Facilities* (2015), ar gael yn: <https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/advice-and-guidance/2015/01/closed-mining-waste-facilities-list/documents/inventory-closed-mining-waste-facilities-january-2015-pdf/inventory-closed-mining-waste-facilities-january-2015-pdf/govscot%3Adocument/Inventory%2Bof%2BClosed%2BMining%2BWaste%2BFacilities%252C%2BJanuary%2B2015.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf 9 Mawrth 2021).

³³⁵ 2008/98/EC.

Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff.³³⁶ Yn ddibynol ar sut gaiff y gwastraff penodol ei gategoreiddio, efallai y bydd hefyd yn gynwysedig yn y Gyfarwydddeb Tirlenwi.³³⁷ Mae'r Gyfarwydddeb Tirlenwi yn diffinio safle tirlenwi fel safle gwaredu gwastraff ar gyfer dyddodi gwastraff ar neu i dir. Mae Erthygl 3(2) yn benodol yn eithrio "the deposit of unpolluted soil or of non-hazardous inert waste resulting from prospecting and extraction, treatment, and storage of mineral resources". Pan fo gwastraff yn cael ei gynhyrchu ar safle archwilio, echdynnu neu drin ac yna'n cael ei gludo i leoliad nad yw'n gyfleuster gwastraff mwyngloddio, nid yw'n rhan o gwmpas y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio ac mae'n ddarostyngedig i'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff a, phan fo'n berthnasol, y Gyfarwydddeb Tirlenwi.

- 5.14 Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yn diffinio gwastraff fel "any substance or object which the holder discards or intends or is required to discard".³³⁸ Mae'n ei gwneud yn ofynnol i aelod wladwriaethau sicrhau bod gwastraff yn cael ei adfer neu ei waredu heb beryglu iechyd pobl a heb ddefnyddio prosesau a dulliau allai niweidio'r amgylchedd. At y diben hwn, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt osod rhwymedigaethau penodol ar bawb sydd yn delio â gwastraff ar amrywiol gamau, yn cynnwys dalwyr a chasglwyr a chlodwyr gwastraff proffesiynol. Rhaid i "sefydliadau a busnesau" sydd yn gwaredu ac adfer gwastraff gael trwydded neu gofrestru esemptiad trwydded.³³⁹

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

- 5.15 Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn gymwys³⁴⁰ pan fo tomen lo yn llygru cwrs dŵr. Rhaid i weithredwr tomen lo fodloni'r awdurdod cymwys bod mesurau angenrheidiol wedi eu sefydlu er mwyn atal dirywiad yn statws presennol y dŵr yn unol â'r Gyfarwydddeb. Gall y mesurau yma gynnwys arfarnu ac atal cynhyrchu trwytholch; casglu a thrin dŵr halogedig a thrwytholch, ac unrhyw waredu i gyrff dŵr yn ddarostyngedig i gydymffurfio â safonau deddfwriaeth dŵr yr UE; ac atal neu leihau allyriadau llwch a nwy.³⁴¹

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

- 5.16 Cafodd gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff a MWD bron yn gyfan gwbl eu troi gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, a ddisodlwyd gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.³⁴² Yn hytrach

³³⁶ Gweler Department for the Environment, Food and Rural Affairs, Environmental Permitting Guidance: The Mining Waste Directive, 2010 para 2.18, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69323/pb13636-ep2010miningwaste.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 26 Mawrth 2021).

³³⁷ Cyfarwydddeb y Cyngor 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff.

³³⁸ Erthygl 3(a).

³³⁹ Department for the Environment, Food and Rural Affairs, *Environmental Permitting Guidance - The Waste Framework Directive* (2009), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69353/pb13569-wfd-guidance-091001.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

³⁴⁰ Cyfarwydddeb 2000/60/EC, diwygiwyd gan Gyfarwydddebau 2008/105/EC, 2013/39/EU a 2014/101/EU.

³⁴¹ Erthygl 13.

³⁴² SI 2016 Rhif 1154. Cynhyrchodd DEFRA ganllawiau yn egluro MWD, sydd yn ategu'r Rheoliadau: Department for the Environment, Food and Rural Affairs, *Environment Permitting Guidance - The Mining*

rhoddwyd Erthygl 6 MWD mewn grym gan Rheoliadau Cynlluniau Argyfwng Damweiniau Mawr Oddi ar y Safle (Rheoli Gwastraff o Ddiwydiannau Echdynnol MWD Cymru a Lloegr) 2009.³⁴³ Mae'r rheoliadau yma yn gysylltiedig â gofynion ar gyfer llunio cynlluniau argyfwng a darparu gwybodaeth pe digwydd damwain fawr. Cynllunwyr argyfwng lleol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Rheoliadau.³⁴⁴

- 5.17 O dan Reoliadau 2016, Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Cyfarwydddebau Fframwaith Mwyngloddio a Gwastraff yn Lloegr, a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod yng Nghymru.³⁴⁵
- 5.18 Mae Rheoliadau 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr "cyfleusterau rheoledig" gael trwydded amgylcheddol.³⁴⁶ Mae "gwaith gwastraff mwyngloddio" yn un o 12 categori o gyfleusterau a reoleiddir. Fe'i diffinnir fel rheoli gwastraff echdynnol sydd yn rhan o gwmpas MWD, boed hynny yn cynnwys cyfleuster gwastraff mwyngloddio neu beidio.³⁴⁷ Categorï arall o gyfleuster a reoleiddir yw "gwaith gwastraff".³⁴⁸ Pan nad yw gwastraff echdynnol yn rhan o gwmpas MWD, bydd yn gynwysedig yn y diffiniad yma. Bydd unrhyw waith adfer neu waredu gwastraff yn waith gwastraff.³⁴⁹
- 5.19 Mae'r Rheoliadau yn rhoi dyletswydd ar weithredwyr cyfleusterau a reoleiddir i gyflawni eu swyddogaethau cysylltiedig â'r drwydded gyda'r amcan o gyflawni'r rhwymedigaethau a chyflawni'r deilliannau sydd yn ofynnol o dan y Gyfarwydddeb UE berthnasol. Wrth roi trwydded mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr sicrhau y bydd yr holl ofnion statudol yn cael eu bodloni. Un o amodau unrhyw drwydded yw y bydd y technegau gorau posibl (BAT) yn cael eu defnyddio i leihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd. Mae'n ddyletswydd ar reoleiddwyr i fonitro cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau'r drwydded, ac i archwilio systemau'r gweithredwr ar gyfer rheoli a goruchwyllo'r cyfleuster. Hefyd mae'n ddyletswydd ar y rheoleiddiwr i gynnal archwiliadau cyfnodol. Gall y rheoleiddiwr gymryd camau gorfodi yn cynnwys

Waste Directive (2010), <https://www.gov.uk/government/publications/environmental-permitting-guidance-the-mining-waste-directive> (cyrchwyd ddiwethaf 9 Mawrth 2021).

³⁴³ SI 2009 Rhif 1927, atodlen 20. Mae erthygl 6 yn cynnwys yr ofyniad i baratoi polisi atal damwain mawr: gweler paragraff 5.9 uchod.

³⁴⁴ Roedd un o'r cyfleusterau Categori A yn y DU a enwyd hefyd yn gynwysedig dan Gyfarwyddyd 96/82/EC Seveso III, sydd yn creu rhwymedigaethau i osgoi damweiniau mawr sydd yn gysylltiedig â sylweddau peryglus. Rhoddwyd hynny mewn grym ym Mhrydain Fawr drwy Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015/483, ac eithrio'r gofynion cynllunio defnydd tir, a roddwyd mewn grym gan newid i ddeddfwriaeth gynllunio.

³⁴⁵ Rheoliad 2(1). Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei enw yw Cyfoeth Naturiol Cymru.

³⁴⁶ Rheoliad 12(1).

³⁴⁷ Rheoliad 8(1)(d).

³⁴⁸ Rheoliad 8(1)(c).

³⁴⁹ Daeth gweithdrefn Trwyddedu Amgylcheddol i rym yn 2008. Roedd yn darparu i drwyddedau rheoli gwastraff cyn-2008 ddod yn drwyddedau amgylcheddol. Efallai bod yna rai trwyddedau rheoli gwastraff nad ydynt hyd yma wedi cael eu hildio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud wrthym y bydd yr un amodau yn cael eu cymhwyso i drwyddedau hyn ag a fyddid yn cael eu cymhwyso mewn trwydded a roddir heddiw. Pe digwydd unrhyw anghydfod, gellir diddymu neu ddiweddarau'r drwydded. Mae yna hawl i apelio yn erbyn y ddau. Mae Rheoliadau 2016 hefyd yn cynnwys pwerau i fynnu bod cyfleuster a reoleiddir yn cael ei ddychwelyd i gyflwr derbyniol pan fo trwydded yn cael ei hildio: gweler atodlen 5 rhan 1 paragraff 14.

diddymu'r drwydded os na fydd y gweithredwr yn cydymffurfio â gofynion. Mae Atodlen 20 yn nodi gofynion penodol ar gyfer gweithfeydd gwastraff mwyngloddio.³⁵⁰

- 5.20 Mae'r Rheoliadau y creu nifer o droseddau, yn cynnwys gweithredu cyfleuster a reoleiddir heb drwydded a methu â chydymffurfio ag amod trwydded. Mae yna amddiffyniad brys ar gael i weithredwr sydd yn gallu dangos bod y camau dan sylw wedi cael eu cymryd mewn achos brys er mwyn osgoi perygl i iechyd pobl, bod pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd er mwyn lleihau llygredd ac yr hysbyswyd y rheoleiddiwr yn brydlon.³⁵¹
- 5.21 Gellir dosbarthu gwastraff o domennydd glo anweithredol fel rhai anadweithiol a gwastraff nad yw'n beryglus, neu gall berthyn i gategori gwastraff peryglus. Bydd hynny yn dibynnu ar ei gyfansoddiad, a'i gynnwys carbon yn benodol. Eglurwyd i ni bod tomennydd hŷn yn benodol yn cynnwys mwy o garbon, oherwydd yn y gorffennol roedd mwy o'r mân ddarnau o lo a echdynwyd o fwyngloddiau yn cael ei waredu fel gwastraff.³⁵² Mewn tomennydd diweddarach, byddai'r rhan fwyaf o'r glo wedi cael ei olchi allan cyn tipio. Eithriad i hyn efallai fyddai'r hylif a ddelir mewn lagwnau sydd yn cynnwys gronynnau mân o lo sydd yn deillio o olchi'r glo allan o'r gwastraff. Mae'r deunydd hwn yn setlo gyda threigl amser a bydd yn cynnwys mwy o fwynau. Mae uwchbridd yn cael ei drin yn wahanol oherwydd ei fod yn werthfawr a bydd yn cael ei storio ar wahân. Mae hynny yn cyferbynnu â chyfansoddiad tomen mwynglawdd metel, allai gynnwys elfennau gwenwynig megis copr ac arsenig.³⁵³ Bydd categori y gwastraff yn pennu'r gofynion penodol ar gyfer ei waredu. Os diffinnir bod y gwastraff yn beryglus er enghraifft, bydd angen ei waredu mewn safle tirlenwi deunyddiau peryglus arbenigol.³⁵⁴
- 5.22 Mae'r system drwyddedu amgylcheddol yn gweithio ochr yn ochr â'r system rheoli cynllunio sydd yn rheoli datblygiadau newydd drwy ei gwneud yn ofynnol i gael ganiatâd cynllunio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw "newid defnydd sylweddol" mewn perthynas â thir neu "weithrediadau" ar neu o dan y tir.³⁵⁵ Pan fo gwaith gwastraff angen caniatâd cynllunio, bydd angen trwydded amgylcheddol yn ogystal â'r caniatâd honno. Mewn achosion pan fo angen caniatâd cynllunio a thrwydded amgylcheddol neu ganiatâd rheoli llygredd arall, fel arfer bydd y cyfrifoldeb am sicrhau amcanion

³⁵⁰ Department for the Environment, Food and Rural Affairs and Welsh Government, *Environment Permitting: core guidance* (2020), argael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935917/environmental-permitting-core-guidance.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021), and Department for the Environment, Food and Rural Affairs, *Environmental Permitting Guidance* (2010) ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69323/pb13636-ep2010miningwaste.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 16 Mawrth 2021).

³⁵¹ Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016/1154, rheoliad 40(1).

³⁵² Cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

³⁵³ Cyfarfodydd gydag Archwilydd Mwyngloddiau EM ac Archwilydd Chwareli EM. Hefyd gweler paragraffau 2.37 a 2.49 uchod i gael gweld mwy o drafodaeth am lygryddion.

³⁵⁴ Rhoddir mwy o ystyriaeth i wastraff peryglus isod ym mharagraff 5.28 i 5.30 isod.

³⁵⁵ Y statud sylfaenol ar gyfer rheoli cynllunio yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

trwyddedu'r Gyfarwydddeb yn cael ei rannu rhwng yr awdurdod cynllunio (sydd yn gyfrifol am ganiatâd cynllunio)³⁵⁶ a'r rheoleiddiwr trwyddedu amgylcheddol.³⁵⁷

Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009

- 5.23 Mae Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 yn darparu pwerau ataliol mewn perthynas â bygythiad uniongyrchol o ddifrod amgylcheddol, allai gynnwys methiant tomen lo.³⁵⁸ Mae'r Rheoliadau yn rhyngweithio â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol oherwydd eu bod yn awdurdodi camau yn erbyn deiliad trwydded. Mae Rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr gweithgaredd sydd yn achosi neu all achosi bygythiad uniongyrchol o ddifrod amgylcheddol gymryd camau ar unwaith i atal y difrod, am mae'n caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru roi hysbysiad sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau ychwanegol gael eu cymryd er mwyn atal y difrod.³⁵⁹

Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

- 5.24 Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn cael ei rhoi ar waith yn y DU drwy broses gynllunio rheoli basnau afonydd sydd yn seiliedig ar ardaloedd basnau afonydd. Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn mesur ansawdd cyrff dŵr.³⁶⁰ Mae llygredd o fwyngloddiau glo segur a mwyngloddiau eraill yn cyfrannu'n sylweddol at nifer o fethiannau sydd yn derbyn statws da.³⁶¹ Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru. Rhaid i'r cynlluniau nodi amcanion amgylcheddol a rhaglenni o fesurau er mwyn cyflawni'r cynlluniau. Rhaid i CNC gyflawni ei swyddogaethau, yn cynnwys pwerau trwyddedu o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a ystyrir isod, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwydddeb.³⁶²

DEDDFWRIAETH Y DU SYDD YN BERTHNASOL I DDIOGELWCH TOMENNYDD GLO

Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990

Niwsans statudol

- 5.25 Mae Adran 79 Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990 yn rhestru materion sydd yn niwsans statudol. Mae'r rhain yn cynnwys (fel y darparwyd hynny gan Ddeddf

³⁵⁶ Gweler R Burnett-Hall and B Jones (eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012) para 7 – 008.

³⁵⁷ Department for the Environment, Food and Rural Affairs, *Environmental Permitting Guidance - The Waste Framework Directive* (2009), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69353/pb13569-wfd-guidance-091001.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

³⁵⁸ SI 2009 Rhif995 (W 81). Mae'r Rheoliadau yn trosi Cyfarwydddeb Atebolrwydd Amgylcheddol 2004/35/EC fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwydddeb 2006/21/EC.

³⁵⁹ Mae "gweithredwr" yn cael ei ddiffinio yn rheoliad 2 fel unigolyn sydd gweithredu neu'n rheoli gweithgaredd, deiliad trwydded neu awdurdod mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw neu'r unigolyn sydd yn cofrestru neu'n hysbysu am weithgaredd o'r fath. Mae "gweithgaredd" yn golygu unrhyw weithgaredd economaidd, boed hynny yn gyhoeddus neu'n breifat, a boed hynny yn cael ei wneud am elw neu beidio.

³⁶⁰ The Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations SI 2003 Rhif 3242.

³⁶¹ Gweler paragraffau 2.46 uchod.

³⁶² Department for the Environment, Food and Rural Affairs and Welsh Government, *Environment Permitting: core guidance* (2020), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935917/environmental-permitting-core-guidance.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

Diogelwch y Cyhoedd (Gwastraff Glofeydd) 1939 mewn ymdrech i reoli tannau tomennydd glo) “any accumulation or deposit which is prejudicial to health or a nuisance”.³⁶³ Diffinnir bod niwsans statudol yn cynnwys allyriadau mwg, mygdarth neu nwyon ar safle (sydd yn cynnwys tir). Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i archwilio ei ardal er mwyn canfod unrhyw niwsans statudol. Rhaid delio â'r rhain yn unol ag adran 80, sydd yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiad atal, neu ar gyfer cymryd unrhyw gamau eraill y mae'r awdurdod yn ystyried sydd yn briodol. Mae adran 80 yn cynnig datrysiad ar ffurf achos diannod gerbron y Llys Ynadon ar gyfer unigolion y tramgwyddwyd yn eu herbyn.

- 5.26 Mae gan yr awdurdod lleol yr un ddyletswyddau pan achosir niwsans gan gyfleuster a reoleiddir sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, ond pan allai reoleiddiwr y cyfleuster (CNC) gymryd camau ni all awdurdod lleol erlyn heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.³⁶⁴
- 5.27 Nid yw'r adran hon yn cynnwys tir gaiff ei gategoreiddio fel tir sydd mewn cyflwr halogedig. Ymdrinnir â thir halogedig sydd yn achosi neu'r creu risg o achosi niwed sylweddol gan y gyfundrefn o dan Ran 2A y Ddeddf, fel y trafodir hynny isod.

Gwastraff Peryglus

- 5.28 Mae Deddf 1990 yn diffinio “gwastraff” fel unrhyw wastraff sy'n gynwysedig yn ystyr erthygl 3(1) y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff, ac nid yw'n cynnwys gwastraff nad yw'n gynwysedig yng nghwmpas y Gyfarwydddeb o dan erthygl 2.³⁶⁵ Fel yr eglurir uchod, mae rhai categorïau o wastraff mwyngloddio yn cael eu heithrio gan erthygl 2.³⁶⁶
- 5.29 Mae adran 75 y Ddeddf yn diffinio gwastraff peryglus yng Nghymru fel y rhestr y cyfeirir ati yn Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005. Mae hynny yn ei dro yn cyfeirio ar y gwastraff hwnnw a ddosberthir fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Gwastraff.³⁶⁷
- 5.30 Bydd Bil yr Amgylchedd 2019-21 bresennol³⁶⁸, os caiff ei ymddeddfu, yn mewnosod diffiniad newydd o wastraff peryglus yn adran 75 Deddf 1990 mewn isadran (8A) newydd, ynghyd ag adran 62ZA newydd er mwyn gwneud darpariaeth arbennig yng Nghymru a Lloegr ar gyfer gwastraff peryglus. Bydd hynny yn cynnwys darpariaeth: ar gyfer pwerau i wahardd neu gyfyngu ar unrhyw weithgaredd mewn perthynas â gwastraff peryglus; ar gyfer rhoi cyfarwyddyd gan awdurdodau rheoleiddio gwastraff;

³⁶³ Gweler paragraffau 2.58 i 2.63 uchod.

³⁶⁴ Department for the Environment, Food and Rural Affairs and Welsh Government, *Environment Permitting: core guidance* (2020), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935917/environmental-permitting-core-guidance.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

³⁶⁵ Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990, adran 75(2).

³⁶⁶ Gweler para 5.6 uchod.

³⁶⁷ Diffinnir y Rhestr Gwastraff yn y Rheoliadau (fel y'u diwygiwyd) fel y rhestr gwastraff a sefydlwyd gan Benderfyniad Comisiwn 2000/532/EC. Mae hynny yn darparu terminoleg gyffredin yn yr UE gyfan ar gyfer dosbarthu gwastraff er mwyn hwyluso rheoli gwastraff, yn cynnwys gwastraff peryglus.

³⁶⁸ Trafodir mwy ar y Bil ym mharagraffau 5.68 isod.

ar gyfer gosod gofynion ynghylch sut y gellir cadw gwastraff peryglus (yn cynnwys gofynion ynghylch swm y gwastraff peryglus y gellir ei gadw mewn unrhyw le penodol); ar gyfer cofrestru rheolwyr gwastraff peryglus neu lefydd ble mae gweithgareddau cysylltiedig â gwastraff peryglus yn cael eu cynnal; ar gyfer cadw cofnodion gan reolwyr gwastraff peryglus; ar gyfer archwilio'r cofnodion hynny gan awdurdodau rheoleiddio gwastraff neu unigolion penodol. Mae darpariaeth hefyd yn cael ei wneud ar gyfer creu troseddau a sancsiynau sifil ac ar gyfer adennill costau trin, cadw, gwaredu neu ail-gyflenwi gwastraff peryglus.³⁶⁹

Tir Halogedig

- 5.31 Mae Rheoliadau Tir Halogedig, a luniwyd o dan Ran 2A Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd ble amheuir bod tir yn dir halogedig fel y'i diffinnir isod. Daeth Rhan 2A i rym yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2001.³⁷⁰
- 5.32 Mae Rhan 2A yn diffinio tir halogedig fel unrhyw dir y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol perthnasol ei fod mewn cyflwr, o ganlyniad i sylweddau yn, ar neu o dan y tir fel bod:
- (1) niwed sylweddol yn cael ei achosi neu mae yna bosibilrwydd sylweddol o achosi niwed o'r fath; neu
 - (2) lygredd sylweddol yn cael ei achosi mewn dyfroedd a reolir, neu mae yna bosibilrwydd sylweddol o achosi llygredd o'r fath.
- 5.33 Pan benderfynir bod tir yn dir halogedig, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau ei fod yn cael ei adfer i safon dderbyniol drwy un o'r mecanweithiau canlynol:
- (1) cytuno ar gamau adfer gyda'r unigolion priodol fydd yn eu tro yn cyhoeddi datganiad adfer;
 - (2) rhoi hysbysiad adfer i'r unigolion priodol yn amlinellu beth sydd yn ofynnol ohonynt; neu
 - (3) wneud y gwaith ei hun ar ôl rhoi datganiad adfer ac yna adennill y costau gan yr unigolion priodol pan fo hynny'n bosibl.³⁷¹

³⁶⁹ Bil yr Amgylchedd 2019-2021, adran 62ZA (6)(b) a (6)(c).

³⁷⁰ Mewnosodwyd Rhan 2A yn Neddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990 gan a 57 Deddf yr Amgylchedd 1995. Diffinnir tir halogedig gan a78A Deddf 1990. I gael gwybodaeth am y dyletswyddau statudol a gyflawnwyd o dan Ran 2A yng Nghymru o 2001 i 2013, gweler Cyfoeth Naturiol Cymru, *Cyflwr Tir Halogedig yng Nghymru* (2016) ar gael yn: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/677709/nrw26759-contaminated-land-in-wales-pdf_welsh.pdf?mode=pad&rnd=131267044980000000 (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mehefin 2021). Nid yw dŵr mwynloddiau a adawyd cyn 1999 yn cael ei gynnwys.

³⁷¹ Mae datganiad adfer yn nodi'r camau adfer sydd wedi cael eu cymryd neu y disgwylir iddynt gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y tir halogedig yn cael ei adfer.

- 5.34 Yr unigolyn priodol yw naill ai'r unigolyn sydd wedi achosi neu sydd yn ymwybodol wedi caniatáu'r sylweddau sydd wedi achosi i'r tir "halogedig" fod yn, ar neu o dan y tir, neu os na ellir canfod yr unigolyn hwnnw, perchennog neu feddiannwr y safle.³⁷²
- 5.35 Mewn sefyllfaoedd pan fyddai adfer tir halogedig yn mynd yn groes i ganllawiau statudol neu'n afresymol o ddrud o ystyried y niwed dan sylw, rhaid i'r awdurdod lleol roi datganiad adfer. Mae datganiad o'r fath yn cofnodi'r camau adfer fyddai wedi cael eu nodi mewn hysbysiad adfer petai un wedi cael ei roi. Mae manylion am bennu tir halogedig a'r camau adfer dilynol yn cael eu cofnodi ar gofrestr gyhoeddus.
- 5.36 O dan amgylchiadau penodol gellir dynodi tir halogedig fel safle arbennig. Yn y sefyllfa hon mae rôl a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol o dan Rhan 2A yn cael eu trosglwyddo i CNC.
- 5.37 Canfu astudiaeth gan CNC o gyflwr tir halogedig yng Nghymru rhwng 2001 a 2013 y deliwyd â rhan helaeth o'r tir yr effeithiwyd arno gan halogiad a nodwyd gan awdurdodau lleol (5,506 safle neu 93% o'r cyfanswm) drwy'r system gynllunio yn hytrach na thrwy fecanwaith Rhan 2.³⁷³ Roedd camau adfer Rhan 2A yn gysylltiedig â 2013 o achosion yn unig, neu 3%. Amodau cynllunio oedd yr opsiwn a ffafriwyd oherwydd eu bod yn trosglwyddo'r gost o ddelio â halogi i'r rhai oedd yn debygol o elwa o ailddatblygu.
- 5.38 Canfu'r astudiaeth bod yr awdurdodau lleol wedi defnyddio cyfundrefn Rhan 2 i enwi 10,130 o safleoedd halogedig posibl yng Nghymru. Roedd wyth gant o'r safleoedd blaenoriaeth uchaf wedi bod yn destun archwiliad manwl, gyda 175 (yn cynnwys dau safle arbennig) yn cael eu pennu'n swyddogol yn dir halogedig; cafodd 64 o benderfyniadau eu diddymu yn ddiweddarach, gan adael cyfanswm o 111 o safleoedd penodedig. Fel mae'r astudiaeth yn ei nodi, roedd hynny yn awgrymu bod yna 9,330 o safleoedd halogedig posibl sydd yn dal heb gael archwiliad manwl gan yr awdurdodau lleol yng Nghymru, ac o leiaf 414 o'r safleoedd yma yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth.³⁷⁴
- 5.39 Er bod tomennydd glo yn cynnwys halogyddion megis pyrit, all achosi i asid sylffwrig i lifo i afonydd, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym nad yw'n debygol y byddai cyfundrefn Rhan 2A yn cael ei defnyddio i ddelio â materion ynghylch tomennydd glo. Mae dull Rhan 2A wedi cael ei ddefnyddio i ddelio â halogiad o domennydd mwyngloddiau metel sydd yn cynnwys metelau trwm, ond mae'n bosibl y gallai pyllau gwaddod sydd yn gysylltiedig â thomennydd glo fod yn gynyddedig yn nifffiniad Rhan 2 A o dir halogedig.³⁷⁵
- 5.40 Mae'r system trwyddedu amgylcheddol yn darparu mecanwaith ar gyfer hysbysu awdurdodau lleol am halogiad posibl o domen. Pan y gwneir cais am drwydded am gyfleuster a reoleiddir o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, fel arfer bydd

³⁷² Deddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990, a 78F.

³⁷³ Cyfoeth Naturiol Cymru, *Cyflwr Tir Halogedig yng Nghymru* (2016), https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/677709/nrw26759-contaminated-land-in-wales-pdf_welsh.pdf?mode=pad&rnd=131267044980000000 (cyrchwyd ddiwethaf ar 3 Mehefin 2021).

³⁷⁴ Uchod, t 17 a 30.

³⁷⁵ Cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

yr awdurdod lleol yn derbyn copi o'r cais. Efallai bydd yr wybodaeth yn y cais yn awgrymu i'r awdurdod lleol y bydd y safle efallai yn bodloni'r diffiniad statudol o dir halogedig a bod angen mwy o archwilio. Os bydd safle'r cyfleuster a reoleiddir wedi cael ei halogi o ganlyniad i'r gweithgareddau rheoledig, ni all yr awdurdod geisio camau adfer o dan Ran 2A os bydd camau o dan Reoliadau 2016 yn bosibl. Os bydd y drwydded eisoes wedi ei hildio, gall yr awdurdod lleol ystyried adfer o dan Rhan 2A. Fel arfer mae'r gofynion ar gyfer adfer safle o dan y Rheoliadau o safon fwy manwl na'r hyn sydd yn ofynnol o dan Ran 2A.³⁷⁶

Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

- 5.41 Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn galluogi i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer ac ymateb i argyfyngau. Mae Rhan 1 wedi ei dylunio i ddelio â pharatoadau gan ymatebwyr lleol i achosion brys lleol. Diffinnir bod achosion brys yn cynnwys digwyddiadau neu sefyllfaoedd sydd yn bygwth niwed i les pobl neu'r amgylchedd mewn lleoliad yn y DU.³⁷⁷
- 5.42 Rhennir ymatebwyr i ddau gategori. Ymatebwyr categori 1 yw'r rhai sydd yn rhan greiddiol o'r ymateb i argyfwng. Yng Nghymru mae hynny yn cynnwys awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys a CNC. Mae dyletswyddau yn cynnwys asesu'r risg y bydd achos brys yn digwydd a defnyddio'r asesiad yma er mwyn hysbysu cynlluniau wrth gefn a'u sefydlu. Hefyd, mae'n rhaid i ymatebwyr rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achosion brys. Mae cyrff categori 2 yn sefydliadau megis y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch y mae'n ofynnol iddynt gydweithredu a rhannu gwybodaeth gyda'r ymatebwyr categori 1 er mwyn delio â digwyddiadau sydd yn effeithio ar eu sector penodol.³⁷⁸ Nid yw'r Awdurdod Glo yn ymatebydd categori 1 na 2.
- 5.43 Mae ymatebwyr categori 1 yn ffurfio partneriaethau amlasiantaeth a elwir yn Fforymau Gwytnwch Lleol (LRF) er mwyn cyflawni eu dyletswyddau cynllunio a pharatoi. Mae LRF yn cael eu cefnogi gan ymatebwyr Categori 2, a hefyd yn gweithio gyda phartneriaid eraill megis y gwasanaethau milwrol a sectorau gwirfoddol.³⁷⁹ Mae'r ymateb amlasiantaeth yn cael ei gydlyn yn unol â fframwaith JESIP (Cyd-egwyddorion Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys). Mae hwn yn nodi model ymateb

³⁷⁶ Department for the Environment, Food and Rural Affairs and Welsh Government, *Environment Permitting: core guidance* (2020), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935917/environmental-permitting-core-guidance.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021), yn A1.7 ac A1.8.

³⁷⁷ Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a 1. Mae bygythiadau i les pobl yn cael eu diffinio hefyd gan a 1(2) fel rhai sydd yn ymwneud â, yn achosi neu o bosibl yn achosi marwolaeth, salwch, anaf, digartrefedd, difrod i eiddo, difrod neu amharu ar gyflenwad arian, bwyd, dŵr, ynni neu danwydd, amharu ar system gyfathrebu, amharu ar gyfleusterau trafnidiaeth, neu amharu ar wasanaethau cysylltiedig ag iechyd. Diffinnir bygythiadau o ddifrod i'r amgylchedd gan a 1 (3) fel rhai sydd yn ymwneud â, sydd yn achosi neu o bosibl yn achosi halogiad tir, dŵr neu aer gyda mater biolegol, cemegol neu ymbelydrol, neu aflonyddu ar neu ddifrod i fywyd planhigion neu anifeiliaid.

³⁷⁸ Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a 2. Rhestrir ymatebwyr Categori 1 a 2 yn atodlen 1. Mae Rhan 2A, a ychwanegwyd gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosoglwyddo Swyddogaethau) SI 2018 Rhif 644 erthygl 41, yn rhestru ymatebwyr Categori 1 yng Nghymru. Mae Rhan 5 yn rhestru ymatebwyr Categori 2 yng Nghymru.

³⁷⁹ Gweler <https://www.gov.uk/guidance/local-resilience-forums-contact-details#overview> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

safonol. Ac eithrio yn achos gorchymyn brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.³⁸⁰

- 5.44 Mae gan Weinidog y Goron, neu yng Nghymru, Weinidog Cymru bŵer i roi gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i ymatebydd Categori 1 gyflawni swyddogaeth at ddiben atal, rheoli, lliniaru neu reoli argyfwng.³⁸¹ Mae gan y Gweinidog hefyd bŵer i lunio rheoliadau ar gyfer datgelu gwybodaeth rhwng ymatebwyr at y diben hwn.³⁸² Pan fo'r sefyllfa yn sefyllfa frys, ac nad oes digon o amser i roi gorchymyn neu i lunio rheoliad, gall y Gweinidog weithredu gyda disgresiwn.³⁸³
- 5.45 Gallai'r bygythiad i les pobl a'r amgylchedd o ganlyniad i domen lo ansefydlog yn perthyn i'r diffiniad o achos brys Rhan 1. Ond, fel y nodwyd yn y gwaith cychwynnol a wnaethpwyd gan y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo, ni fu gwarantiaid yn y gorffennol bod y Cofrestrai Risg Cymunedol a gadwid gan awdurdodau lleol yn unol â gofynion Deddf 2004 yn adlewyrchu risgiau tomennydd glo yn gywir. Byddir yn mynd i'r afael â hynny drwy integreiddio data tomennydd mwy manwl a gasglwyd gan y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo i ddata a ddelir gan awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys. Bydd y data yn hygyrch i bob LRF. Y nod yw y bydd yn cael ei ddal ar blatfform MapDataCymru, platfform diogel gaiff ei westeio yn Llywodraeth Cymru.³⁸⁴

DEDDFWRIAETH GYMREIG SYDD YN BERTHNASOL I DDIOGELWCH TOMENNYDD GLO

- 5.46 Mae deddfwriaeth sylfaenol Cymru yn cynnwys egwyddorion trosfwaol penodol sydd yn gymwys i ddatblygu pob polisi. Mae cyd-destun datblygu cynaliadwy trosfwaol yn cael ei sefydlu gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 yn cyflwyno set arall o egwyddorion er mwyn arwain a chefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu polisiau ynghylch rheoli adnoddau naturiol ac er mwyn integreiddio'r rhain i'r fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy. Byddai angen i fframwaith reoleiddio newydd ar gyfer tomennydd glo alinio gyda'r ddwy set o egwyddorion.³⁸⁵

Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 5.47 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru (yn cynnwys Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

³⁸⁰ Gweler <https://www.jesip.org.uk/home> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

³⁸¹ Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, s 5(1) a 5(2A) (ychwanegwyd gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) SI 2018 Rhif 644 erth.41(5)(a)).

³⁸² Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a 6 a 6(2A) (ychwanegwyd gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) SI 2018 Rhif 644 erth.41(6)(a)).

³⁸³ Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a 7 a 8A (ychwanegwyd gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) SI 2018 Rhif 644 erth.41(7)).

³⁸⁴ Gweler <https://datamap.gov.wales>. Bydd ei defnydd o ddata tomennydd glo yn ymestyn ymhellach na defnydd argyfwng. Gweler pennod 8 am y gwaith interim a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru.

³⁸⁵ I weld trafodaeth ddiweddar ar gymhwyso'r egwyddorion yma wrth ddatblygu polisi amgylcheddol, gweler Welsh Government, *Consultation Document, Environmental Principles and Governance in Wales Post European Union Exit*, WG 35189 (2019), https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-03/eu-exit-consultation-document_0.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

ac awdurdodau lleol) i weithredu “ yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy”. Mae hynny yn golygu bod raid i'r cyrff yma weithredu mewn ffordd sydd yn amcanu at sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Y nod yw cefnogi gwell penderfyniadau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr hirdymor, yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, defnyddio dull integredig a chydweithredol, ac ystyried a chynnwys pobl o bob oed.

5.48 Er mwyn gwneud hynny, mae angen i gyrff cyhoeddus gymhwyso pum egwyddor, a elwir yn “bum ffordd o weithio”. Mae'r rhain wedi eu hesbonio isod.

- (1) Hirdymor: Pwysigrwydd cydbwyso anghenion yn y tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.
- (2) Atal: Sut y gall gweithredu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- (3) Integreiddio: Ystyried sut all amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eu hunain, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- (4) Cydweithredu: Mae gweithredu drwy gydweithio gydag unrhyw unigolyn arall (neu mewn rhannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant.
- (5) Cyfranogi: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni amcanion lles, a sicrhau integreiddio, atal, cynnwys a chydweithredu hirdymor.

5.49 Hefyd mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau er mwyn cyflawni'r saith nod lles a nodir yn y Ddeddf. Y rhai pwysicaf ohonynt, o safbwynt diogelwch tomennydd glo, yw'r rhai sydd yn amcanu at greu Cymru fwy iach, cydnerth a ffyniannus.

Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

5.50 Roedd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 yn cyflwyno set arall o egwyddorion er mwyn arwain a chefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu polisïau ynghylch rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion yma, sydd yn deillio o arferion gorau rhyngwladol, yn ategu rhai Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae pedwar yn cyfateb yn uniongyrchol i'r pum ffordd o weithio, a phump arall wedi eu dylunio'n benodol er mwyn gweithredu'r dull a fabwysiadwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol.

5.51 Mae adnoddau naturiol yn cael eu diffinio gan adran 2 y Ddeddf fel rhai sydd yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- (a) anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill;
- (b) aer, dŵr a phridd;
- (c) mwynau;
- (d) nodweddion a phrosesau daearegol;

(e) nodweddion ffisiograffigol; a

(f) nodweddion a phrosesau'r hinsawdd.

5.52 Naw egwyddor Deddf 2016 (y cyfeirir atynt yn aml fel SMNR neu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy) yw:

- rheoli addasol;
- maint;
- cydweithredu;
- cyfranogiad y cyhoedd;
- tystiolaeth;
- canlyniadau yn y tymor byr, canolig a hir;
- gwerth ecosystemau;
- atal; a
- gwytnwch.

Defnyddio'r egwyddorion wrth ddylunio systemau

5.53 Enghraifft o ddyluniad system yn y cyd-destun yma yw'r ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch y bylchau o ran egwyddorion a rheolaeth amgylcheddol ar ôl gadael yr UE.³⁸⁶ Trafodir mwy ar yr ymgynghoriad isod.³⁸⁷ Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnig model penodol, ac yn benodol nid yw'n mynegi safbwynt ynghylch a yw'n well gwella strwythurau rheoli presennol neu greu corff goruchwyllo penodol newydd. Mae'n gofyn am safbwyntiau ynghylch beth fyddai'n creu fframwaith rheoli effeithiol sydd yn gydnaws â threfniadau presennol a fframwaith deddfwriaethol Cymru. Mae hynny yn cynnwys alinio gyda'r egwyddorion trosfwaol a nodwyd yn Neddau 2015 a 2016. Gallai hynny olygu, er enghraifft, y byddai cylch gorchwyl corff penodol yn cael ei arwain gan y dull integredig a nodwyd yn Neddf 2016 a gan y diffiniad o "adnoddau naturiol" a ddarperir gan adran 2.³⁸⁸

5.54 Byddai'r fframwaith hefyd yn arwain y broses o ddylunio swyddogaethau corff llywodraethu. Byddai rôl ymgynghorol, yn cynnwys darparu cyngor arbenigol ynghylch sut y gall cyrff cyhoeddus gyfrannu at reoli adnoddau yn gynaliadwy a gwella

³⁸⁶ Welsh Government, *Consultation Paper, Environmental Principles and Governance in Wales Post European Union Exit*, WG 35189 (2019), https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-03/eu-exit-consultation-document_0.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

³⁸⁷ Gweler paragraffau 5.61 i 5.67 isod.

³⁸⁸ Welsh Government, *Consultation Paper, Environmental Principles and Governance in Wales Post European Union Exit*, WG 35189 (2019), https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-03/eu-exit-consultation-document_0.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021), paragraff 3.30.

gwytnwch yr ecosystem, yn helpu i sicrhau bod niwed yn cael ei atal.³⁸⁹ Yn yr un modd, dylai rôl o ran craffu ar sut y gweithredir deddfwriaeth gyfredol ategu yn hytrach na gwrthdaro â strwythurau presennol. Drwy ymgymryd â swyddogaeth graffu, dylai'r corff allu defnyddio'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan gyrff eraill yn hytrach na dyblygu gwaith.³⁹⁰

- 5.55 Mae enghraifft arall bwysig o effaith yr egwyddorion trosfwaol yma ar lunio polisïau yn gysylltiedig â chynllunio datblygu. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi diben statudol ar gyfer cynllunio yng Nghymru, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, pan fônt yn ymgymryd ag unrhyw gynllun datblygu neu swyddogaethau rheoli datblygu, i gyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu cysylltiad uniongyrchol â'r gofynion i gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n ategu nodau ac amcanion y Ddeddf honno.³⁹¹

EGWYDDORION A CHYFRIFOLDEBAU AMGYLCHEDDOL AR ÔL GADAEL YR UE

- 5.56 Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi gadael bwlch o ran rheoli amgylcheddol yn y DU o ganlyniad i golli rôl Comisiwn yr UE a'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd o ran sicrhau y gweithredir ac y cydymffurfir â deddfwriaeth amgylcheddol yr UE. Mae cyfraith yr UE, yn ogystal â darparu fframweithiau penodol (megis y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio), yn cynnwys egwyddorion amgylcheddol trosfwaol. Y rhain yw'r egwyddor rhagofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor unioni yn y tarddiad, a'r egwyddor bod y llygrwr yn talu.³⁹²
- 5.57 Mae'r egwyddor rhagofalus yn caniatáu i gamau rheoleiddio gael eu cymryd hyd yn oed os oes yna ddiffyg sicrwydd gwyddonol ynghylch y bygythiad i ddifrod.³⁹³ Mae'r egwyddor ataliol yn amcanu at atal difrod amgylcheddol. Mae'r egwyddor unioni yn y tarddiad yn bwriadu atal llygredd yn ei darddiad. Mae'r egwyddor bod y llygrwr yn talu yn amcanu at sicrhau bod llygrwr yn talu am gost rheoli effaith eu llygriad yn yr amgylchedd ac ar iechyd pobl.³⁹⁴

³⁸⁹ Uchod, paragraff 3.40..

³⁹⁰ Uchod, paragraffau 3.43 a 3.44. I weld enghraifft arall o gymhwyso'r ymagwedd integredig tuag at les a sefydlwyd gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gweler Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyflwr Tir Halogedig yng Nghymru (2016) ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=en> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

³⁹¹ Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 2, a gweler Femorandwm Eglurhaol y Ddeddf, <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/planning-wales-act-2015-explanatory-memorandum.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 30 Mawrth 2021).

³⁹² Yn gynwysedig yn Erthygl 191 y Cytundeb ar Swyddogaeth yr Undeb Ewropeaidd.

³⁹³ Nid yw'r TFEU yn diffinio'r egwyddor hon, ond mae'n deillio o Egwyddor 15 Datganiad Rio: "Where there are threats of serious or irreversible damage, lack of full scientific certainty shall not be used as a reason for postponing cost-effective measures to prevent environmental degradation."

³⁹⁴ I weld trafodaeth lawnach ar ystyr yr egwyddorion hyn, gweler R Burnett-Hall and B Jones (eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012), paragraffau 2-095 i 2-124.

- 5.58 Er bod yr egwyddorion hyn yn hysbysu polisi yr UE, nid ydynt yn uniongyrchol gymwys i aelod wladwriaethau. Enghraifft o hynny yw'r achos Celtic Energy,³⁹⁵ pan fo gwerthu glofeydd brig i gwmnïau coeg yn golygu na ellid adennill y gost o adfer y safleoedd. Roedd hynny yn mynd yn groes i'r egwyddor bod y llygrwr yn talu, ond oherwydd bod yr egwyddor ond yn hysbysu polisi ac na ellir ei gorfodi ar ymgymeriadau preifat, ni ellid ei gorfodi ar y cwmni. Ond mae'r egwyddorion hyn yn cynorthwyo dehongliad barnwrol. Mewn perthynas â'r egwyddor bod y llygrwr yn talu, mae Client Earth yn egluro:

The policy importance of the polluter pays principle has received judicial recognition in the UK. In *Re Mineral Resources* Neuberger J observed that "there is considerable public interest in the maintenance of a healthy environment, and in the principle pithily expressed as 'the polluter must pay'." Subsequently the Court of Appeal of England and Wales limited the application of the principle by holding that it cannot be applied so as to require unsecured creditors of the polluter to pay when the polluter itself cannot. In Scotland, however, a recent decision by the Inner House of the Court of Session followed the approach in *Mineral Resources*, holding that the polluter pays principle was an additional persuasive factor in giving pre-eminence to the policy of maximising environmental protection.³⁹⁶

- 5.59 Nid yw'r egwyddorion yma yn rhan o gyfraith y DU ar ôl gadael yr UE oni bai bod Llywodraeth y DU neu'r llywodraethau datganoledig yn penderfynu eu mabwysiadu.³⁹⁷ Mae'r Senedd eisoes wedi darparu ar gyfer yr egwyddor atal a'r egwyddor rhagofal yng nghyfraith Cymru.³⁹⁸
- 5.60 Hefyd mae gan Gomisiwn yr UE rôl arwyddocaol o ran sicrhau bod aelod wladwriaethau yn ufuddhau i ddeddfau amgylcheddol. Gall pobl gwyno am achosion o dorri'r gyfraith i Gomisiwn yr UE, fydd wedyn yn ymchwilio i'w cwyn. Mae enghreifftiau yng Nghymru yn cynnwys cwynion ynghylch delio â llygredd amaethyddol mewn afonydd, a lefel yr allyriadau o orsaf bŵer glo.³⁹⁹ Yna gall y Comisiwn gyfeirio'r aelod wladwriaeth i'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd. Un enghraifft o hynny oedd yr achos o gyfeirio yn y DU yn 2015 ynghylch gollyngiadau dŵr gwastraff trefol. Roedd yr achos

³⁹⁵ Gweler paragraff 3.66 uchod.

³⁹⁶ Client Earth, *Environmental principles in UK law after Brexit* (2018), <https://www.documents.clientearth.org/wp-content/uploads/library/2018-06-26-environmental-principles-in-uk-law-after-brexite-en.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

³⁹⁷ Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sydd wedi'i chyrraedd rhwng yr UE a'r DU, wedi'i ymddeddfu yn gyfraith ddomestig gan y Ddeddf Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020, yn cynnwys ymrwymiad i barchu egwyddorion amgylcheddol wedi'i chydabod yn rhyngwladol, yn cynnwys y pedwar egwyddor amgylcheddol yr UE.

³⁹⁸ Mae'r rhain yn rhan o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

³⁹⁹ BBC News, *Brexit: Environmental watchdog to be introduced in Wales* (2020), <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-55036371> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

hwn yn cynnwys gollyngiadau gormodol o orlifannau dŵr storm yn Llanelli a Thregŵyr yng Nghymru.⁴⁰⁰

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

- 5.61 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 5.53, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn 2019 ar y bylchau mewn egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol allai ymddangos yng Nghymru o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE, ac ynghylch y ffordd orau i ddarparu fframwaith llywodraethu effeithiol i'r dyfodol.⁴⁰¹
- 5.62 Yn wahanol i weddill y DU, mae Cymru eisoes wedi gwneud darpariaeth ar gyfer yr egwyddor ataliol a'r egwyddor rhagofal, fel rhan o'r egwyddorion rheoli adnoddau yn gynaliadwy (SNMR) sydd wedi eu deddfu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r egwyddor ataliol hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn un o'r pum ffordd o weithio yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.⁴⁰² Ond, nid oes egwyddorion cyfatebol i'r egwyddor bod y llygrwr yn talu na'r egwyddor unioni yn y tarddiad.⁴⁰³ Roedd y dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad yn disgrifio bod yr ymatebwyr yn gryf o blaid cael cyfres o egwyddorion amgylcheddol er mwyn arwaith datblygiad cyfraith amgylcheddol i Gymru, ac roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno y dylid cynnwys adfer yn y ffynhonnell ac mai'r llygrwr ddylai dalu.⁴⁰⁴
- 5.63 Mae'r egwyddorion SNMR eisoes yn gymwys i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac i Weinidogion Cymru o ran creu a gweithredu polisi adnoddau naturiol. Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai'r egwyddorion yma gael eu hymestyn i gyrff cyhoeddus ychwanegol fel rhan o gymhwysedd datganoledig.⁴⁰⁵ Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r ddyletswydd gael ei hymestyn, ac roedd rhai yn awgrymu y dylai'r ddyletswydd gael ei hymestyn i gyrff nad ydynt yn rhan o gymhwysedd datganoledig, gyda chaniatâd llywodraeth y DU.⁴⁰⁶

⁴⁰⁰ European Commission, *Commission refers the UK to Court over poor waste water collection and treatment* (2015), https://ec.europa.eu/commission/presscorner/detail/en/IP_15_4672 (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴⁰¹ Llywodraeth Cymru, *Papur Ymgynghori, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, Llywodraeth Cymru 35189 (2019), llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-03/dogfen-ymgynghori-gadael-ue_0.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴⁰² Uchod.

⁴⁰³ Uchod.

⁴⁰⁴ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad – Crynodeb yr Atebion, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-09/environmental-principles-governance-european-union-exit-summary-of-responses.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴⁰⁵ Llywodraeth Cymru, *Papur Ymgynghori, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, Llywodraeth Cymru 35189 (2019), ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-03/dogfen-ymgynghori-gadael-ue_0.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴⁰⁶ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad – Crynodeb yr Atebion, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-09/environmental-principles-governance-european-union-exit-summary-of-responses.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

- 5.64 Hefyd holodd yr ymgynghoriad ynghylch y bylchau a adawyd o ganlyniad i golli Comisiwn yr UE a'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd.⁴⁰⁷ Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod y bylchau canlynol yn bodoli: atebolrwydd annibynnol (corff goruchwyllo annibynnol); mecanwaith syml a rhad er mwyn mynegi cwynion; a mecanweithiau gorfodi. Nododd rhai ymatebwyr fwy o flychau, megis colli swyddogaethau monitro a chasglu data, colli mynediad i gyngor ac arweiniad, pennu safonau a chraffu ar berfformiad yn erbyn y safonau hynny a phwerau i geisio unioni difrod.⁴⁰⁸ Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi y dylai corff goruchwyllo newydd fod yn annibynnol ar y llywodraeth, a'i fod yn gallu craffu ar sut y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith, darparu proses gwyno a defnyddio prosesau gorfodi anffurfiol a ffurfiol.
- 5.65 Cynigiodd Grŵp Gorchwyl Rheoli Amgylcheddol i Randdeiliaid, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, argymhellion ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr argymhellion yn cynnwys ymgorffori holl egwyddorion amgylcheddol yr UE mewn deddfwriaeth, a sefydlu Comisiwn yr Amgylchedd.⁴⁰⁹
- 5.66 Ymatebodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn hwyr yn 2020. Derbyniodd yr argymhellion y dylai pedair egwyddor yr UE gael eu cyflwyno drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, a dylai fod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru gymhwyso'r egwyddorion wrth ddatblygu polisi.⁴¹⁰ Hefyd derbyniodd mewn egwyddor, yn ddarostyngedig i fwy o waith archwilio, y dylai'r egwyddorion SMNR gael eu hymestyn i gyrff cyhoeddus eraill.⁴¹¹ Mynegodd ei chefnogaeth i gorff rheoli'r amgylchedd newydd yng Nghymru, gan ystyried mai model comisiwn neu gomisiynydd oedd y dull mwyaf priodol oherwydd y galli gyflawni'r ystod gofynnol o swyddogaethau gyda'r lefel angenrheidiol o annibyniaeth.⁴¹²
- 5.67 Mae aseswr gwarchodaeth amgylcheddol dros dro wedi cael eu penodi tra'n aros i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno er mwyn gweithredu'r argymhellion. Bydd yr aseswr dros dro yn adolygu materion a godir ynglŷn â chyfraith yr amgylchedd yng Nghymru

⁴⁰⁷ Llywodraeth Cymru, *Papur Ymgynghori, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, Llywodraeth Cymru 35189 (2019), ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-03/dogfen-ymgynghori-gadael-ue_0.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴⁰⁸ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad – Crynodeb yr Atebion, Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-09/environmental-principles-governance-european-union-exit-summary-of-responses.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴⁰⁹ Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, *Ymateb i'r adroddiad gan Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol* (2020), <https://llyw.cymru/ymateb-ir-adroddiad-gan-grwp-gorchwyl-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021). Hefyd gweler L Petetin, "Envisaging the Future of Environmental Governance in Wales: the role of the Environmental Governance Stakeholder Task Group" (2021), <https://www.brexitenvironment.co.uk/2021/01/11/envisaging-the-future-of-environmental-governance-in-wales-the-role-of-the-environmental-governance-stakeholder-task-group/> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴¹⁰ Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, *Ymateb i'r adroddiad gan Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol* (2020), <https://llyw.cymru/ymateb-ir-adroddiad-gan-grwp-gorchwyl-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴¹¹ Uchod.

⁴¹² Uchod.

ac yn llunio adroddiadau ar gyfer Gweinidogion Cymru. Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr adroddiad, bydd yn cyflwyno'r adroddiad a'u hymateb i'r Senedd.⁴¹³

Bil yr Amgylchedd 2019-2021

- 5.68 Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil yr Amgylchedd 2019-2021 er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau a adawyd yng nghyfraith yr amgylchedd y DU ar ôl gadael yr UE, ac er mwyn sefydlu corff er mwyn ymgymryd â swyddogaeth oruchwylio Comisiwn yr UE.

Mae'r Bil yn cynnwys cymal "dim atchwelyd" sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi datganiad ynghylch a fyddai deddfwriaeth amgylcheddol arfaethedig Senedd y DU yn lleihau lefel y warchodaeth amgylcheddol ac yn creu Swyddfa Warchodaeth Amgylcheddol (OEP) sydd yn ymgymryd â swyddogaeth oruchwylio'r Comisiwn. Ni fydd gan yr OEP swyddogaethau yng Nghymru, oni bai mewn ardaloedd a gedwir.⁴¹⁴

Goblygiadau i ddiwygio cyfraith diogelwch tomennydd glo

- 5.69 Mae'n debygol y bydd pedair egwyddor amgylchedd yr UE yn cael eu deddfu yn neddfwriaeth sylfaenol Cymru, fel y disgrifir hynny uchod. Bydd yr egwyddor bod y llygrwr yn talu yn berthnasol i domennydd sydd yn gysylltiedig â glofeydd gweithredol. Efallai y byddir yn dibynnu ar egwyddor unioni yn y tarddiad er mwyn cefnogi opsiynau adfer mwy helaeth ar gyfer tomennydd glo. Mae'r egwyddorion atal a rhagofal eisoes yn rhan o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sydd wedi eu deddfu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Byddai corff goruchwylio, o ganlyniad i'r prosiect yma, yn ddarostyngedig i'r egwyddorion hyn, yn ogystal â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- 5.70 Byddai strwythur rheoleiddio diwygiedig yn destun goruchwyliaeth gan y corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol newydd fydd yn cael ei sefydlu yng Nghymru. Byddai hynny yn darparu proses graffu ar unrhyw fframwaith rheoleiddiol newydd a phroses gwyno.

DATGANOLI

- 5.71 Mae Adran 108A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, yn nodi cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac yn rhagnodi categorïau y darpariaethau y bydd y tu allan i'r cymhwysedd hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo darpariaeth yn gysylltiedig ag un o'r materion cadwedig a restrir yn atodlen 7A, a ble mae'n gymwys i fwy na Chymru, neu'n rhoi, gosod, addasu neu ddiddymu (neu sy'n rhoi pwerau i roi, gosod, addasu neu ddiddymu) swyddogaethau y gellir eu cyflawni y tu hwnt i faterion cysylltiedig â Chymru.⁴¹⁵

⁴¹³ Llywodraeth Cymru, "Llywodraeth Cymru yn penodi Asesydd Diogelu'r Amgylchedd" (2021) ar gael yn: https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-penodi-asesydd-diogelur-amgylchedd?_ga=2.49308581.2006588637.1620646767-244119063.1618408659 (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴¹⁴ Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, *Ymateb i'r adroddiad gan Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol* (2020), ar gael yn: <https://llyw.cymru/ymateb-ir-adroddiad-gan-grwp-gorchwyl-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol> (cyrchwyd ddiwethaf ar 9 Mawrth 2021).

⁴¹⁵ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 108A.

- 5.72 Er hynny gall y Senedd addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir mewn darpariaethau sydd yn ategol i ddarpariaethau eraill sydd yn rhan o'i chymhwysedd pynciau heb gael mwy o effaith ar faterion a gedwir nag sydd angen er mwyn rhoi grym i bwrpas y darpariaeth sydd yn rhan o'i chymhwysedd.⁴¹⁶
- 5.73 Ein barn dros dro yw bod diogelwch tomennydd glo yn perthyn i gymhwysedd ddatganoledig. Mae glo ei hun, yn cynnwys perchnogaeth ar lo ac ymelwa o lo, glofeydd tanddaearol a brig, ymsuddiant cysylltiedig â mwyngloddio glo, a gollyngiadau dŵr o lofeydd, yn fater a gedwir, ac eithrio ar gyfer dibenion adfer tir.⁴¹⁷ O dan adran 26A Deddf y Diwydiant Glo 1994, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo trwyddedau ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio glo yng Nghymru. Rhoddir hysbysiad cymeradwyo i'r Awdurdod Glo. Nid yw materion cysylltiedig â'r amgylchedd, rheoli risg llifogydd a draenio tir yn rhai a gedwir.

Goblygiadau datganoli i ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo

- 5.74 Ni all y Senedd roi neu bennu swyddogaethau i awdurdodau a gedwir heb ganiatâd y Gweinidog priodol.⁴¹⁸ Hefyd gwaherddir y Senedd rhag diddymu neu addasu swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus, ac eithrio awdurdodau Cymreig datganoledig, heb gydsyniad y Gweinidog priodol. Byddai'r darpariaethau yma yn cyfyngu ar bŵer y Senedd i addasu swyddogaethau corff megis yr Awdurdod Glo, a sefydlwyd gan statud y DU ac sydd yn gweithredu fel corff hyd braich un o adrannau Llywodraeth y DU.

⁴¹⁶ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 7B paragraff 2.

⁴¹⁷ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 7A, paragraff 8(1). Mae adran D3 yn cadw glo yn benodol, yn cynnwys: (1) perchnogaeth ar lo ac ymelwa o lo, (2) glofeydd tanddaearol a brig, (3) ymsuddiant cysylltiedig â mwyngloddio glo, a (4) gollyngiadau dŵr o lofeydd. Mae adfer tir wedi'u heithrio yn benodol. .

⁴¹⁸ Deddf Llywodraeth Cymru, atodlen 7B, paragraff 8. Diffinnir awdurdod a gedwir fel Gweinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth neu "any other public authority apart from a Welsh authority".

Pennod 6: Atebolrwydd sifil a throseddol am beryglon tomennydd glo yn y gyfraith gyffredin

- 6.1 Mewn egwyddor, gall presenoldeb ar dir domen glo peryglus gynnwys perchennog neu feddiannwr y tir mewn atebolrwydd sifil neu droseddol mewn cyfraith gwlad neu o dan reolau cyffredinol atebolrwydd meddianwyr sydd bellach yn statudol ond sy'n deillio o'r gyfraith gyffredin.⁴¹⁹ Bu nifer o achosion yn ymwneud â'r diwydiant glo lle mae atebolrwydd sifil cyfraith gyffredin wedi darparu iawndal am niwed a achoswyd gan fethiant tomen lo. Er nad ydym yn ymwybodol o unrhyw erlyniadau, credwn y gallai cyflwr peryglus tip, mewn theori o leiaf, fod yn sail ar gyfer erlyn.
- 6.2 Yn y cylchoedd sifil a throseddol, y cysyniad ar waith yw niwsans sydd, yn fras, yn golygu defnyddio tir mewn modd sy'n ymyrryd â defnyddio neu fwynhau tir cyfagos arall neu'n peryglu'r cyhoedd. Mae defnyddio tir mewn ffordd sy'n ymyrryd â defnydd person arall o'i dir yn niwsans preifat, sy'n gamwedd, tra bod defnydd sy'n peryglu'r cyhoedd yn niwsans cyhoeddus, sy'n gamwedd ac yn drosedd cyffredin.⁴²⁰ Hefyd yn berthnasol yn y cylch sifil y mae'r "is-rywogaeth" o niwsans a elwir y rheol yn *Rylands v Fletcher* a'r camwedd esgeulustod mwy cyffredinol, sydd (yn gyffredinol iawn) yn golygu gwneud pethau a fydd yn debygol o achosi niwed.
- 6.3 Rydym yn cynnwys trafodaeth ar y pwnc hwn ar sail cefndir a hefyd oherwydd ei fod yn ein hategu yn y farn bod angen system reoleiddio well ar gyfer tomennydd glo. Mae ein harolwg byr o gyfraith achosion yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng camau rheoleiddiol a anelir at atal newid rhag digwydd, a'r ymgyfreitha allai ddilyn ar ôl i bethau fynd o chwith, pan mai'r nod yw penderfynu pwy sydd yn gyfrifol am y difrod a achoswyd.
- 6.4 Mae'r achosion hefyd yn dangos nad yw'r gyfraith gyffredin yn pennu trothwy penodol ar gyfer cyfrifoldeb. Yn wahanol i fframwaith rheoleiddio, all bennu, er enghraifft y dylai pob tomen sydd yn uwch nag uchder penodol gael eu harchwilio yn rheolaidd, mae'r gyfraith gyffredin yn pennu atebolrwydd sifil neu droseddol ar sail cysyniadau ehangach fel rhesymoldeb a pherygl. Er y gallai atebolrwydd sifil neu droseddol ddarparu rhwymedi neu sancsiwn ar ôl y digwyddiad, nid ydym yn credu – ac nid oes unrhyw un o'r rhanddeiliaid wedi awgrymu i ni – ei fod yn gallu cymedroli ymddygiad perchnogion [tomennydd yn](#) ddigon manwl neu effeithiol i atal niwed rhag digwydd.

⁴¹⁹ Y gyfraith gyffredin yw'r rhan o'r gyfraith Cymru a Lloegr sydd heb ei cynnwys mewn deddfwriaeth, ond wedi esblygu trwy penderfyniadau barnwrol.

⁴²⁰ Gamwedd yw anghywirdeb sifil gall y llysoedd gwahardd trwy rhoi gwaharddeb neu iawndal ar ôl y digwyddiad.

ATEGOLRWYDD SIFIL CYFRAITH GYFFREDIN

Y rheol yn *Rylands v Fletcher*

6.5 Mae'r rheol yn *Rylands v Fletcher*⁴²¹ yn "sub-species of nuisance, which is itself a tort based on the interference by one occupier of land with the right in or enjoyment of land by another occupier of land."⁴²² Mae'n sefydlu atebolrwydd caeth os digwydd i unrhyw beth a gesglir ar dir diffynnydd a ddefnyddir yn annaturiol ddianc, pan fo'r dianc hwnnw yn debygol o achosi niwed a bod y difrod yn ganlyniad naturiol i'r dianc.⁴²³ Darparodd Blackburn J esboniad clasurol o'r egwyddor:

We think that the true rule of law is, that a person who for his own purposes brings on his land and collects and keeps there anything likely to do mischief if it escapes, must keep it in at his peril, and, if he does not do so, is prima facie answerable for all the damage which is the natural consequence of its escape ... it seems but reasonable and just that the neighbour, who has brought something on his own property which was not naturally there, ... but which he knows to be mischievous if it gets on his neighbour's, should be obliged to make good the damage which ensues if he does not succeed in confining it to his own property ... he should at his peril keep it there ... or answer for the natural and anticipated consequences.⁴²⁴

6.6 Yn esboniad Blackburn J, mae'r rheol yn gymwys i ddod â phethau ar dir y diffynnydd sydd yn debygol o achosi difrod os byddant yn dianc, y gellir ei ddisgrifio fel "pethau peryglus". Roedd achos *Rylands v Fletcher* ei hun yn ymwneud â dihangfa swm mawr o ddŵr a gronwyd mewn cronfa a adeiladwyd gan y diffynnydd er mwyn cyflenwi dŵr i'w felin. Dihangodd dŵr i byllau glo anweithredol cyfagos, gan orlifo mwynglawdd yr achwynydd. Mae'r rheol wedi cael ei chymhwyso i nifer o bethau peryglus eraill, yn cynnwys dŵr, tân, nwy, trydan a gwenwyn.⁴²⁵

6.7 Roedd y penderfyniad yn *Attorney-General v Cory Brothers*⁴²⁶ yn achos o gymhwyso'r egwyddor i wastraff glo a dipiwyd ar lethr bryn heb ddarpariaeth draenio. Darganfyddwyd fod y gwastraff yn "beth peryglus".⁴²⁷ Roedd dwy set o achosion yn gysylltiedig.

6.8 Daethpwyd â'r achos cyntaf yma gan yr Atwrnai Cyffredinol ar ran cyngor rhanbarth trefol, a'r cyngor ei hun. Hawliodd yr achwynydd waharddeb yn erbyn cwmni glofa mewn perthynas â difrod a achoswyd a'r bygythiad gan dirlithriad a ddisgynnodd ar ffordd a freiniwyd i'r cyngor yn ystod hydref 1916. Roedd y cwmni glofa wedi tipio swm

⁴²¹ *Rylands v Fletcher* (1866) L. R. 1 Ex. 265; (1868) L. R. 3 H. L. 330

⁴²² Lord Bingham in *Transco plc v Stockport MBC* [2003] 3 WLR 1467 [2004] 2 AC 1 at [9].

⁴²³ Mae caethiwed yr atebolrwydd yn *Rylands v Fletcher* wedi, ers y penderfyniad yn *Cambridge Water Co v Eastern Counties Leather plc* [1994] 2 AC 264, [1994] 2 WLR 53, ei lleihau gan y gofyniad o rhagweladwyedd rhesymol o'r niwed. Drafodir hwn yn baragraff 6.13 isod.

⁴²⁴ (1866) LR 1 Ex 265, 279, lluniwyd mewn termau ar ôl ei gymeradwyo gan Dŷ'r Arglwyddi (LR 3 HL 330, 339-340).

⁴²⁵ AJ Waite, "Deconstructing the Rule in *Rylands v Fletcher*" (2006) 18 (3) *Journal of Environmental Law* 423.

⁴²⁶ *Attorney-General and Others v Cory Brothers and Co Ltd and Others; Kennard and Others v Cory Brothers and Co Ltd* [1921] 1 A.C. 521; [1921] 1 WLUK 139.

⁴²⁷ Cyfeiriwn at y llithriad yma ym mharagraff 2.8 uchod.

enfawr o wastraff glofa ar lethr bryn oedd yn ffinio â Phentre yng Nghwm Rhondda. Roedd yr achwynwyr yn dadlau bod y cwmni wedi methu â sicrhau rhagofalon rhesymol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y gwastraff. Mewn ail achos, a gyflwynwyd gan y tirlithriadwyr oedd wedi caniatáu'r drwydded i'r cwmni dipio, roedd yr achwynwyr yn hawlio gwaharddeb a iawndal mewn perthynas â difrod a achoswyd gan y tirlithriad i dai oedd yn eiddo i'r achwynwyr. Ar sail y dystiolaeth, canfu Tŷ'r Arglwyddi bod y tirlithriad wedi cael ei achosi gan esgeulustod y cwmni wrth ddyddodi'r gwastraff ar lethr y bryn heb ddraenio safle'r tomennydd. Canfuwyd bod y cwmni yn atebol yn yr achos cyntaf ar sail yr egwyddor yn *Rylands v Fletcher* ac ar sail esgeulustod, ac yn yr ail achos ar sail esgeulustod.

- 6.9 Roedd y cwmni wedi ceisio dadlau bod y tirlithriad yn ffenomenon cwbl naturiol a achoswyd gan lithriad y pridd wyneb i lawr llethr y mynydd oedd wedi ei iro gan lif dŵr. Neu, roeddent yn y dadlau bod y tirlithriad wedi cael ei achosi gan fanc mawr o wastraff o hen chwarel oedd yn weithredol ar y tir o 1891 i 1904, amser maith cyn i domennydd y lofa gael eu ffurfio. Roedd y Llys Apêl wedi penderfynu bod y tirlithriad yn ganlyniad i achosion naturiol. Wrth wydroi'r penderfyniad hwn, dywedodd Viscount Haldane:

It is common ground that the presence of water in large quantities due to excessive rainfall brought about the slide, but the question is how it did so. If the tips were of excessive dimensions, and the weight of the 500,000 tons of mineral rubbish of which they consisted was such that when their base was saturated they were set in motion, then that is sufficient, if it is proved to have been the real origin of what happened, to fix the colliery company with liability. For if such rainfall as could make this enormous heap of stuff slide was a possible occurrence, it was negligent to put it there without taking adequate precautions to secure its stability. The liability may be based on actual negligence, as I have just suggested, or it may be established merely by showing that the hillside was steep, and that to pile rubbish on it in a large heap was to put a dangerous structure there, which was so put at the risk of the company should damage result. The line of demarcation between the proof of negligence and the proof of what is necessary to bring such a case within this well-known principle of *Rylands v. Fletcher* is but a faint one in such circumstances as we are now considering. The rainfall proved to have occurred at the period of the slide was no doubt unusually heavy, but it was of no unique character, nor of such as ought not to have been foreseen as possible.⁴²⁸

- 6.10 Er bod y rheol yn ymddangos ysgubol o ran gosod atebolrwydd caeth, dim ond mewn amgylchiadau arbennig y mae modd ei chymhwyso. Dim ond os bydd dihangfa y mae'n berthnasol. Mae'n rhwymedi sydd wedi'i gyfyngu i ddifrod i dir neu fuddiannau mewn tir; nid yw'n berthnasol i waith neu fentrau sydd wedi'u hawdurdodi gan statud; mae atebolrwydd wedi'i eithrio os yw'r dihangfa yn deillio o fandaliaeth neu ddigwyddiadau naturiol anarferol; mae'r amgylchiadau lle mae'n berthnasol – dihangfa o rywbeth peryglus, nad yw wedi'i briodoli i ddigwyddiad naturiol anarferol neu weithred trydydd parti – fel arfer yn arwain at awgrym o esgeulustod; ac mae'r eithriad ar gyfer defnydd "naturiol" o dir yn "sail a diffiniedig".⁴²⁹

⁴²⁸ [1921] 1 WLUK 139, [1921] 1 A.C. 521 yn 536.

⁴²⁹ Gweler Lord Hoffman in *Transco plc v Stockport MBC*; [2003] UKHL 61 at [39]; [2003] 3 WLR 1467.

- 6.11 Mae cwmpas defnydd “naturiol” yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun diogelwch domen glo. Yn *Transco v Stockport MBC*, penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi mai dim ond drwy ddefnydd “sy'n anghyffredin ac yn anarferol” y byddai'r gofyniad o ddefnydd annaturiol yn cael ei fodloni.⁴³⁰ Mae'n bosibl na fyddai hen domen lo sydd wedi bod ar safle ers blyneddau lawer yn cael ei hystyried yn “ddefnydd annaturiol” am y rheswm hwn.
- 6.12 Mae cyfyngiad arall ar gymhwyso rheol *Rylands v Fletcher* yn gysylltiedig â phellter y difrod. Mae atebolrwydd yn gyfyngedig i ganlyniadau rhagweladwy rhesymol y ddihangfa.⁴³¹
- 6.13 Rhagweld yn rhesymol difrod mewn niwsans preifat Trafodwyd natur rhagweladwy difrod yn y Llys Apêl mewn achos a oedd yn deillio o adfer tomen lo, *Arscott v The Coal Authority*.⁴³² Ar ôl trychineb Aberfan, roedd yna bwysau ar y Bwrdd Glo Cenedlaethol (y NCB, a elwid yn British Coal ar ôl hynny) i gael gwared â gweddill y tomennydd glo yn yr ardal. Fel rhan o'r gwaith i gael gwared â dwy domen yn gyfan gwbl, defnyddiodd NCB wastraff glo i godi uchder glannau Afon Taf. Roedd y gwastraff yn creu risg uwch o orlifo tai, ac mewn cyfnod o law trwm yn 1998, digwyddodd llifogydd. Roedd yr hawlwr, sef 32 o feddianwyr y tai yr effeithiwyd arnynt, yn dadlau bod yr NBC, yr oedd yr Awdurdod Glo yn statudol gyfrifol am eu hatebolrwydd, wedi creu risg o lifogydd y gellid ei ragweld, a'u bod am y rheswm hwnnw yn atebol am greu niwsans preifat.
- 6.14 Canfu'r Llys Apêl, er mai'r mewnlenni yn y 1970au oedd achos y llifogydd, nad oedd y llifogydd a ddigwyddodd yn 1998 yn rhagweladwy ar adeg y mewnlenni. Cadarnhaodd Llys Lord Justice bod rhagweladwyedd rhesymol o ddifrod yn un o amodau atebolrwydd am niwsans gan bwysleisio bod y rheol yn *Rylands v Fletcher* yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn a hynny yn ddim llai nag unrhyw gategori niwsans arall. Aeth rhagddo i ystyried beth yw digwyddiad y gellir ei ragweld yn rhesymol:
- Now, I readily accept that an event may be reasonably foreseeable even though the precise mechanics of its causation are not.... But reasonable foreseeability must imply some understanding of the chain of events which is putatively foreseen; otherwise we are looking not at foresight but divination....
- 6.15 Er y diystyrwyd yr hawliad ar sail y canfyddiadau ynghylch rhagweladwyedd rhesymol, roedd y llys hefyd yn ystyried bod rheol ‘gelyn cyffredin’ yn gymwys. Mae hynny yn mynnu ei bod yn gyfreithlon i dirfeddiannwr godi rhwystr ar dir er mwyn ei warchod rhag llifogydd hyd yn oed os gallai hynny arwain at orlifo ar dir rhywun arall.

Defnydd afresymol o dir mewn niwsans preifat

- 6.16 Mae *Anthony v The Coal Authority*⁴³³ yn cymhwyso egwyddorion ehangach cyfraith niwsans yng nghyd-destun diogelwch tomennydd glo. Aeth tomen lo oedd wedi cael ei gweithredu fel than o lofa ger Abertawe o 1957 i 1972, pryd oedd hi'n eiddo i'r NCB, ar

⁴³⁰ Uchod, Lord Bingham at [11].

⁴³¹ *Cambridge Water Co v Eastern Counties Leather plc* [1994] 2 AC 264, [1994] 2 WLR 53.

⁴³² *Arscott and Ors v Coal Authority and Anr* [2004] EWCA Civ 892, [2005] Env LR 6.

⁴³³ *Anthony and Ors v The Coal Authority and Anr* [2005] EWHC 1654 (QB); [2006] Env L R 17.

dân yn 1996. Llosgodd y tân tan 2000, gan gynhyrchu cymylau mawr o fwg a llwch ac arogl sylffwr cas. Fe'i diffoddwyd gan y cyngor yn 2000 am gost o tua £1 miliwn. Roedd y lofa wedi cau yn 1983. Ail-siapiwyd ac adferwyd y domen yn rhannol gan NCB yn 1987. Yn 1995 trosglwyddodd British Coal, a oedd erbyn hyn wedi cymryd perchnogaeth ar y domen, y tir i grŵp o bobl gyffredin am £1. Roedd y trosglwyddiad yn cynnwys cyfamod gan y bobl gyffredin mewn perthynas ag ôl-ofal y domen.

- 6.17 Daeth saith hawlydd, sef meddianwyr yr eiddo yr effeithiwyd arnynt gan y tân, ag achos o niwsans preifat, esgeulustod a niwsans cyhoeddus yn erbyn yr Awdurdod Glo, fel yr olynydd i rwymedigaethau NCB a'r Awdurdod Glo. Roeddent yn hawlio yr achoswyd y tân gan ymlosgiad digymell yn y glo gwastraff yn y domen, a bod hynny wedi cael ei achosi gan y ffordd ddiffygiol y ffurfiwyd y domen pan oedd yn eiddo i NCB. Roeddent yn dadlau bod y domen, pan gafodd ei ffurfio, yn niwsans posibl a bod y tân yn ganlyniad rhagweladwy; roedd NCB, ac felly'r Awdurdod Glo, yn atebol am niwsans. Derbyniodd yr Awdurdod Glo ei fod yn atebol am weithredoedd a hepgorion ei ragflaenwyr, ond gwadodd bod NCB wedi creu neu barhau i greu niwsans, gan ddadlau bod y domen yn un o ganlyniadau angenrheidiol mwyngloddio glo ac yn ddefnydd rhesymol o'r tir, ac na ellid fod wedi rhagweld yn rhesymol y risg o ddifrod allai gael ei achosi gan dân yn deillio o ymlosgiad digymell.
- 6.18 Canfu Mr Ustus Pitchford, bod tân y domen wedi cael ei achosi gan ymlosgiad digymell. Ystyriodd y penderfyniad yn *Cory Brothers* gan nodi y cytunwyd yn yr achos hwnnw nad yw defnydd annaturiol neu eithriadol o reidrwydd yr un peth â defnydd afresymol.

It seems to me, however, that the creation of an artificial structure which is potentially dangerous (which the House of Lords regarded as non-natural or extraordinary use of land for the purpose of *Rylands v. Fletcher* liability) may also be an unreasonable use of land in proof of private nuisance. Byddai gosod tomen wastraff yn ddefnydd tir arferol at ddiben ystyried atebolrwydd am ddihangfa, oni bai nod y ffordd y caiff y gwastraff ei ffurfio yn creu perygl i eraill: gweler *Rickards v. Lothian* [1913] AC 263 yn 280. In my view, apart from a case of escape, such a structure, giving rise to the potentiality of damage to one's neighbour may be an unreasonable use of land, for which the creator would be liable.⁴³⁴

- 6.19 Nododd bod yr egwyddor atebolrwydd caeth yn *Rylands v Fletcher* wedi cael ei chadw dan reolaeth gan egwyddor defnyddiwr rhesymol, neu yr hyn sydd wedi cael ei alw yn "the principle of give and take as between neighbouring occupiers of land"⁴³⁵. Y mater critigol mewn perthynas ag atebolrwydd am niwsans oedd a ellid fod wedi rhagweld y niwed a achoswyd:

It would not be a reasonable use of land to create or to continue a hazard which you know or should know carries a foreseeable risk of damage to your neighbour beyond the bounds of tolerance in give and take.⁴³⁶

⁴³⁴ [2005] EWHC 1654 (QB); [2006] Env L R 17 yn [124].

⁴³⁵ Lord Goff yn *Cambridge Water Co v Eastern Counties Leather plc* [1994] 2 AC 264, [1994] 2 WLR 53 at [299D].

⁴³⁶ [2005] EWHC 1654 (QB); [2006] Env L R 17 yn [128].

- 6.20 Canfu nad oedd y risg y ymosgiad wedi bod yn rhagweladwy pan ffurfiwyd y domen, oherwydd y math o lo oedd yn y domen, ond o ganlyniad i ddatblygiad mewn gwybodaeth wyddonol yn ystod y 1970au, bod y risg wedi dod yn un rhagweladwy. Am y rheswm hwnnw, roedd yn ddyletswydd ar y perchnogion i leihau'r niwsans ac roeddent yn atebol am y difrod a ddeilliodd o fethu â'i leihau. Roedd y ddyletswydd yn gymedrol yn hytrach na'n absoliwt. Gyda'r wybodaeth am y risg roedd yn ofynnol i'r meddiannydd wneud beth oedd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i leihau'r risg. Dylai NCB/Glo Prydain fod wedi cynnal asesiad risg yn 1987 cyn adfer y domen. Byddai'r asesiad wedi eu harwain at gael gwared â'r risg o ymosgiad digymell fel rhan o'r gwaith adfer. Canfuwyd bod yr Awdurdod Glo yn atebol am niwsans preifat.⁴³⁷

ATEBOLRWYDD SIFIL STATUDOL

- 6.21 Mae Deddfau Atebolrwydd Meddiannwyr 1957 a 1984 yn codeiddio mewn statud y ddyletswydd gofal ddylid ei hysgwyddo gan rai sydd yn meddiannu eiddo, boed hynny fel perchnogion neu denantiaid, neu unrhyw barti sydd ag elfen o reolaeth ar y safle, tuag at bobl sydd yn ymweld neu yn tresmasu.⁴³⁸
- 6.22 Mae'r Deddfau yn delio ag atebolrwydd allai ddeillio o ddamweiniau a achoswyd gan gyflwr diffygiol neu beryglus y safle. Mae Deddf Atebolrwydd Meddiannwyr 1957 yn rheoli'r ddyletswydd sydd yn ddyledus gan feddiannydd tuag at ymwelydd cyfreithiol, ac mae'n cynnwys anaf corfforol a difrod i eiddo. Mae Deddf Atebolrwydd Meddiannwyr 1984 yn gosod dyletswydd gofal mewn perthynas ag anaf corfforol tuag at bawb arall, er enghraifft rhai sydd yn defnyddio hawliau tramwyo neu hawliau mynediad i dir agored o dan ddarpariaethau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwyo 2000, neu dresmaswyr.
- 6.23 Mae adran 1(2) Deddf 1957 yn nodi'r ddyletswydd i ofalu am ymwelydd cyfreithlon. Mae'n rhaid i feddiannydd "take such care as in all the circumstances of the case is reasonable to see that the visitor will be reasonably safe in using the premises for the purposes for which he is invited or permitted by the occupier to be there." Mae ystyr "premises" yn fwy eang nag adeiladau ar dir. Ategwyd ei fod yn cynnwys , er enghraifft, rheilffordd, llwybr ar draws cae, tir agored ger llwybr.⁴³⁹
- 6.24 Mewn perthynas â phobl ar y safle nad ydynt yn ymwelwyr, mae dyletswydd gofal yn codi o dan Ddeddf 1984 os yw'r meddiannydd yn ymwybodol o berygl neu os oes ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn bodoli, yn gwybod neu â sail resymol dros gredu bod y person yng nghyffiniau'r perygl dan sylw, a bod y risg yn un y mae'n rhesymol disgwyl i'r meddiannydd gynnig amddiffyniad yn ei erbyn. Dyletswydd y meddiannydd yw cymryd unrhyw ofal sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i atal anaf oherwydd y perygl dan sylw.⁴⁴⁰

⁴³⁷ I weld trafodaeth am yr achos, gweler M Daiches, "The case of the burning tip — a spontaneous reaction?" (2006) 14(2) *Environmental Liability* 60.

⁴³⁸ Gweler, er enghraifft, *Wheat v E Lacon & Co Ltd* [1966] AC 552, [1966] 2 WLR 581.

⁴³⁹ Gweler *Videan v British Transport Commission* [1963] 2 Q.B. 650, [1963] 3 WLR 374, *Vodden v Gayton* [2000] 4 WLUK 172, [2001] P.I.Q.R. P4 and *Singh v Cardiff City Council* [2017] EWHC 1499 (QB) [2017] 6 WLUK 511.

⁴⁴⁰ Deddf Atebolrwydd Meddiannwyr 1984, a 1(3) a (4).

- 6.25 Wrth benderfynu a yw'r hyn mae'r meddiannydd wedi ei wneud yn rhesymol, gall y llys ystyried ystod eang o ffactorau, yn cynnwys pa mor amlwg yw'r perygl, anhawster a chost cael gwared â'r perygl, ac unrhyw reolau diogelwch perthnasol.⁴⁴¹
- 6.26 Amcan y ddyletswydd statudol yw atal anaf i rai ddaw ar y tir, ac unwaith eto mae'n pennu trothwy ar gyfer gofal rhesymol.⁴⁴² Mae hyn yn wahanol i fframwaith statudol sy'n gosod safon ddiogelwch benodol (ond wedi'i geirio'n fras efallai). Enghraifft o safon o'r fath yw, yn achos mwyngloddiau gweithredol, y ddyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch tip. Mae'r fframwaith statudol hefyd yn darparu ar gyfer ei orfodi.

ATEBOLRWYDD TROSEDDOL CYFRAITH GYFFREDIN

- 6.27 Mae trosedd cyfraith gyffredin o ran niwsans cyhoeddus wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:

A person is guilty of a public nuisance (also known as common nuisance), who (a) does an act not warranted by law, or (b) omits to discharge a legal duty, if the effect of the act or omission is to endanger the life, health, property or comfort of the public, or to obstruct the public in the exercise or enjoyment of rights common to all Her Majesty's subjects.

- 6.28 Efallai wnaiff tirfeddiannwr gyda thir sy'n cynnwys tomen glo peryglus cyflawni'r drosedd, yn enwedig yn ei ffurf bresennol gyfraith gyffredin lle mae'r elfen bai yn esgeulustod. Bydd Cymal 59 o Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sydd ar hyn o bryd o flaen Senedd y DU yn codeiddio'r drosedd yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, a fydd yn diddymu'r drosedd cyfraith gyffredin. Mae'r Bil yn mabwysiadu argymell Comisiwn y Gyfraith dylai'r elfen bai fod yn fwriad neu fyrbwylltra.⁴⁴³

⁴⁴¹ Gweler, er enghraifft, *AB (a protected party by his litigation friend, CD) v Pro-Nation Ltd* [2016] EWHC 1022 (QB) [2016] 4 WLUK 536 (building regulations); *McCarrick v Park Resorts Ltd* [2012] EWHC B27 (QB) [2012] 10 WLUK 851 (HSE guidance);

⁴⁴² I weld mwy o drafodaeth ar Ddeddfau Atebolrwyd Meddiannwyr, gweler M Jones, A Dugdale, M Simpson (eds) *Clerk & Lindsell on Torts* (23rd ed, 2020).

⁴⁴³ Simplification of the Criminal Law: Public Nuisance and Outraging Public Decency (2015) Law Com No 358.

Pennod 7: Problemau gyda'r Deddf 1969

- 7.1 Ar ôl adolygu'r gyfraith mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo, gyda ffocws penodol ar y gyfundrefn ar gyfer tomennydd anweithredol yn Rhan 2 Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, byddwn yn y bennod hon yn disgrifio'r problemau a wynebwyd gan y rhai sydd yn ymwneud â'i gweithredu, a'u safbwyntiau ynghylch y ffordd orau i ddatrys y problemau hyn. Mae'r disgrifiad hwn yn seiliedig ar drafodaethau gyda nifer o awdurdodau lleol (yn cynnwys y rhai â'r saith nifer uchaf o domennydd glo yn eu hardaloedd), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Caiff ei drefnu yn unol â'r themâu cyffredinol a enwyd gan y rhanddeiliad. Pan fo'n berthnasol, mae safbwyntiau rhanddeiliaid eraill wedi cael eu cynnwys hefyd.⁴⁴⁴

PROBLEMAU

- 7.2 Roedd y rhan fwyaf o'r problemau a adroddwyd i ni yn ymwneud â diffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r rhan fwyaf o'r bennod hon yn disgrifio'r rhain, ynghyd ag awgrymiadau o atebion. Codwyd dau fater rhagarweiniol nad ydynt yn diffygion yn y ddeddfwriaeth ei hun ond sydd yn faterion y bydd raid i unrhyw ddeddfwriaeth newydd fynd i'r afael â nhw.

Colli sgiliau a phrofiad arbenigol

- 7.3 Eglurodd nifer o awdurdodau lleol (yn arbennig y rhai llai) eu bod yn ystod y 15 i 20 mlynedd diwethaf wedi colli'r arbenigedd yr oedd ganddynt mewn tomennydd glo ar un adeg. Mae hynny yn adlewyrchu'r dirywiad mewn gweithgaredd mwyngloddio glo yn ystod y degawdau diweddar, ond a achoswyd gan nifer o ffactorau yn cynnwys ymddeoliadau, ailstrwythuro awdurdod lleol a chyfyngiadau ariannu. Mae'r cyfrifoldeb am domennydd glo erbyn heddiw yn perthyn i adran llifogydd, priffyrdd neu ddraenio tir yr awdurdod yn hytrach na thîm tomennydd glo arbenigol. Mewn awdurdodau llai, gall diogelwch tomennydd glo fod yn un elfen yn unig o swydd unigolyn. Mae nifer o'r bobl sydd yn gyfrifol am domennydd mewn awdurdodau lleol yn beirianwyr y mae eu cefndir mewn maes cwbl wahanol.
- 7.4 Dywedodd un awdurdod lleol sydd â nifer fawr o domennydd ei fod wedi llwyddo i gadw llawer iawn o arbenigedd yn y cyngor. Ond roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau yn mynegi amheuaeth ynghylch a oedd ganddynt y gallu i feithrin sgiliau drwy hyfforddiant a phrofiad. Wrth i nifer y staff sydd â phrofiad o domennydd glo leihau dros y blynyddoedd, yn amlach na pheidio byddai caffael sgiliau drwy hyfforddiant a phrofiad dim ond yn para cyn hired â chyflogaeth un unigolyn yn yr awdurdod.

Adnoddau awdurdodau lleol

- 7.5 Dywedodd pob awdurdod lleol bod adnoddau yn broblem. Mae'r gwaith dan sylw yn gofyn am adnoddau sylweddol iawn. Rydym yn deall mai dim ond gallu i weithredu yn

⁴⁴⁴ Bu i ni gyfarfod â'r awdurdodau lleol canlynol: Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Castell Nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent a Sir Fynwy. Mae manylion llawn ar gael yn Atodiad 1 y papur hwn.

adweithiol yn hytrach na rhagweithiol sydd gan hyd yn oed yr awdurdodau mwyaf. Mae rhai awdurdodau wedi cael anhawster canfod adnoddau i gynnal archwiliadau, heb sôn am waith cynnal a chadw. Dywedodd un swyddog bod y cyn gyngor sir yn y gorffennol wedi gweithredu cod ymarfer oedd yn cynnwys archwilio tomennydd yn wythnosol, bob pythefnos a misol, ac y byddid yn archwilio hefyd ar ôl glaw trwm. Roedd yna gysylltiad agos rhwng hynny a methodoleg NCB. Roedd ganddynt dîm penodol ym mhob ardal, a roeddent yn adnabod y safleoedd yn dda. Nawr efallai bydd y cyngor yn archwilio'r un safleoedd bob blwyddyn, dwy flynedd neu bedair blynedd, neu'n penderfynu nad oes angen eu harchwilio o gwbl. Dywedodd un awdurdod lleol arall y gallent ddygymod â'r dyletswyddau archwilio, ond bod cyfyngiadau ariannol wedi effeithio'n ddrwg ar gynnal a chadw. Dywedodd un arall y gallent ond gweithredu system archwilio *ad hoc*, oedd yn cynnwys ymateb petai aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â nhw gyda phryderon.

- 7.6 Dywedodd un awdurdod bod archwiliadau drôn wedi helpu gyda'r broblem hon a bod hynny wedi rhoi gwybodaeth fanylach iddynt am y tomennydd nag archwiliadau ar droed. Gallent gynhyrchu cynlluniau â chyfuchlinau y gall yr awdurdod lleol gymharu arolygon yn y dyfodol yn eu herbyn, er mwyn gweld a fu unrhyw symudiad. Roedd hynny hefyd yn helpu o ran archwilio tomennydd ble mae'r tirwedd yn golygu bod mynediad yn anodd. Roedd yr awdurdod yn credu bod arolygon drôn yn fwy economaidd yn yr hirdymor.
- 7.7 Roedd elfen arall o'r problemau adnoddau a adroddwyd i ni yn gysylltiedig â thomennydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol a brynwyd yn ystod cyfnod y Rhaglen Adennill Tir⁴⁴⁵ gyda'r disgwylid y byddai arian ar gael gan Awdurdod Datblygu Cymru i dalu am gost adfer. Pan gaewyd y rhaglen yn 2012, gadawyd yr awdurdodau lleol gyda'r hyn a ddisgrifiwyd fel "runts of the litter" gyda dim gobaith o gael grantiau cyfalaf neu o gynhyrchu incwm ohonynt oherwydd nad oedd yna farchnad mwyach i'r glo ellid ei adfer ohonynt. Roedd nifer o'r tomennydd yma hefyd yn anodd iawn i gael mynediad atynt.
- 7.8 Mynegwyd safbwynt clir gan yr holl awdurdodau lleol nad oedd ganddynt y capasiti i ymdopi gydag unrhyw feichiau ychwanegol y byddai diwygiadau i'r dyfodol yn eu rhoi arnynt.

Gweithdrefnau trwsgrl

- 7.9 Cyfeiriodd yr awdurdodau lleol at nifer o broblemau gyda Deddf 1969. Y cyntaf oedd bod y ddeddfwriaeth yn hen, gan iddi gael ei chyflwyno pan oedd y diwydiant mwyngloddio yn weithredol a phrofiad arbenigol ar gael. Roedd saith deg y cant o'r tomennydd erbyn hyn mewn perchnogaeth breifat gyda dim cysylltiad â'r diwydiant. Hefyd nid yw'r dirwyon yn effeithiol o gwbl fel rhwystr.⁴⁴⁶
- 7.10 Dywedwyd wrthym bod awdurdodau lleol yn dibynnu'n bennaf ar eu pŵer mynediad adran 13 i gynnal profion archwilio, eu pŵer o dan adran 14 i roi hysbysiad adfer i'r tîrfeddiannwr, a'u pŵer adran 17 i wneud y gwaith eu hunain. Mae'r prif anawsterau y

⁴⁴⁵ Trafodir y Rhaglen Adfer Tir ym mhennod 3.

⁴⁴⁶ Gellir cosbi amrywiol droseddau cysylltiedig â rhybuddion o dan a 12, mynediad i dir o dan a 13 ac a 18, gweithgareddau adfer o dan a 14 a rhwystro yn groes i a 26, gyda dirwy yn dilyn euogfarn.

mae'r awdurdodau yn eu wynebu wrth geisio defnyddio'r pwerau yma yn cynnwys y canlynol.

- (1) Mae pwerau Deddf 1969 wedi eu fframio o gwmpas sicrhau nad yw tomennydd anweithredol, o ganlyniad i ansefydlogrwydd, yn achosi perygl i aelodau'r cyhoedd. Gall awdurdodau lleol benderfynu a oes yna berygl naill ai o adroddiad a ddarperir gan dirfeddianwyr neu drwy arolygu'r domen eu hunain. Adroddodd un awdurdod lleol eu bod wedi cynnal archwiliadau o'r fath ar gyfer tomennydd risg uchel, ond y byddai gwneud hynny ar gyfer tomennydd risg is yn defnyddio gormod o adnoddau. Roedd rhai awdurdodau yn credu eu bod yn cael eu cyfyngu o ran defnyddio'r pŵer oherwydd yr angen i ddangos achos dros amau ansefydlogrwydd. Roedd eraill yn dehongli'r pŵer yn fwy eang.
- (2) Nid yw awdurdod lleol yn gallu defnyddio pwerau mynediad mewn achos brys heb ddangos bod yna berygl i'r cyhoedd. Mae hyn yn rhoi'r awdurdod mewn sefyllfa na ellir ei datrys, pan nad ydynt yn gallu ymyrryd nes y gallent brofi risg, ond ni allant brofi risg heb ymyrryd. Hefyd gall perchnogion tomennydd ddadlau nad oes perygl i'r cyhoedd drwy ddweud y gellid lliniaru'r risg mewn ffyrdd heblaw gwaith adfer. Er enghraifft, gallent ddadlau y gellid cau llwybr cyhoeddus sydd yn agos i domen sydd yn dangos arwyddion o symud.

7.11 Er mwyn rhoi hysbysiad adfer o dan adran 14, mae'n rhaid i'r awdurdod allu profi bod yna berygl i'r cyhoedd. Mae'r gwaith o brofi hyn yn sylweddol, yn ddud ac yn anodd oherwydd bod y prawf yn y pen draw yn oddrychol. Efallai na fydd hi'n bosibl adennill y costau a ysgwyddir.⁴⁴⁷ Hyd yn oed drwy ddefnyddio pwerau adran 17, gall perchnogion herio a yw'r gwaith yn angenrheidiol ai peidio. Ar y llaw arall, mae perchnogion ar brydiau eisiau dangos bod yna risg sylweddol, er enghraifft fel y gallent sefydlu gwaith golchi glo y gall yr awdurdod lleol deimlo rheidrwydd i ddadlau yn ei erbyn.⁴⁴⁸

7.12 Roedd yna safbwyntiau bron yn unfrydol bod y mecanwaith ar gyfer rhoi hysbysiau yn drwsogl, yn cymryd amser ac yn gostus. Eglurodd rhai awdurdodau bod eu hadnoddau cyfyngedig yn eu gwneud yn bryderus o ran defnyddio'r weithdrefn hysbysu oherwydd y costau cyfreithiol y gellid eu hysgwyddo; roeddent yn osgoi risg. Mae hyd yn oed rhoi hysbysiad a mynd ar ôl y tîr feddianwr yn gostus. Ar ôl rhoi hysbysiad, gall tîr feddianwyr herio beth sydd angen ei wneud. Mewn nifer o achosion roedd yr awdurdodau yn dibynnu yn hytrach ar ohebiaeth a negodi anffurfiol gyda pherchnogion tomennydd. Ond dywedodd un awdurdod lleol ei bod yn beth da bod yna fecanwaith er mwyn caniatáu i berchnogion tomennydd herio ymyrraeth rhy frwd gan awdurdodau lleol.

7.13 Pan fo awdurdodau lleol yn llwyddo i gamu i mewn a gwneud eu gwaith, mae'n bosibl o dan y Ddeddf i godi tâl ar y perchennog. Ond, os nad oes gan y tîr feddianwr unrhyw adnoddau, mae'n debygol y bydd y ddyled yn dod yn bridiant ar yr eiddo, felly

⁴⁴⁷ Mae a 23 o Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 yn caniatáu adennill costau "profion ymchwiliad" yn unig, ac ond lle ydym yn achosi hysbysiad dan a 14 neu gwaith dan a 17.

⁴⁴⁸ Mae golchi glo yn cyfeirio at olchi darnau mân o lo o'r gwastraff gyda'r bwriad o'i ail-ddefnyddio. Nid hynny yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru, sydd ond yn caniatáu mwyngloddio glo at ddibenion cyfyngedig. Erbyn hyn dim ond ychydig o werth economaidd sydd yn y cynnyrch a adferir.

gall gymryd blynyddoedd i'r awdurdod gael yr arian yn ôl. Mewn rhai achosion gall y costau fod yn fwy na'r hyn ellir ei adennill, oherwydd bod gwerth yr eiddo yn llai na chost y gwaith. Roedd gan rai awdurdodau enghreifftiau o fecanwaith oedd ag anawsterau cyffelyb o dan Ddeddf Priffrdd 1980 a Deddf Draenio Tir 1991.

- 7.14 Hefyd adroddodd awdurdodau lleol am anawsterau gyda thirfeddianwyr nad ydynt eisiau iddynt gael mynediad i'w tir. Dywedodd un awdurdod bod cŵn wedi cael eu gollwng arnynt ac anelwyd dryll at un arall (er eu bod bob amser yn mynd â llythyr gyda nhw yn egluro eu hawl mynediad adran 13).
- 7.15 Mewn rhai achosion mae'n anodd canfod pwy yw'r perchennog. Mae colli profiad ac arbenigedd mewn awdurdodau lleol wedi gwneud hynny yn waeth. Pan oedd yna aelod staff llawn amser penodol yn archwilio tomennydd, roedd yna ffyrdd anffurfiol o ganfod pwy oedd y perchennog.
- 7.16 Adroddodd WLGA bod nifer o awdurdodau lleol wedi cwyno am y diffyg cysondeb yn y dull o ddefnyddio Deddf 1969 ledled yr awdurdodau lleol mewn perthynas â thomennydd awdurdodau lleol a thomennydd preifat.

Diffyg pŵer i fynnu neu gyflawni gwaith cynnal a chadw

- 7.17 Cyfeiriodd awdurdodau lleol at fwch sylweddol yn y ddeddfwriaeth rhwng archwilio ar y naill law ac adfer brys ar y llaw arall. Nid oes dim yn y fframwaith i sicrhau bod perchnogion tomennydd yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol rheolaidd neu i roi pŵer i'r awdurdod wneud y gwaith eu hunain. Ni all awdurdodau lleol gymryd camau effeithiol nes y gallent ddangos bod yna berygl i'r cyhoedd. Mae hynny yn golygu disgwyl nes bod tomen eisoes yn ansefydlog, hyd yn oed os yw'r awdurdod yn ymwybodol bod y domen, er enghraifft, wedi cael ei ffurfio heb system ddraenio. Gallent anfon llythyr yn cyfeirio at rwymedigaethau perchnogaeth er mwyn annog perchnogion i ddelio â materion cynnal a chadw llai difrifol megis draenio annigonol neu draeniau wedi blocio, sgwriadau a mân greithiau, ond yn absenoldeb unrhyw sancsiwn cyfreithiol maent yn gweld nad yw'r gwaith yn cael ei wneud.
- 7.18 Roedd yna gonsensws clir y byddai'n well i'r awdurdodau lleol petaent yn gallu ymyrryd yn rhagweithiol. Yn y pen draw, gwaith cynnal a chadw sydd yn atal y tomennydd rhag bod yn beryglus. Byddai gwaith cynnal a chadw priodol yn fwy cost-effeithiol hefyd: pan fo tomen lo angen gwaith adfer, mae'n debygol y bydd cost y gwaith y tu hwnt i adnoddau y rhan fwyaf o berchnogion preifat. Gallai rhoi hysbysiad ar y cam hwnnw achosi methdaliad.
- 7.19 Eglurodd awdurdodau lleol bod yr un sefyllfa yn codi mewn perthynas â Deddf Draenio Tir 1991: mae angen cael rhwystr yn y llif er mwyn gallu gweithredu. Mae hynny yn golygu na all awdurdod atgyweirio cwlfer nes ei fod yn blocio, a hynny o bosibl yn achosi gorlifo. Nid oes ganddynt unrhyw bwerau i ddelio â dirywiad graddol. Mae yna ffyrdd penodol o gwmpas hynny - er enghraifft, gallent wneud cais am grant gan gynllun llifogydd Llywodraeth Cymru, ond dim ond os oes dau eiddo preswyl neu ragor yn wynebu risg.
- 7.20 Dywedwyd wrthym bod y cyhoedd yn ymwybodol iawn o gyfyngiadau pwerau Awdurdodau Lleol. Gallent weld drostynt eu hunain yr arwyddion o waith cynnal a chadw annigonol, ond maent yn gwybod na all yr awdurdodau lleol ymyrryd nes bod

yna arwyddion clir o ansefydlogrwydd megis craciau neu lystyfiant gwywedig gaiff ei achosi gan nwyon gwenwynig yn dianc.

Problemau gyda thirfeddianwyr

- 7.21 Dywedwyd wrthym nad yw tirfeddianwyr yn aml yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cynnal a chadw, neu hyd yn oed bod ganddynt domen lo ar eu tir. Hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol o'r broblem, yn aml nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar y tomennydd. Mae nifer o berchnogion tomennydd yn fân ffermwyr. Disgrifiodd un awdurdod lleol sut y bu iddynt ysgrifennu at rai tirfeddianwyr i egluro eu cyfrifoldebau iddynt; yr ateb a gafwyd yn syml oedd y dylai'r cyngor ddod i wirio'r tomennydd oes oedd ganddynt bryderon. Roedd gan rai tirfeddianwyr yr adnoddau i gyflogi eu haelod staff eu hunain i ddelio â'u tomennydd; ond lleiafrif oedd y rhain.
- 7.22 Mae rhai tirfeddianwyr wedi ceisio addasu tomennydd mewn ffordd problemus sydd wedi effeithio ar sefydlogrwydd y domen; un enghraifft a roddwyd oedd cynllun i greu canolfan saethu. Mae rhai mân ddigwyddiadau wedi bod pan fo unigolion wedi tipio deunydd ar ben tomennydd presennol. Adroddodd rhai awdurdodau lleol am ddigwyddiadau pan fo perchnogion tomennydd yn tyllu i mewn i domennydd. Gall torri coed hefyd gynyddu'r risg o lithriadau.
- 7.23 Y digwyddiad mwyaf difrifol yr adroddwyd i ni amdano oedd llifogydd mewn ysgol a achoswyd gan waith oedd yn cael ei wneud gan berchennog tomen, olygai bod angen i'r cyngor asesu'r safle o dan bwerau brys er mwyn gwneud gwaith brys ar gwlferi. Aeth y tirfeddianwr ati i siwio'r cyngor am roi hysbysiad yn amhriodol a dyfarnwyd iddo swm sylweddol o iawndal.
- 7.24 Disgrifiodd un awdurdod lleol sefyllfa o argyfwng tua 15-20 mlynedd yn ôl pan benderfynodd perchennog addasu tomen anweithredol hŷn oedd wedi ei lleoli uwchben ystâd o dai. Roedd yr awdurdod yn bryderus bod y perchennog wedi effeithio ar sefydlogrwydd y domen, er i'r perchennog roi sicrwydd bod y gwaith wedi cael ei gymeradwyo gan ddaearegwr. Roedd raid i'r cyngor gael gwarant i archwilio'r domen a chynnal archwiliad llawn, yn cynnwys tyllau turio a dadansoddiad llethr. Roedd hynny wedi datgelu rhai llefydd ansefydlog, a hynny i'r graddau fyddai'n effeithio ar ddiogelwch yr ystâd tai. Yr awdurdod oedd yn gyfrifol am dalu am gost yr archwiliadau, ond roeddent yn teimlo ei bod yn ddyletswydd arnynt i flaenoriaethu diogelwch mewn ardal oedd â derbynyddion arwyddocaol.
- 7.25 Mae yna hefyd achosion pan mae'n anodd iawn canfod pwy sydd yn gyfrifol pan adeiladwyd ar domen a adferwyd. Er enghraifft, os oes yna ystâd o dai ar domen, nid yw'n eglur pwy sydd yn gyfrifol am ddraeniad ymylol yr hen domen. Efallai bod pob tŷ yn gyfrifol, ond byddai'n well petai un corff yn gyfrifol am y draeniad. Neu, mae rhai yn dadlau y byddai'n well delio gyda hyn fel rhan o'r cynllun cynnal a chadw ehangach ar gyfer yr ystâd gyfan, a pheidio â thrin hynny fel problem sydd yn gysylltiedig â thomen lo.⁴⁴⁹

⁴⁴⁹ Stephen Smith, aelod o'r Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomennydd Glo..

Ymyriadau anawdurdodedig

- 7.26 Mae rhai peryglon tomennydd yn cael eu hachosi gan weithgareddau tresmaswyr. Adroddodd CNC bod raid iddynt roi griliau ychwanegol yn y sianeli draenio ar eu tomennydd er mwyn rhwystro pobl rhag chwarae arnynt mewn ceir sgelfrio. Mae cerrig sydd yn leinio sianeli draenio ar safleoedd CNC wedi cael eu dwyn neu eu fandaleiddio. Mae awdurdodau lleol wedi cael problemau gyda beiciau modur yn sgramblo ar domennydd anweithredol. Gall y gweithgaredd yma achosi erydiad sylweddol ar wyneb y domen.

Gwrthdaro cyfundrefnau

- 7.27 Problem arall sydd wedi wynebu awdurdodau lleol yw gwrthdaro rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r cyhoedd. Nid yw Deddf 1969 wedi cael ei dylunio i ryngweithio gyda gwarchodaeth amgylcheddol fodern. Mae'n blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd, tra bod deddfwriaeth amgylcheddol yn pennu gofynion allai amharu ar waith adfer neu lanhau. Mae'r problem yn codi pan fo'r deunydd ar domen yn symud. Pan fo wedi cael ei wahanu oddi wrth y domen, mae'n debygol bydd y deunydd yn perthyn i'r diffiniad o wastraff at ddibenion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.⁴⁵⁰ Mae hynny yn golygu y bydd angen trwydded er mwyn gwneud unrhyw beth gydag ef. Gall y broses o gael trwydded fod yn un faith, a gall gynnwys yr angen i gynnal asesiadau o effaith amgylcheddol ac i ddylunio gwaith mewn ffordd sydd yn gwarchod ecoleg safle. Mae hefyd yn golygu bod y gwaith yn fwy costus. Mae problem gyffelyb yn codi pan fo deunydd tomen yn mynd i mewn i ddŵr.
- 7.28 Cyfeiriwyd at lithriad tomen Tylorstown fel enghraifft dda o'r broblem.⁴⁵¹ Eglurodd Rhondda Cynon Taf i ni bod y lithriad wedi creu nifer o beryglon oedd angen eu datrys ar frys. Roedd y deunydd a ddaeth lawr yn y lithriad wedi achosi risg llifogydd o ganlyniad i flocio afon Rhondda Fach. Hefyd creodd risg o lygredd o beipen garthffosiaeth a dorwyd yn y gwrthdrawiad ac a oedd yn bygwth uniondeb cyflenwad dŵr pwysedd uchel oedd yn darparu dŵr yfed i ardal Pontypridd fwyaf, allai fod wedi creu mwy o lifogydd. Pan symudodd RCT y deunydd rai cannoedd o lathenni i safleoedd storio dros dro, canfuwyd eu bod efallai wedi torri deddfwriaeth rheoli gwastraff o bosibl drwy fethu â chaffael trwydded gwastraff. Yn ôl eu safbwynt nhw, roeddent wedi mabwysiadu'r opsiwn lleiaf niweidiol; byddai symud y deunydd i'r cyfleuster gwastraff trwyddedig agosaf wedi creu effaith amgylcheddol llawer mwy difrifol, fyddai wedi galw am filoedd o siwrneiau llygredig iawn gan loriau trymion drwy strydoedd preswyl cul. Hefyd, byddai hynny wedi cymryd mwy o amser, ac roedd yna risg uniongyrchol o lifogydd oedd angen mynd i'r afael ag ef.
- 7.29 Roedd RCT hefyd yn credu nad oedd y deunydd a ddaeth lawr yn y lithriad yn perthyn i'r diffiniad o wastraff a reolir, ac nad oedd angen trwydded i'w waredu. Roedd gan CNC farn wahanol. O ystyried bod y sefyllfa yn achos brys, penderfynodd y cyngor fwrw ymlaen â symud y deunydd o'r afon a'i gludo i'r safleoedd derbyn. Fel rhan o'r broses adfer, roedd angen sychu'r deunydd. Ni ellid ei ail-weithio na'i siapio

⁴⁵⁰ Gweler paragraffau 5.18 uchod ar Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.

⁴⁵¹ Disgrifir ym mharagraffau 1.3 a 1.4 uchod.

gyda'r cyfuchliniau cywir pan oedd yn wlyb. Byddai wedi bod angen y broses sychu hyd yn oes petai'r deunydd yn cael ei symud i gyfleuster gwastraff trwyddedig.

- 7.30 Oherwydd bod y sefyllfa yn achos brys, roedd raid i RCT wneud y gwaith hefyd heb ganiatâd cynllunio. Roddodent wedi gwneud cais ôl-weithredol am y caniatadau angenrheidiol cyn gynted ag oedd yn ymarferol er mwyn gallu parhau i ddefnyddio'r safleoedd ble dyddodwyd y gwastraff o'r llithriadau. Dim ond drwy fynd drwy'r gweithdrefnau hyn y gallai'r Cyngor ddadlau eu bod wedi gwneud y penderfyniad iawn pan ddigwyddodd y llithriad, ac wedi achosi'r niwed lleiaf posibl. Yn eu barn nhw, mae gwneud ceisiadau ôl-weithredol am ganiatâd yn well darpariaeth frys na gwaharddiad anhyblyg, oherwydd y byddai hynny yn sicrhau y byddai cynghorau sydd yn gwneud gwaith brys yn ymwybodol o'r angen i wneud penderfyniad ellid ei gyfiawnhau yn ddiweddarach. Roeddent hefyd yn credu y byddai'n ddefnyddiol cael pŵer brys i'r cyngor allu caniatáu gwneud gwaith er mwyn datrys y materion hyn ar ôl cymryd y camau brys.
- 7.31 Cafodd ceisiadau cynllunio ôl-weithredol RCT mewn perthynas â storio'r deunydd tomen dros dro eu hystyried gan bwyllgor cynllunio'r cyngor ar 21 Ionawr 2021, ynghyd â gwrthwynebiad mewn perthynas â'r pryderon amgylcheddol, ac fe'u cymeradwywyd.⁴⁵² Mae RCT nawr yn cynllunio i gyflwyno cais arall ar gyfer storio'r deunydd yn barhaol.
- 7.32 Rhoddodd Caerffili hefyd enghraifft o wrthdaro rhwng cynnal a chadw tomen a deddfwriaeth ansawdd dŵr. Ym Medwas (sydd â thomen fawr), mae'r Cyngor yn berchen ar bwl arafu mawr sydd yn gweithredu fel trap silt sydd yn galluogi i unrhyw waddod sydd yng nghrog yn y dŵr wyneb setlo. Mae'n rhaid i'r gwaddod a gronnir gael ei waredu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y pwll yn parhau i fod yn effeithiol o ran ei swyddogaeth ddeuol o arafu a dal silt. Yn ystod y gwaith dad-siltio mae angen draenio'r pwll, er mwyn gallu cloddio a gwaredu'r silt. Ar ôl ei dynnu allan, mae'r silt yn cael ei ddyddodi yn ôl ar y domen; fel arall byddai'n rhaid iddo fynd oddi ar y safle i gyfleuster gwastraff, a byddai hynny yn gostus iawn.
- 7.33 Mae'r pwll yn cael ei ddraenio drwy ddefnyddio pypiau sydd yn rhyddhau'r dŵr drwy gyfres o drapiau silt i ffrwd. Ar un achlysur mae'n ymddangos bod dŵr wedi ei halogi â silt wedi cael ei ryddhau oherwydd methiant y camau rheoli a ddefnyddid; roedd CNC yn derbyn bod hwn yn ddigwyddiad unigol, ond mynnodd y dylai unrhyw waith rhyddhau dŵr yn y dyfodol fod yn unol â safonau ansawdd dŵr.
- 7.34 Mae Caerffili wedi dweud wrthym bod cydymffurfio â'r safonau hyn yn amhosibl i bob pwrpas. Mae'n anodd iawn gwaredu'r silt heb greu mwd yn y dŵr ac achosi i solidau crog gael eu rhyddhau i raddau. Ni chaniateir unrhyw hyblygrwydd yn null CNC; mae'r safonau ansawdd dŵr yn cael eu cymhwyso'n gaeth. Heb ddad-siltio achlysurol ni all y

⁴⁵² Roedd y cais cynllunio yn cynnwys dau gais ar wahân: 20/1312/08: Dyddodi a storio tua 8,000m³ o ddeunydd o lithriad Tylorstown dros dro oedd yn cynnwys ffurfio pentyrrau stoc, cyfuno deunyddiau, draenio, mesurau lliniaru cynefin/ecolegol a gwaith cysylltiedig (Rhannol Ôl-weithredol)(rctcbc.gov.uk); a 20/1313/08: Dyddodi a storio tua 22,000m³ o ddeunydd o lithriad Tylorstown dros dro oedd yn cynnwys ffurfio pentyrrau stoc, cyfuno deunyddiau, draenio, mesurau lliniaru cynefin/ecolegol a gwaith cysylltiedig (Rhannol Ôl-weithredol) (ctcbc.gov.uk). Hefyd gweler <https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/debate-over-what-tonnes-coal-19632873> (cyrchwyd ddiwethaf ar 30 Mawrth 2021).

pwll berfformio ei swyddogaeth lanhau, tra bod lefelau cynyddol o silt yn lleihau capasiti'r pwll, gan greu risg gorlifo.

- 7.35 Mae un mater allai fod angen datrysiad yn gysylltiedig â'r diffiniad o argyfwng. Mae Rheoliad 40 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn gwarchod gweithredwr sydd yn gallu dangos bod y camau dan sylw wedi cael eu cymryd mewn achos brys er mwyn osgoi perygl i iechyd pobl, bod pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd er mwyn lleihau llygredd ac yr hysbyswyd y rheoleiddiwr yn brydlon.⁴⁵³ Ym marn CNC, ni fwriadwyd i'r ddarpariaeth hon gynnwys y gwaith a wnaethpwyd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd yn dilyn llithriad tomen. Maent yn ystyried ei bod wedi ei dylunio i gynnwys camau uniongyrchol a gymerwyd i ddelio â digwyddiadau y gellir eu datrys yn gyflym yn hytrach na digwyddiadau megis llithriad tomen allai gymryd misoedd i'w datrys.⁴⁵⁴
- 7.36 Y tu hwnt i'r cyfnod yn syth ar ôl digwyddiad, dywedodd CNC wrthym eu bod yn ffafrio dull cydweithredol a phragmatig fyddai'n caniatáu cytundeb ar amodau fyddai'n ddichonadwy o dan yr amgylchiadau ac a fyddai'n darparu gwarchodaeth amgylcheddol. Byddai hynny'n cwmpasu rhai o'r amodau fyddai wedi cael eu cynnwys mewn trwydded amgylcheddol petai amser wedi bod ar gael i wneud cais amdano. Yn eu barn nhw, mae'r pwerau a ddarperir gan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn rhoi digon o ddisgresiwn iddynt fabwysiadu'r dull yma. Maent hefyd yn awgrymu y byddai'n well gwneud darpariaeth ar gyfer seilwaith wrth gefn er mwyn delio â'r gwastraff gaiff ei ryddhau gan lithriadau tomennydd, er enghraifft drwy ddarparu ardaloedd storio ar gyfer deunydd tomennydd ger tomen risg uchel, neu mewn ardal gyda dwysedd uchel o domennydd risg uchel, ac i weithredu strategaethau er mwyn delio â chyfeintiau mawr o ddeunydd y gellid eu defnyddio pan fo'r angen. Ym marn CNC, gallai esemptio deunydd tomen yn gyfan gwbl o ofynion trwyddedu arwain at ganlyniadau amgylcheddol difrifol.⁴⁵⁵
- 7.37 Mae gan rai tomennydd werth ecolegol uchel hefyd, sydd yn golygu y gallai gwaith sydd yn amharu ar wyneb y domen fod yn broblemus. Er enghraifft, ni all yr awdurdodau aflonyddu ar domen sydd yn gartref i'r madfall gribog. Byddai CNC hefyd yn dymuno datrys y broblem hon. Mae hon yn broblem sydd yn eu wynebu nhw hefyd o ran rheoli'r Ystâd Coetir.⁴⁵⁶

Dad-ddosbarthu tomennydd

- 7.38 Roedd rhai awdurdodau lleol (yn arbennig awdurdodau sydd â nifer uchel o domennydd wedi eu hadfer) yn credu y dylid cael system o ddad-ddosbarthu tomennydd yr adeiladwyd arnynt neu a adferwyd i'r graddau nad ydynt yn achosi fawr ddim o risg. Mae rhai tomennydd wedi diflannu'n llwyr, o dan draffyrdd er enghraifft. Roedd un awdurdod hefyd yn credu y dylai tomennydd bychan iawn gael eu dad-

⁴⁵³ Gweler paragraffau 5.20 uchod.

⁴⁵⁴ Cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

⁴⁵⁵ Cyfarfodydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Trafodir ffyrdd o ddatrys gwrthdaro cyfundrefnau ymhellach ym mharagraffau 10.121 i 10.130 isod.

⁴⁵⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru. Disgrifir rôl CNC mewn perthynas â'r Ystâd Coetir ym mharagraffau 3.31 i 3.33 uchod.

ddosbarthu. Roedd rhai eisiau gwell diffiniad cyfreithiol o domen, ac eglurhad ynghylch a ddylai tomen a adferwyd aros ar y gofrestr tomennydd.

- 7.39 Roedd awdurdodau eraill yn anghytuno ynghylch dad-ddosbarthu tomennydd; os oedd deunydd tomen yn bodoli, byddai'r risg yn bodoli bob amser, waeth pa mor fach fo hynny. Cyfeiriodd un awdurdod at safleoedd ble gwnaethpwyd gwaith adfer helaeth yn y 1970au, sydd â phroblemau cynnal a chadw erbyn hyn. Mae'r awdurdod yma yn dal i archwilio safleoedd tomennydd ble adeiladwyd ystadau tai, ystadau diwydiannol ac ysgolion arnynt. Dywedodd awdurdod arall bod gan y mathau yma o safleoedd systemau draenio y mae'n rhaid gweud gwaith cynnal a chadw arnynt o hyd.
- 7.40 Roedd arbenigwyr peiriannu sydd yn cynghori Llywodraeth Cymru yn cytuno bod safleoedd sydd wedi eu hadfer yn dal angen archwiliad, gan roi enghraifft o fethiant draenio ar safle a adferwyd yn Nhredegar, a achosodd i slyri fynd i mewn i ysgol yn 2011.⁴⁵⁷ Mae'r Awdurdod Glo hefyd o'r farn y dylid cadw cofnodion o domennydd o'r fath hyd yn oed pan benderfynir mewn arfarniad nad oes dim ar ôl i'w archwilio.⁴⁵⁸

Effaith cofrestr tomennydd

- 7.41 Heb greu cyfundrefn gynhwysfawr ar gyfer archwilio a chynnal a chadw, roedd un awdurdod yn bryderus y byddai creu cronfa ddata o domennydd glo yn effeithio'n niweidiol ar eiddo yn yr un modd yr effeithiodd y map llifogydd ar brisiau tai a phremiymau yswiriant.⁴⁵⁹

DATRYSIADAU

- 7.42 Wrth drafod y problemau yr oeddent wedi eu wynebu wrth weithredu Deddf 1969, nododd yr awdurdodau lleol nifer o ddatrysiadau posibl hefyd.

Corff goruchwyllo

- 7.43 Roedd yna gefnogaeth sylweddol ymysg awdurdodau lleol, WLGA a CNC i ryw fath o gorff goruchwyllo. Roedd pob awdurdod lleol ac eithrio un yn credu y byddai hynny yn syniad da, a chwestiynodd rhai pam fod y ddyletswydd wedi cael ei rhoi'n wreiddiol ar awdurdodau lleol. Enwodd yr awdurdodau lleol yr Awdurdod Glo a CNC fel cyrff posibl ar gyfer rôl y corff goruchwyllo.
- 7.44 Roedd yr awdurdodau lleol yn credu y byddai corff goruchwyllo yn gallu dynodi adnoddau i ardaloedd oedd â'r risg uchaf a sicrhau bod categorïau risg ac archwiliadau yn cael eu safoni. Awgrymodd un y byddai ffurflen safonol yn ddefnyddiol ar gyfer archwiliadau; er enghraifft, mae gan archwiliadau pontydd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 ffurflen safonol a system sgorio sydd yn gymwys ledled y DU.
- 7.45 Roedd awdurdodau lleol sydd â nifer llai o domennydd yn teimlo y byddai corff goruchwyllo yn gallu cael llawer mwy o arbenigedd nag y gallent hwy, a'i bod yn

⁴⁵⁷ Cyfarfod gyda Stephen Smith a Howard Siddle, aelodau o'r Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Diogelwch Tomennydd Glo.

⁴⁵⁸ Cyfarfod â Tim Marples, Yr Awdurdod Glo.

⁴⁵⁹ Mae'r camau a gymerwyd gan Llywodraeth Cymru er mwyn creu cronfa ddata o domennydd yn cael ei drafod ymhellach ym mharagraff 8.

anghymesur i awdurdodau lleol sydd ag un neu ddwy o domennydd benodi rhywun i'w rheoli.

- 7.46 Awgrymodd rhai awdurdodau lleol gyfundrefn debyg i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. CNC yw'r corff rheoleiddio o dan y gyfundrefn honno ac maent yn cadw cofrestr o'r holl gronfeydd dŵr. Nid yw'r awdurdodau lleol yn ysgwyddo dim dyletswyddau ac eithrio fel perchennog. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i gronfeydd dŵr gael eu dosbarthu yn ôl risg.
- 7.47 Dywedodd Cyngor Merthyr Tydfil wrthym am eu profiad gyda'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor yn berchen ar bedair cronfa ddŵr at ddibenion pysgota, ac mae ganddynt ddyletswydd i benodi peiriannydd annibynnol o banel o beirianwyr i'w harchwilio. Mae'r wybodaeth yn cael ei bwydo'n ôl i CNC, sydd yn gwirio cydymffurfiaeth, a oes angen gwneud unrhyw waith cynnal a chadw, ac yn rhoi amserlen i'r Cyngor wneud y gwaith hwnnw. Mae CNC yn anfon hysbysiadau atgoffa pan fo amser archwiliadau yn agosáu. Mae'r Cyngor yn talu am fân waith o'i gyllideb strwythurau ac yn gofyn am arian gan ei rhaglenni cyfalaf os bydd angen gwneud gwaith sylweddol. Mae yna gronfeydd dŵr eraill yn yr awdurdod sydd mewn dwylo preifat, ac nid yw'r Cyngor yn gysylltiedig â'r rhain o gwbl.
- 7.48 Roedd WLGA hefyd yn credu bod y gyfundrefn cronfeydd dŵr yn fodel da, er eu bod yn gweld rhai gwahaniaethau. Mae'r gyfundrefn cronfeydd dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion fod yn llawer mwy rhagweithiol na'r gyfundrefn tomennydd glo. Hefyd, yn wahanol i domennydd, mae'r rhan fwyaf o gronfeydd dŵr yn cael eu defnyddio, ac felly mae'r perchnogion yn gwneud arian ohonynt. Problem arall oedd ei bod yn anodd cael mynediad i arian cyhoeddus i wneud gwaith ar gronfeydd dŵr oherwydd bod y Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn rhoi'r cyfrifoldeb ar ymgymwrwr y gronfa ddŵr. Er hynny roedd WLGA yn credu y byddai gofyniad i gofrestru tomennydd glo yn ddiwygiad cadarnhaol.
- 7.49 Dim ond un awdurdod lleol oedd ddim yn cytuno gyda'r syniad o gorff goruchwyllo, oherwydd eu bod yn credu bod ganddynt eisoes beirianwaith digon cydnerth. Gallent ddeall y dyhead am drosolwg lefel uwch, ond nodwyd bod yna dal faterion lleol y mae angen delio â nhw, ac roeddent yn teimlo bod ganddynt well arbenigedd a gwybodaeth mewn perthynas â hynny. Roeddent yn credu y byddai model "Canolfan Ragoriaeth" yn well, fyddai'n gweithredu fel porth dan arweiniad y llywodraeth ar gyfer awdurdodau lleol a'r cyhoedd; byddai hynny yn fwy cydnaws â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roeddent yn hoffi'r syniad o gael un corff y gallai pawb fwydo gwybodaeth iddo, ac o bawb yn gweithio yn unol â'r un safon, ond roeddent yn credu mai'r awdurdod lleol ei hun ddylai wneud y gwaith.
- 7.50 Awgrymodd yr awdurdod yma hefyd y gallai rhai o'r awdurdodau lleol sydd â nifer llai o domennydd gcontractio'r gwaith yn allanol pe na fyddent yn gallu ei wneud ei hunain. Mae nhw eisoes yn gwneud y gwaith draenio cynaliadwy sydd yn ofynnol dan Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010, er enghraifft, i rai awdurdodau llai. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol, ond gallent gcontractio ag awdurdod lleol arall neu gcontractwr preifat er mwyn cyflawni'r dyletswyddau.

Dulliau rhanbarthol

- 7.51 Eglurodd WLGA bod yna lawer o drafodaeth ar hyn o bryd ynghylch gwaith rhanbarthol. Mae yna eisoes bedwar partneriaeth o awdurdodau leol wedi eu sefydlu sydd yn gweithio ar Fargeinion Twf a Bargeinion Dinesig (Rhanbarth Prif-ddinas Caerdydd, rhanbarth Dinas Bae Abertawe, Twf Canolbarth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru). Bydd Deddf Llywodraeth ac Etholiadau Lleol (Cymru) 2021 yn caniatáu sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CJC). Gellid ymgorffori'r pedair partneriaeth bresennol i'r strwythur newydd. Bydd CJC yn gyrff corfforaethol ynddynt eu hunain, fydd yn gallu derbyn cyllid a chyflogi pobl. Byddant yn cadw rolau penodol mewn perthynas â chynllunio defnydd tir strategol, cynllunio trafnidiaeth a lles economaidd.⁴⁶⁰ Gyda threigl amser, gallai'r awdurdodau lleol cyfranogol ddewis drwy gytundeb i ychwanegu swyddogaethau ychwanegol. Gallai'r model yma ddarparu ar gyfer trosolwg o ddiogelwch tomennydd glo ar lefel ranbarthol er mwyn galluogi rhannu arbenigedd, tra bod yr awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogaethau diogelwch tomennydd glo.
- 7.52 Cyfeiriwyd at rôl rheoli llifogydd fel enghraifft arall o waith a wneir ar lefel ranbarthol. Mae Cymru wedi ei rhannu at y diben hwn i dair rhanbarth: y De Ddwyrain, y De Orllewin a'r Gogledd. Pwysleisiodd WLGA y byddai angen i'r ddeddfwriaeth gael ei hariannu'n ddigonol, oherwydd yn ddiweddar mae'n gynyddol anodd i awdurdodau lleol weithredu deddfwriaeth newydd os na chânt eu hariannu'n briodol. Er enghraifft, nid oedd gan y rhanbarthau rheoli llifogydd ddim capasiti ychwanegol o gwbl.
- 7.53 Opsiwn arall a awgrymwyd gan WLGA yn hytrach na'r model CJC yw i Gymdeithas Syrffwyr Sirol Cymru gydweithredu ar ddiogelwch tomennydd glo er mwyn rhannu arferion da; mae'n gymdeithas broffesiynol o brif swyddogion awdurdodau lleol sydd ag arbenigedd mewn, er enghraifft, peiriannu a seilwaith sydd yn gweithredu ar lefel strategol.⁴⁶¹ Ym marn WLGA, gallai'r lefel yma o gydweithredu helpu i sicrhau bod diogelwch tomennydd glo yn cael y flaenoriaeth sydd ei angen.
- 7.54 Ar y llaw arall, mynegodd nifer o awdurdodau lleol ansicrwydd ynghylch adrannau rhanbarthol. Roeddent yn credu y gallai hynny ynysu ardaloedd yn y de sydd â nifer fawr o domennydd, a phrofiad oherwydd hynny, oddi wrth awdurdodau lleol sydd â nifer llawer llai, megis yn y gogledd.

Archwilio

- 7.55 Roedd awdurdodau lleol eisiau mwy o eglurder ynghylch eu pwerau i fynd ar y safle i gynnal archwiliadau. Nid oeddent eisiau bod ynghlwm wrth yr angen i gyfiawnhau ymyrryd oherwydd perygl tybiedig i'r cyhoedd. Awgrymodd un awdurdod y dylai diwygiadau gael eu creu mewn perthynas â dyletswydd i archwilio. Roeddent yn teimlo mai dyma oedd eu dyletswydd foesol, ond nad oedd deddfwriaeth yn adlewyrchu hynny. Dylai'r ddyletswydd hon gael ei hategu gan ddull safonedig o ddosbarthu risg.

⁴⁶⁰ Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol yn rhan V.

⁴⁶¹ Gweler <http://www.css.wales/default.aspx> (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

Cynnal a chadw

- 7.56 Fel ateb i anallu awdurdodau lleol i wneud neu i orfodi perchnogion i wneud gwaith cynnal a chadw ar domennydd preifat, awgrymodd un awdurdod system oedd â cherrig camu rhwng archwilio a gwaith brys. Byddai angen i hynny gynnwys pwerau i wneud neu i orfodi'r perchennog i wneud gwaith cynnal a chadw elfennol. Hefyd byddai angen cael graddfa o opsiynau gorfodi mewn ymateb i ystod o beryglon posibl, gyda gorfodaeth yn ddewis olaf. Petai awdurdodau lleol yn gallu gwneud y gwaith archwilio a monitro ac yn gallu unioni problemau gyda gwaith graddfa fach a llai costus, ni fyddai'r tomennydd yn dod yn beryglus.
- 7.57 Roedd un awdurdod yn ystyried bod y materion cynnal a chadw mor fân fel y byddai'n haws a rhatach i'r awdurdod wneud y gwaith ei hun na mynd drwy fecanwaith deddfwriaethol i orfodi'r perchennog i wneud y gwaith neu i dalu am y costau. Yn achos y tasgau a ddatgelwyd gan archwiliadau'r Tasglu yn ystod haf a hydref 2020, byddai nifer o'r problemau draenio ond angen diwrnod o waith gan yr awdurdod i'w datrys. Byddai angen mwy o arian a mwy o amser i roi hysbysiad i'r perchnogion i ddelio â'r mater.

Gwaharddiadau ar dirfeddianwyr rhag addasu tomennydd glo

- 7.58 Awgrymodd WLGA y byddai angen caniatâd efallai ar gyfer gweithgareddau ar neu yn agos i domennydd glo; byddai hynny yn mynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas â thirfeddianwyr yn cynnal gweithgareddau ansefydlogi ar eu tomennydd. Awgrymwyd model o ddynodi nodweddion o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sydd yn cyflwyno pwerau rheoli.

Panel o beirianwyr

- 7.59 Roedd yr awdurdodau leol hefyd yn hoffi'r syniad o gael panel o beirianwyr ar gyfer tomennydd glo, yn debyg i'r gyfundrefn cronfeydd dŵr. Byddai'n ddefnyddiol cael cronfa o brofiad ar gael a sicrhau bod gan y peirianwyr sydd yn cynnal yr archwiliadau gymwysterau priodol. Roedd WLGA hefyd yn credu y byddai panel o beirianwyr yn syniad da, ac y gallai hynny arwain at ddull cynnal a chadw mwy strwythuredig.

Perchnogaeth

- 7.60 Roedd WLGA yn meddwl y gallai pryniant gorfodol ddatrys problem diffyg adnoddau gan berchnogion preifat. Gallai Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ategu hynny, er y byddai'n annhebygol y byddai awdurdodau lleol eisiau ymgymryd â rhwymedigaeth os nad oes ganddynt ddigon o adnoddau eisoes. Ond gallai prynu gorfodol fod yn rhatach na rhoi hysbysiadau i dirfeddianwyr a cheisio sicrhau eu bod yn gwneud y gwaith cynnal a chadw. Ond byddai yna hefyd risg o greu cymhelliant gwrthnysig i dirfeddianwyr sydd â thomennydd sydd angen gwaith costus i esgeuluso gwaith cynnal a chadw er mwyn denu pryniant gorfodol.

Defnydd arall o'r tir

- 7.61 Cyfeiriodd WLGA hefyd at y rhaglen greu cynefinoedd cenedlaethol sydd yn amcanu at liniaru'r golled amgylcheddol a achosir gan y gwaith a wneir.⁴⁶² Gellid ystyried

⁴⁶² Gweler Welsh Government, *Flood and Coastal Erosion Risk Management project and the National Habitat Creation Programme (NHCP): supplementary note* (14 February 2020), <https://gov.wales/flood-and-coastal->

tomennydd glo fel banc o dir ar gyfer bioamrywiaeth. Dywedodd CNC yr un peth ynghylch potensial tomennydd glo o ran dal carbon a bioamrywiaeth. Erbyn hyn ni ystyrir bod adfer glo yn opsiwn da.

Safbwynt hirdymor

- 7.62 Roedd WLGA yn credu ei bod yn eithriadol bwysig gweithredu'n hirdymor, gyda sicrwydd ariannol. Gallai hynny fod yn seiliedig ar safbwynt cyffredinol ynghylch pa waith sydd angen ei wneud, gan dacio'r risg uchaf yn gyntaf ac yna trefnu'r contractau ar gyfer gwneud y gwaith. Cyfeiriodd nifer o awdurdodau lleol at y potensial oedd ar ôl i adfer tomennydd ar gyfer dibenion datblygu, gyda mwy o gyllid.

Gwrthdaro cyfundrefnau

- 7.63 Roedd nifer o awdurdodau yn gweld yr angen am bŵer i fod yn drech na'r ddeddfwriaeth rheoli gwastraff er mwyn delio â llithriad tomennydd, er enghraifft er mwyn cael gwared â phroblem blocio, mewn achos brys. Un dull a awgrymwyd oedd hawllidio yr angen am ganiatadau; gwnaethpwyd hynny gan CNC yn dilyn stormydd Chwefror 2020, pan fu iddynt hysbysu'r awdurdodau lleol na fyddai angen caniatâd i atgyweirio cyrsiau dŵr. Fel arfer byddai angen Trwydded Gweithgaredd Risg Llifogydd i wneud hynny, fyddai'n cymryd dau fis.
- 7.64 Opsiwn arall a awgrymwyd oedd i Weinidog roi cyfarwyddyd penodol neu orchymyn penodol drwy weithdrefn symlach (cyffelyb i'r pwerau yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004) pan fo llithriad sylweddol yn digwydd. Byddai hynny yn drech na gofynion deddfwriaeth gwarchodaeth amgylcheddol.
- 7.65 Awgrymodd un awdurdod lleol y gallai dosbarthu gwastraff glofeydd fel gwastraff nad yw'n beryglus ddatrys y broblem, oherwydd byddai hynny yn ei gwneud yn rhatach i symud y deunydd. Yn eu barn nhw, mae angen i'r ddeddfwriaeth ystyried y sefyllfa o bersectif ehangach, gyda meddwl cydgysylltiedig a dull mwy pragmatig allai ganiatáu i'r awdurdod ddewis yr opsiwn "lleiaf niweidiol" oedd yn cydbwysu'r holl beryglon posibl. Mae'r holl awdurdodau sydd yn ymwneud â'r penderfyniadau yn gyrrff cyhoeddus sydd yn y pen draw yn rhannu'r un amcanion o ran iechyd a diogelwch.
- 7.66 I'r gwrthwyneb, roedd CNC yn credu y gallai esemptiadau arwain at ganlyniadau amgylcheddol niweidiol, ac roeddent yn ffafrio tacio'r broblem drwy gynlluniau gwell wrth gefn er mwyn sicrhau bod y seilwaith yn bodoli er mwyn delio â deunydd tomennydd pe digwydd llithriad. Byddai esemptiad llwyr hefyd yn golygu na fyddai camau pellach yn ofynnol yn ystod y cyfnod yn dilyn argyfwng er mwyn lliniaru'r difrod a achoswyd gan y llithriad. Byddai'r angen i wneud cais am ganiatâd, hyd yn oed petai hynny yn cael ei wneud yn ôl-weithredol, yn helpu i sicrhau bod yr opsiwn fyddai'n arwain at yr effaith amgylcheddol lleiaf yn cael ei ddewis fel yr ateb hirdymor.⁴⁶³

YR ANGEN AM FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO NEWYDD

- 7.67 Rydym yn teimlo bod safbwyntiau rhanddeiliaid a fynegir yn y bennod hon yn eglurol iawn; maent wedi nodi nifer o fylchau a chyfyngiadau yn y drefn ddiogelwch bresennol

erosion-risk-management-projects-and-national-habitat-creation-programme (cyrchwyd ddiwethaf ar 26 Mawrth 2021).

⁴⁶³ Cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

ar gyfer hen domenni. Rydym yn teimlo bod eu tystiolaeth yn gymhellol ac ym mhennod 10 rydym yn cynnig ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch ffyrdd o unioni'r diffygion. Wrth lunio ein cynigion a'n cwestiynau dros dro ar gyfer ymgylchoreion, rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddulliau eraill posibl. Mae'r ddwy bennod nesaf yn disgrifio'r gwaith cychwynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ers slip Tylorstown ac yn adolygu'r modelau rheoleiddio presennol sy'n berthnasol i beryglon amgylcheddol eraill.

Pennod 8: Y gwaith cychwynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

- 8.1 Bydd y bennod hon yn ystyried y gwaith diogelwch tomennydd glo a ddilynodd lithriad tomen Tylorstown yn Chwefror 2020. Bydd yn edrych yn fanwl ar waith yr Awdurdod Glo a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd hefyd yn edrych ar safbwyntiau'r Awdurdod Glo mewn perthynas â rheoli tomennydd, fel rhanddeiliad â phrofiad o reoli ei domennydd ei hun. Bydd yn ystyried a oes yna elfennau o'r ymateb cychwynnol allai fod yn rhan o'r ateb i'r problemau gyda'r gyfundrefn bresennol yr ydym wedi eu henwi.

Y GWAITH DIOGELWCH CYCHWYNNOL A GOMISIYNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

- 8.2 Fel yr eglurwyd ym mhennod 1, ffurfiwyd y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo yn syth ar ôl lithriad Tylorstown ar 16 Chwefror 2020. Comisiynodd y Prif Weinidog yr Awdurdod Glo i gynnal adolygiad ar unwaith o holl domennydd glo Cymru. Sefydlwyd tîm ymateb i domennydd yr Awdurdod Glo ar 24 Chwefror 2020. Mae'r tîm yn gwneud gwaith ar ran tîm polisi diogelwch tomennydd glo Llywodraeth Cymru.
- 8.3 Gofynnwyd i'r tîm ymateb i domennydd yr Awdurdod Glo ddatblygu dau faes gwaith cyfocrog: casglu data gan awdurdodau lleol fel y cam cyntaf tuag at wireddu amcan Llywodraeth Cymru o greu cronfa ddata o domennydd glo, ac archwiliadau brys ar droed mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol.

Casglu data

- 8.4 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod Glo ddarparu gwybodaeth am yr holl domennydd, yn cynnwys eu lleoliad, categori risg a math o berchnogaeth. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol ym Mawrth 2020 am wybodaeth benodol ar domennydd yn eu hardaloedd, yn cynnwys eu categori risg cyfredol ac unrhyw waith oedd yn cael ei wneud ar y tomennydd. Canfu'r Awdurdod Glo ystod eang o ddulliau o gadw cofnodion, ac amrywiaeth o ran y math o wybodaeth a gofnodwyd, a rhai awdurdodau lleol ddim yn cadw cofnodion neu gynlluniau manwl o domennydd. Hefyd nid oedd un system yn bodoli ledled yr awdurdodau lleol er mwyn asesu a chategoreiddio risg. Roedd y systemau a ddefnyddiwyd yn cynnwys ABCD, DCBA, ABC, CBA, 123, 321, uchel-canolig-isel, coch-ambr-gwyrdd. Hefyd roedd meini prawf a gymhwyswyd er mwyn pennu cymhareb risg yn amrywio'n fawr. Mewn un achos defnyddiwyd system gymhleth seiliedig ar bwyntiau.
- 8.5 Erbyn haf 2020, nodwyd mai 2000 oedd cyfanswm y tomennydd. Roedd hynny yn golygu gwirio nifer o ffynonellau data: Mapiau Arolwg Ordnans, data Cymdeithas Ddaearegol Prydain, mapiau o domennydd hanesyddol, LIDAR, a delweddau o'r awyr. Yna sylweddolwyd bod angen gwirio'r data er mwyn sicrhau cywirdeb ac er mwyn cael gwared ag unrhyw gyfrif dwbl.
- 8.6 Erbyn dechrau 2021, cofnodwyd mai cyfanswm y tomennydd erbyn hynny oedd 2,144. Mae'r dosbarthiad risg fel a ganlyn:

Categori A = 647

Categori B = 389

Categori C = 216

Categori D = 78

Categori R (wedi eu hadfer yn llawn): 150

NR (Categori risg heb ei aseinio hyd yma): 664⁴⁶⁴

8.7 Mae'r meini prawf a fabwysiadwyd gan dîm yr Awdurdod Glo er mwyn darparu gradd risg yn seiliedig ar debygolrwydd methiant tomen a chanlyniadau hynny. Nid hwn yw'r dull terfynol, a bydd hynny yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru, ond dyma'r dull sydd wedi arwain yr archwiliadau a gwblhawyd yn ystod cam cyntaf y Tasglu er mwyn darparu nifer y tomennydd. Mabwysiadodd y tîm y dull gweithredu DCBA a ddefnyddir gan Rhondda Cynon Taf.

- (1) Categori D: Mae yna botensial i achosi risg i fywydau neu eiddo. Mae'n hysbys bod gan y safle hanes o symudiad (parhaus) / arwyddion o ansefydlogrwydd
- (2) Categori C: Mae yna botensial i achosi risg i fywydau neu eiddo. Nid yw'n hysbys bod gan y safle hanes o symudiad / arwyddion o ansefydlogrwydd
- (3) Categori B: Mae'r domen yn annhebygol o achosi risg i fywydau neu eiddo oherwydd ei faint neu ei leoliad. Nid yw'n hysbys bod gan y safle hanes o symudiad / arwyddion o ansefydlogrwydd
- (4) Categori A: Mae'r domen yn annhebygol o achosi risg i fywydau neu eiddo oherwydd ei faint neu ei leoliad. Nid yw'n hysbys bod gan y safle hanes o symudiad / arwyddion o ansefydlogrwydd. Efallai ei bod yn amhosibl ei hadnabod wrth gerdded drosti - fel arfer yn gorchuddio ardal fawr heb uchder a gyda llystyfiant - yn aml yn cael ei bori.
- (5) Categori R: Tomen wedi ei hadfer/adennill yn gyfan gwbl ond yn cael ei chadw fel cofnod. Dim byd i'w archwilio.
- (6) Categori NR: Tomen wedi ei chanfod - dim cofnodion yn bodoli - angen asesiad

8.8 Bu i'r tîm hefyd gategoreiddio derbynyddion yn ôl difrifoldeb y canlyniadau pe digwydd i'r domen fethu:⁴⁶⁵

⁴⁶⁴ Ffigyrau wedi'u darparu gan Llywodraeth Cymru. Gellir rhoi'r dosbarthiad NR pan nad oedd tomen wedi ei chofnodi'n flaenorol, nid yw wedi cael ei harchwilio hyd yma, neu pan nad yw gradd bresennol yr awdurdod lleol wedi cael ei throsglwyddo i'r categorïau risg safonedig. Fel y esboniwyd yn bennod 3, nid ydym yn disgwyl ffigyrau terfynol tan hydref 2021.

⁴⁶⁵ Derbynydd yw nodwedd all cael ei effeithio gan lithriad tomen glo (fel tŷ, ysgol neu ffordd).

- (1) Cartrefi cymunedol / ysgolion / ysbytai / gweithleoedd a/neu seilwaith critigol (prif reilffyrdd, priffyrdd etc.)
- (2) Derbynyddion canlyniadol (er enghraifft, afonydd allai achosi llifogydd), seilwaith arall.
- (3) Dim ond ychydig o dderbynyddion - safle yn ynysig

8.9 Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys yr holl domennydd, nid tomennydd anweithredol yn unig. Ond dim ond ychydig iawn o domennydd erbyn hyn sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.⁴⁶⁶

Archwiliadau ar droed

- 8.10 Cynhaliwyd archwiliadau ar droed yn ystod y cyfnod hwn fel maes gwaith cyfochrog a fwydodd hefyd i'r gwaith casglu data. Cynhaliwyd cam cyntaf yr archwiliadau ar droed ar rai o'r tomennydd cyfraddau uwch (C a D) yn Ne Cymru yn ystod gwanwyn a haf 2020. Y nod oedd canfod unrhyw waith cynnal a chadw brys oedd angen ei wneud a statws pob tomen. Cyfyngwyd yr archwiliadau yma i Dde Cymru oherwydd nodwyd mai hon oedd yr ardal oedd â'r nifer fwyaf o domennydd risg uwch. Cynhaliwyd yr archwiliadau mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol; cynhaliwyd rhai gan dîm yr Awdurdod Glo, rhai gan awdurdodau lleol a rhai ar y cyd. Dechreuodd ail rownd o archwiliadau yn Nhachwedd 2020, pan gwblhawyd archwiliadau o'r holl domennydd a ddyrannwyd i gategori C neu D. Darparodd y tîm adroddiadau archwilio manwl a chynnig argymhellion i'r awdurdodau lleol, ynghyd ag amserlenni, mewn perthynas â gofynion gwaith cynnal a chadw ac adfer angenrheidiol. Pan fu i'r awdurdodau lleol gynnal yr archwiliadau, ffeiliwyd eu hadroddiadau gyda'r Awdurdod Glo.
- 8.11 Cafodd y tîm wybodaeth am berchnogaeth pob tomen gan Gofrestrfa Tir EM i'w galluogi i gysylltu â'r perchnogion i gynnal yr arolygiadau.
- 8.12 Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, mae'r Awdurdod Glo wedi perfformio tua 220 o'r ail set o archwiliadau, a chynhaliwyd y gweddill gan yr awdurdodau lleol. Archwiliwyd cyfanswm o 294 o domennydd. O blith y rhain, mae 78 yn gategori D a 216 yn gategori C. Mae cynlluniau hefyd i'r tîm ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, ble mae yna rai tomennydd glo hefyd.⁴⁶⁷
- 8.13 Bydd archwiliadau eraill yn cael eu cynnal o'r holl domennydd ble nad oes categori risg wedi cael ei aseinio. Disgwylir y bydd ffigyrau terfynol, fydd yn ymgorffori'r categorïau yma, yn barod erbyn hydref 2021.

Safoni mapio

- 8.14 Fel esboniwyd uchod, mi oedd casglu ddata yn gam gyntaf tuag at greu cronfa data canolog o domennydd. Y cam nesaf oedd defnyddio dull safonol i fapio tomennydd, gyda data cefnogol. Mewn nifer o achosion roedd yr awdurdodau lleol wedi cofnodi presenoldeb tomen ar fap gyda chyfeirnod; edrychodd y tîm ar fapiau hanesyddol er mwyn mapio ffiniau'r domen, yn yr hyn a elwir yn bolygon. Lluniwyd map o'r holl

⁴⁶⁶ Gweler yr adran ar fwyngloddiau gweithredol ym mharagraffau 3.3 i 3.9 uchod.

⁴⁶⁷ Ffigyrau wedi'u darparu gan Llywodraeth Cymru. Gweler paragraffau 3.41 i 3.60 uchod i gael dadansoddiad llawn o berchnogaeth a mathau o risg yn ôl awdurdodau lleol.

bolygonau tomennydd glo. Mi oedd mapiau cychwynnol wedi'i chreu o domennydd yng Nghymru, i gynorthwyo ei adnabod a'i lleoliad. Mae'r data yma ar hyn o bryd yn cael ei mireinio a sicrhau ei ansawdd gyda golwg tuag at greu mapiau mwy manwl gywir yn y dyfodol.

DULL INTERIM O DREFNU DATA TOMENNYDD

- 8.15 Mae tîm yr Awdurdod Glo wedi cymhwyso dull dros dro o gasglu data tomennydd. Y man cychwyn a fabwysiadwyd oedd y dylai pob tomen gael ei gyfeirnod penodol ei hun. Yn y gorffennol, efallai bod grwpiau o domennydd wedi cael eu cyfrif fel un; digwyddodd hynny pan greodd y dull tipio gasgliad o domennydd.⁴⁶⁸
- 8.16 Maent wedi bwrw ymlaen ar y sail y bydd angen i'r data canlynol gael ei gofnodi ar gyfer pob tomen:
1. Cyfeirnod (gyda chroesgyfeiriad at bob awdurdod lleol a rhifau hanesyddol)
 2. Ffiniau
 3. Lleoliad (pa awdurdod lleol a pha Fforwm Gwytnwch Lleol)
 4. Gradd risg
 5. Derbynyddion
 6. Amllder archwilio
 7. Dyddiad yr archwiliad diwethaf
 8. Dyddiad yr archwiliad nesaf
 9. Manylion perchnogaeth
 10. Yr orsaf dywydd agosaf (er mwyn gwirio data glaw)
- 8.17 Mae gwybodaeth safonol mewn perthynas â "derbynyddion" wedi cael eu cofnodi, megis:
1. Anheddau domestig, cymdeithasol a diwydiannol

⁴⁶⁸ Mae tomen Blaencwm yng nghwm Rhondda uchaf yn enghraifft o hynny: ffurfiwyd pum tomen yn y 19eg ganrif ac yn gynnar yn yr 20fed ganrif pan symudodd tipio o un twmpath o wastraff i'r nesaf pan dybiwyd bod pob un wedi cyrraedd ei gapasiti.

2. Seilwaith trafnidiaeth
3. Seilwaith cyfleustodau
4. Ecoleg /SSSI / safleoedd amgylcheddol etc.
5. Safleoedd treftadaeth ddiwylliannol.

8.18 Ar gyfer pob tomen, mae'r tîm yn rhagweld y gellid atodi dogfennau penodol er mwyn sicrhau bod yr holl gofnodion ar gael yn rhwydd a'u bod yn cael eu storio mewn un lleoliad.

1. Asesiad risg penodol a phwyntiau mynediad
2. Cofnod manwl o'r archwiliad diwethaf ar droed
3. Adroddiadau archwilio
4. Adroddiadau cynnal a chadw
5. Data monitro
6. Delweddau gweledol
7. Delweddau drôn yn cynnwys delweddau LIDAR pan fo hynny'n briodol.
8. Arolwg topograffig
9. Cofnodion hanesyddol (er enghraifft cyfamodau)

8.19 Mae dogfennau o'r math yma yn ymgorffori manylion ychwanegol am domennydd unigol, er enghraifft gwybodaeth am ei seilwaith draenio, unrhyw nodweddion naturiol allai achosi effaith o bosibl. Gallent gynnwys gwybodaeth berthnasol y tu hwnt i faterion sefydlogrwydd, er enghraifft drwy gofnodi unrhyw wresogi mewnol neu dân ar yr wyneb. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu a ddatblygu'r cynllun rheoli tomennydd, a drafodir isod ym mharagraff 8.26.

8.20 Pwysleisiodd tîm yr Awdurdod Glo, gan bwysu ar eu profiad cyfunol o wneud y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac o reoli eu tomennydd eu hunain, nad yw categorïau risg yn statig. Drwy gymhwyso mesurau rheoli megis cyfundrefnau archwilio, monitro, sianeli draenio ac ailbroffilio, mae'r categorïau yn debygol o ostwng. Gellir cynnal y categorïau risg is drwy gyfundrefn gynnal a chadw addas. Yr hyn sydd yn bwysig yw bod y dull o asesu risg yn gyson. Mae hynny yn caniatáu datblygu cynllun rheoli ar gyfer pob tomen.

SAFBWYNTIAU'R AWDURDOD GLO AR REOLI TOMENNYDD

8.21 Yn ogystal â gofyn i'r Awdurdod Glo am y gwaith casglu data a'r archwiliadau tomennydd brys ar droed a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru, gofynnwyd hefyd i'r tîm oedd yn gwneud y gwaith am eu profiadau o ran rheoli tomennydd oedd yn eiddo i'r Awdurdod Glo a'u safbwyntiau ar sut mae cadw tomennydd yn ddiogel. Yn y modd yma, fel yr ydym yn disgrifio yn y bennod flaenorol mewn perthynas â phrofiad

awdurdodau lleol, roeddem yn eu holi am eu safbwyntiau ar ddatrysiadau posibl i'r problemau a achosir gan domennydd glo anweithredol.

Archwiliadau

- 8.22 Mae arferion rheoli gorau a enwyd gan dîm yr Awdurdod Glo yn ei waith ar ei domennydd glo ei hun yn pennu amllder archwilio yn seiliedig ar risg. Gall hynny fod bob 1, 3, 6, 12, 24, neu 36 mis, yn ddibynnol ar broffil y domen, a bydd yn cynnwys, pan fo'n briodol, archwiliadau ychwanegol yn dilyn glaw trwm fydd yn uwch na lefel benodol. Arferiad yr Awdurdod Glo ar gyfer ei domennydd ei hun yw archwilio ar ôl 40mm o law mewn 24 awr.⁴⁶⁹
- 8.23 Ym marn yr Awdurdod Glo, byddai angen i archwiliad tomen ystyried cywirdeb y data a gesglir ar y domen⁴⁷⁰ a byddai'n cynnwys gofyniad i gadarnhau a yw gradd y risg gyfredol yn dal yn gywir. Yn ei thro byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y gronfa ddata tomennydd. Mae'r dull yma yn caniatáu modelu'r gyfundrefn archwilio ar y domen benodol, yn hytrach nag yn ôl ei gategoreiddio bras o A i D. Mae angen archwilio rhai tomennydd A, er enghraifft, bob tair blynedd, tra nad oes angen archwilio tomennydd eraill o gwbl, ond bod angen iddynt aros yn y cofnodion.

Opsiynau cynnal a chadw ac adfer

- 8.24 Mae tîm yr Awdurdod Glo yn ystyried cynnal a chadw a gwaith adfer o safbwynt hierarchaeth opsiynau. Mae'r manylion technegol sydd yn tanategu'r dewisiadau yma y tu hwnt i gwmpas y papur hwn, ond mae'n fuddiol adolygu'r dull adfer a ddefnyddir fel arwydd o'r math o weithgareddau y gallai cynllun rheoli tomennydd ei ystyried. Bydd hynny yn ein helpu i sicrhau y bydd ein dyluniad ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd yn hwyluso'n effeithiol y gwaith sydd ei angen.
- 8.25 Mae'r hierarchaeth, fel y'i datblygwyd gan yr Awdurdod Glo mewn perthynas â'i domennydd ei hun yn cael ei nodi yn y darlun isod, yn darparu dilyniant o ddulliau o: archwilio rheolaidd; gosod sgriniau i ddal detritws; cynnal a chadw parhaus er mwyn ail-agor, clirio a gwella ffosydd a chwlferei; archwiliadau mewn ymateb i law neu pan welir craciau neu gwypmp; gosod offer monitro; priddlifo drwy daenu tail a phlannu planhigion neu lystyfiant ble mae wynebaw tomennydd yn foel; gosod caergewyll (cewyll o weiren yn cynnwys cerrig) er mwyn cryfhau gwaelod tomen; adeiladu rhwystrau concriid; hoelio pridd neu lethr drwy orchuddio ardal gyda matiau a gosod ceblau i angori'r domen; prosiectau mawr i agor ffosydd newydd neu adeiladu system ddraenio ardraws dŵr; ac ail-broffilio er mwyn lleihau ongl llethrau. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ystyrir bod cael gwared â thomennydd yn opsiwn hyfyr. Un o'r rhesymau am hynny yw diffyg tir sydd ar gael i dderbyn y swm yma o ddeunydd. Ceir lluniau o rai o'r dulliau hyn o waith adfer yn Ne Cymru yn atodiad 2 y papur hwn.

⁴⁶⁹ O'i gymharu, y mesuriadau ar gyfer tomen Blaencwm yng Nghwm Rhondda uchaf ar ôl Storm Ciara ar 9 Chwefror 2020 oedd 60mm mewn 24 awr; daeth Storm Dennis â 94mm ar 15 Chwefror; a chofnodwyd 96mm yn ystod Storm Jorge ar 28 Chwefror.

⁴⁷⁰ Gweler y rhestr yn paragraff 8.16 uchod.

Hierarchaeth Adfer
1. Amserlen archwilio wedi ei diffinio/dilyn
2. Rhaglen gynnal a chadw reolaidd wedi ei sefydlu (e.e. Ffogydd a sgriniau)
3. Rhaglen adnewyddu seilwaith
4. Rhaglen ymateb i dywydd (e.e. >40mm)
5. Archwiliad tir wedi ei dargedu
6. Offeryniaeth - monitro o bell
7. Priddlifo, gwair/plannu
8. Mân waith peirianeg sifil megis hoelio pridd/llethr, caergewyll ar y gwaelodion
9. Gwaith peirianeg sifil mawr megis seilwaith ffogydd newydd mawr
10. Ail-broffilio llethrau
11. Cael gwared â thomen

Cynllun rheoli tomennydd

- 8.26 Mae'r dull a amlinellir uchod yn caniatáu datblygu cynllun rheoli unigryw ar gyfer pob tomen sydd yn cynnwys yr holl ddata penodol, yr asesiad risg ar gyfer y domen, amllder archwiliadau a'r gwaith cynnal a chadw ac adfer sydd ei angen. Yn ymarferol, gallai hyn fod ar ffurf cynllun rheoli ar gyfer clwstwr o gynghorion. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi pan fo tomennydd sy'n eiddo i wahanol berchnogion yn agos at ei gilydd.
- 8.27 Mae'r safonau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Glo yn adlewyrchu'r rhai a ddatblygwyd ar gyfer cynnal a chadw eu tomennydd eu hunain. Mae'r rhain yn seiliedig ar Reoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1971, ond maent wedi cael eu datblygu'n fewnol er mwyn ymgorffori profiad a safonau arfer dda sydd yn esblygu. Mae'r rhaglen a gymhwyswyd i 33 o domennydd yr Awdurdod Glo ei hun⁴⁷¹ yng Nghymru yn cynnwys clirio ffogydd draenio ac archwilio sgriniau a ddyluniwyd i ddal detritws ar ôl glaw trwm. Categoriwyd nifer o'r tomennydd hyn yn wreiddiol fel rhai risg uchel, ond maent wedi cael eu hail-gategori i lefel risg is oherwydd

⁴⁷¹ Gweler para 3.24 uchod.

bod y gyfundrefn hon yn cael ei chymhwyso'n gyson.⁴⁷² Mae'r system yn cydnabod bod pob tomen yn wahanol, a bod angen datblygu anghenion y tomennydd unigol yn unol â hynny.

Safbwyntiau ar reoli tomennydd yn y tymor hirach

- 8.28 Yn ogystal â disgrifio i ni y gwaith yr oeddent wedi ei wneud ers dechrau 2020 fel rhan o'r Tasglu, defnyddiodd tîm yr Awdurdod Glo hefyd eu profiad er mwyn enwi nifer o elfennau yr oeddent yn ystyried oedd yn bwysig ar gyfer rheoli tomennydd yn effeithiol yn yr hirdymor.
- 8.29 Yr elfen bwysicaf yn eu barn nhw oedd cynnal un gronfa ddata a fyddai'n darparu'r math o wybodaeth sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd gan y tîm ar gais Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 8.4 uchod). Yn eu barn nhw dylai hynny gael ei gefnogi gan un broses safonedig ar gyfer archwilio ac adrodd, sydd yn cynnwys diffiniad clir o'r hyn ddylai gael ei wirio (er enghraifft deunydd, llethr a draeniad tomennydd). Byddai safoni'r broses yma yn golygu y byddai angen un fformat adrodd, gan ddefnyddio taflen safonol naill ai ar ffurf electronig neu bapur.
- 8.30 Roeddent hefyd yn credu y byddai system reoleiddio yn gweithio orau pan fo yna ddiffiniad clir o'r hyn a ddisgwyllir gan berchnogion tomennydd a'r awdurdod sydd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau a sicrhau cydymffurfiaeth. Gallai'r system yma gael ei chefnogi gan safonau hyfforddi unffurf ar gyfer archwilywyr, a fforwm tomennydd rheolaidd ar gyfer yr awdurdodau sydd yn gyfrifol am domennydd risg uchel (o bosibl yn ymestyn i awdurdodau sydd â chyfrifoldebau am domennydd risg is) er mwyn rhannu arferion gorau a datblygiadau technolegol, safoni cyfathrebu a chynnig hyfforddiant. Roeddent hefyd yn credu y byddai cael un pwynt cyswllt ar gyfer pob ymchwiliad cyhoeddus yn helpu o ran cyfathrebu.
- 8.31 Roedd tîm yr Awdurdod Glo yn credu mai rheoli yr holl domennydd risg uchel yn ganolog fyddai'r ffordd orau o sicrhau cysondeb o ran asesu risg a chymhwyso safonau cynnal a chadw. Byddai'r dull yma hefyd yn canoli cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r gronfa ddata a gwirio cydymffurfiaeth â gofynion megis cofnodi adroddiadau. Gallai cronfa ddata ryngweithiol fyw gofnodi dyddiadau yr archwiliadau diwethaf a'r rhai nesaf a'i gwneud yn haws sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bodloni. Hefyd, gallai system wedi ei chanoli helpu i ddarparu llywodraethiant cyson.
- 8.32 Gyda threigl amser byddai cymhwyso safon cynnal a chadw drylwyr yn unffurf yn lleihau lefel y risg. Mae'r tîm yn awgrymu na fyddai tomennydd gyda chategori risg is (tomennydd gradd A a B) angen y lefel yma o oruchwyliaeth, ond byddai yn dal angen eu cynnwys yn y gronfa ddata ganolog. Gellid eu rheoli'n ddiogel gydag archwiliadau rheolaidd a chynllun cynnal a chadw cytunedig.
- 8.33 Roedd y tîm hefyd yn ystyried hygyrchedd cronfa ddata yn y dyfodol. Profiad yr Awdurdod Glo o gyhoeddi mapiau o fynedfeydd mwyngloddiau oedd bod hynny'n gallu arwain at ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas â chyhoeddi'r wybodaeth yn y

⁴⁷² Yn y DU gyfan, mae'r Awdurdod Glo yn dyrannu £350,000 ar gyfer gofalu am ei 40 o domennydd, ac mae hynny yn cynnwys ffigwr o £5,000 i £10,000 ar gyfer cynnal a chadw draeniau pob tomen. Mae'r symiau a ddyrannir yn adlewyrchu'r gyfran uchel o domennydd risg uchel sydd yn eiddo i'r Awdurdod Glo am resymau hanesyddol. Mae'r tomennydd wedi bod yn destun gwaith cynnal a chadw a monitro parhaus am nifer o flynyddoedd.

gronfa ddata. Gallai gwybodaeth yn y gofrestr effeithio ar argaeledd neu gost yswiriant neu werth eiddo petai data yn cael ei ryddhau mewn modd na chaiff ei reoli a heb eglurhad.

GWAITH YN Y TYMOR HIRACH

- 8.34 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar bennu arferion gorau yn yr hirdymor. Mae'n gweithio ag academyddion a chyrff proffesiynol er mwyn ystyried ffactorau megis effaith newid hinsawdd a'r syniadau cyfredol ynghylch sefydlogrwydd llethrau. Mae hefyd yn edrych ar raglen ymchwil gyda phrifysgolion i ystyried dulliau arloesol posibl o adfer safleoedd tomennydd glo. Byddai hynny yn caniatáu i gamau adfer uniongyrchol at ddiben sicrhau diogelwch tomennydd glo gael eu cymryd ochr yn ochr â phrosiectau adfer tir er mwyn gwella ansawdd y tir ar gyfer cenedlaethau'r ddyfodol.
- 8.35 Mae'r Tasglu yn treialu technolegau newydd. Cynllunnir hyd at ugain o dreialon er mwyn asesu'r defnydd o synwryddion sydd wedi eu dylunio i rybuddio am symudiad tir. Hefyd mae yna dreial arall yn cael ei gynnal ar hyd at bum tomen o'r defnydd o ddelweddau lloeren er mwyn canfod symudiadau mewn tomennydd. Cynllunnir defnyddio mwy ar dechnoleg drôn.

Y CAMAU NESAF

- 8.36 Y tu hwnt i'r mesurau interim a disgrifir yn y bennod hon, mae angen fframwaith rheoleiddio newydd er mwyn sicrhau bod cyfundrefn gyson o archwilio a gwaith cynnal a chadw yn parhau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu cofrestr gyfeirio a mynd ar drywydd polisïau i ddatblygu ei hamcanion strategol. Mae tîm yr Awdurdod Glo wedi rhoi adroddiad argyhoeddiadol o'r elfennau y maent yn ystyried sydd yn bwysig ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd. Mae eu safbwynt nhw yn gydnaws â safbwyntiau rhanddeiliaid a amlinellwyd ym mhennod 7. Mae yna gonsensws cychwynnol o ran safbwyntiau o blaid cofrestr ganolog o domennydd, dull unffurf o gofnodi a chynnal gwybodaeth ar gyfer pob tomen, yn cynnwys un cynllun cytunedig ar gyfer asesu risg a dosbarthu risg, a dyletswydd archwilio sydd yn berthnasol i bob tomen ar y gofrestr.
- 8.37 Mae gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma wedi dangos buddion system unedig o oruchwyliaeth, ac mae'n awgrymu y gallai un awdurdod ddarparu cysondeb dull a system fwy trefnus o orfodi. Mae hefyd yn awgrymu y gall fod yna fuddion i ddull rheoli ar wahân i domennydd risg uwch, efallai drwy ei gwneud yn ofynnol i'r corff goruchwyllo ei hun reoli'r tomennydd. Mae'r dull yma hefyd yn cydfynd â syniadau a awgrymwyd i ni gan randdeiliaid eraill.
- 8.38 Awgrymwyd i ni hefyd bod gan system sy'n defnyddio meini prawf safonedig er mwyn creu cynllun cynnal a chadw unigryw ar gyfer pob tomen y potensial i gael ei ehangu ar gyfer tomennydd glo gyda mathau eraill o domennydd mwynau; yn yr un modd, gallai'r gronfa ddata o domennydd, a diweddarir yn rheolaidd gyda'r holl adroddiadau archwilio a chynnal a chadw, ymestyn maes o law i bob math o domennydd a caniatáu mynediad ar unwaith i wybodaeth ledled Cymru, gan adlewyrchu'r egwyddorion sydd yn arwain polisïau amgylcheddol a ddarparwyd gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

- 8.39 Gan ystyried yr elfennau hyn, rydym mewn sefyllfa i edrych ar ddulliau deddfwriaethol mewn meysydd cyfatebol allai ddarparu modelau ar gyfer agweddau fframwaith rheoleiddio newydd. Ar ôl i ni wneud hynny, byddwn yn egluro ein cynigion dros dro ein hunain ar gyfer fframwaith newydd, ac yn gofyn am safbwyntiau ar bob un o'i elfennau arfaethedig.

Pennod 9: Modelau rheoleiddio eraill

CYFFREDINOL

- 9.1 Mae'r bylchau a'r cyfyngiadau a ganfuwyd yn y gyfundrefn ar gyfer tomennydd anweithredol a ddarparwyd gan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 yn dangos ble mae angen diwygio. Mae'r awgrymiadau a wnaed gan randdeiliaid a'r camau sydd eisoes wedi'u cymryd ers llithriad Tylerstown yn dangos nodweddion dymunol trefn newydd. Mae modelau presennol sydd yn deillio o reoleiddio peryglon amgylcheddol eraill hefyd yn cynnig enghreifftiau o ddewisiadau eraill posibl. Yn y bennod hon rydym yn ystyried pryd y gallai elfennau o'r modelau yma fod o gymorth i fynd i'r afael â'r problemau gyda Deddf 1969 a mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan newid hinsawdd. Rydym hefyd yn ystyried pryd y gallai nodweddion perygl penodol olygu na fyddai'n fuddiol cymharu hynny â thomennydd anweithredol.
- 9.2 I ddechrau mae'n ddefnyddiol disgrifio'r mathau o gyfundrefnau ellid eu cymhwyso. Mae Burnett-Hall yn disgrifio'r rhain yn hanesyddol fel esblygu oddi wrth dull iechyd cyhoeddus canolig-benodol tuag at fframweithiau mwy holistig:
- The early approach to pollution control can be characterised as being concerned with specific human problems, usually involving public health, and directed at emissions into a particular medium, such as air or water. This may reflect the fact that there was then no clear concept of "the Environment" as an entire, holistic entity. This medium-specific and rather ad hoc method was to continue for over 100 years.⁴⁷³
- 9.3 Mae ymdrechion i ddatblygu dull mwy integredig yn cynnwys Ddeddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990. Cyflwynodd honno rannau o'r fframwaith cysyniadol sydd yn tanategu'r dull integredig modern mewn perthynas â llygredd, megis BATNEEC (Best Available Technology Not Entailing Excessive Cost), sef yr egwyddor a gymhwysir er mwyn cyrraedd BPEO (Best Practicable Environmental Option). Diffiniwyd BPEO gan y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol fel "the option that provides the most benefit or least damage to the environment as a whole, at an acceptable cost, in the long term as well as in the short term".⁴⁷⁴ Roedd y fframwaith yma yn galluogi "a more holistic approach to be taken to the environment as a whole, and was a step away from the medium-specific concerns of previous attempts at regulation".⁴⁷⁵
- 9.4 Mae Deddf 1969 yn enghraifft o ffocws ar broblemau penodol ac uniongyrchol sydd yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch pobl. Mae'r camau a ganiateir wedi eu cyfyngu i

⁴⁷³ R Burnett-Hall and B Jones (eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012) para 23-007.

⁴⁷⁴ Royal Commission on Environmental Pollution, Twelfth Report (1988) Cm 310 paras 1.7 and 2.1. I weld trafodaeth ar y cysyniad, gweler Sixth Report of the Select Committee for Environment, Transport and Regional Affairs (1990-91) HC 18 para 34, <https://publications.parliament.uk/pa/cm199798/cmselect/cmenvtra/484/48407.htm> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁴⁷⁵ R Burnett-Hall and B Jones (eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012) paragraffau 23-010 a 23-011.

sefyllfaoedd ble mae yna risg canfyddiadol i'r cyhoedd o ganlyniad i ansefydlogrwydd tomen. Mae deddfwriaeth trwyddedu amgylcheddol yn defnyddio dull gwahanol, gan osod cyfyngiadau ar weithgareddau penodol drwy gyfeirio at ystod ehangach o risgiau i'r aer, dŵr a phridd. Ond mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn gyfyngedig o ran ei dull. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mecanwaith i asesu'r effaith amgylcheddol gyffredinol pan fo yna flaenoriaethau cystadleuol, fel yr ydym wedi ei weld mewn achosion brys cysylltiedig â thomennydd glo.

- 9.5 O ran canfod model amgen, rydym yn credu ei bod yn well chwilio am fodel sydd yn defnyddio dull mwy integredig a hyblyg er mwyn caniatáu llai o ymyrraeth amgylchol, ynghyd â mecanwaith ar gyfer delio â blaenoriaethau cystadleuol.

DEDDF CRONFEYDD DŴR 1975

- 9.6 Mae nifer o randdeiliaid wedi awgrymu i ni y gallai Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 ddarparu model amgen defnyddiol er mwyn rheoleiddio diogelwch tomennydd glo. Fel yn achos tomennydd glo, lluniwyd rheoliadau cysylltiedig â chronfeydd dŵr yn dilyn trychinebau a achosodd ddifrod erchyll a marwolaeth.⁴⁷⁶ Mae'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn darparu rhag gollyngiadau dŵr o gronfeydd dŵr mawr neu lynnoedd neu lychau a grëwyd neu a ehanguwyd yn artiffisial Mae'r cynnwys adeiladu, goruchwyllo, cynnal a chadw, archwilio a digomisiynu cronfeydd dŵr.⁴⁷⁷
- 9.7 I grynhoi, yng Nghymru mae'r Ddeddf yn rheoleiddio cronfeydd dŵr mawr dyrchafedig sydd yn gallu dal 10,000 metr ciwbig o ddŵr neu ragor.⁴⁷⁸ Mae'n ofynnol i weithredwyr y cronfeydd dŵr yma, a elwir yn "ymgymerwyr" eu cofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sydd yn gweithredu fel yr awdurdod gorfodi yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf.⁴⁷⁹ Mae yna ddarpariaethau ar gyfer sicrhau bod cronfeydd dŵr yn cael eu dylunio, eu hadeiladu a'u digomisiynu'n briodol gan beirianwyr sifil cymwys. Nid yw cronfeydd dŵr â chapasiti llai na 10,000 metr ciwbig yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.
- 9.8 Mae gan CNC ddyletswydd i ddynodi cronfa ddŵr fel cronfa risg uchel pan fônt yn ystyried y gallai bywydau pobl fod mewn perygl petai dŵr yn cael ei ryddhau heb reolaeth arno. Mae cronfeydd dŵr a ddynodir fel rhai risg uchel yn ddarostyngedig i gyfundrefn uwch o archwilio a goruchwyliaeth gan beirianwyr sifil. Mae'n rhaid i gronfeydd dŵr risg uchel gael eu goruchwyllo gan beiriannydd goruchwyloli bob

⁴⁷⁶ Mae'r trychinebau sydd wedi blaenori rheoleiddio cronfeydd dŵr yn cynnwys y rhai yn Nolgarrrog, Cymru yn 1925 (16 o bobl wedi eu lladd), Malpasset, Ffrainc yn 1959 (423 wedi eu lladd), Baldwin Hills, UDA yn 1963 (5 wedi eu lladd), a Vajont, Yr Eidal yn 1963 (2,000 wedi eu lladd). Y ddeddfwriaeth gyntaf i reoli dyluniad, adeiladu a chynnal a chadw argaeau a chronfeydd dŵr oedd Deddf Cronfeydd Dŵr (Darpariaethau Diogelwch) 1930. Roedd honno yn rhoi dyletswydd ar ymgymerwyr i benodi peirianwyr, ond nid oedd yn creu awdurdod rheoleiddio.

⁴⁷⁷ Daeth yr diwygiadau a wnaed gan atodlen 4 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2016: Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Pontio (Cymru) SI 2016 Rhif 79 (W36)).

⁴⁷⁸ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 a A1(3) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, atodlen 4. Cyn 2016, y trothwy ar gyfer rheoleiddio oedd 25,000 metr ciwbig.

⁴⁷⁹ Yn wreiddiol, yr awdurdod rheoleiddio oedd yr awdurdod lleol (fel yn achos tomennydd glo anweithredol heddiw). Yn Lloegr mae'r awdurdod wedi ei drosglwyddo i Asiantaeth yr Amgylchedd. Yng Nghymru fe'i trosglwyddwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013.

amser. Mae'n rhaid i beiriannydd archwilio o'r panel priodol o beirianwyr archwilio'r gronfa ddŵr o leiaf bob 10 mlynedd ac ar achlysuron eraill y darperir ar eu cyfer gan y Rheoliadau. Mae cronfeydd dŵr na ystyrir eu bod yn rhai risg uchel yn parhau i fod yn gofrestredig ond nid ydynt yn ddarostyngedig i'r un math o archwilio a goruchwyliaeth.⁴⁸⁰

- 9.9 Diffinnir ymgwymerwyr fel rhai sydd ag awdurdod i reoli'r gronfa ddŵr. Yng Nghymru, mae adran 1(4) y Ddeddf yn diffinio'r ymgwymerwr fel: "if the reservoir is managed and operated by NRW or a statutory water undertaker; or, in any other case, either as the person carrying on an undertaking where the reservoir is used or intended to be used for the purposes of the undertaking, or the owner or lessee of the reservoir where there is no use of it or intention to use as it for the purposes of an undertaking." Mewn geiriau eraill, os nad oes gweithredwr, y perchennog neu ddeiliad y brydles yw'r ymgwymerwr.
- 9.10 Mae ymgwymerwyr yn gyfrifol am fonitro a chynnal a chadw'r gronfa ddŵr o ddydd i ddydd a chydymffurfio â'r gyfraith. Mae hynny yn cynnwys, os dynodwyd bod y gronfa ddŵr yn un risg uchel, cydymffurfiaeth â gofynion archwilio a goruchwyliaeth y gronfa ddŵr gan beirianwyr, a chofnodi lefelau dŵr a gwybodaeth benodol arall. Rôl CNC yw sicrhau bod ymgwymerwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith. Pan nad yw gwaith o unrhyw fath yn cael ei wneud fel sydd yn ofynnol, neu y cael ei gwblhau i safon sydd yn dderbyniol gan beiriannydd y gronfa ddŵr, mae gan CNC bwerau i ofyn i'r ymgwymerwyr weithredu ar argymhellion y peiriannydd sydd yn archwilio. Mae CNC yn cynnal cofrestr gyhoeddus o wybodaeth am gronfeydd dŵr ac yn monitro'r camau sydd yn ofynnol i ymgwymerwyr eu cymryd, gyda phwerau i weithredu os na fydd ymgwymerwyr yn gallu, neu mewn achos brys. Mae CNC yn adrodd i Weinidogion Cymru bob dwy flynedd ar gamau a gymerir o ran cyflawni eu rôl.

Manylion y fframwaith rheoleiddio

- 9.11 Mae Adran A1 y Ddeddf yn diffinio "cronfa ddŵr fawr ddyrchafedig" fel "a large, raised structure designed or used for collecting and storing water", neu "a large, raised lake or other area capable of storing water which was created or enlarged by artificial means". Mae'n "ddyrchafedig" os bydd wedi ei dylunio i ddal, neu os yw'n gallu dal, dŵr uwch ben lefel naturiol unrhyw ran o'r tir amgylchynol.⁴⁸¹ Mae'n "fawr" os yw'n gallu dal 10,000 metr ciwbig o ddŵr uwch ben lefel y tir amgylchynol.
- 9.12 Mae gan CNC ddyletswydd i sefydlu a chynnal cofrestr sydd yn dangos y cronfeydd dŵr mawr dyrchafedig sydd wedi eu lleoli yn rhannol neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. Dylai'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio a rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a ragnodir gan reoliadau.⁴⁸² Mae'n rhaid i'r ymgwymerwr gofrestru cronfa ddŵr fawr ddyrchafedig gyda CNC.⁴⁸³ Mae'n rhaid iddo hefyd hysbysu CNC ynghylch materion

⁴⁸⁰ I weld cofnod manwl o ddeddfwriaeth cronfeydd dŵr fel y mae'n gymwys i Gymru, gweler British Dam Society, *Reservoir Legislation in Wales* (2016), ar gael yn: <https://britishdams.org/assets/documents/Dam%20Legislation%20-%20Wales%20-%20October%202016.pdf>. (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁴⁸¹ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a A1(1)(a).

⁴⁸² Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, s 2(2).

⁴⁸³ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 2(2B).

megis bwriad arfaethedig i adael cronfa ddŵr a newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru.⁴⁸⁴ Dyletswydd CNC yw sicrhau bod ymgymrwyr yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.⁴⁸⁵

- 9.13 Cyn gynted â phosibl ar ôl cofrestru cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr, rhai i CNC ystyried a ddylid ei dynodi fel cronfa ddŵr risg uchel.⁴⁸⁶ Os bydd dynodiad yn cael ei wneud, rhaid i CNC hysbysu'r ymgymwrwr am y dynodiad dros dro, a darparu cyfle i roi sylwadau cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau'r dynodiad.⁴⁸⁷
- 9.14 Mae cronfeydd dŵr risg uchel wedi eu diffinio yn adran 2C. O dan adran 2C(1), gall CNC dynodi cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr fel un risg uchel os-
- (a)...[mae'n] credu, os gollyngir dŵr o'r gronfa heb ei reoli, y gallai hynny beryglu bywydau pobl, a
- (b) nid yw'r gronfa yn bodloni'r amodau (os o gwbl) a nodir mewn rheoliadau a luniwyd gan y Gweinidog.
- 9.15 Gall yr amodau a nodir yn is-adran (1)(b) gynnwys amodau ynghylch at ba ddiben y defnyddir y gronfa ddŵr, y deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r gronfa, y ffordd yr adeiladwyd y gronfa, a gwaith cynnal a chadw'r gronfa. Rhaid i'r dynodiad, neu'r penderfyniad i beidio â dynodi, gael ei adolygu os oes unrhyw reswm i gredu nad yw mwyach yn briodol.⁴⁸⁸ Mae hawl i apelio yn erbyn y dynodiad.⁴⁸⁹
- 9.16 Mae Adrannau 10 i 12, a ystyrir isod, yn pennu'r gofynion ar gyfer archwilio, monitro a goruchwyllo cronfeydd dŵr risg uchel.
- 9.17 Hefyd mae'n rhaid i CNC adrodd i Weinidogion Cymru ar y camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf, a'i ymdrechion ei hun i gydymffurfio â hi pan mai CNC ei hun yw'r ymgymwrwr. Efallai bydd y Gweinidogion yn gofyn am gynnal ymchwiliad os bydd yn ymddangos bod yr awdurdod wedi methu â pherfformio ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.⁴⁹⁰

⁴⁸⁴ Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhadnodedig, etc.) (Cymru) SI 2016 Rhif 80 (W 37).

⁴⁸⁵ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2(3).

⁴⁸⁶ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2A..

⁴⁸⁷ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2B.

⁴⁸⁸ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2D.

⁴⁸⁹ Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 2E yn darparu bod rhaid i rheoliadau darparu hawl i apelio yn erbyn dosbarthiad dan adran 2B. Mae rhaid bod y reoliadau yn rhoi swyddogaeth i'r Gweinidog, llys neu driwlynlys, a gwneud darpariaeth am y weithdrefn. Mae'r Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) SI 2016 Rhif 78 (W 35) yn darparu bod apeliadau yn erbyn dosbarthiad yn mynd i Weinidogion Cymru, sydd rhaid "remit the appeal to an appointed person for consideration and determination" (rheoliad 6(2)).

⁴⁹⁰ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 3. I weld yr adroddiad diweddaraf, gweler Cyfoeth Naturiol Cymru, *Adroddiad Chwe Misol i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Diogelwch Cronfeydd Dŵr yng Nghymru 2017 i 2019*, ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/690462/2017-19-biennial-report.pdf?mode=pad&rnd=132174406320000000> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

- 9.18 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer panel neu baneli o beirianwyr sifil gael eu penodi. Pan fo'r Ddeddf yn nodi bod angen peiriannydd sifil cymwys, mae'n rhaid i'r peiriannydd hwnnw fod yn aelod o'r panel.⁴⁹¹ Penodir paneli ar y cyd o beirianwyr cronfeydd dŵr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gan Weinidogion Cymru yn dilyn argymhellion a anfonwyd gan Bwyllgor Cronfeydd Dŵr Sefydliad y Peirianwyr Sifil.⁴⁹² Mae pedwar panel o beirianwyr wedi cael eu sefydlu er mwyn caniatáu dewis peiriannydd priodol gymwys ar gyfer bodloni gwahanol ofynion y Ddeddf: y lefel cymhwyster cyntaf yw ar gyfer peirianwyr goruchwyllo; mae'r ail yn ymdrin ag adeiladu, archwilio a digomisiynu cronfeydd dŵr sy'n gwasanaethu; mae'r drydedd yn ymdrin â dylunio, adeiladu, archwilio a digomisiynu cronfeydd dŵr nad ydynt yn dal a chadw; a chaniateir i'r pedwerydd, Panel yr Holl Gronfeydd Dŵr, weithredu mewn unrhyw gapasiti.⁴⁹³
- 9.19 Ni chaiff cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr eu hadeiladu na'u haddasu oni bai bod y gwaith wedi ei ddylunio a'i oruchwyllo gan beiriannydd sifil cymwys, a elwir yn beiriannydd adeiladu. Mae'r Ddeddf yn sefydlu system ardystio ar gyfer y gwaith a'r lluniadau a'r disgrifiadau y mae'n rhaid iddynt ategu'r dystysgrif. Os yw'n ymddangos i CNC nad yw'r ymgwymerwr wedi cydymffurfio â'r gofynion yma, gallent roi hysbysiad i gwblhau penodi'r peiriannydd ac i gydymffurfio â gofynion adroddiad y peiriannydd.⁴⁹⁴ Mae yna hefyd ddarpariaeth ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion hyn os bydd cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr a adawyd yn cael ei defnyddio eto.⁴⁹⁵
- 9.20 Mae'n ddyletswydd ar ymgwymerwyr i drefnu bod peiriannydd sifil cymwys annibynnol, a elwir yn beiriannydd archwilio, yn archwilio cronfeydd dŵr risg uchel yn gyfnodol, mor aml ag y nodir hynny yn y rheoliadau a gyda'r gofyniad i adrodd i CNC.⁴⁹⁶ Mae'n ofynnol i'r ymgwymerwyr ddarparu tystysgrif i gadarnhau cydymffurfiaeth ag unrhyw argymhellion yn yr adroddiad. Mae gan CNC bwerau mewn achosion o beidio â chydymffurfio.⁴⁹⁷ Hefyd mae'n ofynnol i ymgwymerwyr cronfeydd dŵr risg uchel gadw cofnodion penodol, er enghraifft ynghylch lefelau dŵr.⁴⁹⁸

⁴⁹¹ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 4(10) a (11).

⁴⁹² Gweler <https://www.ice.org.uk/careers-and-training/careers-advice-for-civil-engineers/specialist-professional-registers#reservoirs> (cyrchwyd ddiwethaf ar 30 Mawrth 2021).

⁴⁹³ Gweler British Dam Society, *Reservoir Legislation in Wales* (2016), ar gael yn <https://britishdams.org/assets/documents/Dam%20Legislation%20-%20Wales%20-%20October%202016.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021), i weld crynodeb o swyddogaethau'r panel. Mae cronfa ddŵr gwasanaeth yn strwythur caeedig, a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer dŵr yfed. Fel arfer mae cronfa ddŵr nad yw'n dal a chadw yn cael ei ffurfio drwy adeiladu argloddiau ar bob ochr a chaiff ei llenwi a'i gwagio drwy bwmpio yn unig. Fel arfer caiff cronfa ddal a chadw ei ffurfio drwy osod argae ar draws cwrs dŵr naturiol, a rheolir yr all-lif.

⁴⁹⁴ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 8.

⁴⁹⁵ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 9.

⁴⁹⁶ O dan Reoliadau Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) SI 2016 Rhif 78, rhaid i gronfeydd risg uchel gael eu harchwilio gan beiriannydd archwilio o leiaf bob deng mlynedd, er mwyn darparu asesiad o gyflwr. Mae'r peiriannydd archwilio yn darparu adroddiad i'r ymgwymerwr a chopi i CNC. Gall yr adroddiad gynnwys argymhellion y peiriannydd archwilio ynghylch camau fydd i'w cymryd mewn perthynas â diogelwch a chynnal a chadw, fydd yn ddyletswyddau statudol i'r ymgwymerwr.

⁴⁹⁷ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 10.

⁴⁹⁸ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 11.

- 9.21 Hefyd mae'n ofynnol i ymgymerydd gyflogi peiriannydd sifil cymwys i oruchwyllo cronfa risg uchel bob amser pan nad yw'r gronfa dan oruchwyliaeth peiriannydd adeiladu. Gelwir y peiriannydd yn beiriannydd goruchwyllo. Mae peirianwyr goruchwyllo yn cael eu harwain gan argymhellion y gall y peiriannydd archwilio eu cynnig, a maent yn cynghori ac yn rhoi cyfarwyddyd i'r ymgymerydd berfformio amrywiol weithgareddau monitro a chynnal a chadw sydd yn briodol i'r gronfa ddŵr. Maent yn chwilio am elfennau pryderus yn ymddygiad y gronfa, ac mae ganddynt ddyletswydd i adrodd i CNC am unrhyw faterion allai effeithio ar ei diogelwch, ac i dynnu sylw at unrhyw achos o beidio cydymffurfio â'r Ddeddf.⁴⁹⁹ Hefyd mae'n rhaid i'r peiriannydd ddarparu datganiad ysgrifenedig o leiaf bob 12 mis am ymddygiad cyffredinol y gronfa ac am unrhyw gamau a gymerwyd, neu na chymerwyd, gan yr ymgymerydd mewn perthynas â diogelwch. Gall y peiriannydd argymhell archwiliad gan beiriannydd archwilio.⁵⁰⁰ Hefyd, gall y peiriannydd ofyn i'r ymgymerydd gynnal archwiliadau gweledol ar adegau penodol. Mae yma hefyd ddarpariaeth i CNC orfodi cydymffurfiaeth. Effaith y system yw bod gan beirianwyr goruchwyllo gyfranogiad parhaus gyda chronfeydd penodol.
- 9.22 Aseinir categori risg i bob cronfa risg uchel er mwyn pennu'r safon dechnegol y mae'n raid cadw ati wrth ei hadeiladu ac wrth gynnal a chadw. Mae'r categori risg yn seiliedig ar y canlyniadau yn hytrach na'r tebygolrwydd o fethu. Mae'r categori risg uchaf, Categori A, wedi ei aseinio i'r cronfeydd dŵr hynny ble mae yna risg i boblogaeth is lawr y llif o fwy na 10 o bobl petai'r gronfa yn methu. Mae categori B yn gymwys pan fo'r risg yma yn gymwys i lai na 10 o bobl. Mae categori C yn cynnwys y cronfeydd hynny pan fo methiant yn achosi risg o ddifrod amgylcheddol, gyda thebygolrwydd o golli bywyd. Mae categori D yn cael ei aseinio pan fo'r risg o niwed yn fychan iawn. Mae'r holl safonau yn uchel iawn: er enghraifft, rhaid i gronfa categori B gael ei hadeiladu i wrthsefyll llifogydd unwaith mewn 10,000 o flynyddoedd, tra bod y safon dylunio ar gyfer cronfa categori D yn lifogydd unwaith mewn 150 o flynyddoedd.⁵⁰¹
- 9.23 Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ymgymerydd baratoi cynllun llifogydd mewn perthynas â chronfa ddŵr ddyrchafedig fawr a nodi gwybodaeth benodol am ardaloedd ellid eu gorlifo petai dŵr yn dianc heb reolaeth. Mae'n rhaid iddo hefyd nodi'r camau ddylid eu cymryd er mwyn atal, rheoli neu liniaru dŵr sydd yn dianc heb reolaeth. Mae'n rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan beiriannydd penodedig, a'i brofi.⁵⁰² Mae'r mapiau llifogydd yn cael eu rhannu gyda chynllunwyr argyfwng awdurdodau lleol er mwyn hysbysu eu cynlluniau argyfwng (oddi ar y safle).

⁴⁹⁹ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 12, a gweler crynodeb o rôl y peiriannydd goruchwyllo yn British Dam Society, *Reservoir Legislation in Wales* (2016), ar gael yn: <https://britishdams.org/assets/documents/Dam%20Legislation%20-%20Wales%20-%20October%202016.pdf>. (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁵⁰⁰ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a12(2A).

⁵⁰¹ I weld canllawiau ar gategoreiddio, gweler Institution of Civil Engineers, *Floods and Reservoir Safety* (4th ed 2015), ch 2. Gwybodaeth wedi ei darparu gan Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC. Gweler y drafodaeth pellach ym mharagraff 9.37 isod.

⁵⁰² Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 12A a 12AA.

- 9.24 Mae yna hefyd ofynion penodol, pan fo cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr yn cael ei chau neu ei gadael, er mwyn ei goruchwyllo a'i hardystio gan beiriannydd sifil cymwys.⁵⁰³
- 9.25 Nid yw cronfeydd nad ydynt wedi eu dynodi fel rhai risg uchel yn cael eu monitro'n ffurfiol, ond gellir adolygu eu dynodiad unrhyw dro pan fo CNC yn ystyried nad yw'r cynodiad mwyach yn briodol. Rhaid i bob ymgwymerwr cronfa ddŵr adrodd am ddigwyddiadau allai effeithio ar ddiogelwch y gronfa i CNC.⁵⁰⁴
- 9.26 Os bydd yn ymddangos i CNC bod unrhyw gronfa ddŵr ddyrchafedig fawr yn annïogel a bod angen gweithredu er mwyn amddiffyn pobl neu eiddo rhag dŵr yn dianc, mae'r Ddeddf yn darparu pŵer i gymryd, o dan oruchwyliaeth peiriannydd sifil cymwys, "such measures as they consider proper to remove or reduce the risk or to mitigate the effects of an escape"; mae hynny yn cynnwys camau pan fo'r risg yn deillio o gronfa a adawyd.⁵⁰⁵ Mae yna ddarpariaeth i roi hysbysiad i'r ymgwymerwr o'r camau dylid eu cymryd, ond pan nad yw'n bosibl rhoi'r hysbysiad cyn i'r gwaith ddechrau, gellir ei roi cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl i'r gwaith ddechrau. Gellir ei hepgor od nad yw'n bosibl cadarnhau enw neu gyfeiriad yr ymgwymerwr.⁵⁰⁶ Bydd yr ymgwymerwr yn atebol am dalu'r costau a ysgwyddwyd yn rhesymol gan yr awdurdod wrth ddefnyddio'r pwerau yma.⁵⁰⁷
- 9.27 Mae gan CNC bwerau mynediad ar dir ble lleolir cronfa ddŵr er mwyn cynnal archwiliad, arolwg neu weithgaredd arall, yn cynnwys pan fo'r gronfa wedi ei gadael.⁵⁰⁸
- 9.28 Cyflwynwyd y pŵer i wneud cynlluniau ar gyfer codi tâl gan ddiwygiad i Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae'r ddarpariaeth yn ffordd o adennill costau a ysgwyddwyd gan CNC wrth gyflawni swyddogaethau a roddwyd gan Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.⁵⁰⁹ Daeth y cynllun presennol i rym yng Nghymru yn 2016. Codir dwy lefel o ffioedd o dan y ddeddfwriaeth. Mae yna ffi ar gyfer cofrestru y mae'n rhaid i bob ymgwymerwr ei thalu; mae hynny yn talu am y gwaith cychwynnol er mwyn penderfynu ar ddynodiad y gronfa. Mae ail ffi yn daladwy yn flynyddol os dynodir bod y gronfa yn un risg uchel.⁵¹⁰ Nid oes yna unrhyw allu i amrywio'r ffioedd er mwyn adlewyrchu lefel y gwaith a wneir gan CNC. Ar hyn o bryd mae CNC yn edrych ar sut y gall newid y cynllun wella cymhelliannau i gydymffurfio â'r gyfundrefn drwy wobrwyo perfformiad da ac adennill

⁵⁰³ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, ss 13 a 14.

⁵⁰⁴ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 21B a Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Capasiti, Cofrestru, Ffurflenni Rhagnodedig, etc.) (Cymru) 2016 Rhif 80 (W.37).

⁵⁰⁵ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 16 (1) a (2).

⁵⁰⁶ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 16(4) a (5).

⁵⁰⁷ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, a 16(6).

⁵⁰⁸ Deddf Cronfeydd Dŵr, a 17.

⁵⁰⁹ Deddf yr Amgylchedd 1995 a 41(1)(ba) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, atodlen 4, paragraff 39.

⁵¹⁰ Ar hyn o bryd y ffi ar gyfer cofrestru cychwynnol unrhyw gronfa fawr ddyrchafedig yw £510. Y ffi flynyddol ar ôl dynodi fel cronfa risg uchel yw £230: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/reservoir-safety/reservoir-charges/?lang=en#:~:text=31%20March%202021,-,Registration%20fees,made%20until%20payment%20is%20received> (cyrchwyd ddiwethaf 13 Mai 2021)

costau ychwanegol a ysgwyddwyd o ganlyniad i berfformiad gwael. Bydd yna ymgynghoriad ar gynigion i newid yn ddiweddarach yn 2021.⁵¹¹

Cymariaethau rhwng cronfeydd dŵr a thomennydd glo

- 9.29 Y prif wahaniaeth rhwng tomennydd glo a chronfeydd yw bod tomennydd glo bron yn gyfan gwbl anweithredol erbyn heddiw yng Nghymru. Gallent fod yn hen iawn a ddim yn gysylltiedig â gweithgaredd cynhyrchu incwm. Am y rheswm hwn mae'n annhebygol bod yna "weithredwyr" yn yr ystyr a fabwysiadwyd yn Neddf 1975. Mae'n annhebygol y bydd perchnogion yn gwneud defnydd gweithredol o'r tomennydd ar eu tir, ac mae'n annhebygol hefyd y bydd ganddynt unrhyw gysylltiad â'r gweithgaredd a greodd y domen.
- 9.30 I'r gwrthwyneb, mae cronfeydd Cymru yn dal i gael eu defnyddio i raddau helaeth, er bod y gyfundrefn yn parhau i fod yn gymwys i gronfa anweithredol sydd yn dal i berthyn i'r diffiniad o gronfa ddŵr ddyrchafedig fawr. O blith y 366 cronfa ddŵr ddyrchafedig fawr yng Nghymru, mae 40% o'r ymgymerydd yn gwmnïau dŵr, a defnyddir y cronfeydd ar gyfer dŵr yfed; mae 19% o'r cronfeydd yn rhai masnachol, ac fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer pŵer hydro-electrig neu ddiwydiant; mae 24% yn cael eu gweithredu gan gwmnïau cyhoeddus megis CNC ac awdurdodau lleol neu elusennau treftadaeth a chadwraeth ac wedi eu categorio ar gyfer defnydd er lles y cyhoedd; ac mae 17% mewn dwylo preifat a ddefnyddir yn bennaf er amwynder a chyfleoedd hamdden.⁵¹² Mae dwy gronfa a gategoreiddiwyd fel rhai mewn dwylo preifat yn gronfeydd "amddifad";⁵¹³ mae'n bosibl bod rhai eraill yn bodoli nad ydynt wedi cael eu henwi. Mae oed cyfartalog argae yn dros 100 oed.⁵¹⁴ Gall cronfa ddŵr beidio a bod yn gronfa ddŵr ar ôl gwagio'r dŵr ohoni.
- 9.31 Ond roedd y newid i drothwy rheoli rheoleiddiol a gyflwynwyd yn 2016 yn cwmparu llawer mwy o gronfeydd graddfa lai.⁵¹⁵ Mae perchnogion y cronfeydd llai yma yn rhannu mwy o bethau cyffredin â rhai perchnogion tomennydd anweithredol. Efallai bod y gronfa yn un fach, sydd yn gweithredu er enghraifft fel llyn addurniadol neu yn cael ei defnyddio ar gyfer pysgota, ac efallai mai adnoddau cymharol gyfyngedig sydd

⁵¹¹ Cyfarfod gyda Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC.

⁵¹² Cyfoeth Naturiol Cymru, *Adroddiad Chwe Misol i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Diogelwch Cronfeydd Dŵr yng Nghymru 2017-2019* p 5, ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/690462/2017-19-biennial-report.pdf?mode=pad&rnd=132174406320000000> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021)..

⁵¹³ Mae'r sefyllfa hon yn codi naill ai pan fo'r gronfa yn *bona vacantia*, ac mae'r tir o dan awdurdod Comisiynwyr Ystad y Goron, neu pan na fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog. Yn yr achos hwnnw, mae gan CNC awdurdod i archwilio neu weithredu mewn achos brys yn unig. Petaent yn gwneud gwaith cynnal chadw rheolaidd, gallai'r awdurdod yn anfwriadol fod yn ymgymwrwr o dan delerau Deddf 1975.

⁵¹⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru, *Adroddiad Chwe Misol i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Diogelwch Cronfeydd Dŵr yng Nghymru 2017-2019*, p 9, ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/690462/2017-19-biennial-report.pdf?mode=pad&rnd=132174406320000000> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021). Argae yw'r strwythur ffisegol sydd yn cadw'r dŵr; cronfa ddŵr yw'r corff o ddŵr a grëir gan yr argae.

⁵¹⁵ Gweler paragraff 9.7 uchod.

gan y perchennog. Efallai nad yw strwythur o'r fath yn ased cynhyrchu incwm, ac efallai bod yna lai o gymhelliad i fuddsoddi arian ar gyfer gwaith cynnal a chadw.⁵¹⁶

- 9.32 Ar adeg Dribiwnlys Aberfan mae'n ddiddorol bod elfennau cyfochrog posibl rhwng diogelwch cronfeydd a thomennydd glo wedi cael eu nodi. Awgrymwyd i'r Tribiwnlys y dylid sefydlu panel o beirianwyr er mwyn sicrhau mai dim ond peirianwyr â chymwysterau addas oedd yn cael eu cyflogi i ymchwilio i safleoedd tomennydd glo, gan ddilyn model Deddf Cronfeydd Dŵr (Darpariaethau Diogelwch) 1930. Yn y diwedd, ni argymhellwyd hynny, oherwydd credid y byddai'r Pwyllgor Diogelwch Tomennydd Cenedlaethol yn cyflawni'r swyddogaeth honno, ond cafodd yr angen am arbenigedd mewn perthynas â thomennydd ym mherchnogaeth rhai heb gysylltiad â'r diwydiant glo ei gydnabod.⁵¹⁷

Arfarniad o'r gyfundrefn cronfeydd dŵr

- 9.33 Mae CNC yn chwarae rôl weithredol o ran monitro cydymffurfiaeth. Er mai'r ymgymwrwr sydd yn gyfrifol yn y pen draw, a'r peiriannydd sydd yn darparu'r arbenigedd technegol, CNC, fel yr asiantaeth orfodi, sydd yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud. Mae hynny yn cynnwys hysbysu ymgymwrwyr o derfynau amser sydd yn agosáu a gyfer camau penodol sydd angen eu cymryd, sicrhau bod y camau yn cael eu cymryd erbyn y dyddiad penodol, a darparu cymorth cynghorol.
- 9.34 Mae yna ystod o fesurau ar gael i CNC er mwyn gorfodi cydymffurfiaeth pan fo ymgymwrwyr yn methu â gwneud y gwaith sydd ei angen. Gellir gorfodi rhai mathau o ddiffyg cydymffurfio drwy roi hysbysiad a gellir cosbi rhai fel troseddau. Yn ymarferol, bychan iawn yw'r angen i roi hysbysiadau oherwydd bod cyfranogiad gweithredol CNC mewn rheoleiddio yn hyrwyddo cydymffurfiaeth.⁵¹⁸ Ond mae yna gategori arall o argymhellion gweithredol sydd yn gysylltiedig â thasgau lefel is. Nid yw'r rhain yn rhai y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol. Mae CNC yn cefnogi ymgymwrwyr ar sail cynghorol mewn perthynas â'r tasgau yma.⁵¹⁹
- 9.35 Yn ymarferol, gall absenoldeb pŵer i orfodi cydymffurfiaeth â'r gwaith cynnal a chadw lefel is yma achosi anawsterau pan fo gan ymgymwrwyr adnoddau cyfyngedig a gwybodaeth dechnegol gyfyngedig. Mae hyn wedi dod yn fwy o broblem ers gostwng y trothwy rheoleiddiol er mwyn cwmpasu cronfeydd llai yn 2016, oherwydd bu i hynny gynnwys llawer mwy o berchnogion anfasnachol â llai o adnoddau a llai o ddiddordeb yn y gronfa fel ased. Mae yna debygolrwydd rhwng y tasgau yma a gwaith cynnal a chadw lefel isel ar domennydd glo na all awdurdodau lleol orfodi perchnogion i'w cyflawni o dan cyfundrefn Deddf 1969 ar gyfer tomennydd anweithredol.
- 9.36 Hefyd gall y ddyletswydd ar ymgymwrwyr cronfeydd i gofrestru gyda CNC fod yn broblemus. Yn y 1980au, pan ddaeth y Ddeddf i rym, cynhaliodd Swyddfa Cymru ymarferiad gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau dŵr Cymru er mwyn nodi'r holl

⁵¹⁶ Cyfarfod gyda Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC.

⁵¹⁷ Adroddiad y Tribiwnlys a benodwyd ar gyfer ymchwilio i Drychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966, paragraff 288 ar gael yn: <http://www.mineaccidents.com.au/uploads/aberfan-report-original.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 4 Mawrth 2021).

⁵¹⁸ Cyfarfod gyda Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC.

⁵¹⁹ Cyfarfod gyda Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC.

gronfeydd yn eu hardal. Nodwyd bron yr holl gronfeydd, er bod CNC yn dweud wrthym ei fod wedi enwi 20 cronfa arall y dylid fod ar y gofrestr pan ddaeth i fod yn awdurdod gorfodi. Mae'n dal yn bosibl y bydd rhai eraill yn cael eu canfod.⁵²⁰ Roedd y diwygiadau i Ddeddf 1975 a wnaed gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cyflwyno trosedd o fethu â chofrestru.⁵²¹ Ond, er ei bod yn ddyletswydd ar yr awdurdod i gynnal y gofrestr, nid oes yna bŵer amlwg i cofrestru cronfa yn ddiodyn. Byddai pŵer i wneud hynny o gymorth, er enghraifft pan fo perchnogaeth yn aneglur, neu pan fo'r perchnogion am ryw reswm wedi methu â gweithredu.⁵²²

- 9.37 Mae dynodi categorïau risg a gyfer cronfeydd risg uchel yn unol â chanlyniadau yn hytrach na'r tebygolrwydd o fethu yn nodwedd bwysig yn y gyfundrefn cronfeydd. Mae hynny yn caniatáu safonau mwy llym o ran cynnal a chadw pan allai'r canlyniadau achosi marwolaeth. Mae'n ddiddorol cymharu Deddf 1975 yn y cyswllt yma â Deddf Cronfeydd Dŵr (Yr Alban) 2011. Mae Deddf 2011 yn ei gwneud yn orfodol i ystyried canlyniadau niweidiol methiant a'r tebygolrwydd o ollwng dŵr, ac mae'n rhestru canlyniadau niweidiol posibl y dylid eu hystyried sydd yn cynnwys nid yn unig risgiau i iechyd pobl ond hefyd, er enghraifft, i'r amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a seilwaith megis cyflenwadau pŵer.⁵²³ Mae hefyd yn mabwysiadu dull tair haen yn hytrach na dwy haen o ddynodiad, sydd yn darparu dynodiad risg uchel, canolig ac isel i gronfeydd.⁵²⁴
- 9.38 Mae model Deddf Cronfeydd Dŵr yn cydymffurfio'n dda ag egwyddorion diogelwch argaeau a gydnabuwyd gan Gomisiwn Rhyngwladol Argaeau Mawr (ICOLD). Mae'r dull "dau bâr o lygaid", sydd yn cynnwys peiriannydd goruchwyllo ac archwilio, yn darparu mecanwaith reoli fewnol gydnerth. Mae'r system panel yn ychwanegu sicrwydd arbenigedd technegol.⁵²⁵
- 9.39 Mae yna elfennau sydd ddim yn gweithio cystal. Mae'r gyfundrefn diogelwch cronfeydd wedi cael ei harchwilio yn ddiweddar drwy adolygiad annibynnol, wedi ei gomisiynu gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad annibynnol ym Mai 2021.⁵²⁶ Mae'n pwysleisio pwysigrwydd

⁵²⁰ Cyfarfod gyda Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC.

⁵²¹ Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 a 22(A1).

⁵²² Cyfarfod gyda Matthew O'Brien, Tîm Rheoliadau Cronfeydd Dŵr, CNC. Yn ymarferol, eglurodd efallai bod yna achosion pan fo'r perchnogion, er enghraifft, yn hen neu eiddil ac yn methu â chydymffurfio â'u dyletswydd i gofrestru.

⁵²³ Deddf Cronfeydd Dŵr (Yr Alban) 2011 a 22.

⁵²⁴ Deddf Cronfeydd Dŵr (Yr Alban) 2011 a 18.

⁵²⁵ Gweler hefyd ICOLD Principles of Dam Safety a nodir yn World Declaration on Dam Safety, ar gael yn https://www.icold-cigb.org/userfiles/files/World%20declaration/World%20Declaration%20on%20Dam%20Safety_ICOLD_A3.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021). Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am oruchwyliaeth a gwaith cynnal a chadw rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw bryderon am ddiogelwch yn cael eu canfod yn fuan, a hynny wedi ei ategu gan archwiliad cyfnodol gorfodol gan awdurdod annibynnol a chymwys.

⁵²⁶ Mae hwn yn adolygiad annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU yn 2019 yn dilyn digwyddiad cronfa Toddbrook yn Whaley Bridge, Swydd Derby, pan arweiniodd difrod storm ar orlifan (sianel gorlifo) at bryderon y byddai'r argae yn cwympo a gwacawyd yr ardal amgylchynol. Roedd cam cyntaf yr ymchwiliad yn adrodd ar ddigwyddiad Toddbrook. Wnaeth ail gam yr ymchwiliad, dan arweiniad Yr Athro David Balmforth, cynnal asesiad ehangach o ddeddfwriaeth diogelwch cronfeydd a sut y rhoddir honno ar waith. Mae wedi cyferbynnu'r ddeddfwriaeth gyda chfundrefnau diogelwch eraill, megis y rhai a gymhwysir yn y

cydgysylltu gwell rhwng perchnogion, rheoleiddiwr a llywodraeth. Mae argymhellion yn cynnwys rhannu cronfeydd risg uchel i ddosbarthiadau gwahanol o berygl i sicrhau bod mwy o ymdrech ac adnoddau yn cael ei chyfeirio at rheini sydd wrth y pen uchaf o'r ystod perygl, a bod peirianwyr goruchwyllo ac archwilio yn defnyddio dull mwy ymyrrol.

- 9.40 Yr elfennu yn y gyfundrefn cronfeydd y maent yn ymddangos i ni eu bod yn haeddu cael eu hystyried wrth greu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomennydd glo yw: y gofyniad i gynnal cofrestr; y gallu i ddynodi cronfa fel un risg uchel yn unol â lefel y perygl mae'n ei achosi a chreu set penodol o ddyletswyddau archwilio a goruchwyllo pan gymhwysir y dynodiad hwn; creu panel o beirianwyr arbenigol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud; a gorfodi cydymffurfiaeth gan un corff canolog. Mae'r dull o gategoreiddio risg sydd yn ystyried y canlyniadau yn hytrach na'r tebygolrwydd o fethiant hefyd yn fodel defnyddiol er mwyn penderfynu faint o ymyrraeth sydd ei hangen. Rydym hefyd yn credu y gallai'r gofyniad yn Yr Alban i ystyried canlyniadau eraill megis niwed i'r amgylchedd, fod yn ychwanegiad pwysig i'r gyfundrefn ddiogelwch.
- 9.41 Nid ydym yn credu y byddai'n hyfyw mabwysiadu model ar gyfer cofrestru sydd yn rhoi'r ddyletswydd ar berchnogion tomennydd yn unig i gofrestru eu tomennydd. Bydd y gronfa ddata ganolog o domennydd a ragwelir gan Lywodraeth Cymru yn helpu i ganfod bodolaeth yr holl domennydd hysbys. Rydym yn rhagweld yr angen am bŵer i ychwanegu tomen lo i'r rhestr, er na fyddai ychwanegu tomen i'r rhestr yn rhwystro rhoi rhwymedigaethau eraill i'r perchennog.
- 9.42 Mae'r gyfundrefn cronfeydd yn wynebu'r un heriau â'r gyfundrefn tomennydd anweithredol gyfredol o ran sicrhau dull rhagweithiol mewn perthynas â thasgau cynnal a chadw lefel is, yn arbennig pan nad yw'r domen yn cael ei thrin fel ased ac nad oes gan y perchennog fawr ddim arbenigedd technegol a dim llawer o adnoddau.
- 9.43 Mae'n ymddangos i ni bod dull rheoleiddio sydd yn gwahaniaethu rhwng peryglon drwy gyfeirio at raddfa risg yn arbennig o fuddiol o ran delio â thomennydd anweithredol, oherwydd bod y rhain yn pontio ystod eang o fathau, o'r rhai y gellir prin eu hadnabod i'r rhai sydd yn wynebu risg o lithriad yn fuan. Mae CNC wedi disgrifio'i ddull mewn perthynas â gwaith diogelwch cronfeydd yn nhermau cydbwysedd rhwng maint yr ymyrraeth a chanlyniadau methiant cronfa ddŵr:

Rydym yn arwain ein gwaith rheoleiddio drwy gydbwyso'r angen am oruchwyliaeth ac ymyrraeth gymwys gyda chanlyniadau methiant cronfa ddŵr. Mae peirianyddion yn aseinio categori risg argae er mwyn dangos maint y boblogaeth sydd yn wynebu risg. Mae'r raddfa hon hefyd yn hysbysu ein dynodiad risg cyffredinol.⁵²⁷

diwydiant niwclear ac i reilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd. Gweler D Balmforth, *Independent Reservoir Safety Review Report* (2021), <https://www.gov.uk/government/publications/reservoir-review-part-b-2020> (cyrchwyd ddiwethaf 17 Mai 2021).

⁵²⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru, *Adroddiad Chwe Misol i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Diogelwch Cronfeydd Dŵr yng Nghymru, 2017-2019*, p 6, ar gael yn: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/690462/2017-19-biennial-report.pdf?mode=pad&rnd=132174406320000000> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021)..

RHEOLIADAU CHWARELI 1999 A RHEOLIADAU MWYNGLODDIAU 2014

9.44 Ym mhennod 4 adroddwyd ar y dadleuon a arweiniodd at ymddeddfu Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 yn dilyn trychineb Aberfan, ynghyd â disgrifiad o'r gyfundrefn reoli yn Rhan 1 y Ddeddf honno a Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1971 a luniwyd o dan y Ddeddf honno (nad oes yr un ohonynt mewn grym mwyach) ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol yn ogystal â'r weithdrefn ar gyfer tomennydd sydd â mwyngloddiau anweithredol yn rhan 2 y Ddeddf, sydd yn dal mewn grym. Hefyd edrychwyd yn gryno ar y gyfundrefn olynol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol a'r gyfundrefn gyfochrog ar gyfer chwareli sydd bellach mewn grym o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'r darpariaethau yma yn fodel posibl ar gyfer rheoleiddio tomennydd anweithredol.

Rheoliadau Mwyngloddiau 2014

9.45 Mae Rheoliadau Mwyngloddiau 2014,⁵²⁸ a luniwyd o dan Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, yn gymwys i domennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.⁵²⁹ Roedd y Rheoliadau yn alinio deddfwriaeth mwyngloddio gyda'r rhan fwyaf o ddarpariaethau iechyd a diogelwch eraill, yn yr ystyr bod y dull mwy rhagnodol a fabwysiadwyd gan Rheoliadau 1971 wedi cael eu disodli gan ddarpariaethau pennu amcanion.⁵³⁰ Fel Rhan 1 Deddf 1969 a Rheoliadau 1971, mae Rheoliadau 2014 yn canolbwyntio ar ansefydlogrwydd tomennydd yn hytrach na pheryglon eraill sydd yn gysylltiedig â nhw.

9.46 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 4.67 uchod, ar gyfer tomennydd sydd yn gynwysedig yn y Rheoliadau, mae Rhan 8 yn gosod dyletswydd gyffredinol er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd.⁵³¹ Mae'n rhaid i weithredwr mwynglawdd sicrhau bod arfarniad addas o'r holl domennydd sydd yn bodoli neu domennydd arfaethedig yn cael ei gynnal er mwyn sefydlu a yw, neu a fyddai tomen yn achosi "perygl sylweddol".⁵³² Os nad yw'r domen yn achosi perygl sylweddol, rhaid cynnal mwy o arfarniadau yn "briodol reolaidd", neu pryd bynnag fo rheswm i amau y bu neu y bydd yna newid mewn amgylchiadau sydd yn effeithio ar sefydlogrwydd y domen.⁵³³

9.47 Os tybir bod tomen yn achosi "perygl sylweddol", gan ddod yn domen "hysbysadwy" o ganlyniad i hynny, bydd dyletswyddau penodol yn codi. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i gael asesiad geodechnegol gan "arbenigwr geodechnegol" bob dwy flynedd. Rhaid i'r asesiad gynnwys safbwynt yr arbenigwr ar ddiogelwch a sefydlogrwydd, yn cynnwys a yw hynny yn cynrychioli perygl sylweddol oherwydd

⁵²⁸ SI 2014 Rhif 3248.

⁵²⁹ Roedd Rheoliadau 2014 yn diddymu a 1 i 7 Deddf 1969. Mae'r Awdurdod Glo yn parhau i ystyried y Rheoliadau fel canllawiau ar gyfer arferion gorau: <https://www.gov.uk/government/publications/disused-coliery-tips-owned-and-inspected-by-the-coal-authority> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁵³⁰ JR Leeming, Prif Arolygydd Mwyngloddiau EM *The Aberfan Disaster and its Legacy* papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Coffa Hanner Canrif ers Trychineb Aberfan yng Nghaerdydd ar 21 Hydref 2016.

⁵³¹ Diffinnir gan reoliad 60 fel "a duty to ensure that (a) instability or (b) movement which is likely to give rise to a risk to the health and safety of any person is avoided".

⁵³² Diffinnir gan reoliad 63 fel "a significant hazard by way of instability or movement".

⁵³³ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, Rheoliad 61.

ansefydlogrwydd neu symudiad, a oes angen gwaith adfer, yr amserlen ar gyfer cwblhau hynny, ac erbyn pryd y mae'n rhaid cynnal yr asesiad nesaf.⁵³⁴ Mae'n ddyletswydd hefyd ar weithredwr y mwynglawdd i gynnal asesiad geodechnegol arall os oes yna reswm i amau y bu neu y bydd yna newid arwyddocaol mewn amgylchiadau perthnasol, neu reswm i amau canlyniad yr asesiad cyfredol.⁵³⁵

Rheoliadau Chwareli 1999

9.48 Mae Rheoliadau Chwareli 1999⁵³⁶ hefyd yn darparu ar gyfer arfarniad cychwynnol o domen chwarel er mwyn penderfynu a yw'n achosi "perygl sylweddol". Os canfyddir nad yw'n achosi perygl sylweddol, mae'n ddyletswydd ar y gweithredwr i sicrhau bod arfarniad arall yn cael ei gynnal yn briodol reolaidd a phan fod yna unrhyw reswm i amau newid arwyddocaol. Os canfyddir ei bod yn achosi perygl sylweddol, rhaid cynnal asesiad geodechnegol.⁵³⁷ Rhaid ailadrodd yr asesiad geodechnegol bob dwy flynedd o leiaf, neu'n amlach os oes achos pryder.⁵³⁸ Mae'n rhaid i'r arfarniad cychwynnol gael ei gynnal gan "unigolyn cymwys". Rhaid i'r asesiad geodechnegol gael ei gynnal gan "arbenigwr geodechnegol".⁵³⁹

Arfarnu

- 9.49 Yn ogystal â rheoleiddio diogelwch tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol, mae'r Rheoliadau yn darparu model posibl ar gyfer rheoleiddio tomennydd anweithredol. Mewn cyfarfodydd cyn ymgynghori gyda'r Archwilydd Mwyngloddiau a'r Archwilydd Chwareli, mynegodd y ddau yn gadarn bod y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y tomennydd yma yn gweithio'n dda.⁵⁴⁰
- 9.50 Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer dyletswydd drosfwaol ragweithiol i'r gweithredwr sicrhau diogelwch, mecanwaith ar gyfer arfarnu pob tomen, a chyfundrefn wella o archwilio, cynnal a chadw a hysbysiadau os bydd tomen yn cael ei dynodi fel un sydd yn creu "perygl sylweddol". Mae'n rhaid i weithredwr mwynglawdd neu chwarel sicrhau bod arfarniad addas o'r holl domennydd sydd yn bodoli neu domennydd

⁵³⁴ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, Rheoliad 62. At ddiben Rhan 8, mae Rheoliad 62 yn nodi bod "asesiad geodechnegol" yn golygu asesiad a gynhelir gan arbenigwr geodechnegol sydd yn nodi ac yn asesu'r holl ffactorau allai effeithio ar sefydlogrwydd a diogelwch tomen arfaethedig neu domen bresennol; ac mae "arbenigwr geodechnegol" yn golygu unigolyn sydd yn addas o gymwys i berfformio dadansoddiad geodechnegol er mwyn penderfynu ar y perygl a'r risg sydd yn deillio o asesu'r domen.

⁵³⁵ Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, Rheoliad 63.

⁵³⁶ SI 1999 Rhif 2024.

⁵³⁷ Rheoliadau Chwareli 1999, Rheoliad 32. Bydd tomennydd y canfyddir eu bod yn achosi perygl sylweddol yn cael eu hadnabod y dan y Rheoliadau fel "tomennydd hysbysadwy". Eglurwyd y Rheoliadau yma ym mharagraffau 4.73 i 4.75 uchod.

⁵³⁸ Rheoliadau Chwareli 1999, Rheoliadau 33 a 34.

⁵³⁹ Diffinnir y termau yma yn rheoliad 2. Mae "unigolyn cymwys" yn golygu "a person with sufficient training, experience, knowledge and other qualities to enable him properly to undertake the duties assigned to him". Mae "arbenigwr geodechnegol" yn golygu peiriannydd siartredig neu ddaearegwr siartredig sydd â (a) phrofiad perthnasol o dair blynedd neu ragor mewn mecanwaith pridd, mecanwaith creigiau neu beirianeg cloddio; a (b) sydd yn gymwys i gynnal dadansoddiad geodechnegol er mwyn penderfynu ar y perygl a'r risg sydd yn deillio o'r cloddiaid neu domen a asesir.

⁵⁴⁰ Cyfarfodydd gyda Bob Leeming, Prif Archwilydd Mwyngloddiau EM, a Colin Mew, Prif Archwilydd Chwareli EM, y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.

arfaethedig yn cael ei gynnal er mwyn sefydlu a yw, neu a fydd tomen yn achosi “perygl sylweddol”.⁵⁴¹

- 9.51 Gallai elfennau o'r gyfundrefn ar gyfer tomennydd dynodedig gael eu hystreyn i domennydd anweithredol risg uwch. O dan Rhan 2 Deddf 1969, mae gan awdurdod bŵer i weithredu dim ond pan fo problem bosibl yn ymddangos, ond nid oes yna gyfundrefn archwilio gyffredinol ar gyfer canfod problemau posibl. Mae'n ymddangos bod dyletswydd i arfarnu pob tomen er mwyn dynodi'r gyfundrefn ddiogelwch briodol yn gam cyntaf amlwg, fel rhagflaenydd i ddosbarthu'r domen er mwyn penderfynu ar amllder archwiliadau. Gellid datblygu hynny y tu hwnt i'r system ddeuol a ddefnyddir yn y Rheoliadau Mwyngloddiau a'r Rheoliadau Chwareli er mwyn neilltuo tomen sydd yn achosi perygl sylweddol. Un ffactor ellid ei bwysleisio yn y categorïddio yw presenoldeb derbynyddion risg uchel.⁵⁴²
- 9.52 Y prif nodwedd arwahanol rhwng tomennydd anweithredol a'r rhai sydd yn gynwysedig yn y Rheoliadau Mwyngloddiau neu Chwareli yw perchnogaeth ar y domen. Mae'r ddyletswydd o dan y Rheoliadau hynny yn perthyn i'r gweithredwr, a chaiff hynny ei oruchwylio gan Arolygiaethau Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid oes dim sydd yn cyfateb i weithredwr ar gyfer tomennydd anweithredol. Roedd yn amlwg bod Deddf 1969 yn bwriadu i berchennog y domen ysgwyddo'r cyfrifoldeb, mewn oes pan mai tomen gysylltiedig â mwynglawdd neu chwarel weithredol oedd y norm.⁵⁴³ Mae perchennog tomen anweithredol yn annhebygol o fod yn cynhyrchu unrhyw incwm o'r domen, nac o gael unrhyw gymhelliad i wneud gwaith cynnal a chadw arni. Mewn rhai achosion, fel y trafodwyd ym mhennod 7, efallai na fydd gan y perchennog yr adnoddau i wneud y gwaith cynnal a chadw. Yn yr holl achosion bron nid oes gan y perchennog unrhyw gysylltiad â'i defnydd gwreiddiol ac nid yw'n gyfrifol am bresenoldeb y domen ar y tir.
- 9.53 Mae'n elfen arall o'r Rheoliadau allai fod yn rhy gyfyngedig fel bod diogelwch, fel yn Rhan 1 Deddf 1969 a Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1971, yn cael ei ystyried o safbwynt sefydlogrwydd tomennydd yn hytrach na pheryglon eraill sydd yn gysylltiedig â nhw. Mae'r diffiniad o “berygl sylweddol” yn gyfyngedig yn yr un modd.

CYMHARIAETH RHWNG Y DDEDDF CRONFEYDD DŴR A RHEOLIADAU CHWARELI 1999/RHEOLIADAU MWYNGLODDIAU 2014

- 9.54 Mae'r dulliau rheoleiddio a fabwysiadwyd gan y gyfundrefn cronfeydd dŵr a'r cyfundrefnau ar gyfer tomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol yn rhoi dyletswyddau rhagweithiol ar y perchennog/gweithredwr mewn perthynas ag archwilio a chynnal a chadw, ac mae yna un awdurdod rheoleiddio ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. Mae'r ddwy gyfundrefn yn gwahaniaethu rhwng strwythurau risg uwch a risg is, gyda chyfundrefn diogelwch uwch ar gyfer y rhai sydd wedi eu dosbarthu fel rhai risg uwch.

⁵⁴¹ Gweler paragraffau 9.46 i 9.48 uchod.

⁵⁴² Cyfarfod gyda Colin Mew, Prif Archwilydd Chwareli EM. Derbynydd yw nodwedd gallai cael ei effeithio gan lithriad tomen lo (fel tŷ, ysgol neu ffordd). Gweler paragraff 8.8 uchod.

⁵⁴³ Gweler y drafodaeth ym mharagraff 4.25 a 4.26 uchod.

- 9.55 Mae yna wahaniaethau pwysig rhwng y ddau ddull. Yn gyffredinol, mae'r gyfundrefn cronfeydd dŵr yn creu set fwy ragnodol o ddyletswyddau na thomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol. Mae'r gyfundrefn ar gyfer tomennydd gweithredol yn defnyddio dull pennu amcanion, gan sefydlu'r amcan o atal ansefydlogrwydd, ac yna darparu canllawiau sydd yn nodi awgrymiadau ynghylch sut mae cyflawni hynny. Efallai bod hwnnw yn ddull mwy priodol pan fo gweithredwyr yn fwy cyfarwydd â'u diwydiant a'r ffyrdd gorau o gyflawni amcanion iechyd a diogelwch. Gall fod yn well mabwysiadu dull mwy rhagnodol wrth ddelio â pherchnogion nad oes ganddynt fawr o wybodaeth am ddiogelwch tomennydd. Hefyd, mae'r gyfundrefn cronfeydd dŵr yn mabwysiadu system sydd yn dibynnu ar benodi arbenigwyr ar banel o beirianwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Nid oes yna banel cyfatebol ar gyfer y rhai a gyflogir er mwyn monitro diogelwch tomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol.⁵⁴⁴
- 9.56 O ran trylwyrdd y safonau a gymhwysir gan y ddwy gyfundrefn, bu dadl yn y gorffennol ynghylch a fyddai'n well rheoleiddio lagŵn sorod mwynglawdd o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn hytrach na'r gyfundrefn tomennydd glo.⁵⁴⁵ Mae lagŵn sorod yn cynnwys sorod mwynglawdd mewn sylwedd neu ynghrog, ac mae angen wal neu strwythur i'w gynnal. Bu galwadau gan arbenigwyr peirianeg yn dilyn trychineb argae sorod Stava yn yr Eidal yn 1985, a laddodd 269 o bobl, i'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr gael ei diwygio er mwyn cynnwys argaeau sorod yn y diffiniad o gronfa ddŵr ddyrchafedig fawr. Dadleuwyd bod y Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn cynnig gwell safonau o ran dyluniad ac adeiladwaith.
- 9.57 Roedd y farn y byddai'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn cynnig gwarchodaeth uwch wedi cael ei gwrth-ddweud mewn erthygl gan beiriannydd sifil profiadol oedd â phrofiad sylweddol o archwilio cronfeydd dŵr ac argaeau sorod o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr a'r Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd).⁵⁴⁶ Ysgrifennwyd yr erthygl cyn diwygio Deddf Cronfeydd Dŵr 2010 a chyflwyno Rheoliadau Mwyngloddiau 2014. Mae'r drafodaeth ond yn berthnasol i'r gyfundrefn ar gyfer argaeau sorod cysylltiedig â mwyngloddiai gweithredol. Nid yw'n gymwys i domennydd anweithredol sydd wedi eu ffurfio o sorod.
- 9.58 Wrth werthuso'r safonau ar gyfer tomennydd glo, mae'r awdur yn cyfeirio at y dyletswyddau a roddir ar berchennog a rheolwr mwyngloddiau gweithredol i baratoi rheolau tipio a chadw cofnodion ysgrifenedig cyfredol o'r holl weithgareddau sydd yn gysylltiedig â'r domen ar y safle ac i sicrhau eu bod y cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae ef hefyd yn cymharu'r ddarpariaeth fwy trylwyr o dan Reoliadau 1971 ar gyfer goruchwyllo ac archwilio tomennydd gyda dyletswyddau Deddf 1975. Er enghraifft,

⁵⁴⁴ Cyfarfod gyda Colin Mew, Prif Archwilydd Chwareli, y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch. Gweler paragraffau 4.63, 4.64 a 4.75 uchod i weld esboniad o'r darpariaethau yn y Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 a'r Rheoliadau Chwareli 1999 mewn perthynas â chymhwysedd.

⁵⁴⁵ Roedd Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a 2(1) yn diffinio tomen mewn termau sydd yn cynnwys lagwnau sorod mwyngloddiau. Roedd Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn wreiddiol yn benodol yn ei heithrio. Mae'r esemptiad yma erbyn hyn wedi cael ei atgynhyrchu yn y Rheoliadau ategol: Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esempiadau, Apeliadau ac Adolygiadau) (Cymru) SI 2016 Rhif 78 (W 35).

⁵⁴⁶ M Cambridge, "The application of the Mines and Quarries (Tips) and the Reservoirs Act" (2008), paper submitted to the British Dam Society, <https://britishdams.org/2008conf/papers/2007%20Storms%20and%20Res%20Act/P43%20Cambridge%20Final.pdf> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

roedd Rheoliadau 1971 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilio tomen weithredol yn wythnosol, tra bod ond angen i beiriannydd goruchwyliol archwilio cronfa ddŵr unwaith y flwyddyn o leiaf.

- 9.59 O ran risg llifogydd, mae'r awdur yn credu nad yw Deddf 1975 yn cynnig unrhyw fantais o ran ei gwneud yn ofynnol i safonau dylunio llifogydd gael eu mabwysiadu, oherwydd byddai'r rhan fwyaf o argaeau sorod yn cael eu categorio fel rhai risg uwch oherwydd y risg i fywyd ac i'r amgylchedd petai gollyngiad niweidiol yn digwydd. O dan Rhan 1 Deddf 1969, byddai unrhyw domen â chapasiti o dros 25,000 metr ciwbig angen ystyriaeth arbennig ar gyfer darpariaeth llifogydd. Byddai angen asesiadau risg cyffelyb o dan Ddeddf 1969 ar gyfer tomennydd gyda chyfeintiau rhwng 10,000 a 25,000 metr ciwbig, neu pan fo peryglon penodol wedi cael eu nodi.⁵⁴⁷
- 9.60 Am y rhesymau hynny mae'n casglu bod y ddeddfwriaeth sydd yn gymwys i argae sorod o safon uwch na gwarchodaeth cronfeydd dŵr, ond mae'n nodi bod effeithiolrwydd pob cyfundrefn reoleiddio yn dibynnu yn y pen draw ar ansawdd archwiliadau a'r orfodaeth. Mae hyn yn cael ei ategu gan astudiaeth o ddamweiniau argaeau hanesyddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd:

Frequent surveillance visits are essential and a big issue is how frequent the visits should be.⁵⁴⁸

- 9.61 Mae'r drafodaeth hon yn arwydd o gryfder y ddarpariaeth ar gyfer tomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol, ond unwaith eto mae'n amlygu absenoldeb darpariaeth ddigonol ar gyfer tomennydd anweithredol, yn arbennig y rhai hynny y gellir eu dosbarthu fel rhai risg uwch.

DEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR 2010

- 9.62 Mae rhanddeiliaid eraill wedi awgrymu cyfatebiaethau rhwng rheoleiddio tomennydd glo a phwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â systemau draenio er mwyn atal llifogydd.
- 9.63 Mae Rhan 1 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi trosolwg strategol i Weinidogion Cymru o'r broses o reoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi a sefydlu strategaethau ar gyfer rheoli risg llifogydd o ddŵr tir, dŵr wyneb a chysiau dŵr arferol yn eu hardaloedd.
- 9.64 Rhoddir dyletswyddau a phwerau sydd yn gysylltiedig â'r cyfrifoldebau yma i awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion mae'r rhain yn cael eu rhoi yn uniongyrchol gan y Ddeddf. Mewn achosion eraill, gwneir hynny drwy ddiwygiadau i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf Draenio Tir 1991 a Deddf Gwarchodaeth y Glannau 1949.

⁵⁴⁷ Gweler para 5.4 uchod am ystyriaeth gofynion diogelwch ar gyfer tomennydd Categori A, para 4.34 am drafodaeth darpariaethau ar gyfer tomennydd dosbarthedig.

⁵⁴⁸ Environment Agency, *Delivering benefits through evidence: Lessons from historical dam incidents* (2011) p 27, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/290812/scho0811buba-e-e.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

- 9.65 Un o'r dyletswyddau a osodwyd ar awdurdodau leol yw sefydlu a chynnal cofrestr o strwythurau neu nodweddion allai effeithio'n sylweddol ar risg llifogydd yn eu hardal. Rhaid iddynt hefyd gadw cofnod o wybodaeth am strwythurau a nodweddion o'r fath yn cynnwys perchnogaeth a chyflwr. Mae'n rhaid i'r gofrestr, ac eithrio data personol neu gyfrinachol, fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio ar bob adeg rhesymol.⁵⁴⁹ Nid yw'r ffordd y darperir mynediad cyhoeddus i'r gofrestr wedi ei nodi yn y ddeddfwriaeth, felly bydd gan awdurdod lleol ddisgresiwn ynghylch a ddylai'r gofrestr, er enghraifft, gael ei rhoi ar ei wefan neu ddarparu mynediad mewn rhyw ffordd arall.⁵⁵⁰
- 9.66 Mae'r Rhan yma hefyd yn darparu pwerau cyfreithiol ychwanegol i awdurdodau penodol yng Nghymru ddynodi asedau neu nodweddion sydd yn effeithio ar risg llifogydd neu erydiad arfordirol. Mae'n cynyddu rheolaeth reoleiddiol ar yr asedau neu nodweddion sydd yn ffurfio systemau rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol, ond nad ydynt yn cael eu cynnal na'u gweithredu gan y rhai sydd yn ffurfio gyfrifol am reoli'r risg.

Dynodi nodweddion

- 9.67 Mae Adran 21 yn creu dyletswydd i gynnal y gofrestr. Mae Atodlen 1 yn darparu ar gyfer dynodi strwythur neu nodwedd, sydd yn rhoi dyletswydd ar y perchennog i beidio â newid, gwaredu nac amennid strwythur neu nodwedd ddynodedig heb gydsyniad y cyngor neu'r awdurdod cyfrifol. Mae'r dynodiad yn gweithredu fel pridiant tir lleol.⁵⁵¹ Mae dynodi yn golygu rhoi hysbysiad dros dro ac yna hysbysiad cadarnhau dynodiad.⁵⁵² Gellir ei orfodi drwy roi hysbysiad gorfodi, y bydd methu â chydymffurfio ag ef yn drosedd. Mewn achos brys, gall awdurdod weithredu i unioni unrhyw waith addasu, gwaredu neu amnewid strwythur heb awdurdod, heb roi hysbysiad gorfodi, ar gost i'r perchennog.⁵⁵³ Mae yna bwerau mynediad er mwyn ymchwilio i'r angen am ddynodiad, ac er mwyn penderfynu a fu achos o dorri hysbysiad dynodi neu orfodi, ynghyd â darpariaethau iawndal cysylltiedig.⁵⁵⁴
- 9.68 Prif gyfyngiad y pŵer dynodi yma (a pham nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ymarferol yn aml gan gynghorau) yw nad yw dynodiad yn rhoi dyletswydd ar berchennog yr ased i gynnal uniondeb strwythurol yr ased, er mwyn sicrhau perfformiad, nac i atgyweirio. Yn hytrach, mae'n rhaid i gynghorau ddibynnu ar eu pwerau o dan y Ddeddf Draenio Tir i roi hysbysiadau neu i wneud gwaith angenrheidiol ac ail-godi. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallai Atodlen 1 fod yn offeryn defnyddiol iawn petai'r dyletswyddau ychwanegol yma yn cael eu hychwanegu.⁵⁵⁵
- 9.69 Rydym yn credu y gallai darpariaeth nodweddion dynodedig wedi eu gwella gyda phwerau i orfodi gwaith cynnal a chadw ddarparu model defnyddiol i awdurdod sydd yn gyfrifol am sicrhau diogelwch tomennydd glo. Gallai darpariaeth o'r fath sicrhau

⁵⁴⁹ Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a 21(2) a (4).

⁵⁵⁰ Nodiadau Esboniadol ar Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

⁵⁵¹ Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 1 paragraff 5.

⁵⁵² Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 1 paragraffau 7 a 8.

⁵⁵³ Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 1 paragraffau 11 a 12.

⁵⁵⁴ Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 1 paragraffau 13 a 14.

⁵⁵⁵ Cyfarfod gyda Tim Peppin a Jean-Francois Dulong, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

bod uniondeb strwythurol tomen yn cael ei gynnal. Er mwyn rhoi i berchennog y domen yr wybodaeth sydd ei hangen i gynnal y domen, gallai fod yna ofyniad ychwanegol i gyflwyno a chymeradwyo cynllun cynnal a chadw a dyletswydd ar y perchennog i gadw at hynny. Byddai'r ddyletswydd cynnal a chadw yma yn sicrhau offerynnau rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol er mwyn delio â materion diogelwch, ac yn cynnig mwy o sicrwydd na fyddai tomen lo yn dirywio i'r pwynt pan fo'n achosi risg i'r cyhoedd.

Cynlluniau cynnal a chadw a rheoli

- 9.70 Mae model posibl ar gyfer cynlluniau cynnal a chadw a rheoli yn cael ei ddarparu gan Ddeddf 2010. Mae Atodlen 3, sydd mewn grym yng Nghymru ond nid yn Lloegr, yn cyflwyno safonau statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu systemau draenio dŵr glaw newydd, a 'chorff cymeradwyo'. Gelwir y corff, sef yr awdurdod lleol yng Nghymru, yn Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB). Mae'n ofynnol i SAB gymeradwyo y rhan fwyaf o fathau o systemau draenio dŵr glaw cyn y gellir dechrau ar unrhyw waith adeiladu sydd â goblygiadau draenio. Pan fo'r systemau yn effeithio ar ddraeniad mwy nag un eiddo, mae'n ofynnol i'r corff cymeradwyo fabwysiadu a chynnal y system ar ôl iddi gael ei chwblhau i safon dderbyniol.
- 9.71 Amcan y dull yma, a elwir yn ddull systemau draenio cynaliadwy, yw rheoli dŵr glaw gyda'r nod o leihau difrod o ganlyniad i lifogydd, gwella ansawdd dŵr, gwarchod a gwella'r amgylchedd, gwarchod iechyd a diogelwch, a sicrhau sefydlogrwydd a gwytnwch systemau draenio. Yn ymarferol, y syniad yw sicrhau bod y cyngor lleol yn caniatáu unrhyw waith adeiladu newydd er mwyn lleihau swm yr wynebau anathraidd.⁵⁵⁶
- 9.72 Mae Safon 6 yn nodi safon draenio cynaliadwy statudol ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw er mwyn sicrhau rhwyddineb chynnal a chadw ac uniondeb strwythurol. Mae'r safon yn nodi y dylai'r dyluniad gynnwys cynllun cynnal a chadw arfaethedig sydd yn mynd i'r afael â rheoli'r system yn yr hirdymor; pan fo system angen gwaredu gwaddod er mwyn sicrhau ei bod yn dal i weithio, dylai'r cynllun ddarparu ar gyfer yr amllder a'r dull priodol o waredu gwaddod. Mae'r safon yn argymhell y dylai blocio neu rwystr fod yn amlwg drwy gynnal archwiliad gweledol ar yr wyneb.
- 9.73 Mae'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol ag Atodlen 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr sydd yn adeiladu system ddraenio i ddatblygu a chynhyrchu, mewn partneriaeth â SAB, gynllun cynnal a chadw a ffordd o ariannu'r cynllun drwy gydol oes ei ddyluniad. Mae'r canllawiau yn argymhell y dylai'r cynllun gynnwys materion megis y math o weithgareddau cynnal a chadw sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y system ddraenio yn gweithredu fel y'i dyluniwyd er mwyn rheoli risg llifogydd, amllder y gweithgareddau hynny, yr

⁵⁵⁶ Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3, paragraff 2 a R Burnett-Hall and B Jones (eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012) para 13-034. Gweler hefyd D Jenkins, *Report of a review of the arrangements for determining responsibility for surface water and drainage assets* (2020) sydd yn cynnwys ystyriaeth i weithredu cynllun draenio gynaliadwy yn Lloegr a'r angen am ddyletswyddau gorfodol er mwyn ei chynnal. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/911812/surface-water-drainage-review.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

amcangyfrif o gost a chynllun safle sydd yn dangos ardaloedd cynnal a chadw, llwybrau mynediad a lleoliadau ble disgwylir i weithgareddau cynnal a chadw ddigwydd.

- 9.74 Rhaid i'r cynllun ddangos yn glir pwy sydd yn gyfrifol am wneud y gwaith cynnal a chadw. SAB sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y system ddraenio yn cael ei chynnal yn unol â Safon 6. Mae'r canllawiau statudol yn awgrymu y gallai awdurdodau ddibynnu ar bwerau o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol er mwyn trosglwyddo'r gwaith o gynnal a chadw a rheoli'r System Ddraenio Gynaliadwy i'r awdurdodau lleol. Gallai hynny fod yn gyfnewid am daliad swm a gymudwyd a/neu daliad cost cynnal a chadw sydd yn adlewyrchu'r cynllun cynnal a chadw drwy gydol oes y datblygiad.
- 9.75 Mae'r system yn sicrhau y gall awdurdodau lleol fod yn fodlon ynghylch sut y bydd perchnogion yn cynnal systemau draenio cynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r cynllun cynnal a chadw hefyd yn darparu cam tuag at orfodi os bydd cyngor yn credu nad yw perchennog ased wedi cynnal y system yn unol â'r cynllun cynnal a chadw cymeradwy.⁵⁵⁷
- 9.76 Er nad yw'r rhan fwyaf o'r darpariaethau draenio cynaliadwy yn berthnasol i domennydd glo, gallai'r gofyniad i ddarparu cynllun cynnal a chadw a rheoli fod yn gysail defnyddiol, a hefyd y pwerau mynediad a gorfodi (a nodir yn y Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018⁵⁵⁸).
- 9.77 Byddai cymhwyso hynny i gategoriâu priodol o domennydd glo yn sicrhau bod cynllun rheoli/cynnal a chadw gorfodol yn ei le gyda gofyniad i'r perchennog gynnal tomen yn unol â'r cynllun cymeradwy. O dan Deddf 2010, gall methu â chynnal a chadw arwain at gamau gorfodi, gyda hawl i apelio. Pan ddefnyddir yr hawl i apelio, gall y cynlluniau statudol ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer cadarnhau neu wyrdroi'r orfodaeth.⁵⁵⁹

PWERAU I GYNNAL SYSTEMAU DRAENIO PRESENNOL

- 9.78 Mae yna bwerau eraill ar gyfer cynnal systemau draenio. Hefyd gellir gwneud gwaith ar ddraeniau a chwlferei fel rhan o bwerau draenio cyffredinol awdurdodau lleol o dan adran 14 Deddf Draenio Tir 1991. Gellir defnyddio'r pwerau i gynnal neu wella gwaith presennol, neu i wneud gwaith newydd, cyn belled â bod y gwaith yn rhan o gynllun adran 18.⁵⁶⁰ Mae cynllun adran 18 wedi ei gofrestru fel pridiant tir. Gellir defnyddio pŵer mynediad at ddibenion yr adran hon yn unig er mwyn cynnal gwaith

⁵⁵⁷ Cyfarfod gyda Tim Peppin a Jean-Francois Dulong, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

⁵⁵⁸ SI 2018 Rhif 1182 (W 241).

⁵⁵⁹ Mae'r Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (2018) yn darparu i apeliadau cael ei wneud i Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, byddent yn cael ei delio â gan yr Arolygiaeth Cynllunio ar gyfer Cymru: Welsh Government, *Sustainable Drainage Statutory Guidance* (2019), <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/statutory-guidance.pdf>.

⁵⁶⁰ Mae hwn yn gynllun ar gyfer y draenio o ardaloedd bach ble mae'r cyfansoddiad o ardal draenio fewnol ddim yn ddichonol.

presennol.⁵⁶¹ Un cyfyngiad ymarferol ar ddefnyddio pwerau yw bod yna gyfyngiadau ar y costau y gellir eu hadennill o dan y cynllun.⁵⁶²

- 9.79 Mae Adran 14A, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2010, yn rhoi pwerau penodol i awdurdodau lleol wneud gwaith rheoli risg llifogydd os bodlonir amodau penodol, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r strategaeth reoli risg llifogydd lleol, ac mai pwrpas y gwaith yw naill ai rheoli risg llifogydd o ddŵr wyneb ffo neu ddŵr tir yn ardal yr awdurdod lleol, neu mae'r gwaith yn gysylltiedig â chwrs dŵr arferol. Mae "llifogydd" yn cynnwys unrhyw achos pan fo tir nad yw fel arfer wedi ei orchuddio â dŵr yn cael ei orchuddio â dŵr.⁵⁶³ Diffinnir bod gwaith rheoli risg yn cynnwys cynnal gwaith presennol, yn cynnwys "cleansing, repairing or otherwise maintaining the efficiency of an existing watercourse or drainage work", yn ogystal â gwella gwaith presennol neu wneud neu atgyweirio gwaith newydd.⁵⁶⁴ Mae'r pŵer mynediad wedi ei gyfyngu yn yr un modd at ddibenion cynnal gwaith presennol.⁵⁶⁵ Nid oes yna bŵer penodol i adennill costau'r gwaith gan y tiffeddiannwr.
- 9.80 Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym mai effaith net y cyfyngiadau ar y pwerau yma yw nad yw awdurdodau lleol yn ymyrryd yn ymarferol ar dir preifat er mwyn gwneud gwaith ar systemau draenio ac eithrio mewn achosion o flocio neu fethiant. Nid ydynt yn gallu defnyddio'r pwerau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar ddraeniau yn fwy rhagweithiol er mwyn atal blocio.⁵⁶⁶
- 9.81 Mae yna bŵer mwy rhagweithiol i weithio ar systemau draenio wedi ei ddarparu gan Ddeddf Prifffyrdd 1980, er bod hynny wedi ei gyfyngu i dir sydd yn ffinio neu sydd yn agos at briffordd. Mae'r Ddeddf yn rhoi i awdurdod prifffyrdd bwerau amrywiol i gynnal, addasu neu waredu strwythurau neu waith sydd wedi ei leoli ar, uwch ben neu o dan dir nad yw'n eiddo i'r awdurdod ac nad yw'n rhan o'r briffordd. Un enghraifft yw'r pŵer i adeiladu draeniau ar dir sydd yn ffinio â neu sydd yn agos at y briffordd, ac i lanhau'r draeniau yma a'u cadw'n agored, pan fo hynny yn angenrheidiol ar gyfer draenio neu ddefnyddio ffordd arall o atal dŵr wyneb rhag llifo ar y briffordd.⁵⁶⁷ Mae pŵer mynediad yn cael ei ddarparu pan fo gan yr awdurdod prifffyrdd unrhyw bŵer i gynnal, addasu neu waredu unrhyw "strwythur gwaith" ar dir nad yw'n eiddo iddo neu nad yw'n rhan o'r briffordd y maent yn gyfrifol amdani. Diffinnir bod "gwaith" yn cynnwys cyrsiau dŵr, cwlferei a draeniau. Gall person yr awdurdodid iddo yn ysgrifenedig gan yr awdurdod prifffyrdd i gael mynediad i'r tir wneud hynny ar unrhyw adeg rhesymol.⁵⁶⁸

⁵⁶¹ R Burnett-Hall and B Jones (eds), *Burnett-Hall on Environmental Law* (3rd ed 2012), para 13-029. Mae adran 64 Deddf 1991 yn rhoi pŵer mynediad cyffredinol i ddefnyddio unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn ddarostyngedig, ac eithrio mewn achos brys, i roi hysbysiad am y bwriad i gael mynediad. Mae rhwystro mynediad yn fwiadol yn drosedd ddiannod y gellir ei chosbi â dirwy.

⁵⁶² Cyfarfod gyda Tim Peppin a Jean-Francois Dulong, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

⁵⁶³ Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a 1(1).

⁵⁶⁴ Deddf Draenio Tir 1991, S 14(A)9.

⁵⁶⁵ Deddf Draenio Tir 1991, S 14A(10)

⁵⁶⁶ Gweler paragraff 7.19 uchod.

⁵⁶⁷ Deddf Prifffyrdd 1980, a 100.

⁵⁶⁸ Deddf Prifffyrdd 1980, a 291.

- 9.82 Gallai Deddf 2010, ynghyd â chanllawiau statudol Cymreig a Deddf 1991, ddarparu model ar gyfer cofrestr tomennydd, dynodi safleoedd risg uchel, cynlluniau rheoli cytunedig, ac archwiliadau gyda phŵer mynediad er mwyn gorfodi'r cynllun rheoli. Byddi'n bwysig sicrhau bod pwerau yn galluogi i awdurdodau lleol sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud heb ofyniad i ddisgwyl am gwmp neu fethiant. Byddai angen i'r dull yma hefyd gael ei ategu gan ddyletswydd cyffredinol i archwilio nad yw'n ddibynnol ar ddangos achos i gredu nad yw'r cynllun wedi cael ei roi ar waith. Bydd hynny yn atgynhyrchu'r problemau a gafwyd o dan Deddf 1969.
- 9.83 Dywedodd rhanddeiliaid wrthym ei bod yn bwysig i ddarpariaethau deddfwriaethol newydd sydd yn gosod dyletswyddau statudol i ddarparu mecanwaith codi tâl benodol er mwyn adennill costau gan dirfeddianwyr. Pan fo deddfwriaeth yn methu â gwneud hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddibynnu ar ddeddfwriaeth arall, a'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn benodol, er mwyn ceisio adennill costau. Mae'r dull yma yn achosi anawsterau oherwydd gall cynghorau ond codi am wasanaethau dewisol ac nid am gyflawni dyletswyddau statudol.

Y GYFUNDREFN TIR HALOGEDIG O DAN RAN 2A DEDDF GWARCHODAETH AMGYLCHEDDOL 1990

- 9.84 Trafodwyd y gyfundrefn Rhan 2 a ddarparwyd gan Ddeddf Gwarchodaeth Amgylcheddol 1990 ar gyfer trin tir halogedig yn ein hadolygiad o'r gyfraith mewn perthynas â diogelwch tomennydd glo.⁵⁶⁹ Edrychwyd ar adolygiad CNC o'r defnydd o bwerau Rhan 2A rhwng 2001 a 2016.
- 9.85 Pan fo tir yn cael ei bennu fel tir halogedig, mae awdurdodau yn mynd ati i adfer y tir drwy ddefnyddio hierarchaeth o fecanweithiau. Mae'r rhain yn symud o sicrhau cytundeb gyda'r unigolyn priodol, i roi hysbysiad i hysbysu'r unigolyn hwnnw o beth sydd yn ofynnol ohonynt, neu wneud y gwaith ei hunain ar ôl rhoi datganiad adfer ac yna adennill y costau gan yr unigolyn priodol. Hefyd canfu'r astudiaeth mai dim ond mewn 3% o achosion o dir halogedig a nodwyd gan awdurdodau lleol y defnyddiwyd y gyfundrefn, ac mae'i dull gorfodi a ffafriwyd ar gyfer gorfodi oedd drwy'r system cynllunio. Rheswm pwysig am hynny oedd ei fod yn sicrhau y byddai'r gost o ddelio â halogiad yn cael ei ysgwyddo gan y rhai sydd yn debygol o elwa o ganlyniad i ddatblygu'r tir.
- 9.86 O dan amgylchiadau penodol gellir dynodi tir halogedig fel safle arbennig. Yn y sefyllfa hon mae rôl a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel y rheoleiddiwr arweiniol o dan Rhan 2A yn cael eu trosglwyddo i CNC. Gellid defnyddio'r model yma, fel yn yr achos o ddynodi cronfeydd dŵr risg uwch y trafodwyd uchod, i greu cynllun ar gyfer dynodi tomennydd risg uwch fyddai yn eu rhoi dan reolaeth un corff goruchwylio.

RHYWOGAETHAU ANFRODOROL

- 9.87 Mae pwerau a gyflwynwyd yn Neddf Seilwaith 2015 yn galluogi i CNC reoli rhywogaethau anffordorol ar dir preifat allai, os nad y'u rheolir, arwain at effeithiau sylweddol ar fioamrywiaeth, buddiannau amgylcheddol eraill neu fuddiannau

⁵⁶⁹ Gweler paragraffau 5.31 i 5.40 uchod.

economaidd eraill. Mae'r cynllun yn darparu enghraifft o ddull fesul cam o ymyrryd gan awdurdod, sydd yn symud o ymchwilio i gytundeb i gymell a gorfodi pan fo angen.⁵⁷⁰

- 9.88 Mae Atodlen 9A, a fewnosodwyd gan Ddeddf 2015 i Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, yn darparu i drefniadau rheoli rhywogaethau gael eu gwneud rhwng awdurdodau amgylcheddol (yng Nghymru, Gweinidogion Cymru a CNC) a pherchnogion mangreoedd (sy'n cynnwys tir), ac i orchmynion rheoli rhywogaethau gael eu gwneud gan yr awdurdodau amgylcheddol. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â rhywogaeth o anifail neu blanhigyn anfrodorol ymwithiol.
- 9.89 O dan gytundeb rheoli rhywogaethau, mae'r partïon yn cytuno ar weithgareddau rheoli rhywogaethau. Mae'n rhaid i'r cytundebau ddarparu ar gyfer cynnal y gweithgareddau, pa barti ddylai eu cynnal, a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Gall y cytundeb hefyd ddarparu i daliad gael ei wneud mewn perthynas â'r gweithgareddau.
- 9.90 Gall yr awdurdod roi gorchymyn rheoli rhywogaeth os bydd y perchennog wedi methu â chydymffurfio a chytundeb ac y rhoddwyd hysbysiad priodol iddynt am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i unioni hynny, neu pan gynigiwyd cytundeb i'r perchennog a'u bod wedi gwrthod llofnodi cytundeb gydag amodau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod ac mae'r awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn llofnodi cytundeb. Gall yr awdurdod roi gorchymyn hefyd os bydd yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol ar frys, neu os bu'n amhosibl canfod pwy yw'r perchennog er iddo gymryd camau penodol i geisio gwneud hynny. Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.
- 9.91 Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal y gweithgareddau rheoli rhywogaeth, neu ddarparu i'r awdurdod wneud hynny. Ac eithrio mewn achos gorchymyn brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl. Gall y gorchymynion gynnwys darpariaeth ar gyfer taliad gan yr awdurdod i'r perchennog mewn perthynas â chostau rhesymol y gweithgareddau sydd i'w cynnal gan y perchennog, neu daliad gan berchennog mewn perthynas â chostau rhesymol gweithgareddau sydd i'w cynnal gan yr awdurdod.
- 9.92 Mae'r atodlen hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer apeliadau a gorfodi. Mae'n darparu i berchennog mangre sy'n destun gorchymyn rheoli rhywogaeth apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf naill ai yn erbyn gwneud y gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo. Mae hefyd yn nodi pa gamau y gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf eu cymryd wrth benderfynu ar apêl. Mae'r apeliadau'n mynd i awdurdodaeth yr Amgylchedd yn y Siambr Reoleiddio Gyffredinol.⁵⁷¹ Mae pwerau gorfodi yn cynnwys pŵer i'r awdurdod wneud y gwaith sydd yn ofynnol drwy orchymyn pan fo'r perchennog wedi methu â chynnal y gweithgareddau, neu i wneud hynny mewn ffordd a nodir yn y gorchymyn. Yn yr achos hwnnw, gall yr awdurdod adennill y costau a ysgwyddwyd o ganlyniad i wneud hynny. Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn neu rwystro gweithgaredd yn fwriadol yn drosedd.

⁵⁷⁰ Deddf Seilwaith ss 23 i 25. Roedd Deddf 2015 yn dilyn argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghyfraith Bywyd Gwylt: Deddf Rheoli Rhywogaethau Anfrodorol Ymwithiol (2014) Com 342.

⁵⁷¹ Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A, para 16.

- 9.93 Rhaid i'r Ysgrifenydd Gwladol yn Lloegr a Gweinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer er mwyn darparu canllawiau ymarferol ar ddefnyddio cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau.⁵⁷²
- 9.94 Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y gyfundrefn reoleiddio yma ar ôl canfod nad oes mecanwaith yng Nghymru a Lloegr ar gyfer gorfodi'r perchennog/meddiannwr i gymryd camau heb eu caniatâd. Roedd ein hadroddiad yn ystyried ar ba lefel y dylai'r pŵer llunio gorchmynion gael ei ddefnyddio. Petai'n cael ei gyfyngu i lefel llywodraeth yn unig, roeddem yn casglu y gallai effeithiolrwydd yr offeryn gael ei leihau, oherwydd byddai'r pŵer rhoi gorchmynion yn cael ei wahanu oddi wrth y rhai sydd yn gyfrifol am ddarpariaeth gweithredol.⁵⁷³
- 9.95 Roedd yr adroddiad yn cydnabod yr angen am gyfyngiadau gofalus ar bwerau sydd yn ymyrryd ar fwynhad unigolyn o dir neu eiddo. Roedd gwarchodaeth i gael ei ddarparu'n gyntaf drwy ddiffinio testun y gorchmynion a'r cytundebau yn ofalus, ac yn ail drwy gymhwyso egwyddor cymesured.⁵⁷⁴ Mae Erthygl 1 Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymyrraeth ag eiddo unigolyn fod yn gyfreithiol ac at ddiben dilys, ac y dylai'r dull a ddefnyddir fod yn gymesur â'r nod sydd i'w gyflawni er mwyn creu "cydbwysedd teg" rhwng lles cyffredinol y gymuned a hawliau sylfaenol yr unigolyn.⁵⁷⁵ Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell y dylid cael gofyniad i darparu rhesymau dros roi gorchymyn.
- 9.96 Cyn y gellir rhoi gorchymyn, mae Deddf 2015 yn nodi bod raid i'r awdurdod fod yn fodlon bod anifail neu blanhigyn ymwithiol, fel y'i diffinnir, yn bresennol ar yr eiddo.⁵⁷⁶ Rhaid i'r awdurdod hefyd fod yn fodlon bod darpariaethau'r gorchymyn yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.⁵⁷⁷ Pan roddir hysbysiad am lunio gorchymyn, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnwys y rhesymau dros roi'r gorchymyn hwnnw, a'r rhesymau dros unrhyw ofynion a roddir ganddo ar y perchennog.⁵⁷⁸
- 9.97 Yn yr un modd, roedd yr adroddiad yn cydnabod bod raid i'r pŵer mynediad a ddarparwyd gan y gyfundrefn newydd adlewyrchu cydbwysedd rhwng hawliau unigolyn a lles y cyhoedd. Yng Nghymru a Lloegr, mae mynediad ar eiddo preifat gan unrhyw unigolyn yn dresmasu oni bai y rhoddir caniatâd neu bod y mynediad wedi ei awdurdodi fel arall gan statud neu gyfraith gyffredin.⁵⁷⁹ Hefyd mae'n rhaid i'r defnydd o rym i gael mynediad i dir neu eiddo gael ei awdurdodi'n benodol gan statud neu

⁵⁷² Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, atodlen 9A paragraffau (26) a (27).

⁵⁷³ Comisiwn y Gyfraith, Cyfraith Bywyd Gwyllt: Deddf Rheoli Rhywogaethau Anfroddorol Ymwithiol (2014) Com 342, 342, paragraff 3.10.

⁵⁷⁴ Paragraff 3.23 uchod.

⁵⁷⁵ Paragraff 3.34 uchod.

⁵⁷⁶ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraffau (2) a (10).

⁵⁷⁷ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraffau (10) (3).

⁵⁷⁸ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraffau (14) (3).

⁵⁷⁹ *Entick v Carrington* (1765) 19 State Tr 1065, [1765] 1 WLUK 1.

gyfraith gyffredin, neu gall y mynediad fod yn drosedd.⁵⁸⁰ Mae hynny yn cael ei orfodi gan erthygl 8 o'r ECHR ac erthygl 1 ei brotocol gyntaf.⁵⁸¹

- 9.98 Gellir defnyddio rhai pwerau dan warant yn unig, er mwyn sicrhau lefel ychwanegol o oruchwyliaeth yn yr ymarferiad o gydbwyso rhwng hawliau'r unigolyn a lles y cyhoedd. Pan ellir defnyddio pwerau mynediad heb warant, mae angen gwarantau gweithdrefnol eraill, megis y gofyniad i roi hysbysiad y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio. Mae mynediad drwy warant yn cael ei ddarparu fel y dewis olaf.⁵⁸²
- 9.99 Roedd yr adroddiad yn nodi, yn dilyn adolygiad o bwerau mynediad, yn 2012 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref "borth pwerau mynediad". Rhaid i unrhyw bŵer mynediad fodloni gofynion angenrheidrwydd, cymesuredd a champau diogelu. Mae canllawiau'r porth yn nodi y dylid ond defnyddio pwerau mynediad pan fo angen, yn hytrach na'n rheolaidd. Dylai'r defnydd o rym i sicrhau mynediad, neu fynediad heb ganiatâd y meddiannwr, gael ei awdurdodi o dan warant yn unig. Dylid rhoi hysbysiad ymlaen llaw ynghylch y defnydd o bŵer mynediad ac eithrio mewn achos brys, pan fo yna risg o niwed difrifol i'r cyhoedd, neu pan fyddai hysbysiad yn drech na diben y mynediad. Os bydd y perchennog yn gwrthod mynediad ar ôl derbyn hysbysiad, dylid cael gwarant.⁵⁸³
- 9.100 Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu'r dull yma drwy bennu cyfyngiadau ar bwerau mynediad. Rhaid i hynny gael ei ddefnyddio at y diben a nodwyd, yn cynnwys er mwyn penderfynu a ddylid cynnig cytundeb rhywogaeth neu beidio, er mwyn rhoi gorchymyn rheoli rhywogaeth, ymchwilio i ddiffyg cydymffurfiaeth â gorchymyn neu i gynnal gweithgareddau rheoli rhywogaeth o dan orchymyn rheoli rhywogaeth. Ni all yr awdurdod ddefnyddio'r pŵer mynediad er mwyn ymchwilio i a ddylid llunio cytundeb neu orchymyn oni bai bod yna sail rhesymol dros amau bod y rhywogaeth yn bresennol.⁵⁸⁴ Rhaid i'r defnydd o bŵer mynediad gael ei awdurdodi gan warant a roddir gan ustus heddwch o dan amgylchiadau penodol, yn cynnwys pan fo'r tir yn annedd neu'n ardaloedd eraill megis gardd a ddefnyddir gyda'r annedd, pan wrthodwyd mynediad neu mae'n debygol o gael ei wrthod gan berchennog, nid oedd meddianwyr yn yr eiddo neu mae'r perchennog yn absennol dros dro, a phan mai diben y mynediad yw cynnal gweithgareddau o dan orchymyn brys neu pan nad yw'n hysbys pwy yw'r perchennog.⁵⁸⁵ Ym mhob achos arall, gall yr awdurdod amgylchedd

⁵⁸⁰ Mae a 1 i 3 o'r Ddeddf Difrod Troseddol 1971 yn creu troseddau o ddinistrio neu niweidio eiddo heb esgus cyfreithiol, neu o fygwth i wneud, ac o feddu unrhyw beth gyda'r bwriad o wneud. Mae a 6 o'r Ddeddf Cyfraith Droseddol 1977 yn creu trosedd o ddefnyddio neu fygwth trais heb awdurdod cyfreithlon ar gyfer y pwrpas o sicrhau mynediad i unrhyw fangre, os mae yna rywun tu fewn sy'n wrthwynebol i'r mynediad. Mae'n amherthnasol os mae'r trais wedi'i anelu at eiddo neu berson.

⁵⁸¹ Cyfraith Bywyd Gwyllt: Deddf Rheoli Rhywogaethau Anffrodorol Ymwithiol (2014) Com 342, paragraff 3.95 a 3.96. Mae erthygl 8 o'r ECHR yn darparu hawl ar gyfer parch am fywyd preifat a teuluol, gartref a gohebiaeth.

⁵⁸² Uchod 3.97 a 3.99.

⁵⁸³ Paragraff 3.103 uchod a gweler Home Office, *Guidance on powers of entry gateway* (2012) p 9. Lluniwyd y canllawiau ar ôl ymddeddfu Deddf Diogelu Rhyddidau 2012.

⁵⁸⁴ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraff (21).

⁵⁸⁵ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraff (22).

roi awdurdod ysgrifenedig i unigolion gael mynediad, a rhaid rhoi hysbysiad rhesymol i'r perchennog. Diffinnir bod hynny yn ddim llai na 48 awr.⁵⁸⁶

9.101 Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu y gall yr unigolyn a awdurdodwyd i gael mynediad fynd ag unigolion eraill, offer, peirianwaith neu ddeunyddiau gyda nhw a chymryd samplau o unrhyw beth yn yr eiddo.⁵⁸⁷

9.102 Mae'r cynllun yn cynnig hierarchaeth ofalus o raddedig o fecanweithiau er mwyn cyflawni ei amcanion, o gytundeb i orchymyn, naill ai er mwyn cymell y perchennog i wneud y gwaith ei hun neu i ganiatáu i'r awdurdod wneud y gwaith ac adennill y costau. Mae yna bŵer i ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio. Mae yna wahaniaethau yn natur y peryglon yr ymdrinnir â nhw. Oherwydd nad yw rhywogaethau anfrodorol yn broblem gudd fel arfer, nid oes angen dyletswydd gyffredinol i archwilio eu presenoldeb; gellir defnyddio'r pŵer pan fo achos i gredu bod y rhywogaeth yn bresennol. Mewn cyfundrefn tomennydd glo ddiwygiedig, byddai dyletswydd gyffredinol i archwilio yn caniatáu i broblemau gael eu canfod cyn iddynt fod yn fygythiad. Hefyd, yn achos rhywogaethau anfrodorol, nid yw mater cynnal a chadw ataliol yn codi.

DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016

9.103 Mae Adran 16 Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi pŵer i CNC i lunio cytundebau rheoli tir er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r awdurdod lunio cytundeb gydag unrhyw unigolyn sydd â buddiant mewn tir yng Nghymru ynghylch rheoli neu ddefnyddio'r tir os bydd gwneud hynny yn hyrwyddo "unrhyw amcan sydd ganddo wrth gyflawni ei swyddogaethau". Gall cytundeb rheoli tir, er enghraifft, bennu rhwymedigaethau mewn perthynas â defnyddio'r tir, cyfyngiadau ar ddefnyddio hawliau ar y tir neu ddarparu ar gyfer gwneud gwaith "fyddai'n gyfleus at ddibenion y cytundeb". Gallai ymestyn y pŵer yma i ganiatáu llunio cytundebau rheoli rhwng perchnogion tomennydd glo a'r awdurdodau sydd yn gyfrifol am ddiogelwch tomennydd glo ddarparu dull effeithiol o gynnal a chadw tomennydd.

RHEOLI GOLLYNGIADAU DŴR O FWYNGLODDIAU

9.104 Mae Adrannau 4A i 4G Deddf Diwydiant Glo 1994, a fewnosodwyd gan Ddeddf Dŵr 2003, yn darparu pwerau eang i'r Awdurdod Glo reoli rhyddhau dŵr o fwyngloddiau.⁵⁸⁸ Maent yn enghraifft o ddull rheoleiddio sydd yn dyrannu cyfrifoldeb yn uniongyrchol i awdurdod er mwyn gwneud gwaith rheoli ac adfer, mewn ffordd sydd yn rhoi disgrisiwn eang. Mae'r model yn seiliedig ar dderbyn bod rhyddhau dŵr o fwyngloddiau yn berygl sylweddol ac yn atebolrwydd sydd yn deillio o'r diwydiant mwyngloddio hanesyddol, a chyfrifoldeb yr awdurdod yw hynny yn hytrach na'r perchennog preifat. Mae'r pwerau yn eang a maent yn cwmpasu pwerau mynediad ar gyfer archwilio mewn achosion o risg i'r amgylchedd ac iechyd pobl, disgrisiwn

⁵⁸⁶ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraff (23).

⁵⁸⁷ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 9A paragraff (24).

⁵⁸⁸ Mae rheoli rhyddhau dŵr o fwyngloddiau, yn ogystal ag ymsuddiant mwyngloddio glo fel y trafodir isod, yn faterion a gadwyd. Gweler y drafodaeth ym mhennod 5.

ynghylch y camau priodol ddylid eu cymryd, a phwerau pryniant gorfodol. Mae'r darpariaethau fel a ganlyn:

- (1) adran 4A: power to prevent discharge of water from coal mine: under section 4A(1) the Authority may take such action as it considers appropriate (if any) for the purpose of preventing, or mitigating the effect of, the discharge of water from a coal mine into or on to any land or into any controlled waters;
- (2) adran 4B: power of entry and investigation in cases of risk of serious pollution to the environment or danger to life or health from discharge of water from a coal mine in order to determine the extent of the pollution or of the danger, to determine whether and if so how the Authority should exercise its section 4A power, and to take action;
- (3) adran 4C: a compulsory purchase power to prevent, or mitigate the effect of, discharge of water where this is causing or is likely to cause significant pollution or serious harm to human health;
- (4) adran 4CA: power to "take such action as it considers appropriate" in respect of subsidence arising other than in connection with coal-mining, and for the purpose of preventing or mitigating the discharge of water other than from a coal mine;
- (5) adrannau 4D - 4G: pwerau i "take such action as it considers appropriate" mewn perthynas â rhyddhau dŵr o fwynglawdd glo yn Yr Alban.

DEDDF YMSUDDIANT GLOFAOL 1991

9.105 Mae Deddf Ymsuddiant Glofaol 1991 yn enghraifft o ddull rheoleiddio sydd yn gosod dyletswydd yn uniongyrchol ar awdurdod rheoleiddio er mwyn delio ag atebolrwydd mwynloddio. O dan y Ddeddf mae gan yr Awdurdod Glo ddyletswydd i gymryd camau adfer mewn perthynas â difrod o ganlyniad i ymsuddiant i unrhyw eiddo a achoswyd gan dynnu cynhaliaeth o dir o ganlyniad i fwyngloddio glo, ac eithrio pan fo'r tir a ddifrodwyd mewn ardal y mae unrhyw unigolyn sydd yn ddeiliad trwydded mwynloddio yn gyfrifol amdano.⁵⁸⁹ Mae'r Awdurdod hefyd yn rhwymedig i dalu am gostau gwaith adfer a wneir gan drydydd parti, a thalu iawndal pan fo gwerth yr eiddo wedi gostwng.⁵⁹⁰

RHEOLAU STATUDOL MEWN AWDURDODAETHAU ERAILL

9.106 Rydym hefyd wedi edrych ar awdurdodaethau eraill am ddulliau rheoleiddio posibl ar gyfer tomennydd glo anweithredol. Yn rhyngwladol, mae yna nifer o drychinebau wedi digwydd o ganlyniad i wastraff mwynloddiau. Mae hynny wedi arwain at ddeddfwriaeth er mwyn rheoli tomennydd gwastraff gweithredol ac argaeau. Y dull a ddefnyddir yn aml yw pennu gofyniad i ddarparu bond ar gyfer adfer safle pan roddir y drwydded mwynloddio.

⁵⁸⁹ Deddf Ymsuddiant Glofaol 1991, ss 1 a 2, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwydiant Glo 1994, a 43.

⁵⁹⁰ Deddf Ymsuddiant Glofaol 1991, ss 11 a 12, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwydiant Glo 1994, a 43.

- 9.107 Nid yw'r dull hwn o reoleiddio yn cynnwys tomennydd gwastraff cysylltiedig â mwyngloddiau a adawyd cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Enghraifft o hyn yw Cyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio'r UE, a drafodir ym mhennod 5. Fel y disgrifiwyd mewn perthynas â'r sefyllfa yn y DU, nid yw'r Gyfarwydddeb yn gymwys i fwyngloddiau a gaewyd cyn 2008.⁵⁹¹
- 9.108 Nid oeddem yn gallu canfod unrhyw ddeddfwriaeth oedd yn benodol gysylltiedig â rheoleiddio tomennydd gwastraff segur ac eithrio Deddf 1969. Nid oeddem yn gallu canfod, er enghraifft, unrhyw ddeddfwriaeth sydd yn pennu dyletswydd i adfer safle mwynglawdd segur. Yn hytrach, roedd y rhan fwyaf o'r modelau a archwiliwyd gennym yn rhoi pwerau i awdurdodau gwladol i ddynodi safle ac i orchymyn gwaith adfer. Fel arfer roedd y pwerau yma yn cael eu hategu gan gronfeydd er mwyn ariannu'r gwaith adfer, yn ogystal â phwerau mynediad i'r safle.
- 9.109 Enghraifft dda o'r dulliau yma yw Deddf Rheoli ac Adfer Mwyngloddio Brig 1977 (SMCRA) yn yr Unol Daleithiau. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sicrhau gwaith adfer yn dilyn gwaith gweithgareddau mwyngloddio ac mewn perthynas â gweithfeydd segur. I ddechrau, mae'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu cynllun adfer cyn rhoi unrhyw drwydded i ddechrau mwyngloddio. Hefyd mae'n rhaid i weithredwyr dalu bond perfformiad er mwyn gwarantu y bydd arian ar gael i gwblhau'r gwaith adfer, gyda'r amcan o sicrhau bod gwaith adfer yn cael ei gwblhau hyd yn oed os bydd busnes y gweithredwr yn methu cyn cwblhau'r gwaith adfer, neu pa nad yw am resymau eraill yn gallu cwblhau'r prosiect. Nid yw'r bond yn cael ei ryddhau tan ar ôl i'r swyddfa reoleiddio ffederal neu daleithiol benderfynu bod y gwaith adfer wedi bod yn llwyddiannus, allai fod dros ddeng mlynedd ar ôl cwblhau'r broses adfer.⁵⁹²
- 9.110 Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu safon ar gyfer adfer, yn yr ystyr ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i safle glofa gael ei adfer i gyflwr "capable of supporting the uses which it was capable of supporting prior to any mining, or higher or better uses". Yn ymarferol mae'r dehongliad o'r gofyniad yma yn amrywio o un dalaith i'r llall.⁵⁹³
- 9.111 Mae SMCRA hefyd yn darparu arian ar gyfer prosiectau adref mewn perthynas â mwyngloddiau a adawyd, wedi ei ategu gan bŵer, yn hytrach na dyletswydd, i ddynodi safleoedd. Sefydlodd y Ddeddf gronfa ymddiriedolaeth, Cronfa Mwyngloddiau Tir Gadwedig, er mwyn ariannu'r gwaith o adfer mwyngloddiau a adawyd cyn pasio'r Ddeddf yn 1977. Hefyd, sefydlodd y Swyddfa Adfer a Gorfodi Mwyngloddio Brig. Ariennir y gronfa gan dreth a lo a fwyngloddio gan weithredwyr glofeydd presennol. Mae'r Swyddfa yn goruchwyllo rhaglenni adfer taleithiol.⁵⁹⁴
- 9.112 Yn New South Wales, Awstralia, mae Adran 3A Deddf Mwyngloddio 1992 yn rhoi pŵer i Weinidog ddynodi safle mwynglawdd segur, a ddiffinnir fel safle a ddefnyddiwyd ar gyfer, neu yr effeithiwyd arno gan, weithgaredd mwyngloddio gadwedig. Gall y Gweinidog "cause steps to be taken to have a derelict mine site fully

⁵⁹¹ Gweler paragraff 5.5 uchod.

⁵⁹² L Sloss, "Coal Mine Site Reclamation" *IEA Clean Coal Centre* (2013), https://usea.org/sites/default/files/022013_Coal%20mine%20site%20reclamation_ccc216.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁵⁹³ Uchod.

⁵⁹⁴ Gweler <https://www.osmre.gov/about.shtm> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

or partially rehabilitated and may, for that purpose, enter into contracts or agreements".⁵⁹⁵ Yna gall unigolyn awdurdodedig gael mynediad i'r tir a "do anything that in the person's opinion is necessary for or in connection with the rehabilitation", cyn belled â'u bod wedi rhoi hysbysiad rhesymol i'r tîrfeiddiannwr. Os bydd y tîrfeiddiannwr yn dioddef difrod o ganlyniad i hynny, mae ganddynt hawl i dderbyn iawndal rhesymol.⁵⁹⁶ Gellir talu'r iawndal yma, ac unrhyw gostau eraill cysylltiedig â'r adsefydlu o Gronfa Safleoedd Mwyngloddiau Gadwedig.⁵⁹⁷

9.113 Yn Tasmania, o dan Ddeddf Datblygu Adnoddau Mwynau 1995, gall y Gweinidog achosi i "any abandoned mining land or land affected by former exploration activities to be rehabilitated" a "enter into any contract relating to the environmental rehabilitation of any abandoned mining land or land affected by former exploration activities".⁵⁹⁸ Mae yna hefyd Gronfa Ymddiriedolaeth Adsefydlu Tiroedd Mwyngloddio⁵⁹⁹ ar gael ar gyfer hynny.

9.114 Mae gan Orllewin Awstralia Gynllun Mwyngloddiau gadwedig a sefydlwyd yn dilyn Deddf Cronfa Adsefydlu Mwyngloddio 2012. Ffurfiolwyd y Cynllun yn dilyn Polisi Mwyngloddiau Gadwedig yn Ionawr 2016. Mae yna hefyd Banel Cynghori ar Adsefydlu Mwyngloddio sydd yn rhoi cyngor ar brosiectau adsefydlu.⁶⁰⁰ Mae Arolwg Daearegol o Orllewin Awstralia hefyd wedi cynhyrchu rhestr o nodweddion safleoedd mwyngloddiau gadwedig.

9.115 Mae yna rai dulliau diddorol o adfer yn bodoli yn Ewrop. Yn yr Almaen mae tomennydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer ffermydd gwynt a ffotofoltaidd.⁶⁰¹ Yn Sweden, cyn belled nad oes gan wastraff glo y potensial o greu asid, mae wedi cael ei ail ddefnyddio mewn prosiectau adeiladu megis ffyrdd, fel deunydd ôl-lenwi ac ar gyfer adeiladu waliau llwch ar gronfeydd tywod. Ystyrir nad yw'r defnyddiau yma yn mynd yn groes i'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff cyn belled bod y deunydd yn cael ei ddosbarthu fel sgil-gynnyrch gweddilliol o'r prif weithgaredd mwyngloddio y gellir ei ddefnyddio heb ei brosesu, mae ei ddefnydd terfynol yn glir ac nad yw defnyddio'r deunydd yn cael ei wahardd am resymau diogelwch amgylcheddol.⁶⁰² Yn Ffrainc, ble mae rhai o domennydd glo uchaf Ewrop, mae tomennydd wedi cael eu defnyddio fel

⁵⁹⁵ Deddf Mwyngloddio 1992, Rhan 11, Adran 3A, 242A

⁵⁹⁶ Deddf Mwyngloddio 1992, Rhan 11, 3A, 242B(4).

⁵⁹⁷ Deddf Mwyngloddio 1992, Rhan 11, 3A, 242C.

⁵⁹⁸ Deddf Datblygu Adnoddau Mwynau 1995, adran 180.

⁵⁹⁹ Deddf Datblygu Adnoddau Mwynau 1995, adran 181.

⁶⁰⁰ Gweler Department of Mines, Industry Regulation and Safety, Abandoned Mines Program, <http://www.dmp.wa.gov.au/Environment/Abandoned-mines-projects-18193.aspx> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁶⁰¹ J Kretschmann, AB Efremenkova, AA Khoreshok, "From Mining to Post-Mining: The Sustainable Development Strategy of the German Hard Coal Mining Industry" 50 (2017) *Earth and Environmental Science*.

⁶⁰² Gweler Swedish Environmental Protection Agency and Geological Survey of Sweden, Förslag Till Strategi För Hantering Av Gruvavfall [Proposed Strategy for the Management of Mining Waste] <https://www.naturvardsverket.se/upload/miljoarbete-i-samhallet/miljoarbete-i-sverige/regeringsuppdrag/2017/gruvavfall/strategi-forslag-hantering-gruvavfall-20170913.pdf>; (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

gwarchodfeydd bioamrywiaeth.⁶⁰³ Mae Ffrainc hefyd yn darparu model defnyddiol ar gyfer canllawiau i dirfeddianwyr sydd yn caffael tomennydd ar ôl i fwyngloddio ddod i ben.⁶⁰⁴

- 9.116 Mae'r enghreifftiau rhyngwladol yma yn darparu modelau ar gyfer mentrau adfer sydd yn amcanu at adfer defnydd tir buddiol, yn hytrach nag er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw cysylltiedig â diogelwch. Nid yw mentrau adfer yn rhan o'r prosiect hwn, ond fe'u hystyrir yn y bennod nesaf fel atodiad posibl i fframwaith rheoleiddio.

⁶⁰³ K Patowary, "The Slag Heaps of Loos-en-Gohelle" (2015) *Amusing Planet*, ar gael yn <https://www.amusingplanet.com/2015/08/the-slag-heaps-of-loos-en-gohelle.html> (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021).

⁶⁰⁴ Société de l'industrie minérale, Guide du détenteur de terrils et autres dépôts miniers issus de l'activité charbonnière (2003). Mae'r canllawiau yn helpu i berchnogion ddeall sut mae sicrhau diogelwch parhaus safle'r domen, ac yn argymhell gweithgareddau megis arolygon arbenigol a goruchwylio'r domen yn rheolaidd, yn arbennig ar ôl glaw trwm.

Pennod 10: Cynigion dros dro ar gyfer cyfundrefn diogelwch tomennydd glo newydd

EGWYDDORION CYFFREDINOL

- 10.1 Rydym wedi nodi'r angen i symud oddi wrth ddull cyfrwng benodol i ddull mwy holistig ar gyfer unrhyw fframwaith rheoleiddio i'r dyfodol. Yng nghyd-destun tomennydd glo, rydym yn credu bod hynny yn golygu mabwysiadu fframwaith sydd yn gallu cael ei ymestyn er mwyn cynnwys gwastraff o bob math o fwyngloddiau yng Nghymru ac sydd yn gallu mynd i'r afael ag amrywiaeth o risgiau llygredd yn ogystal ag ansefydlogrwydd. Mae angen i'r fframwaith fod yn ddigon cydnerth i ddelio â goblygiadau newid hinsawdd. Mae angen iddo hefyd fod yn ddigon hyblyg i weithio yn gyfochrog â deddfwriaeth arall sydd yn darparu gwarchodaeth amgylcheddol, yn cynnwys mewn sefyllfaoedd brys, er mwyn delio â blaenoriaethau cystadleuol a chreu'r canlyniad amgylcheddol gorau posibl.
- 10.2 Mae dull gweithredu mwy cyfannol hefyd yn codi'r cwestiwn a ddylai'r fframwaith rheoleiddio sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer tomennydd glo allu ehangu i gynnwys gwastraff o fathau eraill o gloddio yng Nghymru. Mae'r papur hwn, y cwestiynau y mae'n eu gofyn a'r cynigion y mae'n eu gwneud dros dro, wedi'u hanelu at nodi fframwaith cyfreithiol sy'n mynd i'r afael â materion diogelwch mewn tomennydd glo yn unig. Ond efallai y gellir ymestyn y fframwaith rydym yn ei nodi, gydag addasiadau neu hebddynt, i fathau eraill o wastraff mwyngloddio. Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ba mor ymarferol a dymunol fyddai cynnwys mathau eraill o awgrymiadau o fewn cwrpas y fframwaith cyfreithiol arfaethedig. Mae'r mater y tu hwnt i'n cylch gorchwyl a mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu arno, ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym ei bod yn croesawu safbwyntiau ar y mater.
- 10.3 Mae ein hadolygiad o'r problemau a wynebwyd gyda'r dull presennol o reoli tomennydd anweithredol wedi nodi diffygion posibl yn y fframwaith rheoleiddio a grewyd gan Ran 2 Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969. Yn benodol, nid yw'r Ddeddf yn creu dyletswydd i sicrhau diogelwch tomennydd glo. Nid yw'n darparu pwerau yng nghyswllt peryglon i'r domen heblaw am ansefydlogrwydd; yn ogystal, nid yw'n creu pŵer i ymyrryd oni bai fod pryder bod tomen yn ansefydlog, ac o ganlyniad nid yw'n rhoi pŵer i ymyrryd cyn i domen ddod yn berygl i wneud y math o waith cynnal a chadw a allai atal y domen rhag mynd yn ansefydlog. Mae'r pwerau y mae'n eu creu yn dameidiog ar draws awdurdodau lleol, gan arwain at safonau diogelwch anghyson a dosbarthiadau risg.
- 10.4 Mae ein adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol hefyd yn awgrymu y gellir distyllu dwy egwyddor arall er mwyn arwain y broses o lunio fframwaith newydd: cysondeb dull ac atal niwed drwy ddefnyddio dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.⁶⁰⁵ Mae'r egwyddorion yma yn alinio'n dda â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r gofyniad yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i weithredu'n unol â'r egwyddor hon. Yn benodol, mae egwyddor

⁶⁰⁵ Gweler y drafodaeth ym mhennod 7.

datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ystyried yr hirdymor, i gymryd camau sydd yn helpu i atal problemau rhag digwydd, ac i ddefnyddio dull integredig.

TOMENNYDD CYSYLLTIEDIG Â MWYNGLODDIAU GWEITHREDOL

- 10.5 Ein barn dros dro yw nad oes angen cynnig unrhyw newid i'r gyfundrefn sydd yn rheoli yr ychydig domennydd sydd ar ôl yng Nghymru sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol. Dywedwyd wrthym bod y gyfundrefn gyfreithiol reoleiddiol bresennol yn gynhwysfawr a digonol. Pan fo pryderon yn codi, er enghraifft o ran yr amodau sydd yn rheoli cau mwyngloddiau ac adfer y tomennydd cysylltiedig, mae'r rhain yn gysylltiedig â gweithredu'r camau rheoli sydd ar gael yn ymarferol, ac nid â'r fframwaith cyfreithiol sydd yn bodoli.

Cwestiwn Ymgynghoriad 1.

- 10.6 Rydym yn cynnig ar hyn o bryd na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.

A ydych yn cytuno?

- 10.7 Mae'r gyfundrefn honno wedi ei dylunio ar gyfer tomennydd gaiff eu rheoli gan weithredwyr mwyngloddiau y mae gweithgareddau eu glofeydd at ei gilydd yn ddarostyngedig i Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r tomennydd yn dal i dderbyn gwastraff glofeydd. Ein barn ar hyn o bryd yw bod tomennydd anweithredol yn dal i fod angen cyfundrefn ar wahân sydd wedi ei theilwra i amgylchiadau tomennydd nad ydynt ar y cyfan ar dir sydd yn eiddo i neu na reolir gan gorff sydd ag arbenigedd mwyngloddio nac amgylcheddol. Yn wahanol i'r gyfundrefn bresennol, dylai'r gyfundrefn newydd ystyried y ffaith bod tomennydd anweithredol erbyn hyn yn cynnwys tomennydd mawr iawn, ac mewn rhai achosion tomennydd peryglus a grëwyd gan fwyngloddio glo diwydiannol.
- 10.8 Bydd gweddill y bennod hon yn edrych ar ddyluniad fframwaith rheoleiddio posibl sydd yn darparu cysondeb o ran rheoli tomennydd anweithredol ac sydd yn defnyddio dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.

ELFENNAU FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO NEWYDD AR GYFER TOMENNYDD ANWEITHREDOL

Diffiniad o domen a thomen anweithredol

- 10.9 Mae'r diffiniad o domen yn Rhan 2 Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 wedi'i nodi ym mharagraff 4.31 uchod.⁶⁰⁶ Defnyddir diffiniadau ychydig mwy manwl o domen yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Chwareli 1999 ac yn rheoliad 2 o

⁶⁰⁶ Mi oedd y diffiniad yma wedi'i chynnwys yn wreiddiol mewn a 2 o'r Ddeddf 1969, ond symudodd i a 11 pan oedd a 2 wedi'i diddymu gan y Rheoliadau Mwyngloddiau 2014.

Reoliadau Mwyngloddiau 2014, a nodir ym mharagraff 4.64 a 4.74 uchod.⁶⁰⁷ Maent yn wahanol i ddiffiniad Deddf 1969 o ran cynnwys cyfeiriadau penodol at wastraff mewn “cyflwr hylifol” ac at domennydd orlwythi, ôl-lenwi, tomennydd rwbel, pentyrrau stoc a morlynnoedd.

- 10.10 Mae Deddf 1969 yn diffinio domen *anweithredol* fel domen nad yw’n un y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddi. Rydym eisoes wedi cynnig dros dro uchod y dylai’r trefniadau yn y Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli barhau i fod yn berthnasol i domennydd sy’n gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol; felly rydym o’r farn dros dro, fel ar hyn o bryd, y dylid mynegi’r ddeddfwriaeth newydd i beidio â bod yn berthnasol i domennydd y mae’r Rheoliadau Chwareli neu’r Rheoliadau Mwyngloddiau yn berthnasol iddynt.
- 10.11 Oni fydd unrhyw ddeddfwriaeth sy’n deillio o’r prosiect hwn yn cael ei hystreyn i bob math o waith cloddio a gwastraff chwarel, bydd y ddeddfwriaeth yn gofyn am ddiffiniad o domen lo. Mater i’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw manylion drafftio deddfwriaethol, ond mae deddfwriaeth o’r math hwn yn anochel yn defnyddio terminoleg sy’n fwy cyfarwydd i’r rhai yn y diwydiant mwyngloddio nag i gyfreithwyr. Rydym yn ceisio barn ynghylch a ellid llunio diffiniad boddhaol drwy ddisodli’r cyfeiriad at “dreulio o fwynglawdd neu chwarel” yn adran 11 Deddf 1969 gyda geiriau fel “gwastraff o gloddio glo” ac a oes angen i drefn o domennydd anweithredol gynnwys cyfeiriad at domennydd gorlwythi, ôl-lenwi, tomennydd rwbel, pentyrrau stoc a morlynnoedd.

Cwestiwn Ymgynghoriad 2.

- 10.12 Rydym yn ceisio barn ynghylch a allai diffiniad boddhaol o domen lo segur gyfeirio at wastraff o waith cloddio glo ac a ddylai gynnwys cyfeiriad penodol at domennydd gorlwyth, ôl-lenwi, tomennydd rwbel, pentyrrau stoc a morlynnoedd.

Cwestiwn Ymgynghoriad 3.

- 10.13 Rydyn ni’n cynnig dros dro na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn berthnasol i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn berthnasol iddi.

A ydych yn cytuno?

⁶⁰⁷ Mae’r diffiniad yn y Rheoliadau Chwareli’r un peth a’r diffiniad yn y Rheoliadau Mwyngloddiau oni bai am gyfeiriad i groniad neu dyddodion o “unrhyw sylwedd mewn chwarel” a gwahaniaethau mewn strwythur.

Diffinio perchennog tomen

- 10.14 Mater arall sy'n berthnasol wrth adeiladu'r fframwaith rheoleiddio newydd yw'r diffiniad y dylid ei ddefnyddio fel "perchennog" tir sy'n cynnwys tomen.⁶⁰⁸ Bydd yn bwysig cael eglurder ynghylch pwy yw'r perchennog er mwyn sicrhau bod pobl sy'n caffael buddiannau mewn tir sy'n cynnwys tomen yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau dan y cynllun newydd ac yn gyffredinol, ac yn gallu cymryd yswiriant priodol.
- 10.15 Gwelsom ym mhennod 4 fod y diffiniad o berchennog at ddibenion Deddf 1969 yn cwmpasu rhydd-ddeiliad nad yw wedi rhoi les, tenant sydd wedi cael tenantiaeth am gyfnod o unrhyw hyd, ar yr amod bod gan y cyfnod, ar y dyddiad perthnasol, o leiaf blwyddyn i redeg neu rydd-ddeiliad sy'n dal dychweliad les sydd, ar y dyddiad perthnasol, yn llai na blwyddyn i redeg.⁶⁰⁹ Caiff effaith hyn ar lesddeiliaid byr ei lliniaru i ryw raddau gan bŵer y llys i orchymyn cyfraniad, ond mae'r pŵer yn ddewisol, gan eu gwneud yn ansicr ynghylch maint eu rhwymedigaethau oni bai eu bod wedi'u cynnwys mewn cytundeb.⁶¹⁰ Ein barn dros dro yw y dylai'r gyfraith ddarparu mwy o sicrwydd drwy gyfeirio atebolrwydd at yr unigolyn sydd, mewn termau economaidd, yn berchennog y tir sy'n cynnwys tomen.
- 10.16 Nid oes barn bendant ynghylch pryd y dylai rhywun sy'n dal prydles ar dir gael ei ystyried yn berchennog yn hytrach na rhentwr. Un dangosydd yw a oes gan berson gyfran ariannol yn y tir fel ased cyfalaf, neu dim ond yn talu swm cyfnodol am feddiannu neu ddefnyddio'r tir, gyda'r gwerth cyfalaf yn aros gyda'r rhydd-ddeiliad. Mewn unrhyw achos unigol gall telerau'r les daflu goleuni ar y mater: nid oes gan les ar rent marchnadol llawn werth cyfalaf fel arfer; ar y llaw arall, bydd les a roddir ar gyfer premiwm ynghyd â rhent tir isel (ac o bosibl tâl gwasanaeth) yn aml yn ased y gellir ei werthu, yn debycach i berchnogaeth.⁶¹¹ Po hiraf yw prydles o'r fath, y mwyaf yw ei gwerth cyfalaf a'r cryfaf yw cysylltiad y lesddeiliad â'r tir. Mewn cynllun rheoleiddio, mae angen rheol llinell olau a gall hyd y les fod y marciwr cliraf. Mae prydlesi a roddir am dymor o fwy na 21 mlynedd yn aml yn cael eu hystyried yn rhai sy'n croesi llinell sy'n rhannu.⁶¹²

⁶⁰⁸ Bydd y diffiniad sy'n cael ei mabwysiadu yn bwysig yn penderfynu ar bwy mae'r ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo arfaethedig am fodolaeth tomen neu newid o berchnogaeth yn cwmpo (gweler paragraffau 10.31 a 10.32 isod), ac yn berthynas â phwerau a dyletswyddau arall wedi'i chreu gan y gyfundrefn, fel y pwerau arfaethedig i fynd i mewn i gytundeb gyda'r perchennog ac i osod gorfodaeth ar berchennog (paragraffau 10.72 a 10.74 isod) neu i godi treuliadau ar berchennog (paragraff 10.105 isod).

⁶⁰⁹ Gweler paragraff 4.42 uchod. Mae'r term "dychweliad" yn cyfeirio at reolaeth y tir yn dychwelyd i'r rhydd-ddeiliad pan mae prydles yn dod i ben. Ar gyfer symrlwydd, mae hwn yn tybio nad oes unrhyw brydlesi rhyngol. Gall lles deiliad rhyngol bod yn y "perchennog" os oes gan ei phrydles nhw fwy na blwyddyn i redeg ac mae gan y brydles lai.

⁶¹⁰ Gweler paragraff 4.55 uchod. Fel yn y drafodaeth bresennol, mae'r drafodaeth yn anwybyddu'r posibilrwydd o brydlesi rhyngol. Mae hwn ar gyfer symrlwydd yn unig. Rydym yn ystyried dros dro bydd ein hargymhellion yr un mor briodol ar gyfer prydlesi rhyngol.

⁶¹¹ Mae yna ysgrifen academiaidd sy'n cefnogi'r syniad o "werth cyfalaf" yn dynodi perchnogaeth. Gweler, er enghraifft, S Bright & N Hopkins, "Home, Meaning and Identity: Learning from the English Model of Shared Ownership" (2011) 29 *Housing, Theory and Society* 377-397.

⁶¹² Er enghraifft, mae deddfwriaeth rhyddfrefniad yn rhoi hawliau pan fo prydlesi wedi'i rhoi am fwy na 21 blwyddyn ac mae'r hawliau hynny (i brynu'r rhydd-ddaliad neu ymestyn y brydles) gyda'r bwriad o fuddio

- 10.17 Rydym yn cydnabod nad yw'r ffaith bod prydles benodol yn cael ei defnyddio mewn un cyd-destun yn golygu ei bod o reidrwydd yn briodol mewn cyd-destun arall. Ond byddai'n anarferol awgrymu y byddai person sy'n cael les am 21 mlynedd neu lai yn berchennog; a'r byrraf yw ei les, y lleiaf tebygol yw y byddai ganddo fuddiant ariannol yn yr ased cyfalaf. I'r graddau y gallai atebolrwydd am domen lo godi, mae'n ymddangos yn annymunol i ni fel mater o bolisi i ddarparu, er enghraifft, fod y tenant o dan brydles amaethyddol pum mlynedd yn atebol yn bennaf yn hytrach na'r rhydd-ddeiliad.
- 10.18 Nid ydym yn gweld unrhyw rinwedd penodol yn y rheol bresennol sy'n symud atebolrwydd yn ôl i rydd-ddeiliad pan fydd gan les lai na blwyddyn i redeg. Os defnyddir cyfanswm hyd les i benderfynu a ddylai'r lesddeiliad ysgwyddo baich perchnogaeth, mae'n ymddangos yn fwy cymesur i'r baich fod yn berthnasol drwy gydol cyfnod y brydles.

Cwestiwn Ymgynghoriad 4.

- 10.19 I'r graddau y mae atebolrwydd o dan y fframwaith rheoleiddio newydd yn gorwedd gyda pherchennog y tir sy'n cynnwys tomen, rydym yn cynnig dros dro y dylid diffinio'r perchennog fel rhydd-ddeiliad neu lesddeiliad o dan brydles o 21 mlynedd neu fwy, ac eithrio pan fydd eu buddiant yn cael ei adfer i gyfnod o 21 mlynedd neu fwy.

A ydych yn cytuno?

Un corff goruchwyllo ar gyfer tomennydd anweithredol

- 10.20 Ar hyn o bryd, yr awdurdodau leol sydd yn gyfrifol am swyddogaethau mewn perthynas â thomennydd anweithredol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried bod egwyddor cysondeb yn awgrymu yr angen am un endid goruchwyllo y mae'n ddyletswydd arno i oruchwyllo'r gwaith o reoli tomennydd anweithredol mewn ffordd sydd yn sicrhau eu diogelwch. Gellid diffinio'r ddyletswydd honno yn fras fel dyletswydd i sicrhau nad yw'r tomennydd yn achosi perygl i fywydau pobl a lles yr amgylchedd. Nid ydym yn credu y dylai'r ddyletswydd honno gael ei chyfyngu i sefydlogrwydd tomen yn unig. Prif fudd cael un awdurdod goruchwyllo yw y gall fonitro'r holl domennydd anweithredol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion rheoleiddio i safon gyson ledled Cymru. Nid ydym yn rhagweld y byddai'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod goruchwyllo gyflawni'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â diogelwch ei hun; gallai ymgysylltu ag eraill i gyflawni gweithgareddau penodol.
- 10.21 Efallai y bydd angen i'r awdurdod hwnnw lunio adroddiadau rheolaidd i Weinidogion Cymru neu'r Senedd mor rheolaidd ag a nodir er mwyn darparu atebolrwydd. Mae'r model yma yn cael ei ddangos gan y gyfundrefn cronfeydd dŵr, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gorff cyfrifol oddi tano ac sydd â dyletswydd i lunio adroddiadau i Weinidogion Cymru.⁶¹³ Tystiolaethir am y buddion hefyd gan waith y

rheini sy'n bia ar ei thai, yn hytrach na thenantiaid. Gweler trafodaeth bellach yn Leasehold home ownership: buying your freehold or extending your lease (2020) Law Com No 392.

⁶¹³ Gweler paragraffau 9.10 uchod.

Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ein trafodaethau cyn yr ymgynghoriad, roedd bron yr holl randdeiliaid a siaradodd â ni yn credu bod y dull presennol o rannu cyfrifoldeb ymysg awdurdodau lleol unigol yn effeithio ar gysondeb ac yn ei gwneud yn anoddach cynnal arbenigedd. Mae'n debygol hefyd bod hynny yn llai cost effeithiol. Yng ngweddill y bennod hon rydym yn cyfeirio at y corff arfaethedig fel yr "awdurdod goruchwyllo".

- 10.22 Gellid mynegi dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo naill ai fel dyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch neu drwy gyfeirio at risgiau penodol, a allai, neu na allai, ymestyn y tu hwnt i ansefydlogrwydd. Rydym yn ffafrio dyletswydd gyffredinol dros dro; byddai'r awdurdod mewn sefyllfa dda i fesur y risgiau a gyflwynir gan domennydd glo, a gallai dyletswydd sy'n gyfyngedig i risgiau datganedig lesteirio'r awdurdod yn annymunol.

Cwestiwn Ymgynghoriad 5.

- 10.23 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.

A ydych yn cytuno? Os nad ydych chi, nodwch beth fydddech chi'n ei ffafrio.

- 10.24 Petai'r cynnig i sefydlu un awdurdod cyfrifol yn un a ffafrir, y cwestiwn nesaf yw ar ba ffurf ddylai'r endid hwnnw fod. Gallai fod yn gorff sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru gyfan, megis CNC, neu gorff ar gyfer Cymru gyfan a grëir o'r newydd, neu rhyw fath o gorff cydlynu a sefydlwyd ar lefel llywodraeth leol.

Cwestiwn Ymgynghoriad 6.

- 10.25 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar y canlynol: ai gorff sydd eisoes yn bodoli neu gorff a grëir o'r newydd ddylai'r awdurdod goruchwyllo fod.

Cwestiwn Ymgynghoriad 7.

- 10.26 Os sefydlir corff newydd, ar ba ffurf ddylai'r corff newydd fod? A ddylai, er enghraifft, fod yn gorff cyhoeddus canolog, yn gydbwyllgor corfforaethol o awdurdodau lleol o dan Deddf Llywodraeth Leol a Chynllunio (Cymru) 2021, neu yn rhywbeth arall?

Cwestiwn Ymgynghoriad 8.

10.27 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau diogelwch tomennydd gael ei fframio fel un gyffredinol, ac nid yn un a gyfyngir i risgiau penodol.

A ydych yn cytuno?

Cofrestr tomennydd

10.28 Rydym yn cynnig dros dro mai un o ddyletswyddau awdurdod goruchwyllo newydd fyddai ffurfio a chynnal cofrestr tomennydd. Mae'r cyfundrefnau cronfeydd dŵr a rheoli llifogydd a dŵr yn darparu model ar gyfer y ddyletswydd hon. Gallai'r wybodaeth a gasglwyd eisoes gan y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo ddarparu sylfaen ar gyfer y gofrestr, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod gwaith eisoes ar y gweili i lunio cofrestr. Dylai'r cofnod yn y gofrestr ar gyfer pob tomen gynnwys gwybodaeth safonol er mwyn darparu templed cychwynnol ar gyfer ei rheoli. Rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan offeryn statudol.

Cwestiwn Ymgynghoriad 9.

10.29 Rydym yn cynnig dros dro y dylid ffurfio a chynnal cofrestr ganolog o domennydd.

A ydych yn cytuno?

Cwestiwn Ymgynghoriad 10.

10.30 Rydym yn cynnig dros dro y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

A ydych yn cytuno?

Dyletswydd i hysbysu am domennydd a phŵer yr awdurdod i ychwanegu tomennydd at y gofrestr drwy gynnig hynny ei hun

10.31 O ystyried y bydd cofnod o bob lleoliad a pherchnogaeth yr holl domennydd glo hysbys yng Nghymru yn cael ei gasglu, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr hysbysu am yr holl domennydd hynny unwaith eto. Ond ni ellir diystyru'r ffaith y gallai tomennydd a arferai fod yn anhysbys ddod i'r amlwg, ac y bydd yna domennydd gweithredol a ddaw i fod yn rhai anweithredol ar ryw adeg. Credwn ei bod yn well i'r gofrestr fod yn gynhwysfawr, ac mi ydym o'r farn y dylai fod yn ddyletswydd ar dirfeddianwyr i hysbysu'r awdurdod lleol am fodolaeth unrhyw domen y byddant yn dod yn ymwybodol ohonynt nad ydynt eisoes ar y gofrestr. Rydym yn gwerthfawrogi'r risg y gallai'r dyletswydd ymestyn i ddyddodiadau

bychan iawn o wastraff mwyngloddio nad oedd yn achosi unrhyw bryder penodol, ond rydym yn amau a fyddai trothwy maint yn ymarferol, ac o bwysu a mesur rydym yn ystyried y byddai'n well i'r gofrestr fod yn un gynhwysfawr.

- 10.32 Gellid fframio'r ddyletswydd i hysbysu yn nhermau dyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo o fodolaeth tomen onid oes gan y perchennog reswm i gredu ei fod wedi'i gofrestru. Rydym yn rhagweld y byddai'r awdurdod goruchwyllo yn rhoi gwybod i berchennog tomen bod tomen wedi cael ei roi ar y gofrestr domen pan fydd y gofrestr statudol yn cael ei llunio neu ar ôl ychwanegu awgrym yn nes ymlaen. Mae hyn yn debygol o fod ar ffurf hysbysiad sy'n cyfeirio at y domen drwy gyfeirio at ffiniau'r domen fel y'u mapiwyd yn bolygon. Mae'r mater o fynediad cyhoeddus i'r gofrestr yn cael ei ystyried ymhellach isod. Byddai hefyd angen i'r ddyletswydd i hysbysu gynnwys dyletswydd i hysbysu ynghylch newidiadau i'r wybodaeth ar y gofrestr, fel newid perchnogaeth.
- 10.33 Mae profiad CNC o gynnal y gofrestr cronfeydd dŵr ar ôl ychwanegu cronfeydd llai i'r fframwaith rheoleiddio yn awgrymu y gallai gwneud i gynnwys y gofrestr ddibynnu'n llwyr ar hysbysiadau gan berchnogion fod yn broblemus. Yng nghyd-destun tomennydd glo, gallai fod yn anodd i berchnogion wybod a oes ganddynt domen ar eu tir, neu pan fo'n anodd olrhain perchennog y tir, mae'r broblem honno yn hyd yn oed fwy amlwg. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ei bod yn bwysig rhoi i'r awdurdod goruchwyllo bŵer i ychwanegu tomen i'r gofrestr ei hun.⁶¹⁴
- 10.34 Bydd pŵer o'r fath yn galluogi'r awdurdod goruchwyllo i ddiweddarau'r gofrestr os daw tomennydd anweithredolychwanegol i'r amlwg. Mae'r tebygolrwydd o gael tomennydd anhysbys o faint digon mawr i fod yn beryglus yn ymddangos yn isel i ni. Gallai dyletswydd hysbysu a roddir ar berchnogion – a fyddai, i fod yn ystyrllon, yn gorfod mynd law yn llaw â sancsiwn am dorri amodau megis dirwy – wneud fawr mwy na chreu anghydfodau ynghylch a oedd y perchennog yn ymwybodol bod eu tir yn cynnwys tomen. Rydym yn gofyn am sylwadau ar y cwestiwn.
- 10.35 Rydym hefyd yn awgrymu y dylid rhoi hawl i apelio pan fo perchnogaeth, neu pan nodir bod ardal yn domen, yn cael ei herio. Rydym yn trafod cyrff posibl i wrando apeliadau yn nes ymlaen yn y bennod hon.⁶¹⁵

⁶¹⁴ Gweler paragraffau 9.36 a 9.41 uchod.

⁶¹⁵ Gweler paragraffau 10.111 i 10.114 isod.

Cwestiwn Ymgynghoriad 11.

10.36 Ar hyn o bryd rydym yn ystyried

- (1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo ac y dylai gael y pŵer i gynnwys unrhyw domen ar y gofrestr y daw'n ymwybodol ohoni;
- (2) dylai perchennog tir gael hawl i apelio yn erbyn cynnwys y tirlfeddiannwr fel perchennog tir ble lleolir tomen; dylai sail yr apêl fod yn (a) nad y tir feddiannwr yw perchennog y tir dan sylw a/neu (b) nad oes tomen ar y tir.

A ydych yn cytuno?

Cwestiwn Ymgynghoriad 12.

10.37 Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai perchennog tir fod o dan ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo am unrhyw domen y mae perchennog y tir yn ymwybodol ohoni neu'n dod yn ymwybodol ohoni ar dir sy'n eiddo i'r tirlfeddiannwr, oni bai fod gan y tirlfeddiannwr reswm dros gredu ei fod eisoes wedi'i gofrestru.

Cynnal y gofrestr

10.38 Mae cynnal y gofrestr yn codi mwy o gwestiynau. Os oes yna ofyniad i gynnwys gwybodaeth benodol yng nghofrestriad tomen, yn cynnwys gwybodaeth am archwiliadau a chynnal a chadw, bydd hefyd angen gofyniad i ddiweddarau'r wybodaeth honno. Gwelwn fod y ddyletswydd i ddiweddarau'r gofrestr gyda gwybodaeth newydd sy'n hysbys i'r awdurdod goruchwyllo yn rhan o ddyletswydd yr awdurdod i gynnal y gofrestr. Mewn rhai achosion, bydd yr awdurdod yn dibynnu ar drydydd partïon yn darparu gwybodaeth iddo, er enghraifft pan fydd perchnogaeth tir sy'n cynnwys tomen yn newid neu pan fydd perchennog y domen yn gwneud ei waith cynnal a chadw ei hun.⁶¹⁶

Cyhoeddi'r gofrestr

10.39 Un mater sydd yn codi o ganlyniad i greu cofrestr tomennydd yw a ddylai'r wybodaeth sydd ynddi fod yn gyhoeddus. Un o'r egwyddorion trosfwaol yn neddfwriaeth Cymru yw'r angen i gydweithredu, yn cynnwys sicrhau cyfranogiad cyhoeddus.⁶¹⁷ Mae yna risg y gallai'r wybodaeth sydd yn gynwysedig yn y cynlluniau rheoli tomennydd effeithio ar brisiau tai a chost yswiriant.⁶¹⁸ Mae hon yn ffactor bwysig i'w hystyried, ond pwrpas ein cynigion dros dro yw yw lleihau risg drwy ragnodi archwiliadau, gwaith

⁶¹⁶ Gweler paragraff 10.32 uchod ar gyfer ein dyletswydd arfaethedig i hysbysu am newidiadau i'r wybodaeth ar y gofrestr.

⁶¹⁷ Gweler y drafodaeth ar Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ym mharagraffau 5.47 i 5.52 uchod.

⁶¹⁸ Gweler paragraff 8.33 uchod.

cynnal a chadw ac adfer. Dylai hynny liniaru unrhyw effaith ataliol y bydd eiddo'n cael ei nodi'n gyhoeddus fel un sy'n cynnwys tomen glo. Gellid tybio hefyd y byddai'n well i'r rhai sy'n ystyried delio ag eiddo – sydd o bosibl yn cynnwys prynwyr preifat neu denantiaid, yn ogystal â'r rhai masnachol sydd â hawl fel cwmnïau yswiriant – allu dod o hyd i'r sefyllfa o gofrestr gyhoeddus. O bwysu a mesur, rydym yn credu y dylai'r wybodaeth ar y gofrestr tomennydd fod yn gyhoeddus, yn ddarostyngedig i unrhyw wybodaeth, megis mewn perthynas â pherchnogaeth breifat, sydd yn golygu bod angen iddi barhau'n gyfrinachol er mwyn cydymffurfio â chyfraith diogelu data.

- 10.40 Mae deddfwriaeth diogelu data yn gymwys i ddata personol, sydd yn ddata sydd yn gysylltiedig ag unigolion, neu ddata y gellir ei olrhain i unigolyn.⁶¹⁹ Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gael sail gyfreithiol ar gyfer cyflwyno unrhyw ddata personol mewn cronfa ddata. Seilliau cyfreithiol posibl ar gyfer cynnwys yr wybodaeth hon yw "processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject"⁶²⁰ neu "processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller".⁶²¹

Cwestiwn Ymgynghoriad 13.

- 10.41 A ydych yn credu y dylai'r holl wybodaeth ar gofrestr tomennydd fod ar gael yn gyhoeddus ai peidio? A oes yna unrhyw gategoriâu penodol o wybodaeth na ddylid eu cyhoeddi?

Archwiliad cychwynnol

- 10.42 Pan fo tomen yn cael ei chofrestru am y tro cyntaf, rydym ar hyn o bryd yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo ysgwyddo'r ddyletswydd archwilio. Mae hynny yn adlewyrchu'r gyfundrefn cronfeydd dŵr.⁶²² Yn achos awgrymiadau ar gyfer risg uwch, o ganlyniad i'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ers mis Chwefror 2020, bydd archwiliad wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gellir defnyddio gwybodaeth ohono yn yr archwiliad cyntaf o dan y gyfundrefn newydd. Bydd hynny yn dibynnu ar faint o amser a gymer i sefydlu'r fframwaith rheoleiddio newydd, ac amllder yr archwiliadau sydd eu hangen ar gyfer y domen benodol honno. Erbyn yr amser pan fydd dyletswydd statudol i archwilio wedi ei sefydlu, efallai y bydd angen archwiliad ffres, neu gallai'r rownd olaf o archwiliadau gyfrif fel yr archwiliad cyntaf o dan y gyfundrefn. Awgrymwn y dylai'r awdurdod goruchwyllo gael pŵer i ddirprwyo'r swyddogaeth arolygu i gyrff eraill sydd â chymwysterau priodol megis awdurdodau

⁶¹⁹ Mae data personol yn cael ei ddiffinio yn erthygl 4(1) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) fel "any information relating to an identified or identifiable natural person; an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person". Deddf Diogelu Data 2018 sydd yn ymddeddfu GDPR yn y DU.

⁶²⁰ GDPR (EU) 2016/679, art 6 (1)(c).

⁶²¹ GDPR (EU) 2016/679, art 6 (1)(c).

⁶²² Gweler paragraffau 9.6 i 9.28 uchod.

lleol os nad yw nifer yr arolygiadau sy'n ofynnol o fewn cyfnod penodol yn ymarferol. Gallai, er enghraifft, ddirprwyo'r gwaith o archwilio tomennydd risg is.

Cwestiwn Ymgynghoriad 14.

- 10.43 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.

A ydych yn cytuno?

Cynlluniau rheoli tomennydd

- 10.44 Rydym yn rhagweld mai pwrpas yr archwiliad cychwynnol, fel yn achos y gyfundrefn cronfeydd dŵr, fyddai cynnal asesiad risg a dylunio cynllun rheoli tomen yn seiliedig ar yr holl nodweddion perthnasol sydd yn gysylltiedig â'r domen. Rydym yn ystyried bod hynny yn rhan allweddol o sicrhau diogelwch tomennydd. Mae enghraifft o ddull o baratoi cynllun rheoli tomennydd y cael ei nodi yn bennod 8 sydd yn disgrifio gwaith y Tasglu Diogelwch Tomennydd Glo.⁶²³ Mae hynny yn cynnwys casglu set safonedig o ddata ar gyfer y domen a'r tir amgylchynol.
- 10.45 Rydym yn disgwyl y bydd asesiad risg yn cael ei drefnu yn seiliedig ar broffil ffisegol y domen (ffactorau megis y deunydd sydd ynddi, ei chyfaint, uchder, draeniad a sefydlogrwydd, yn cynnwys unrhyw symudiad hanesyddol, topograffeg yr ardal ac effaith bosibl ar nodweddion naturiol) a'r derbynyddion y byddai methiant tomen yn effeithio arnynt. Fel hyn, gallai'r asesiad risg ystyried y tebygolrwydd o fethiant a'r canlyniadau. Ffordd arall o fynegi hynny yw ei fod yn ystyried strwythur ac effaith y domen. Gallai'r data cynnwys yr holl ffactorau sydd yn gysylltiedig â pheryglon, yn cynnwys, er enghraifft, ymlosgiad mewnol a llygredd. Mae hynny yn galluogi datblygu cynllun rheoli tomennydd sydd yn targedu'r holl beryglon diogelwch yn hytrach na'r rhai sydd yn gysylltiedig â sefydlogrwydd yn unig. Gallai'r cynllun hefyd ystyried pa mor agos yw'r domen i domennydd eraill, oherwydd gall clystyrau o domennydd, allai greu problemau o ran perchnogaeth luosog, greu anghenion rheoli penodol. Yn ymarferol, efallai y bydd angen cynhyrchu un cynllun rheoli cyfunol ar gyfer y clwstwr o domennydd.⁶²⁴
- 10.46 Mae'r cynllun rheoli tomen a ddatblygwyd o'r data yma yn benodol i'r domen neu clwstwr. Byddai'n cynnwys manylion megis amllder archwiliadau, y gwaith cynnal a chadw ac adfer angenrheidiol, a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau. Yn ymarferol, oherwydd bod peth o'r data sydd ei angen ar gyfer y cynllun rheoli tomen wedi cael ei gasglu eisoes, byddai angen asesu a fyddai angen mwy o ddata ar gyfer pob tomen ar ôl eu cofrestru.

⁶²³ Gweler paragraffau 8.26.

⁶²⁴ Gweler y cyfeiriad i dirlithiriad Pentre ym mharagraff 2.23 uchod ar gyfer enghraifft o'r cymhlethdod all codi ar gyfer rheoli tomennydd oherwydd agosrwydd tomennydd. Yn achos y llithriad Pentre, gaeth hwn ei gwaethgu gan y ffaith oedd y tomennydd effeithiwyd mewn perchnogaeth amrywiol.

10.47 Mae cynnwys cynllun rheoli tomen unigol yn fater technegol, nad yw'n addas i ni benderfynu arno; rydym yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon i raddau helaeth i adael i'r awdurdod rheoleiddio farnu drosto ei hun ar y mater. Ond rydym yn gweld peth teilyngdod mewn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ragnodi'r materion i'w cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd ar lefel gyffredinol.

10.48 Rydym yn rhagweld y byddai'n ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau bod cynllun rheoli tomennydd yn cael ei baratoi ar gyfer y domen neu'r clwstwr o gynghorion. Byddai'n agored i'r awdurdod lunio'r cynllun ei hun, neu drefnu i'r cynllun gael ei baratoi.

Cwestiwn Ymgynghoriad 15.

10.49 Rydym yn cynnig dros dro

- (1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd yn gynnwysedig yn y gofrestr;
- (2) dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd drwy offeryn statudol.

A ydych yn cytuno?

Dosbarthu tomennydd a dynodi tomennydd risg uwch

System ddosbarthu

10.50 Fel yr ydym yn ei ddisgrifio ym mhennod 8, mae tîm ymateb yr Awdurdod Glo wedi defnyddio system ddosbarthu pum rhan ar gyfer tomennydd glo.⁶²⁵ Mae'r system ddosbarthu bron yn gyfan gwbl yn ystyried risg ansefydlogrwydd ac yn dosbarthu tomennydd, yn fras, drwy gyfeirio at (a) lefel y risg o symudiad yn y gwastraff a (b) canlyniadau symudiad gwastraff drwy gyfeirio at y tirwedd y byddai gwastraff rhydd yn cwmpo arno (y "derbynyddion"). Yn ychwanegol at debygolrwydd llithriad, mae'n ymddangos i ni y byddai'n briodol bod ystyriaeth i dderbynyddion y domen a chanlyniadau methiant yn elfennau bwysig o'r prawf. Fel yn achos Deddf Cronfeydd Dŵr (Yr Alban) 2011 a drafodwyd ym mhennod 9, gellid diffinio risg drwy gyfeirio at amrywiaeth o ganlyniadau posibl, drwy gwmpasu risg i iechyd a diogelwch pobl a'r amgylchedd o leiaf.

10.51 Er mai symudiad yw'r risg mwyaf difrifol a achosir gan domennydd glo, mae gennym ddiddordeb mewn safbwyntiau ymgynghoreion ynghylch a ddylai system ddosbarthu

⁶²⁵ Rydym yn cyfeirio yma at ddosbarthiadau A, B, C, D a R. Mae dosbarthiad NR yn cynrychioli categori dros dro, wrth aros am asesiad llawn o'r tomennydd hysbys. Gweler paragraffau 8.6 a 8.7 uchod.

tomennydd hirdymor ystyried y peryglon eraill a drafodwyd ym mhennod 2, sef llygredd, ymlosgiad a llifogydd.⁶²⁶

Cwestiwn Ymgynghoriad 16.

10.52 Rydym yn cynnig dros dro y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau llithriad gwastraff.

A ydych yn cytuno?

Cwestiwn Ymgynghoriad 17.

10.53 A ddylai dosbarthiad tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlosgiad a llifogydd?

Dynodi tomennydd peryglus

10.54 Ar hyn o bryd rydym yn ystyried bod dynodi bod tomennydd penodol angen safon mwy trylwyr o ymyrraeth yn ddimensiwn pwysig mewn cynllun rheoleiddio newydd. Pan gyrhaeddir trothwy penodol, er enghraifft prawf "perygl sylweddol" fel y'i cymhwysir i domennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau a chwareli gweithredol, byddai cyfundrefn ddiogelwch uwch yn cael ei chymhwyso gyda mwy o gyfranogiad gan yr awdurdod goruchwyllo.

10.55 Gellir canfod y pŵer i ddynodi strwythur neu safle risg uwch yn y gyfundrefn reoleiddio cronfeydd dŵr, yn y ddarpariaeth ar gyfer tomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol, mewn rheoli llifogydd a deddfwriaeth tir halogedig. Yn achos tir halogedig, mae hynny yn cael ei ategu gan bŵer i drosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r awdurdod lleol i CNC. Mae'r model rheoli risg llifogydd yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cynnwys rhoi dyletswydd ar y perchennog i beidio ag addasu strwythur dynodedig heb ganiatâd yr awdurdod cyfrifol. Gallai hynny ddarparu rheolaeth ychwanegol defnyddiol.⁶²⁷

10.56 Un dull fyddai cymhwyso'r gofynion yma i'r tomennydd hynny yr ystyrir eu bod angen y sylw mwyaf uniongyrchol yn unig. Neu, gellid ymestyn hynny ymhellach i'r tomennydd sydd ar hyn o bryd â gradd risg is os bydd proffil unigol y domen yn golygu bod angen mwy o waith adfer dwys. Gallai canlyniadau methiant tomen fod yn ffactor arwyddocaol o ran penderfynu a yw tomen angen dynodiad neu beidio. Mae'r system ddosbarthu a ddefnyddir eisoes gan y Tasglu yn cynnig ei hun i bennu'r

⁶²⁶ Mae barnau ar y mater o sylwedd i gymryd i ystyriaeth yn y system dosbarthiad yn debygol o gael ei dylanwadu gan y barnau wedi'i fynegi mewn ymateb i Gwestiwn Ymgynghoriad 6 uchod am fel dylai dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo cael ei fframio.

⁶²⁷ Gweler paragraff 9.8 (ar gyfer cronfeydd dŵr), paragraff 9.46 a 9.48 (ar gyfer tomennydd cysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol), paragraff 9.67 (ar gyfer rheoli llifogydd a dŵr) a pharagraff 9.86 (ar gyfer tir halogedig).

gwahaniaethau yma: mae categorïau C a D gyda'i gilydd eisoes yn cynnwys tomennydd ble gallai llithriad beryglu bywyd neu eiddo, tra'n gwahaniaethu rhwng tomennydd sydd â hanes o ansefydlogrwydd (categori D) a rhaid heb hanes o hynny (categori C).⁶²⁸ Yn y dyfodol, petai'r fframwaith rheoleiddio yn cael ei ymestyn y tu hwnt i domennydd glo i fathau eraill o wastraff mwyngloddio, byddai ffactorau eraill yn dod yn berthnasol.

- 10.57 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylai'r cysyniad o risg uwch gael ei ddiffinio drwy gyfeirio at sefydlogrwydd yn unig. Rydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylai natur y gwaith sydd ei angen ar domen fod yn ffactor sydd yn dylanwadu ar ei dynodiad; gall fod yn briodol gwahaniaethu rhwng tomennydd sydd yn bennaf angen gwaith cynnal a chadw a thomennydd sydd angen gosod draeniau, ail-broffilio neu waith peiriannu arall mwy sylweddol. O ystyried y byddai dynodiad yn ychwanegu baich i'r tiffeddiannwr perthnasol, rydym yn cynnig ar hyn o bryd y dylid darparu hawl i apelio yn erbyn dynodiad.
- 10.58 Mae'r cwestiwn ymgynghoriad isod yn cynnig meini prawf eang ar gyfer dynodi. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig rhoi pŵer i weinidogion Cymru i ragnodi meini prawf drwy offeryn statudol.

Cwestiwn Ymgynghoriad 18.

- 10.59 Rydym yn cynnig dros dro y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomen lo fel un "risg uwch" gan yr awdurdod diogelwch pan fo'r domen yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

A ydych yn cytuno?

⁶²⁸ Petai'r categori risg uwch yn cyfateb i'r categori D presennol, byddai'n cynnwys 78 o'r 2,144 tomen yng Nghymru. Byddai ymestyn hynny i domennydd categori C yn ychwanegu 216 tomen arall. Byddai amrywio'r meini prawf yn amlwg yn cynhyrchu rhif gwahanol.

Cwestiwn Ymgynghoriad 19.

10.60 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid dynodi drwy gyfeirio at unrhyw un o'r meini prawf canlynol, neu unrhyw rai eraill:

- (1) mae'r domen yn dangos arwyddion neu mae ganddi hanes diweddar o symudiad neu ansefydlogrwydd;
- (2) byddai llithriad gwastraff o'r domen yn debygol o effeithio ar
 - (a) adeiladau neu ardaloedd sydd wedi eu dylunio i bobl fyw ynddynt neu eu meddiannu;
 - (b) ffordd, rheilffordd, camlas neu unrhyw seilwaith arall; neu
 - (c) gwrs dŵr;
- (3) mae yna risg sylweddol i'r domen ryddhau llygredd peryglus i'r amgylchedd;
- (4) mae yna risg sylweddol i'r domen achosi llifogydd;
- (5) mae yna risg sylweddol i ddeunydd yn y domen ymlosgi yn ddigymell;
- (6) mae angen gwaith peiriannu ar y domen.

Cwestiwn Ymgynghoriad 20.

10.61 Rydym yn cynnig dros dro y dylai unigolyn yr effeithiwyd arno gan ddynodi tomen lo fel un risg uwch gael hawl i apelio.

A ydych yn cytuno?

Cyfrifoldeb am domennydd dynodedig

10.62 Ar ôl i domen gael ei dynodi, un opsiwn fyddai i'r corff goruchwyllo ymgymryd â'r holl waith archwilio, cynnal a chadw ac adfer cyffredinol sydd yn ofynnol o dan y cynllun rheoli tomen. Byddai hynny yn sicrhau dull cyson a rhagweithiol ar gyfer pob tomen. Byddai'n cadw'r holl ddogfennau perthnasol yn gyfredol ac mewn un lle. Gallai'r holl gynllunio a blaenoriaethu gael ei gydlyn ymlaen llaw. Byddai'n caniatáu blaenoriaethu gwaith yn systematig yn seiliedig ar risg.

10.63 Neu gellid rhoi dyletswydd ar berchennog tomen i wneud y gwaith, dan oruchwyliaeth peirianwyr priodol gymwys o bosibl (gweler isod ym mharagraffau 10.117 i 10.119), a rhoi dyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i archwilio yn ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac i ddiweddarw cofnodion. Byddai'r awdurdod hefyd angen pwerau gorfodi i roi hysbysiad gorfodi mewn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

- 10.64 Mae'r adolygiad o safbwyntiau rhanddeiliaid ym mhennod 7, a'n cymeradwyaeth i'r egwyddor y dylai atal niwed arwain y broses o ddylunio'r fframwaith rheoleiddio, yn ein harwain at y safbwynt y dylai'r awdurdod, yn achos tomennydd dynodedig, fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud, fel arfer drwy wneud y gwaith ei hun.
- 10.65 Ond mae'n debygol y bydd yna achosion pan fo'n well gan berchennog tomen wneud y gwaith ac mae mewn gwell sefyllfa i wneud hynny (neu i wneud trefniadau ar gyfer gwneud y gwaith) na'r awdurdod goruchwyllo. Gallai hynny fod yn arbennig o wir pan mai'r perchennog yw CNC, awdurdod lleol neu'r Awdurdod Glo. Ar hyn o bryd rydym yn ffafrio dull seiliedig ar gytundeb rhwng yr awdurdod goruchwyllo a'r perchennog, sydd yn rhoi cyfle i'r perchennog drafod y mesurau arfaethedig gyda'r awdurdod. Ond rydym yn rhagweld y byddai'r trafodaethau yn cael eu cynnal yng nghysgod pŵer yr awdurdod i roi gorchymyn fel y ddewis olaf. Lle deuir i gytundeb i wneud gwaith, gallai hyn, lle bo'n briodol, gynnwys amod bod y gwaith yn cael ei wneud neu ei oruchwyllo gan beiriannydd sydd â'r cymwysterau priodol.⁶²⁹
- 10.66 Rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer cytundebau a gorchmynion yn fwy manwl yn adran nesaf y bennod hon sydd yn ymdrin â thomennydd llai peryglus, yr ydym yn ystyried bod ganddynt fwy o botensial i'w cymhwyso. Gellir canfod cynseiliau ar gyfer pwerau o'r fath yn y gyfundrefn rhywogaethau ymwithiol o dan Ddeddf Seilwaith 2015⁶³⁰ ac ym mhŵer CNC i gyfarwyddo mesurau dylid eu cymryd er mwyn osgoi difrod amgylcheddol o dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009.⁶³¹

Archwiliad gan yr awdurdod goruchwyllo

- 10.67 Pan adawyd i berchnogion tomennydd wneud y gwaith, boed hynny yn unol â chytundeb neu orchymyn, byddai angen i'r gyfundrefn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod goruchwyllo, a'i rymuso i archwilio'r tomennydd mor rheolaidd ag sy'n briodol. Yn wahanol i'r model cronfeydd dŵr, nid ydym yn credu y dylid gadael i'r perchennog gynnal yr archwiliad. Rydym wedi nodi bod perchnogion tomennydd anweithredol yn wahanol i'r rhan fwyaf o ymgymerwyr cronfeydd dŵr, yn yr ystyr nad oes gan y perchnogion unrhyw ddiddordeb economaidd parhaus yn y domen.⁶³² Rydym yn credu bod hynny yn cyfiawnhau dull sydd yn rhoi mwy o faich ar ysgwyddau'r awdurdod goruchwyllo i fonitro'r domen ei hun.
- 10.68 Rydym yn rhagweld y byddai'r cynllun rheoli tomennydd yn nodi amllder archwiliadau ar gyfer y domen benodol. Dylai dyletswydd archwilio'r awdurdod gynnwys gofyniad i adolygu'r dynodiad; pan fernir bod tomen wedi dychwelyd i gyflwr nad yw mwyach yn cyfiawnhau dynodiad, gellid dychwelyd y domen i'r gyfundrefn lefel is yr ydym yn ei thrafod isod.

⁶²⁹ Gweler paragraffau 10.117 i 10.119 isod.

⁶³⁰ Trafodwyd ym mharagraffau 9.87 to 9.102 uchod.

⁶³¹ Trafodwyd ym mharagraffau 5.23 uchod.

⁶³² Gweler paragraffau 9.29 i 9.31 uchod.

Cwestiwn Ymgynghoriad 21.

10.69 Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen ar gyfer y domen benodol.

A ydych yn cytuno?

Cyfrifoldeb am domennydd risg is

10.70 Y cwestiwn nesaf i'w ystyried yw'r gyfundrefn ddylai gael ei chymhwyso i'r tomennydd hynny y canfuwyd nad ydynt angen dynodiad. Mae'n debyg y bydd y categori yma yn cynnwys y mwyafrif o'r tomennydd yn y gronfa ddata tomennydd. Rydym wedi clywed gan randdeiliaid mai'r brif broblem yn achos tomennydd sydd ar hyn o bryd yn perthyn i'r categorïau risg isaf yw absenoldeb pŵer i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw rhagweithiol yn cael ei wneud allai atal y domen rhag bod yn beryglus.⁶³³ Am y rheswm hwn mae cymhwyso egwyddor atal yn awgrymu'r angen i ddylunio cyfundrefn sydd yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn rheolaidd ac ar amllder sydd yn seiliedig ar anghenion y domen benodol.

10.71 Dylai'r archwiliad ar ôl cofrestru tomen, yr ydym yn rhagweld fydd yn ategu system gofrestru, fel yr ydym eisoes wedi ei awgrymu, gynnwys paratoi cynllun rheoli tomen sydd yn nodi gofynion cynnal a chadw ar gyfer y domen a'r gwaith adfer sydd ei angen. Y dewis sydd yn codi wedyn yw a ddylai'r gwaith parhaus yma gael ei wneud gan yr awdurdod neu berchennog y domen. Mae system sydd yn rhoi'r ddyletswydd yma yn gyfan gwbl ar ysgwyddau'r awdurdod yn debygol o fod yn gostus iawn. O safbwynt risg, ar gyfer tomennydd y canfuwyd nad ydynt angen dynodiad risg uwch, mae'n ymddangos hefyd na ellir cyfiawnhau hynny.

Cytundebau cynnal a chadw rhagnodol

10.72 Dull allai weithio'n well ar gyfer tomennydd risg is yw system o gytundebau cynnal a chadw. Gellid rhoi pŵer i'r awdurdod i lunio cytundeb cynnal a chadw tomen gyda pherchennog y domen, wedi ei ategu gan bŵer i roi gorchymyn cynnal a chadw mewn achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. Gellid cyfuno hynny gyda phŵer i ganiatáu'r awdurdod lleol perthnasol i benderfynu gwneud y gwaith eu hunain. Byddai hwn yn opsiwn defnyddiol os bydd yn casglu y bydd cost o weinyddu'r cytundeb tomennydd a sicrhau cydymffurfiaeth yn debygol o fod yn uwch na chost y gwaith ei hun. Trafodir y posibilrwydd y gellid rhoi'r pwerau hyn i awdurdod ar wahân i'r awdurdod goruchwyllo isod.⁶³⁴

10.73 Mae gan y dull cytundeb cynnal a chadw y fantais o ddarparu hierarchaeth o fecanweithiau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym wedi amlinellu'r math yma o gynllun yn ein trafodaeth ynghylch pwerau rheoli rhywogaethau anffordorol, a

⁶³³ Gweler paragraffau 7.17 uchod.

⁶³⁴ Gweler paragraff 10.88 isod.

weithredwyd gan Ddeddf Seilwaith 2015.⁶³⁵ Dan y cynllun hwn, llunnir cytundeb rhwng yr awdurdodau amgylcheddol a pherchennog y safle. Mae hynny yn nodi'r gwaith ddylid ei wneud, pwy fydd yn ei wneud, ac amserlen ar gyfer ei gwblhau. Gall y cytundeb hefyd wneud darpariaeth ynghylch sut fydd costau'r gwaith yn cael eu hadennill.

10.74 Os bydd y perchennog yn methu â chydymffurfio â'r cytundeb neu'n gwrthod llunio cytundeb, gall yr awdurdod roi gorchymyn i'r perchennog wneud y gwaith neu ddarparu i'r awdurdod wneud y gwaith ei hun. Ac eithrio mewn achos brys, mae gan y perchennog hawl i apelio yn erbyn gorchymyn o'r fath. Gall y gorchymynion gynnwys darpariaeth ar gyfer taliad gan yr awdurdod i'r perchennog mewn perthynas â chostau rhesymol y gweithgareddau sydd i'w cynnal gan y perchennog, neu daliad gan berchennog mewn perthynas â chostau rhesymol gweithgareddau sydd i'w cynnal gan yr awdurdod.

10.75 Model cyfochrog arall yw'r model o gytundebau cynnal a chadw gyda pherchnogion systemau draenio o dan atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Un broblem y cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymruati o ran defnyddio Deddf 2010 yw'r diffyg pŵer i gymell gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio er mwyn sicrhau uniondeb strwythurol pan fo nodwedd wedi cael ei ddynodi.⁶³⁶ Gellid defnyddio cynlluniau cynnal a chadw gorfodol dull atodlen 3 er mwyn tanategu pŵer i gymell gwaith cynnal a chadw. Fel yn achos atodlen 3 ei hun, gallai canllawiau statudol bennu'r safonau priodol. Gellid teilwra'r cynllun cynnal a chadw ar gyfer y domen unigol a gallai gynnwys manylion ynghylch y gwaith sydd ei angen a phwy sydd yn gyfrifol am wneud y gwaith.

10.76 Mae pwerau Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a roddwyd i CNC i lunio cytundebau rheoli tir gyda thirfeddianwyr yn cynnig model hefyd.⁶³⁷

10.77 Gallai'r cytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd a osodir yn y categori yma ddefnyddio dull rhagnodol iawn er mwyn cynorthwyo perchnogion tomennydd sydd â lefel isel o wybodaeth am ddiogelwch tomennydd. Wrth ystyried y cyfundrefnau ar gyfer tomennydd cysylltiedig â mwynloddiau gweithredol, nodwyd gennym bod y rheoliadau yn gallu mabwysiadu dull oedd yn pennu dyletswydd lefel uchel er mwyn sicrhau diogelwch, ond a oedd yn rhoi elfen o ddisgresiwn i weithredwyr tomennydd ynghylch sut mae cyflawni hynny.⁶³⁸ Nid ydym yn credu y byddai'r dull yma yn briodol ar gyfer perchnogion tomennydd anweithredol.

10.78 Gallai cytundebau cynnal a chadw gynnwys, er enghraifft: dyletswyddau cynnal a chadw parhaus er mwyn gwirio systemau draenio ar adegau penodol ac ar ôl glaw trwm, er mwyn sicrhau nad ydynt wedi eu blocio; dyletswyddau i gynnal a gwella systemau draenio, neu i osod a gwirio offer monitro. Gallent hefyd nodi unrhyw waith adfer sydd ei angen. Yn ddibynnol ar y gwaith sydd ei angen, efallai y bydd angen darparu i'r gwaith gael ei wneud gan beiriannydd â chymwysterau addas (gweler

⁶³⁵ Gweler paragraffau 9.87 i 9.102 uchod.

⁶³⁶ Gweler paragraff 9.68 uchod.

⁶³⁷ Gweler paragraff 9.103 uchod.

⁶³⁸ Gweler paragraffau 9.45 a 9.55 uchod.

paragraffau 10.117 i 10.119 isod). Yn yr achos yma, gallai'r perchennog gysylltu â pheiriannydd cymeradwyedig i wneud y gwaith. Byddai hyn yn cyfateb i rôl o ddydd i ddydd y peiriannydd goruchwyllo o dan y gyfundrefn cronfeydd dŵr. Mewn achosion eraill, ar ben isaf y sbectwm risg, efallai mai dim ond gwaith cynnal a chadw elfennol ansgiliedig fyddai ei angen a gallai'r perchennog wneud y gwaith hwnnw ei hun. Gallai Gweinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer er mwyn darparu canllawiau ymarferol ynghylch defnyddio'r cytundebau a'r gorchmynion er mwyn darparu lefel ychwanegol o wybodaeth a chyfarwyddyd.

10.79 Byddai angen i'r gyfundrefn bennu dyletswydd i archwilio'r tomennydd yn briodol rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Eto, am y rhesymau a roddir uchod ym mharagraff 10.67, nid ydym yn credu y gellir cyfiawnhau rhoi'r ddyletswydd archwilio tomennydd anweithredol ar ysgwyddau perchnogion. Byddai'r cynllun rheoli tomennydd a gedwir ar y gofrestr tomennydd yn nodi amllder archwiliadau ar gyfer y domen benodol. Yn dilyn archwiliad, byddai'r cofnod archwilio yn cael ei ychwanegu at y gofrestr tomennydd a byddai hynny yn diweddarau'r gofrestr.

10.80 Gallai cydymffurfio â'r cynllun rheoli tomennydd ddiogelu perchennog y domen rhag cosbau o dan y cynllun statudol. Hefyd, gallai cydymffurfiaeth ddarparu gwarchodaeth bwysig i berchennog tomen rhag atebolrwydd sifil, oherwydd byddai hynny yn arwydd cadarn bod y perchennog wedi gwneud popeth fyddai'n rhesymol ofynnol iddynt ei wneud er mwyn atal niwed cysylltiedig â'r domen. Ni fyddai hynny yn osgoi atebolrwydd o dan y rheol yn *Rylands v Fletcher*, ond fel y gwelsom ym mhennod 6, mae'r rheol honno wedi cael ei chyfyngu o ran ei chymhwyso i amgylchiadau cyfyngedig iawn, ac yn benodol mae atebolrwydd yn gyfyngedig i ganlyniadau rhagweladwy rhesymol y dihangiad.⁶³⁹

Cwestiwn Ymgynghoriad 22.

10.81 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r awdurdod goruchwyllo gael y pŵer i lunio cytundeb rheoli tomennydd gyda pherchennog y tir sydd wedi ei gofrestru ar y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y perchennog yn cynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd.

A ydych yn cytuno?

Cwestiwn Ymgynghoriad 23.

10.82 A ydych yn cytuno mai'r awdurdod ddylai ysgwyddo'r ddyletswydd archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundeb rheoli tomennydd?

⁶³⁹ Gweler paragraffau 6.10 i 6.12 uchod.

Cwestiwn Ymgynghoriad 24.

10.83 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r

- (1) perchennog wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb a luniwyd a'u bod wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;
- (2) cynigwyd cytundeb i'r perchennog ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod, ac mae'r awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn cytuno;
- (3) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu
- (4) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.

10.84 Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.

10.85 Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i'r awdurdod wneud hynny.

10.86 Dylai fod gan y perchennog hawl i apelio yn erbyn gosod gorchymyn cynhaliaeth.

10.87 Ac eithrio yn achos gorchymyn brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.

A ydych yn cytuno?

Yr awdurdod sydd yn gyfrifol am oruchwyllo cytundebau cynnal a chadw tomennydd

10.88 Dewis arall ar gyfer y categori lefel is o domennydd yw a yw'r awdurdod goruchwyllo newydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwyllo cytundebau a gorchymynion cynnal a chadw a'r archwiliadau rheolaidd, neu a ddylai hynny aros gyda'r awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am domennydd anweithredol ar hyn o bryd. Ar un llaw, gallai awdurdodau lleol fod mewn sefyllfa dda i integreiddio'r gwaith hwn gyda dyletswyddau eraill, megis er enghraifft, rheoli draeniau a risg llifogydd, ac efallai byddai ganddynt gapasiti ychwanegol pe na baent mwyach yn gyfrifol am domennydd dynodedig. Ar y llaw arall, er y gallai'r awdurdod goruchwyllo fonitro cydymffurfiaeth, gellid dadlau y byddai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn cynnal tuedd y strwythur presennol o gymhwyso gofynion yn anghyson, a dull mwy darniog a llai cost effeithiol. Yn ddibynnol ar sut fyddai cyfrifoldebau yn cael eu dyrannu o dan y gyfundrefn newydd, gallai olygu bod angen mwy o waith dwys ar gyfer llunio cytundebau cynnal a chadw,

archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, a chysylltu gyda ac adrodd i'r awdurdod goruchwyllo.⁶⁴⁰

- 10.89 Bydd y penderfyniad ynghylch pa gorff ddylai fod yn gyfrifol am y gyfundrefn gynnal a chadw uwch yma yn dibynnu ar ble fydd y llinell rhwng tomennydd dynodedig a thomennydd nad ydynt yn ddynodedig. Os mai'r canlyniad yw y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gyfrifol am grŵp mwy o domennydd, megis y rhai yng Nghategoriâu C a D yn y dosbarthiad interim, byddai hynny yn gadael grŵp llai o domennydd i'w cynnal a chadw, fyddai'n ysgafnach o ran llafur. Efallai y gallai awdurdodau lleol ymgymryd â rôl uwch mewn perthynas â'r grŵp bychan yma. Os mai'r awdurdod goruchwyllo ddylai ddelio â'r grŵp llai, megis y tomennydd categori D presennol yn unig, efallai byddai'r baich ar yr awdurdodau lleol o ddelio â'r gweddill yn ormod.
- 10.90 Wrth wneud penderfyniad o ran y ffordd orau o strwythuro'r gwaith yma, mae'n bwysig cofio bod y rhanddeiliaid arbenigol yr ydym wedi siarad a nhw wedi pwysleisio'n gyson bod pob tomen yn wahanol ac nad yw categoreiddio risg yn fras yn ddigonol ar gyfer penderfynu ar y gwaith fydd ei angen i sicrhau diogelwch y domen honno.⁶⁴¹ Dylai'r cynllun rheoli tomennydd bennu a yw'n well dyrannu'r gwaith i'r gyfundrefn uwch ar gyfer tomennydd dynodedig, neu y dylid ei adael i'r gyfundrefn lefel is o gytundebau cynnal a chadw.
- 10.91 Fe'n rhybuddiwyd gan randdeiliaid, yn arbennig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, oedd â phrofiad o weithredu deddfwriaeth rheoli llifogydd, y bydd angen i system sydd yn pennu gofyniad cynnal a chadw ar dirfeddiannwr preifat gael ei hategu gan system drylwyr o archwiliadau. Rhaid i'r rhain fod yn ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau bod ymyrraeth yn digwydd yn gynnar. Mae hynny yn gostus iawn. Un o'r gwersi a ddysgwyd o weithredu peirianwaith Deddf 1969 yw bod y system o hysbysiadau a gwrth-hysbysiadau yn system drwsogl i'w gweithredu ac yn gwastraffu amser pan fo angen gwneud gwaith diogelwch. Mae'n bwysig nad yw hynny yn cael ei ailadrodd yn nyluniad system sicrhau gwaith cynnal a chadw.⁶⁴²
- 10.92 Pan fo'r gost o sicrhau dull cytunedig yn fwy i'r awdurdod nag ymgymryd â'r gwaith ei hun, un posibilrwydd yw y byddai'n well gosod y domen yn y categori dynodedig. Gallai'r posibilrwydd o ddynodi, ynghyd â chostau ychwanegol posibl i'r perchennog, fod yn gymhelliad i gydymffurfio â'r cytundeb cynnal a chadw.

⁶⁴⁰ Gweler pennod 7 i weld trafodaeth ar y problemau a wynebwyd gan awdurdodau lleol wrth ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969.

⁶⁴¹ Gweler p 7.

⁶⁴² Gweler paragraffau 7.12 a 7.13 uchod.

Cwestiwn Ymgynghoriad 25.

- 10.93 Ydych chi'n credu mai'r awdurdod goruchwyllo ddylai fod yn gyfrifol am gytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd risg is, neu mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol?
- 10.94 Os ydych chi'n credu mai'r awdurdod lleol ddylai fod yn gyfrifol, a ddylai hyn gynnwys gwneud a goruchwyllo'r cytundebau, neu a ddylai'r awdurdod goruchwyllo gael y ddyletswydd i wneud y cytundeb?

PWERAU GORFODI

- 10.95 Er mwyn sicrhau bod cyfundrefn rheoli rydym wedi'i chynnig effeithiol, bydd yr awdurdod fydd yn gyfrifol am orfodi hynny angen pwerau ategol digonol. Ar hyn o bryd, o dan Ran 2 Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, mae gan awdurdodau lleol bwerau (a) i fynnu gwybodaeth gan berchnogion tomennydd ac eraill a (b) i fynd ar dir i gynnal profion archwiliadol a gwaith adfer.⁶⁴³ Mae methu â darparu gwybodaeth a rhwystro person sydd â hawl i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn yn dramgwyddau troseddol, yn ogystal â rhwystro'r profion a'r gwaith neu ddifrodi neu ymyrryd â gwaith.⁶⁴⁴
- 10.96 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylid cael pŵer mynediad ychwanegol i dir sydd yn cynnwys tomen lo gofrestredig neu domen yr amheuir sydd yn anweithredol at y dibenion a ragnodir. Byddai angen i'r dibenion hynny gynnwys archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio. Ar wahân i Ddeddf 1969 ei hun, mae'r ddeddfwriaeth a adolygir ym mhennod 9 yn cynnig modelau posibl: pŵer mynediad yn y gyfundrefn rhywogaethau anfrodorol a ddarperir gan atodlen 9A Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981; y pŵer mynediad yn y darpariaethau ar gyfer dynodi strwythur neu nodwedd yn atodlen 1 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010..⁶⁴⁵ Yn yr un modd, mae adran 64 o Ddeddf Draenio Tir 1991 yn rhoi pŵer mynediad cyffredinol i arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn ddarostyngedig, ac eithrio mewn argyfwng, i roi hysbysiad o'r bwriad i fynd i mewn. Mae rhwystro mynediad yn fwriadol yn drosedd ynadol y gellir ei chosbi â dirwy.⁶⁴⁶
- 10.97 Mae gwarantau gweithdrefnol fel y gofyniad i roi rhybudd ymlaen llaw o fynediad yn darparu cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a hawliau'r trefeddiannwr. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu awdurdod ysgrifenedig i bobl fynd i mewn, ac eithrio mewn

⁶⁴³ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 12, 13, 17 a 18. Mae'r pwerau yma wedi'i cyfyngu i achosion pan ydych yn gwybod neu'n amau bod tomen yn ansefydlog.

⁶⁴⁴ Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969, adrannau 12(2), 13(6), 18(6) a 26.

⁶⁴⁵ Gweler paragraffau 9.67 a 9.100 uchod. Mae atodlen 9A(23) i'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu pŵer o fynediad, mewn amser rhesymol ac ar hysbysiad, dylai cael ei ymarfer ar gyfer y pwrpas penodol, yn cynnwys os i roi cytundeb rheoli rhywogaeth, ac i ymchwilio diffyg cydymffurfiaeth. Mae atodlen 1 i'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn darparu pŵer o fynediad, mewn amser rhesymol ac ar hysbysiad, i ymchwilio os mae angen dynodi strwythur, i benderfynu os mae yna wedi bod newidiadau i'r strwythur heb gydsyniad, ac i arolygu cydymffurfiaeth gyda hysbysiad gorfodi.

⁶⁴⁶ Gweler paragraff 9.78 uchod.

sefyllfaoedd penodol lle byddai angen gwarant; byddai'r rhain yn cynnwys pan fydd y perchennog, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, yn gwrthod mynediad. Byddai angen pŵer mynediad heb hysbysiad mewn achosion brys. Hefyd byddai angen pŵer i'r unigolyn awdurdodedig gael mynediad gydag unigolion eraill, peirianwaith, offer a deunyddiau eraill, ac i gymryd samplau.

10.98 Mae Deddf 1969, y rhywogaethau anfrodorol a'r trefniadau atodlen 1 hefyd yn cynnig modelau ar gyfer creu troseddau o beidio â chydymffurfio. Mae Deddf 1969 a'r darpariaethau ar gyfer rhywogaethau anfrodorol yn ei gwneud yn drosedd methu â chydymffurfio â gorchymyn neu rwystro gweithrediad yn fwriadol. Pan fo hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno o dan atodlen 1 i Ddeddf 2010 ar ôl dynodi strwythur neu nodwedd, mae peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad yn dramgwydd troseddol..⁶⁴⁷

10.99 Nid ydym yn cynnig y dylai peidio â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw awgrym fod yn drosedd ynddo'i hun. Y gosb am beidio â chydymffurfio â chytundeb fyddai cael gorchymyn cynnal a chadw awgrym yn ei le, a byddai torri'r gorchymyn hwnnw (heb esgus rhesymol) yn drosedd.

⁶⁴⁷ Gweler paragraff 9.67 a 9.92 uchod.

Cwestiwn Ymgynghoriad 26.

10.100 Rydym yn cynnig dros dro

(1) dylai pobl sydd wedi'u hawdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod a phŵer mynediad at dir at ddibenion

(a) arolygu neu gynnal profion ar domen lo y gwyddys ei fod neu yr amheuir ei fod yn lo; a

(b) cyflawni, goruchwyllo neu archwilio gwaith cynnal a chadw neu waith adfer ar domen lo;

(2) dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar rybudd ysgrifenedig 48 awr i'r perchennog ac unrhyw berson arall y gwyddir ei fod yn meddiannu'r tir neu mewn argyfwng;

(3) dylai'r awudrod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch sy'n awdurdodi mynediad trwy rym;

(4) dylai personau sydd wedi eu hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn gael pŵer i fynd â phersonau neu offer eraill gyda hwy yn ôl yr angen; a

(5) dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.

A ydych yn cytuno?

Cwestiwn Ymgynghoriad 27.

10.101 Rydym yn cynnig dros dro y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchymyn cynhaliaeth brys fod yn drosedd diannod.

A ydych yn cytuno?

PWERAU ERLYN

10.102 Mae'r cwestiwn ynghylch i ba raddau y dylai cost gweithrediadau ar domennydd glo ddisgyn ar bartion preifat neu ar bwrs y wlad y tu allan i'n cylch gorchwyl. Mae'r drefn sydd ar waith ar hyn o bryd o dan Ran 2 o Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 yn rhoi'r prif gyfrifoldeb ariannol dros fynd i'r afael â chanlyniadau tipio ansefydlogrwydd gyda'r perchennog fel y'i diffinnir yn adran 36. Mae hyn yn ddarostyngedig i hawliadau am gyfraniad yn erbyn eraill o dan adrannau 19 a 21 a phŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 25 i roi grantiau i ariannu gweithrediadau

adfer a gyflawnir gan awdurdodau lleol. Fel y nodwyd gennym ym mhennod 3, mae arian cyhoeddus wedi bod ar gael ar brydiau ar gyfer adfywio, ond dim ond dan gynlluniau penodol.

- 10.103 Mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthym eu bod yn aml wedi'i chael yn anodd adennill arian oddi wrth berchnogion.⁶⁴⁸ Yn ogystal, mae bwlch yn y darpariaethau, gan nad oes pŵer i godi tâl am waith cynnal a chadw nac am brofion archwiliadol nad ydynt yn arwain at wneud gwaith adfer.⁶⁴⁹ Mae'r pwynt ymarferol wedi'i wneud inni y gall fod yn fwy cost-effeithiol i gorff cyhoeddus wneud gwaith cynnal a chadw ataliol ar gynghorion yn hytrach na gwirio a gorfodi ei waith gan dirfeddiannwr.
- 10.104 Un dull posibl mewn achosion o'r fath fyddai dilyn model y cronfeydd dŵr drwy osod ffi ar berchennog cildyrnau adeg cofrestru, a chynyddu'r ffi flynyddol ar berchennog domen ddynodedig. Gellid cyfrifo hyn ar lefel i gwrdd â chost archwiliadau. Efallai, fel yr awgrymwyd yn ein trafodaeth ar gynllun y cronfeydd dŵr yn y bennod flaenorol ym mharagraff 9.28, y byddai pwerau ychwanegol i siapio'r strwythur codi tâl yn agosach at natur y gwaith sy'n ofynnol yn gweithio'n well na ffi flynyddol sefydlog. Fel hyn, gellid dod i gytundeb unigol gyda pherchnogion blaen ynghylch y tâl sydd i'w godi am y gwaith. Ar y llaw arall, gellid cyflawni rhai categorïau gwaith ar draul y cyhoedd.
- 10.105 Mater i Lywodraeth Cymru yw'r dewisiadau polisi hyn, ac nid i ni. Ond bydd angen pŵer cyffredinol i godi tâl ar y fframwaith rheoleiddio arfaethedig er mwyn gallu gwneud y dewisiadau hyn. Rydym yn trafod apelïadau a hawliadau am iawndal neu gyfraniad yn adran nesaf y bennod hon.

Cwestiwn Ymgynghoriad 28.

- 10.106 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r awdurdod goruchwyllo ac unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sydd â swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo gael pŵer cyffredinol i godi ffioedd a threuliau ar berchennog tir sy'n cynnwys tomen, a allai gynnwys taliadau cyfnodol.

A ydych yn cytuno?

APELIADAU A HAWLIADAU AM IAWNDAL NEU GYFRANIAD

- 10.107 Mae Deddf 1969 yn creu hawliau i apelio i'r llys sirol neu'r Uchel Lys mewn cysylltiad â hysbysiadau i gyflawni gwaith o dan adran 14 a hawliadau treuliau gan awdurdod lleol o dan adran 23. Mae hefyd yn cynnwys gwefan gymhleth braidd o hawliau i iawndal a hawliau cyfrannu yn adrannau 19 i 24. Disgrifir y darpariaethau hyn ym mhennod 4.

⁶⁴⁸ Mae paragraffau 4.51 i 4.57 uchod yn gosod allan y darpariaethau sy'n caniatáu i dreuliau cael ei hawlio o berchennog tomen, gorchmynion cyfrannu wedi'i wneud yn erbyn partïon eraill, ac apelïadau ar gyfer iawndal gan berchenogion. Gweler paragraffau 7.12 i 7.13 uchod ar gyfer profiad awdurdodau lleol yn ceisio gweithredu'r darpariaethau codi tâl yn y Ddeddf 1969.

⁶⁴⁹ Gweler paragraffau 7.17 a 7.24 isod.

- 10.108 Mae'r darpariaethau hyn yn ymddangos i ni yn drwsogl, gyda'r posibilrwydd o geisiadau lluosog i'r llys. Rydym yn ansicr i ba raddau y mae angen amdanynt o hyd yng ngoleuni ein diffiniad diwygiedig arfaethedig o berchennog a'r ffaith bod tipio rwbwl glofeydd yn rhywbeth sy'n perthyn bron yn gyfan gwbl i'r gorffennol. Rydym yn croesawu sylwadau ar hyn ac yn gwahodd ymgylgoreion i rannu gyda ni unrhyw wybodaeth neu brofiad sydd ganddynt am y gwahanol fathau o gais neu apêl y gellir eu gwneud o dan Ran 2 o Ddeddf 1969.
- 10.109 Os cedwir mecanwaith cyfrannu, mae'r categorïau o gyfranwyr yn adran 19(1) Deddf 1969 a'r rhestr o ffactorau sydd i'w hystyried o dan adran 19(4) yn ymddangos i ni eu bod yn dal yn briodol yn gyffredinol, ond rydym yn croesawu safbwyntiau ar hyn.⁶⁵⁰ Mae un cais i lys neu dribiwnlys, i ddatrys materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd i gyfrannu a swm y cyfraniad yn ymddangos yn well mewn egwyddor i'r ceisiadau olynol a all godi dan Ran 2, ond mae'r system bresennol yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i berchnogion, cyn iddynt ymgymryd â gwaith, o ran eu gallu i adennill cyfraniad.
- 10.110 Mae mater arall yn ymwneud â'r corff priodol i wrando ceisiadau ac apelau o dan gynllun newydd. Gallai'r rhain ddisgyn i ddau gategori: achosion rhwng partion preifat, megis ceisiadau am iawndal neu gyfraniad, ac achosion rhwng parti preifat, fel arfer "perchennog" tomen (fel y'i diffinnir) ac awdurdod. Yn yr ail gategori rydym yn ei ragweld dros dro: apelio yn erbyn cofrestru tir fel domen neu unigolyn penodol yn berchennog; apelio yn erbyn dynodi domen yn risg uwch; ac apelio yn erbyn gorchymyn cynnal a chadw.
- 10.111 Ar hyn o bryd, ystyr "y llys" at ddibenion Rhan 2 Deddf 1969 yw'r Uchel Lys neu'r llys sirol. Ym mhennod 9 disgrifiwyd tri model presennol ar gyfer hawliau apelio sy'n codi mewn perthynas â dynodi cronfeydd dŵr, cynlluniau cynnal a chadw a wnaed o dan atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a gorchmynion rheoli rhywogaethau anffroddol. Yn yr un modd, gallai deddfwriaeth y domen lo ddarparu i geisiadau ac apelau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru a'u hanfon at berson penodedig, fel yn achos dynodi cronfa ddŵr.⁶⁵¹ Fel arall, gellid cyfeirio apeliadau i'r Arolygiaeth Gynllunio, fel yn achos cynlluniau cynnal a chadw atodlen 3⁶⁵² neu i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys Haen Gyntaf (Amgylchedd), fel yn achos gorchmynion rheoli rhywogaethau.⁶⁵³
- 10.112 Cyrff apeliadol posibl eraill yw: yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tir); tribiwnlys datganoledig presennol megis Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru neu Dribiwnlys Prisio Cymru; neu dribiwnlys datganoledig newydd.⁶⁵⁴

⁶⁵⁰ Mae'r dosbarthiadau yn a 19(1) wedi'i gosod allan ym mharagraff 4.54 uchod. Mae'r rhestr o ffactorau i cymryd mewn i ystyriaeth wedi'i darparu gan a 19(4) wedi'i grynhoi gan para 4.55 uchod.

⁶⁵¹ Gweler paragraff 9.15 uchod.

⁶⁵² Gweler paragraff 9.77 uchod.

⁶⁵³ Gweler paragraff 9.92 uchod.

⁶⁵⁴ Ar gyfer gwybodaeth ar Dribiwnlys Eiddo Preswyl yng Nghymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a'r Tribiwnlys Prisio Cymru, ac ein gynigion dros dro ar gyfer system dribiwnlysoedd ar gyfer Cymru, gweler Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2020) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 251.

10.113 Mae penderfynu ar yr union ddull apelio y tu allan i gwmpas y prosiect, a dylai gael ei adael i Lywodraeth Cymru ei ddatblygu. Rydym yn awgrymu, fodd bynnag, gan y gallai seiliau apêl fod yn gofyn am feysydd arbenigedd penodol, er enghraifft mewn perthynas â pherchnogaeth a nodi ardal fel awgrym, y bydd yn bwysig darparu ar gyfer gwranddo'r apêl gan berson sydd ag arbenigedd priodol.

10.114 Rydym yn gofyn am farn ar y dull apelio mwyaf priodol er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei pholisi.


Cwestiwn Ymgynghoriad 29.

10.115 A yw'n briodol i ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn diogelwch newydd ar gyfer y tomennydd glo gynnwys

- (1) pŵer i werthu deunydd nad yw'n eiddo i berchennog domen lo sy'n cael ei dynnu o domen yn ystod gwaith adfer ar y domen; os felly, a ddylid rhoi dyletswydd i roi cyfrif i'r perchennog am elw'r gwerthiant?
- (2) darpariaeth ar gyfer iawndal pan fo gorchymyn i wneud gwaith adfer yn cael ei ddirymu?
- (3) dyletswydd i ddigolledu personau ac eithrio perchennog tomen am ddifrod i dir neu darfu ar fwynhad rhywun o dir o ganlyniad i brofion neu waith adfer?
- (4) darpariaeth ar gyfer dyfarnu cyfraniadau ariannol yn ôl disgresiwn i atebolrwydd perchennog? Os felly, a ddylai'r categorïau o berson sy'n atebol fod fel y'u nodir yn adran 19(1) Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a'r amgylchiadau sydd i'w hystyried yw'r rhai a nodir yn adran 19(4) y Ddeddf? Os na ddylent fod, pa ddarpariaeth arall y dylid ei gwneud.

10.116 Mae elfennau o'r fframwaith rheoleiddio arfaethedig a drafodwyd hyd yma wedi'u nodi yn y diagram isod.

DIAGRAM I GYNRYCHIOLI ELFENNAU O'N FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO ARFAETHEDIG



PANEL O BEIRIANWYR

- 10.117 Yn ychwanegol at yr elfennau yr ydym wedi eu hamlinellu uchod, rydym ar hyn o bryd yn ystyried bod y syniad o banel cymeradwyedig o beirianwyr sydd a chymwysterau arbenigol ar gyfer archwilio a chynnal a chadw tomennydd glo a goruchwyllo gweithredoedd ynddynt yn ffordd dda o sicrhau cysondeb a diogelwch. Fel yn achos y model cronfeydd dŵr, gallai Sefydliad y Peirianwyr Sifil ymgymryd â rôl achredu proffesiynol, ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo.
- 10.118 Yn achos awdurdod goruchwyllo cyhoeddus sydd â dyletswydd i archwilio a chynnal tomennydd, byddai'n syml sicrhau bod y peirianwyr a gyflogir i wneud y gwaith yma o banel a gymeradwyir ar lefel briodol. Mae'n debygol y byddai hefyd yn syml yn achos perchnogion tomennydd megis awdurdodau lleol, CNC a'r Awdurdod Glo sydd yn gweithredu cynllun cynnal a chadw ar gyfer eu tomennydd eu hunain. Mae'n llai syml ym achos perchnogion tomennydd preifat sydd yn gyfrifol am weithredu cytundeb cynnal a chadw tomennydd fyddai'n rhwymedig i gyflogi peiriannydd o'r panel ar gyfer mathau penodol o waith.⁶⁵⁵ Un o'r problemau a wynebwyd gan awdurdodau lleol wrth weithredu Deddf 1969 yw'r anghydfodau gyda pherchnogion tomennydd ynghylch yr angen i wneud gwaith er mwyn sicrhau sefydlogrwydd. Gallai panel o arbenigwyr ychwanegu at y gost o wneud gwaith cynnal a chadw ar domennydd, ond byddai'n helpu i sicrhau dull cyson.
- 10.119 Fel y trafodwyd ym mharagraff 9.32 uchod, roedd yr angen am banel o beirianwyr wedi cael ei werthfawrogi gan Dribiwnlys Trychineb Aberfan yn 1969, ar adeg pan yr oedd diwydiant mwyngloddio gweithredol yn bodoli a llai o domennydd anweithredol. Mae'n ymddangos bod y ddadl o blaid panel yn hyd yn oed cryfach o ganlyniad i golli arbenigedd a dirywiad y diwydiant ers y cyfnod hwnnw.

Cwestiwn Ymgynghoriad 30.

- 10.120 A ydych yn credu bod panel o beirianwyr â chymwysterau arbenigol ar gyfer gwneud a goruchwyllo math penodol o waith ar domennydd glo yn ffordd dda o sicrhau cysondeb a diogelwch?

GWRTHDARO RHWNG DEDDFWRIAETH AMGYLCHEDDOL A DIOGELWCH TOMENNYDD

- 10.121 Nid oedd y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) wedi cael eu dylunio i ddelio â thrychineb fawr. Mae'r darpariaethau ar gyfer achosion brys yn rheoliad 40 EPR wedi ei anelu at ddigwyddiadau yn dilyn mân fethiannau.⁶⁵⁶ I'r un graddau, nid oedd Deddf 1969 yn ystyried cyfnod pan fyddai bron yr holl domennydd yn anweithredol ac ni chawsant eu dylunio i ddelio â deddfwriaeth gwarchodaeth amgylcheddol. Y realiti yw y bydd gwaith clirio ar ôl lithriad tomen yn cymryd amser maith, a bydd yn mynd drwy gamau o adfer ac unioni. Byddai fframwaith rheoleiddo effeithlon yn helpu i

⁶⁵⁵ Gweler paragraff 10.63 uchod.

⁶⁵⁶ Gweler paragraff 5.20 uchod.

sicrhau nad yw argyfyngau yn digwydd mewn perthynas â thomennydd, ond mae'n dal yn bwysig nad yw'r gyfraith yn gweithredu fel rhwystr i ddatrysiad mewn achos o'r fath. Am y rheswm hwnnw, mae'n bwysig bod yna atebion cyfreithiol ar gyfer gwaredu deunydd tomennydd os byddant yn llithro neu os ydynt yn cael eu dadleoli mewn unrhyw ffordd arall. Mae yna hefyd achosion nad ydynt yn rhai brys pan fo deddfwriaeth amgylcheddol yn gwrthdaro â gwaith cynnal a chadw ar domennydd, fel yn achos y pyllau arafu a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 7.32 i 7.34 uchod.

- 10.122 Nid ydym yn credu mai esemptio deunydd tomennydd o ddeddfwriaeth amgylcheddol yw'r ateb. Byddai hynny yn erydiad sylweddol o warchodaeth amgylcheddol bwysig. Gall ymwybyddiaeth ar adeg ymateb brys am yr angen i wneud cais am y trwyddedau angenrheidiol a chaniatâd cynllunio ar gyfer datrysiadau maes o law, weithredu fel disgyblaeth ddefnyddiol.

Pŵer cyfarwyddo?

- 10.123 Rydym yn credu mai rhan o'r ateb yn nhermau deddfwriaeth efallai fydd darparu pŵer wedi ei ddrafftio yn yr un modd â phwerau'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'w gwneud yn ofynnol i ymatebydd categori 1 gyflawni swyddogaeth er mwyn rheoli, lliniaru ac ymateb i argyfwng tomen lo neu fygythiad o argyfwng.⁶⁵⁷ Byddai angen ymestyn y diffiniad o ymatebydd categori 1 at y dibenion hyn er mwyn cynnwys yr awdurdod goruchwylio newydd. Gallai'r darpariaeth alluogi camau er mwyn osgoi perygl i iechyd a diogelwch pobl tra hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried yr angen i leihau niwed i'r amgylchedd. Gallai cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod wneud cais am y trwyddedau a'r caniatâd cynllunio angenrheidiol pan fo hynny yn ddichonadwy. Byddai hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod y camau a gymerir ar adeg yr argyfwng yn gyfreithlon.

Cwestiwn Ymgynghoriad 31.

- 10.124 A ydych yn credu y dylai Gweinidogion Cymru allu rhoi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwylio a phartïon perthnasol eraill mewn perthynas â'r camau i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng tomen lo?

Pŵer ehangach mewn achosion brys o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol

- 10.125 Rydym hefyd yn credu y byddai'n fuddiol diwygio'r rheoliad pwerau brys yn yr EPR er mwyn sicrhau nad yw nid yn unig yr ymateb brys uniongyrchol yn torri'r rheoliadau, ond pan fo'n briodol, nad yw camau tymor byr i dymor canolig ddim yn eu torri ychwaith. Ar hyn o bryd, mae Rheoliad 40(1) yn caniatáu i awdurdod gymryd camau mewn achos brys er mwyn osgoi perygl i iechyd pobl, pan fo'r holl gamau rhesymol wedi cael eu cymryd er mwyn lleihau llygredd a bod y rheoleiddiwr wedi cael ei hysbysu'n brydlon. Gallai'r rheoliad hefyd ddarparu bod yr awdurdod yn cael ei warchod yn dilyn achos brys, nes ei bod yn ddichonadwy i wneud cais am y trwyddedau priodol er mwyn ymdrin â'r ateb hirdymor. Gallai hynny ddarparu

⁶⁵⁷ Gweler paragraffau 5.41 i 5.45 uchod.

gwarchodaeth oni ellid dangos bod y rhai oedd yn gweithredu yn ymwybodol o'r risg o ddifrod amgylcheddol ac wedi methu â defnyddi rhagofalon rhesymol.⁶⁵⁸

Cwestiwn Ymgynghoriad 32.

10.126 A ydych yn credu y dylid ehangu pŵer yr awdurdod goruchwyllo i weithredu mewn achos brys yn unol â rheoliad 40 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016? Os ydych, ym mha ffordd?

Dull mwy cydweithredol

10.127 Ynghyd â newidiadau deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn llunio Protocol er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau sydd yn ymwneud ag achos brys sydd yn ymwneud â thomen lo yn gallu cydlynu eu hymateb, er mwyn cytuno ar y dull gorau dan yr amgylchiadau a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd. Bydd canllawiau fydd yn ategu dull mwy cydweithredol a phragmatig yn helpu i sicrhau bod yr holl bartïon yn ystyried y posibilïadau, ac yn pwysu a mesur diogelwch y cyhoedd a niwed amgylcheddol ym mhob achos. Byddai gweithredu yn unol â chanllawiau perthnasol yn ystyriaeth berthnasol o ran ystyried a oedd y camau a gymerwyd gan awdurdod er mwyn osgoi niwed amgylcheddol yn rhesymol.

Seilwaith wrth gefn

10.128 Mae rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu y dylai cynlluniau wrth gefn gynnwys yr angen i seilwaith wrth gefn ganiatáu i deunydd tomennydd gael ei storio os digwydd llithriad. Gellid darparu'r rhain mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o domennydd. Gall swm y deunydd, fel yn achos llithriad Tylorstown, fod yn anferthol, ac yn ymarferol mae'n annhebygol mai dyma fyddai'r ateb ym mhob achos, ond gallai gyfrannu at yr ateb mewn rhai achosion.⁶⁵⁹

Mwy o ddewis o opsiynau gwaredu ar gyfer gwastraff tomennydd glo sydd wedi'i ddadleoli?

10.129 Pan fo'r awdurdod mewn sefyllfa i wneud cais am ganiatadau am ateb hirdymor i waredu'r deunydd, gall fod yn anodd iawn o hyd i ganfod ateb i waredu symiau mor fawr o ddeunydd. Mae hynny yn cael ei ddangos gan y cais cynllunio ôl-weithredol a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn dilyn llithriad Tylorstown. Gall y rheoliadau presennol ei gwneud yn ofynnol i gludo'r deunydd dros bellter morfaith fel bod y gost a'r effaith amgylcheddol o'i gludo yn afresymol.

⁶⁵⁸ Mae A 4 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu amddiffyniad ar gyfer lladd neu anafu aderyn gwyllt pan fo'r camau dan sylw yn angenrheidiol er iechyd a diogelwch y cyhoedd ac nad oes yna unrhyw ateb derbyniol arall. Mae defnyddio'r amddiffyniad hwnnw yn cael ei gyfyngu i weithgareddau o dan amgylchiadau pan nad oedd gan y diffynnydd yr amser i wneud cais am drwydded neu i ddisgwyl am benderfyniad ar y cais am drwydded, ac y rhoddir hysbysiad ôl-weithredol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol cyn gynted ag y mae hynny yn rhesymol ymarferol ar ôl gweithredu, gan sicrhau elfen o oruchwyliaeth o ganlyniad i hynny. Trafodir y dull yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Bywyd Gwyllt, Cyfrol Un (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362 paragraffau 7.159 i 7.169.

⁶⁵⁹ Cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

10.130 Mae hynny yn awgrymu bod y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol eu hunain angen eu diwygio efallai er mwyn caniatáu atebion storio pwrpasol ar gyfer deunydd tomennydd. Er enghraifft, awgrymodd rhanddeiliad i ni y gall fod yna ffyrdd o ddiffinio deunyddiau fel deunydd peiriannu yn hytrach na gwastraff heb fod angen proses o drin y deunydd fyddai angen trwydded. Efallai y byddai'n bosibl gwneud hynny ar lefel canllawiau.⁶⁶⁰ Hefyd gallai cynllunio ymlaen llaw gan yr awdurdodau sydd yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch gwaredu deunyddiau helpu i ddarparu atebion ellid eu defnyddio mewn achos brys. Rydym yn credu ei bod y tu hwnt i gwmpas y prosiect yma i ystyried ar ba ffurf y dylai'r newidiadau hynny fod. Gallai'r gwaith fod yn gyfochrog ag ystyried atebion technegol gwell.

Cwestiwn Ymgynghoriad 33.

10.131 A ydych yn awgrymu unrhyw dulliau eraill o ddelio â gwrthdaro rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a diogelwch tomennydd? Os ydych, nodwch hwy os gwelwch yn dda.

PROSIECTAU ADFER

10.132 Er mwyn lleihau'r risg i lithriadau mewn amodau tywydd eithriadol o'r math a welwyd yn ddiweddar, mae'n ymddangos yn debygol y bydd rhai o'r tomennydd glo yng Nghymru, yn arbennig y rhai sydd yn perthyn i'r categori "tomennydd dynodedig" a drafodir uchod, angen nid yn unig gwell cynnal a chadw ond gwaith peirannau, yr ydym wedi cyfeirio ato fel gwaith "adfer". Mae rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu, o ystyried y risg uwch o fethiant draeniau tomennydd glo a grëir gan newid hinsawdd, sydd i bob pwrpas yn cyflymu diwedd eu hoes draenio, ei bod yn amser hefyd am rownd newydd o brosiectau adfer.

10.133 Mae adfer yn wahanol i unioni yn unig oherwydd mai un amcan ychwanegol y gwaith yma yw gwneud defnydd buddiol penodol unwaith eto o'r domen. Rydym wedi disgrifio ym mhennod 3 y gwaith adfer helaeth a wnaethpwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru tan iddo gael ei ddiddymu yn 2012. Hefyd yn y bennod flaenorol fe welsom mai safon fuddiol ar gyfer adfer yw'r hyn a bennir yn yr UDA gan Ddeddf Rheoli ac Adfer Mwyngloddio Brig 1977 sydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyn safleoedd mwyngloddio gael eu hadfer i gyflwr "capable of supporting the uses which it was capable of supporting prior to any mining, or higher or better uses".

10.134 Gall fod yn bosibl cyfuno ein cyfundrefn uwch arfaethedig ar gyfer tomennydd risg uwch gyda dull datblygu strategol mwy hirdymor er mwyn enwi tomennydd ar gyfer prosiectau cyfalaf. Gallai'r broses o ddynodi tomennydd yr ydym wedi ei hamlinellu uchod gynnwys ystyriaeth i'w haddasrwydd ar gyfer prosiect adfer neu unioni mawr.

⁶⁶⁰ Gweler er enghraifft Environment Agency, *Position Statement, Regulatory Framework for the implementation of the Mining Waste Directive*(2010), https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328135419/http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Research/PS019-MWD_Regulatory_Framework.pdf (ymwelid diwethaf ar 17 Mawrth 2021). Nodwyd hynny ym mharagraff 3.6 pan eglurwyd gennym nad yw'r deunydd a gynhyrchir gan lofeydd brig yn cael ei drin fel gwastraff echdynol y mae angen trwydded ar ei gyfer o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol pan fo'r deunydd i gael ei ddychwelyd i'r gwagle mwyngloddio.

Mae'r modelau yr ydym wedi eu hystyried yn Awstralia yn dangos rôl strategaeth adsefydlu rhanbarthol ehangach, a phanel cyngori arbenigol.

- 10.135 Un offeryn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer hynny fyddai cydbwyllgor corfforaethol wedi ei sefydlu dan Ddeddf Llywodraeth ac Etholiadau Lleol (Cymru) 2021. Fel y trafodwyd ym mhennod 7, ac fel y cyfeirir ato uchod, mae hynny yn caniatáu sefydlu cydbwyllgor corfforaethol yn fras ar gyfer unrhyw swyddogaeth yn y sector cyhoeddus, yn cynnwys lles economaidd.⁶⁶¹ Gall awdurdodau lleol gydweithio er mwyn gwneud cais i sefydlu cydbwyllgor corfforaethol mewn perthynas ag unrhyw un o'u swyddogaethau. Hefyd gall Llywodraeth Cymru sefydlu pwyllgor o'r fath er mwyn perfformio, er enghraifft, swyddogaeth lles economaidd.⁶⁶²
- 10.136 Byddai'r dull hwn yn caniatáu datblygu Canolfan Ragoriaeth i bob pwrpas ar gyfer adfer tomennydd. Gallai egwyddorion datblygu cynaliadwy o dan Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 arwain dewisiadau polisi ynghylch tomennydd. Mae'r egwyddorion yma yn cynnwys yr angen i ystyried lles y cyhoedd yn yr hirdymor. Disgrifiodd rhanddeiliaid arbenigol i ni lwyddiant Awdurdod Datblygu Cymru o ran adfer tomennydd pan yr oedd gwerth economaidd i'r tir, ac mai un o'r anawsterau o ran adfer tir heddiw yw mai'r tomennydd sydd ar ôl yw'r rhai sydd â'r gwerth datblygu lleiaf. Mae profiad y gyfundrefn tir halogedig yn dangos ei bod yn well mabwysiadu dull adfer sydd yn trosglwyddo'r gost o adfer i'r rhai fydd yn cael gwerth o'r gwaith adfer.⁶⁶³ Gall yr egwyddorion datblygu cynaliadwy weithio i ail-siapio cysyniadau gwerth economaidd yng nghyd-destun argyfwng hinsawdd. Fel y trafodwyd yn gynharach yn y papur hwn, un opsiwn fyddai defnyddio tomennydd a adferwyd ar gyfer storio carbon neu er mwyn gwarchod bioamrywiaeth.⁶⁶⁴
- 10.137 Yn draddodiadol mae prosiectau adfer wedi didynnu ar bryniant gorfodol er mwyn adfer safleoedd. Gellir canfod model defnyddiol ar gyfer tomennydd glo yn y pwerau pryniant gorfodol a ddarperir gan Ddeddf Diwydiant Glo 1994 ar gyfer rheoli rhyddhau dŵr o fwyngloddiau.⁶⁶⁵ Dewis arall fyddai cymhwyso model trwyddedu. Roedd Deddf Mwyngloddio Brig 1958 er enghraifft yn caniatáu gweithgareddau mwyngloddio glo brig dim ond pan roddwyd awdurdod at y diben hwnnw. Yn yr un modd, o dan Ddeddf Diwydiant Glo 1994, mae'r Awdurdod Glo yn cadw perchnogaeth ar lo heb ei weithio ond yn rhoi trwyddedau ar gyfer gweithgaredd mwyngloddio glo. Gallai'r tir y mae'r domen lo wedi ei lleoli arno gael ei drwyddedu i'r awdurdod goruchwyllo am y cyfnod y caiff y gwaith ei wneud, tra bod y tiffeddiannwr yn cadw'r berchnogaeth.
- 10.138 Gellir gweld model presennol sydd yn dangos dewisiadau amgen i bryniant gorfodol mewn camau adfer safleoedd mwyngloddio metel yn ddiweddar. Rhoddodd CNC enghraifft i ni o fwynglawdd blwm Frongoch yng nghanolbarth Cymru. Mae'r safle yn un o'r safleoedd mwyngloddio gadwedig mwyaf llygredig yng Nghymru. Bu i'r prosiect adfer ail-broffilio a chapio ardal eang o wastraff mwyngloddio. Roedd sianeli draenio

⁶⁶¹ Gweler paragraff 7.51 a pharagraff 10.26 uchod.

⁶⁶² Gweler Deddf Llywodraeth ac Etholiadau Lleol (Cymru) 2021, rhan V.

⁶⁶³ Gweler paragraff 5.37 uchod.

⁶⁶⁴ Gweler paragraff 7.61 uchod.

⁶⁶⁵ Gweler paragraff 9.104 uchod.

yn cario dŵr ffo glân i gyfres o byllau gan greu cynefin gwlypdir newydd. Roedd y cam cyntaf o adfer y safle yn ymwneud ag arallgyfeirio ffrwd o gwmpas y safle. Rhoddodd y tirfeddiannwr drwydded i'r awdurdod wneud y gwaith yn ystod cyfnod penodol yn gyfnewid am ystyriaeth symbolaidd. Cwblhawyd y gwaith ail-broffilio chapio drwy Weithred Grant gyda'r tirfeddiannwr a Chyfnod Mynediad Cynnal a Chadw yn ddiweddarach. Roedd y cytundeb hefyd yn cynnwys hawliau a chyfamodau er mwyn atal difrod i'r nodweddion adeiledig hyd byth. Rhoddodd CNC un taliad i'r tirfeddiannwr am y rhan yma o'r gwaith. Daethpwyd i gytundeb gyda'r tirfeddiannwr yn yr achos hwn yn wirfoddol, ond byddai'r pwerau o dan adran 16 Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i lunio cytundebau rheoli tir ar gael erbyn hyn.⁶⁶⁶

- 10.139 Mae'r awgrymiadau yma yn ymestyn y tu hwnt i'n cylch gorchwyl, ond rydym yn credu bod eu cynnwys yn adlewyrchu pryderon rhanddeiliaid, yn helpu i ddiogelu'r fframwaith rheoleiddio i'r dyfodol, ac yn cydweddu â'r normau ehangach sydd yn rheoli llunio polisi amgylcheddol yng Nghymru.

Cwestiwn Ymgynghoriad 34.

- 10.140 A ydych yn cytuno y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd newydd gael ei chyfuno â darpariaeth ar gyfer ystyried adfer tomennydd? Os ydych, ydych chi'n ffafrio unrhyw fodel yn benodol?

⁶⁶⁶ Robert Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru a gweler P Edwards, T Williams, P Stanley, *Surface water management and encapsulation of mine waste to reduce water pollution from Frongoch Mine, Mid-Wales* (2016), ar gael yn: https://www.imwa.info/docs/imwa_2016/IMWA2016_Edwards_46.pdf (cyrchwyd ddiwethaf ar 17 Mawrth 2021). Gweler paragraff 9.103 i weld pwerau ar gyfer llunio cytundeb rheoli tir o dan Ddeddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Pennod 11: Cwestiynau Ymgynghoriad

Cwestiwn Ymgynghoriad 1.

- 11.1 Rydym yn cynnig ar hyn o bryd na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.6

Cwestiwn Ymgynghoriad 2.

- 11.2 Rydym yn ceisio barn ynghylch a allai diffiniad boddhaol o domen lo segur gyfeirio at wastraff o waith cloddio glo ac a ddylai gynnwys cyfeiriad penodol at domennydd gorlwyth, ôl-lenwi, tomennydd rwbel, pentyrrau stoc a morlynnoedd.

Paragraff 10.12

Cwestiwn Ymgynghoriad 3.

- 11.3 Rydyn ni'n cynnig dros dro na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn berthnasol i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn berthnasol iddi.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.13

Cwestiwn Ymgynghoriad 4.

- 11.4 I'r graddau y mae atebolrwydd o dan y fframwaith rheoleiddio newydd yn gorwedd gyda pherchennog y tir sy'n cynnwys tomen, rydym yn cynnig dros dro y dylid diffinio'r perchennog fel rhydd-ddeiliad neu lesddeiliad o dan brydles o 21 mlynedd neu fwy, ac eithrio pan fydd eu buddiant yn cael ei adfer i gyfnod o 21 mlynedd neu fwy.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.19

Cwestiwn Ymgynghoriad 5.

11.5 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.

A ydych yn cytuno? Os nad ydych chi, nodwch beth fydddech chi'n ei ffafrio.

Paragraff 10.23

Cwestiwn Ymgynghoriad 6.

11.6 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar y canlynol: ai gorff sydd eisioes yn bodoli neu gorff a greir o'r newydd ddylai'r awdurdod goruchwyllo fod.

Paragraff 10.25

Cwestiwn Ymgynghoriad 7.

11.7 Os sefydlir corff newydd, ar ba ffurf ddylai'r corff newydd fod? A ddylai, er enghraifft, fod yn gorff cyhoeddus canolog, yn gydbwyllgor corfforaethol o awdurdodau lleol o dan Deddf Llywodraeth Leol a Chynllunio (Cymru) 2021, neu yn rhywbeth arall?

Paragraff 10.26

Cwestiwn Ymgynghoriad 8.

11.8 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo i sicrhau diogelwch tomennydd gael ei fframio fel un gyffredinol, ac nid yn un a gyfyngir i risgiau penodol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.27

Cwestiwn Ymgynghoriad 9.

11.9 Rydym yn cynnig dros dro y dylid ffurfio a chynnal cofrestr ganolog o domennydd.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.29

Cwestiwn Ymgynghoriad 10.

11.10 Rydym yn cynnig dros dro y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.30

Cwestiwn Ymgynghoriad 11.

11.11 Ar hyn o bryd rydym yn ystyried

(1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo ac y dylai gael y pŵer i gynnwys unrhyw domen ar y gofrestr y daw'n ymwybodol ohoni;

(2) dylai perchennog tir gael hawl i apelio yn erbyn cynnwys y tirlfeddiannwr fel perchennog tir ble lleolir tomen; dylai sail yr apêl fod yn (a) nad y tir feddiannwr yw perchennog y tir dan sylw a/neu (b) nad oes tomen ar y tir.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.36

Cwestiwn Ymgynghoriad 12.

11.12 Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai perchennog tir fod o dan ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod goruchwyllo am unrhyw domen y mae perchennog y tir yn ymwybodol ohoni neu'n dod yn ymwybodol ohoni ar dir sy'n eiddo i'r tirlfeddiannwr, oni bai fod gan y tirlfeddiannwr reswm dros gredu ei fod eisoes wedi'i gofrestru.

Paragraff 10.37

Cwestiwn Ymgynghoriad 13.

11.13 A ydych yn credu y dylai'r holl wybodaeth ar gofrestr tomennydd fod ar gael yn gyhoeddus ai peidio? A oes yna unrhyw gategorïau penodol o wybodaeth na ddylid eu cyhoeddi?

Paragraff 10.41

Cwestiwn Ymgynghoriad 14.

11.14 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.43

Cwestiwn Ymgynghoriad 15.

11.15 Rydym yn cynnig dros dro

(1) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd yn gynwysedig yn y gofrestr;

(2) dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn asesiad risg a chynllun rheoli tomennydd drwy offeryn statudol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.49

Cwestiwn Ymgynghoriad 16.

11.16 Rydym yn cynnig dros dro y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau llithriad gwastraff.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.52

Cwestiwn Ymgynghoriad 17.

11.17 A ddylai dosbarthiad tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlosgiad a llifogydd?

Paragraff 10.53

Cwestiwn Ymgynghoriad 18.

11.18 Rydym yn cynnig dros dro y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomen lo fel un "risg uwch" gan yr awdurdod diogelwch pan fo'r domen yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.59

Cwestiwn Ymgynghoriad 19.

11.19 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid dynodi drwy gyfeirio at unrhyw un o'r meini prawf canlynol, neu unrhyw rai eraill:

- (1) mae'r domen yn dangos arwyddion neu mae ganddi hanes diweddar o symudiad neu ansefydlogrwydd;
- (2) byddai llithriad gwastraff o'r domen yn debygol o effeithio ar
 - (a) adeiladau neu ardaloedd sydd wedi eu dylunio i bobl fyw ynddynt neu eu meddiannu;
 - (b) ffordd, rheilffordd, camlas neu unrhyw seilwaith arall; neu
 - (c) gwrs dŵr;
- (3) mae yna risg sylweddol i'r domen ryddhau llygredd peryglus i'r amgylchedd;
- (4) mae yna risg sylweddol i'r domen achosi llifogydd;
- (5) mae yna risg sylweddol i ddeunydd yn y domen ymlosgi yn ddigymell;
- (6) mae angen gwaith peiriannu ar y domen.

Paragraff 10.60

Cwestiwn Ymgynghoriad 20.

11.20 Rydym yn cynnig dros dro y dylai unigolyn yr effeithiwyd arno gan ddynodi tomen lo fel un risg uwch gael hawl i apelio.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.61

Cwestiwn Ymgynghoriad 21.

11.21 Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen ar gyfer y domen benodol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.69

Cwestiwn Ymgynghoriad 22.

11.22 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r awdurdod goruchwyllo gael y pŵer i lunio cytundeb rheoli tomennydd gyda pherchennog y tir sydd wedi ei gofrestru ar y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y perchennog yn cynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.81

Cwestiwn Ymgynghoriad 23.

11.23 A ydych yn cytuno mai'r awdurdod ddylai ysgwyddo'r ddyletswydd archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundeb rheoli tomennydd?

Paragraff 10.82

Cwestiwn Ymgynghoriad 24.

11.24 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r

- (1) perchennog wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb a luniwyd a'u bod wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;
- (2) cynigwyd cytundeb i'r perchennog ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod, ac mae'r awdurdod yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn cytuno;
- (3) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu
- (4) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.

11.25 Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.

11.26 Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i'r awdurdod wneud hynny.

11.27 Dylai fod gan y perchennog hawl i apelio yn erbyn gosod gorchymyn cynhaliaeth.

11.28 Ac eithrio yn achos gorchymyn brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.83

Cwestiwn Ymgynghoriad 25.

11.29 Ydych chi'n credu mai'r awdurdod goruchwyllo ddylai fod yn gyfrifol am gytundebau cynnal a chadw ar gyfer tomennydd risg is, neu mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol?

11.30 Os ydych chi'n credu mai'r awdurdod lleol ddylai fod yn gyfrifol, a ddylai hyn gynnwys gwneud a goruchwyllo'r cytundebau, neu a ddylai'r awdurdod goruchwyllo gael y ddyletswydd i wneud y cytundeb?

Paragraff 10.93

Cwestiwn Ymgynghoriad 26.

11.31 Rydym yn cynnig dros dro

(1) dylai pobl sydd wedi'u hawdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod a phŵer mynediad at dir at ddibenion

(a) arolygu neu gynnal profion ar domen lo y gwyddys ei fod neu yr amheuir ei fod yn lo; a

(b) cyflawni, goruchwyllo neu archwilio gwaith cynnal a chadw neu waith adfer ar domen lo;

(2) dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar rybudd ysgrifenedig 48 awr i'r perchennog ac unrhyw berson arall y gwyddir ei fod yn meddiannu'r tir neu mewn argyfwng;

(3) dylai'r awudrod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch sy'n awdurdodi mynediad trwy rym;

(4) dylai personau sydd wedi eu hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn gael pŵer i fynd â phersonau neu offer eraill gyda hwy yn ôl yr angen; a

(5) dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.100

Cwestiwn Ymgynghoriad 27.

11.32 Rydym yn cynnig dros dro y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchymyn cynhaliaeth brys fod yn drosedd diannod.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.101

Cwestiwn Ymgynghoriad 28.

11.33 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r awdurdod goruchwyllo ac unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sydd â swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo gael pŵer cyffredinol i godi ffioedd a threuliau ar berchennog tir sy'n cynnwys tomen, a allai gynnwys taliadau cyfnodol.

A ydych yn cytuno?

Paragraff 10.106

Cwestiwn Ymgynghoriad 29.

11.34 A yw'n briodol i ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn diogelwch newydd ar gyfer y tomennydd glo gynnwys

(1) pŵer i werthu deunydd nad yw'n eiddo i berchennog domen lo sy'n cael ei dynnu o domen yn ystod gwaith adfer ar y domen; os felly, a ddylid rhoi dyletswydd i roi cyfrif i'r perchennog am elw'r gwerthiant?

(2) darpariaeth ar gyfer iawndal pan fo gorchymyn i wneud gwaith adfer yn cael ei ddirymu?

(3) dyletswydd i ddigolledu personau ac eithrio perchennog tomen am ddifrod i dir neu darfu ar fwynhad rhywun o dir o ganlyniad i brofion neu waith adfer?

(4) darpariaeth ar gyfer dyfarnu cyfraniadau ariannol yn ôl disgrisiwn i atebolrwydd perchennog? Os felly, a ddylai'r categorïau o berson sy'n atebol fod fel y'u nodir yn adran 19(1) Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969 a'r amgylchiadau sydd i'w hystyried yw'r rhai a nodir yn adran 19(4) y Ddeddf? Os na ddylent fod, pa ddarpariaeth arall y dylid ei gwneud.

Paragraff 10.115

Cwestiwn Ymgynghoriad 30.

11.35 A ydych yn credu bod panel o beirianwyr â chymwysterau arbenigol ar gyfer gwneud a goruchwyllo math penodol o waith ar domennydd glo yn ffordd dda o sicrhau cysondeb a diogelwch?

Paragraff 10.120

Cwestiwn Ymgynghoriad 31.

11.36 A ydych yn credu y dylai Gweinidogion Cymru allu rhoi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo a phartïon perthnasol eraill mewn perthynas â'r camau i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng tomen lo?

Paragraff 10.124

Cwestiwn Ymgynghoriad 32.

11.37 A ydych yn credu y dylid ehangu pŵer yr awdurdod goruchwyllo i weithredu mewn achos brys yn unol â rheoliad 40 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016? Os ydych, ym mha ffordd?

Paragraff 10.126

Cwestiwn Ymgynghoriad 33.

11.38 A ydych yn awgrymu unrhyw dulliau eraill o ddelio â gwrthdaro rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a diogelwch tomennydd? Os ydych, nodwch hwy os gwelwch yn dda.

Paragraff 10.131

Cwestiwn Ymgynghoriad 34.

11.39 A ydych yn cytuno y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd newydd gael ei chyfuno â darpariaeth ar gyfer ystyried adfer tomennydd? Os ydych, ydych chi'n ffafrio unrhyw fodel yn benodol?

Paragraff 10.140

Atodiad 1: Cydnabyddiaethau

- 1.1 Hoffem ddiolch i'r sefydliadau, grwpiau a phobl ganlynol sydd wedi cyfarfod â ni neu sydd wedi ein helpu yn ystod cam cyn ymgynghori y prosiect. Hoffem hefyd ddiolch i Lori Frater, Llyr Jones, Sam Deeley a'r tîm Diogelwch Tomennydd Glo yn Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru yn ogystal â Phartneriaeth y Tasglu a'r Grwpiau Technegol.

Rhanddeiliad	Sefydliad
Banton, Carl	Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Yr Awdurdod Glo
Browne, John	Uwch Ymgynghorydd Tir Arbenigol, Cyfoeth Naturiol Cymru.
Bryant, Darren	Uwch Reolwr Prosiect, Yr Awdurdod Glo
Chandler, Mark	Pennaeth Tîm Parodrwydd y Gaeaf, Swyddfa Cymru
Cloke, Peter	Arweinydd tîm rheoli tir, Cyfoeth Naturiol Cymru
Coggan, Yr Athro John	Athro Peirianeg Creigiau, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter
Cousins MBE, Jeremy	Pennaeth Rhwymedigaethau Glo a Swyddfa'r Cyfarwyddwr, Yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Curtis, Dr Ben	Cymrawd Ymchwil Ôl-ddoethuriaeth mewn Llafur a Hanes Cymdeithasol, Hanesydd ac Academydd, Prifysgol Wolvrhampton
Dulong, Jean-Francois	Swyddog Llifogydd a Dŵr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Edwards, Paul	Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhanddeiliad	Sefydliad
Foster, Yr Athro Patrick	Cyfarwyddwr Addysg ac Athro Cyswllt mewn Diogelwch Mwyngloddiau, Ysgol Mwyngloddiau Cambourne , Prifysgol Exeter
Griffiths, Dr Richard	Rheolwr Trwyddedu Tanwydd Ffossil a Dal a Storio Carbon, Is-Adran Ynni, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Griffiths, Scott	Daearegwr Peirianyddol, Cyfoeth Naturiol Cymru
Hope, Craig	Uwch Reolwr Merthyr a Threharris, Swyddog Tannau Gwyllt, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Hudson-Edwards, Yr Athro Karen	Athro Mwyngloddio Cynaliadwy, Ysgol Mwyngloddiau Camborne, Prifysgol Exeter
Humphreys, Simon	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Jones, Dan	Reolwr Prosiect, Yr Awdurdod Glo
Jones, Judith	Gwasanaethau Cynllunio a Chymdogaethau, Cyngor Merthyr Tydfil
Kinsey, Kevin	Rheolwr Grŵp Prosiectau Peirianeg, Cyngor Caerffili
Lee, Yr Athro Robert A myfyrwyr: Adele Mullerova Annabel Taylor Ebrar Reis Wing Lui	Aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomennydd Glo a Chyfarwyddwr Canolfan Addysg ac Ymchwil Cyfreithiol Proffesiynol, Ysgol y Gyfraith Birmingham, Prifysgol Birmingham

Rhanddeiliad	Sefydliad
Leeming, Robert	Prif Arolygydd Mwyngloddiau EM, Yr Arolygiaeth Mwyngloddiau
Leyshon, Jonathan	Prif Beiriannydd, Cyngor Blaenau Gwent
Lloyd, Marcus	Pennaeth Seilwaith, Cyngor Caerffili
Maliphant, Paul	Cyfarwyddwr Datblygu Cymru, Mott MacDonald, Aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomennydd Glo
Marples, Tim	Pennaeth Ymateb i Domennydd, Tîm Ymateb i Domennydd, Yr Awdurdod Glo
Mew, Colin	Prif Arolygydd Chwareli EM, Yr Arolygiaeth Mwyngloddiau
Morris, Carwyn	Pennaeth Peirianeg, Cyngor Merthyr Tydfil
O'Brien, Matthew	Tîm Rheoleiddio Cronfeydd Dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru.
Peppin, Tim	Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pinney, Lisa	Prif weithredwr, Yr Awdurdod Glo
Powell, Carl	Rheolwr Gwasanaeth Seilwaith, Cyngor Blaenau Gwent
Price, Ross	Rheolwr Risg Ilifogydd, Cyngor Sir Fynwy
Pride, Jennifer	Is-adran Ynni, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Ransome, Paul	Rheolwr Prosiect, Pontydd a Strwythurau Priffyrdd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

Rhanddeiliad	Sefydliad
Reid, Darnley	Swyddfa Cymru
Richards, Gareth	Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd, Cyngor Caerffili
Sherwood, Stephen	Cynnal a Chadw Priffyrdd a Pheiriannydd Rheoli Asedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Siddle, Howard	Daearegwr Peirianyddol Ymgynghorol, CH2M Hill, Aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomennydd Glo
Smith, Stephen	Cyn Bennaeth Adfer Tir, Llywodraeth Cymru, Aelod o Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomennydd Glo
Stone, Andrew	Rheolwr Prosiectau Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Sullivan, Robert	Reolwr Prosiectau Cynorthwyol (Tomennydd), Yr Awdurdod Glo
Taylor, Calum	Ysgrifennydd Preifat, Swyddfa Cymru
Thomas, Alun	Arweinydd Tîm Goruchwylio Safleoedd, Cyngor Abertawe
Tunstall, Roger	Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyfoeth Naturiol Cymru
Vaughan, Robert	Rheolwr Defnydd Tir Cynaliadwy, Cyfoeth Naturiol Cymru
Wasteney, Clare	Pennaeth Cyfreithiol a Llywodraethu, Yr Awdurdod Glo
Waters, Roger	Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rhanddeiliad	Sefydliad
Whelan, Chris	Yr Adran Fusnes, Strategaeth Ynni a Diwydiannol
Williams, Huw	Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Senedd
Woodier, James	Peiriannydd Cynorthwyol, Rheoli Risg Llifogydd, Cyngor Sir Fynwy

Atodiad 2: Ffotograffau i ddangos gwaith adfer

Mae'r lluniau yma yn cyflwyno tair tomen glo Rhondda Cynon Taf: tomen y Pwll Glo Cenedlaethol yn Wattstown, y tomen Tylorstown wnaeth llithro yn Chwefror 2020 a'r tomen cyfagos wedi'i llysenwi "Old Smokey" oherwydd ymlosgiad digymell a wnaeth para am flynyddoedd. Maent yn dangos gwaith adfer a chynnal a chadw o'r gorffennol a fwy diweddar ac effaith y llithriad Tylorstown.⁶⁶⁷

Y DOMEN GENEDLAETHOL

Proffil 'berm and batter'

Roedd y domen genedlaethol yn Wattstown, Rhondda Cynon Taf yn gysylltiedig â'r Pwll Glo Cenedlaethol yn Wattstown. Cafodd y domen ei hadfer a'i hailbroffilio'n sylweddol, gan greu proffil "berm a batter", a gosod sianel ddraenio fawr, gyda sianeli draenio ar draws yn ei bwydo ar hyd gwaelod pob ysgafell. Mae lluniau hanesyddol a chyfredol o'r domen yn dangos y gwaith adfer.



Y domen Genedlaethol yn 1945 cyn i unrhyw waith adfer gael ei wneud.⁶⁶⁸

⁶⁶⁷ Gaeth lluniau sydd heb ei credydu eu cymryd gan aelodau o'r tîm.

⁶⁶⁸ Map data: Google Earth, © 2021 The GeoInformation Group.



Y domen cyn y gwaith adfer.⁶⁶⁹ Mae llethr y domen yn serth ac, yn bennaf, yn foel ac yn brin o llystyfiant.



Y domen yn 2020, ar ôl gwaith adfer sylweddol.⁶⁷⁰ Gweler yr ysgafellau sy'n rhedeg yn llorweddol ar draws llethr y domen, a'r llystyfiant sydd wedi sefydlu.

⁶⁶⁹ © Dr Mary Gillham Archive Project, "Wattstown tip above Wattstown just South of Tylorstown. Ynyshir and Porth at junction of 2 Rhondda rivers" available at: <https://www.flickr.com/photos/marygillhamarchiveproject/25970844383/in/photostream/> (last visited 27 April 2021). Creative Commons Attribution 2.0.

⁶⁷⁰ Map data: Google Earth, © 2021.



Golwg agosach o'r domen genedlaethol yn dangos y proffil "berm and batter".

Draeniau



Y sianel ddraenio ganolog ar y domen genedlaethol wedi'i chymryd yn edrych i fyny o'r ysgafell yn y llun blaenorol. Mae'n sianel goncrid serth sy'n rhedeg yn fertigol i lawr wyneb y domen.



Sianel ddraenio drawsdro ar y domen genedlaethol (sy'n rhedeg ar draws yr ysgafell a ddangoswyd uchod) sy'n cydgyfeirio gyda'r sianel ddraenio ganolog.



Y sianel ddraenio ganolog ar y domen genedlaethol yn rhedeg lawr o'r ysgafell. Mae pentref Wattstown i'w weld yn y cefndir, a gellir gweld llawer iawn o ddŵr yn rhedeg i lawr y sianel.



Rhwyll sy'n gorchuddio darn o graig rydd ar y domen, ochr yn ochr â ffos ddraenio.

Offer monitro



Offer a chaeth ei osod ar y domen genedlaethol yn ddiweddar i fonitro symudiad y deunydd tomen.



Mwy o offer monitro yn y blaendir, gyda thomen Wattstown (lle'r oedd llithriad ym mis Rhagfyr 2020) i'w gweld yn y cefndir.

TYLORSTOWN CYN AC AR ÔL Y LLITHRIAD YM MIS CHWEFROR 2020



Tylorstown yn 1945.⁶⁷¹ Mae cribau dwy domen i'w gweld, un uwchben a thu ôl y llall.

⁶⁷¹ Map data: Google Earth, © 2021 The GeoInformation Group.



Tylorstown yn 2010.⁶⁷² Erbyn hyn, mae'r tomennydd wedi cael eu hail-blannu â choed a glaswellt.



Tylorstown yn 2020, ar ôl y llithriad.⁶⁷³ Mae'r domen uchaf wedi llithro, gan lenwi'r afon a gorchuddio'r bryn a gwaelod y cwm â rwbwl.

⁶⁷² Map data: Google Earth, © 2021 Getmapping plc.

⁶⁷³ Map data: Google Earth, © 2021.



Rwbel yn llenwi gwaelod yr afon.⁶⁷⁴



Brig yr ardal sy'n cael ei hamlygu gan lithriad Tylorstown, a welir o grib. Sylwer sut mae'r grib o rwbel yn sefyll allan o'r bryn, gan greu dyffryn artiffisial y tu ôl iddo.

⁶⁷⁴ Map data: Google Earth, © 2021.



Yn y gwaith adfer a wnaed ers y llithriad ym mis Chwefror 2020, mae dŵr sy'n llifo o'r bryn wedi cael ei ddal mewn pibellau i'w atal rhag hau i'r rwbel.



Pibellau draenio pellach ar domen Tylorstown.

TOMEN ‘OLD SMOKEY’ YN TYLORSTOWN

Mae Old Smokey yn domen gonigol fawr ac mae wedi'i lleoli rhwng tomen Tylorstown a'r domen Genedlaethol. Mae rhywfaint o waith ailbroffilio wedi'i wneud i lefelu'r top.

Mae'r gyfres hon o ffotograffau yn dangos y dilyniant – y cyntaf yw'r domen yn 1945,⁶⁷⁵ yr ail yn 1973⁶⁷⁶ a'r trydydd yn 2021. Sylwer faint yn fwy gwastad yw top y domen.



Mae'r llun hwn o 1945 yn dangos 'Old Smokey' mewn du a gwyn, ei siâp côn a'i ben uchaf pigfain o'i amgylchoedd. Yn y cefndir, mae'r domen Cenedlaethol i'w weld.

⁶⁷⁵ Map data: Google Earth, © 2021 The GeoInformation Group.

⁶⁷⁶ © Dr Mary Gillham Archive Project, "Old Smoky under snow, 21/01/73" ar gael yn <https://www.flickr.com/photos/marygillhamarchiveproject/26481358572/in/photostream/> (last visited 27 April 2021). Creative Commons Attribution 2.0.



Mae'r llun hwn o 1973 yn dangos 'Old Smokey' o ongl wahanol, sy'n dal i fod â phen pigfain ac o dan eira. Mae clytiau moel o rwbel yn dal i'w gweld, er bod rhywfaint o llystyfiant wedi'i sefydlu.



Yn y llun hwn, mae gan 'Old Smokey' pen llawer fwy gwastad, llystyfiant sydd wedi hen ennill ei blwyf ac mae coed conwydd yn tyfu arno.